

GLAS
CYMRU

ADRODDIAD A CHYFRIFON
2017—2018

CYNNWYS

DATGANIAD Y CADEIRYDD	4
-----------------------	---

ADRODDIAD STRATEGOL	8
ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR	10
EIN HANES: PWY YDYM NI	14
SUT RYDYM YN EI WNEUD	15
DWEUD EICH DWEUD	16
ARLOESDD CHATBOT	17
ADOLYGIAD BLWYDDYN: 2017-18	18
TYWYDD EITHAFOL – EIN HER	20
SUT HWYL RYDYM YN EI GAEL	22
EIN CYFARWYDDWYR	40
EIN RHEOLEIDDWYR A'N RHANDDEILIAID ALLWEDDOL	42
EIN DULL O REOLI RISG	43
RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP	44
DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR	48

ADRODDIAD LLYWODRAETHU	50
CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD	52
EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL	53
BWRDD Y CYFARWYDDWYR	54
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU	57
RHEOLAETH FEWNOL	63
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	64
DATGANIADAU ARIANNOL DIWEDD Y FLWYDDYN	65
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD AC AMGYLCHEDD	67
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU	68
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	68
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	69
ADRODDIAD POLISI	72
ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDNABYDDIAETH	75
ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	83

ADOLYGIAD ARIANNOL A CHANLYNIADAU	95
--	-----------

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL	96
---	-----------

ATODIADAU	134
RHESTR TERMAU	135
EIN MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU	138

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Dechreuais ysgrifennu'r datganiad hwn wrth ddychwelyd adref o'n cyfarfod bwrdd cynnar ddechrau mis Mawrth - dylai ei ail ddiwrnod fod wedi cael ei gynnal yn Abertawe rhwng 9am a 2pm: mewn gwirionedd, cafodd ei gynnal yng Nghaerdydd rhwng 8:30am a 10am. Roedd hynny am mai Mawrth 1af oedd y diwrnod gwaethaf o dywydd gaeafol ond un ers 2010 gyda rhybudd tywydd coch prin y Swyddfa Dywydd yn ne Cymru am eira. Roedd gan ein Cyfarwyddwyr Gweithredol faterion gweithredol pwysicach i ymdrin â nhw nag adrodd ar y perfformiad hanesyddol i'r Bwrdd! Soniaf am hyn oherwydd gwnaeth Mawrth 1af, a'r diwrnodau dilynol o dywydd garw a'r eira'n dadmer, ddangos yr hyn sy'n gwneud ymrwymiad cydweithwyr Dŵr Cymru i'n cwsmeriaid mor arbennig.

Er mwyn cyfleu hyn yn iawn - yng Ngwent gwnaeth ein tîm cynnal a chadw oadael eu cerbydau a cherdded am filltir gyda'u hoffer drwy'r lluwchfeydd eira hyd at ddau fetr o ddyfnder i ddatrys problemau yng Ngwaith Trin Dŵr Sluvad ger Pont-y-pŵl er mwyn cynnal y cyflenwad i bron 600,000 o gwsmeriaid yn y de-ddwyrain. Yn ein canolfan alwadau yn Llaneirwg gwnaeth 150 o'n pobl wirfoddoli - ac rwy'n golygu gwirfoddoli! - i ddod mewn er mwyn helpu i ymateb i'r cynnydd saith gwaith mewn galwadau cwsmeriaid am gymorth a help yn ystod cyfnod y rhew mawr a'r eira'n dadmer yn gyflym wedi hynny - gyda'r holl broblemau a ddaeth yn sgil y ddau fath hyn o dywydd garw. Dros bum diwrnod gwnaeth 1,800 o bobl ddod o hyd i gannoedd o ollyngiadau a'u hatgyweirio! Yng Ngheredigion yn ein gwaith trin dŵr yn Ystrad Fflur a Bontgoch arhosodd ein tîm gweithredu yn drwy'r nos er mwyn sicrhau bod popeth yn parhau i weithio er i'r lluwchfeydd eira mawr eu hatal wedyn rhag gadael.

Mae'n ffrainc cadeirio busnes lle gwelir y fath falchder anhunanol

mewn datrys problemau i gwsmeriaid, ni waeth beth fo'r aberth personol i gydweithwyr unigol a thimau.

Gall ein busnes fod yn anrhagweladwy iawn, yn enwedig o ganlyniad i'r tywydd a gawn. Gall tywydd da yn yr haf arwain at alw mawr am roi mwy o ddŵr yn y system yn gyflym sydd, yn ei dro, yn cynyddu'r cyfraddau llifo, yn tarfu ar waddodion mewn ardaloedd lle ceir hen brif bibellau haearn bwrw, ac yn cynyddu nifer y galwadau gan gwsmeriaid ynghylch ymddangosiad eu dŵr. Yn yr un modd, mae tywydd sych yn lleihau llifau drwy'r carthffosydd, gan gynyddu'r gwastraff sy'n crynhoi a'i gwneud hyd yn oed yn fwy anodd ei drin o fewn terfynau amgylcheddol rhagnodedig, a gwneud problemau arogleuon yn fwy cyffredin. Ar y llaw arall mae stormydd cyson, grymus iawn ond nad ydynt yn para'n hir, yn arwain at ollyngiadau i mewn i gyrsiau dŵr o'r systemau rhyddhau sy'n atal ein carthffosydd rhag gorlenwi, tra bod glaw trwm ar ein dalgylchoedd ucheldirol yn cynyddu'r dŵr ffo sy'n cynnwys llygyddion, rhai naturiol a rhai artiffisial, sy'n llifo i mewn

i'n ffynonellau dŵr crai, sydd yn ei dro yn newid y trinioethau sydd eu hangen ar ein safleoedd cynhyrchu dŵr glân. Felly, ar ôl cyfnod poeth a sych yn 2017, ni chyflawnodd ein mesur o dderbynioldeb cwsmeriaid ein hamcan ac oherwydd y prif bibellau a fyrstiodd yn dilyn cyfnod byr o dywydd oer yn fuan cyn y Nadolig, ynghyd ag effeithiau Storm Emma, methwyd ein targed ar gyfer dibynadwyedd y cyflenwad. Fodd bynnag, er mwyn gosod y rhain yn eu cyd-destun, gwnaethom gyrraedd y rhan fwyaf o'r 25 o dargedau dŵr, dŵr gwastraff a gwasanaeth cwsmeriaid gweithredol eraill neu gwnaethom ragori arnynt.

Rôl y Bwrdd, wrth gwrs, yw sicrhau bod y busnes yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau annisgwyl allanol p'un a ydynt yn rhai amgylcheddol, economaidd neu ariannol. Os caiff y cydnerthedd hwnnw ei fygwth, gan bwyntiau methu unigol, hen asedau, prinder sgiliau neu adnoddau ariannol annigonol, mae angen i'r Bwrdd sicrhau bod ganddo gynllun i gyflawni'r lefel ofynnol o gydnerthedd. Ar 14 Mawrth gwnaethom lansio Dŵr Cymru 2050 yn y Senedd,

A portrait of Alastair Lyons, a middle-aged man with grey hair and glasses, wearing a dark suit, white shirt, and patterned tie. He is smiling and has his hands clasped in front of him. The background is a solid grey.

MAE'N FRAINT
CADEIRIO
BUSNES LLE
GWELIR Y FATH
FALCHDER
ANHUNANOL
MEWN DATRYS
PROBLEMAU I
GWSMERIAID.

ALASTAIR LYONS
CADEIRYDD

gyda'r bwriad o ddarparu fframwaith hirdymor clir ar gyfer ein cynllun busnes yn y dyfodol i ddod yn wasanaeth dŵr cydnherth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein model perchenogaeth nid er cyfranddalwyr yn ei gwneud yn haws i ni ganolbwyntio ar yr hirdymor, sy'n arbennig o bwysig i ni fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, gydag asedau hirsefydledig iawn. Mae'r cyfle i gynllunio ar gyfer y 30 mlynedd nesaf yn ein gwahaniaethu oddi wrth gwmnïau sydd, yn draddodiadol, ond yn cynllunio ar gyfer cyfnod y system rheoli prisiau nesaf, sef pum mlynedd. Gyda gweledigaeth glir o ba fath o fusnes yr hoffem fod wedi ei greu erbyn 2050 a pha wasanaeth felly y byddem yn awyddus i'w ddarparu i'n cwsmeriaid, gallwn greu'r cynlluniau manwl o'r hyn rydym yn bwriadu ei gyflawni ym mhob system rheoli prisiau o bum mlynedd hyd at 2050: wrth i mi ysgrifennu mae'r busnes wrthi'n creu'r cynlluniau hyn ar gyfer arloesedd, effeithlonrwydd cynyddrannol a buddsoddiad dros gyfnod y ddwy system rheoli prisiau nesaf, sef 2020-2030 a thu hwnt, i gyflawni'r amcanion sy'n fforddiadwy, yn bodloni disgwyliadau gwasanaeth cwsmeriaid ac yn diogelu ein hamgylchedd er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Dŵr Cymru 2050 yn canolbwyntio ar 18 o ymatebion strategol i'r heriau y mae'r tueddiadau yn y dyfodol y gallwn eu nodi yn debygol o'u hachosi i'n gallu i gyflawni yn erbyn ein chwe addewid sylfaenol i gwsmeriaid:

- Dŵr yfed glân a diogel i bawb
- Diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gwasanaeth personol sy'n iawn i chi
- Biliau teg i bawb
- Unioni pethau pan fyddant yn mynd o chwith
- Dyfodol gwell i'n holl gymunedau

Ar gyfer pob ymateb strategol, amlinellwn yn Dŵr Cymru 2050 y canlyniadau rydym yn disgwyl eu cyflawni o'r camau gweithredu a gynigir, darlun cyffredinol o'r ystod o fuddsoddiad posibl sy'n ofynnol i gyflawni'r camau gweithredu, a sut mae'r canlyniadau yn cyflawni'r addewidion i gwsmeriaid a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'n amlwg y bydd angen buddsoddiad sylweddol i gyflawni llawer o'r ymatebion strategol, yn enwedig dros y 30 mlynedd nesaf lle y gwelir rhaglen genedliadol i ddisodli hen bibellau haearn neu greu cydnherthedd drwy gysylltu systemau cyflenwi er mwyn lleihau nifer y cwsmeriaid y gellir eu gwasanaethu o un ffynhonnell gyflenwi yn unig. Fodd bynnag, mae'r un mor glir y

bydd datblygiadau technolegol yn ystod y ffrâm amser hon ac y bydd arferion arloesol newydd yn creu cyfleoedd sylweddol i leihau costau buddsoddi uned o flwyddyn i flwyddyn. Dyma'r her i reolwyr — sicrhau bod ein hamcanion, a'r cynlluniau a fydd yn ei gwneud yn bosibl, yn fforddiadwy. Felly, gyda'r fath arbedion ac yng nghyd-destun ein gwariant presennol o tua £500 miliwn — £1 biliwn i wella gwasanaeth a chydnerthedd ym mhob cyfnod o bum mlynedd, nid yw'r cyfeiriad teithio a nodir yn Dŵr Cymru 2050, er yn uchelgeisiol, yn amhosibl.

Gyda'n cyfansoddiad unigryw mae Dŵr Cymru yn bodoli i wasanaethu ei gwsmeriaid a'r cymunedau y maent yn rhan ohonynt. Er bod ein rheolwyr yn orbenigwyr yn y diwydiant hwn a bod ein Bwrdd yn meddu ar gryn ddealltwriaeth er mwyn herio cynlluniau rheolwyr o'r hyn sydd angen i ni ei wneud i fodloni ein gofynion rheoleiddio, cyfrifoldeb ein cwsmeriaid yw dweud wrthym beth yw eu blaenoriaethau a'u pryderon — sydd wedyn yn sail i'n hamcanion. Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad

GYDA'N CYFANSODDIAD UNIGRYW MAE DŴR CYMRU YN BODOLI I WASANAETHU EI GWSMERIAID A'R CYMUNEDAU Y MAENT YN RHAN OHONYNT

eang iawn o ran Dŵr Cymru 2050 yn ystod 2017 gyda'r mewnbwn yn amrywio o 17 ymateb manwl gan grwpiau rhanddeiliaid a phartion eraill â buddiant i dros 20,000 o gwsmeriaid yn rhoi adborth ar-lein ac wyneb yn wyneb. Rydym hefyd wedi gallu trafod yr holl fewnbwn hwn dros y cyfnod gyda'n Grŵp Herio Cwsmeriaid, a hoffwn ddiolch i Peter Davies (Cadeirydd y Grŵp Herio Cwsmeriaid) am ei gyfraniad cyson at ein trafodaethau Bwrdd.

Gydag anghydraddoldeb, dyled a thlodi ar gynnydd rhaid i ni geisio sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn fforddiadwy i bob cwsmer sy'n cynnwys rhoi cymorth i'r rhai sy'n cael trafferth i dalu. Mae hyn yn rhywbeth rydym hefyd wedi ymgynghori arno gyda'n cwsmeriaid, sy'n dweud wrthym eu bod yn fodlon talu biliau ychydig yn uwch fel y gallwn gynnig tariff is i'r rhai na allant dalu bil llawn (yn hytrach na'r rhai nad ydynt yn fodlon ei dalu), a'u bod yn barod i ni ymrwymo, fel cymorth i gwsmeriaid o'r fath, ran o'r gwarged a fyddai, mewn cwmnïau eraill, yn cael ei dalu fel dididendau i randdeiliaid. Gyda 105,000 o gwsmeriaid ar dariffau cymdeithasol ar 31 Mawrth 2018 mae gan Dŵr Cymru fwy o dariffau o'r fath nag unrhyw gwmni dŵr arall yn y DU ac mae wedi ychwanegu 27,520

MAE'N AMLWG Y BYDD ANGEN BUDDSODDIAD SYLWEDDOL I GYFLAWNI LLAWER O'R YMATEBION STRATEGOL

yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar yr un pryd mae wedi mynd yn gynyddol benderfynol o fynd ar drywydd y rhai nad ydynt yn fodlon talu, gan leihau lefel y taliadau drwgddyledion tua chwarter dros y blynyddoedd diwethaf.

Cydnabyddwn mai dim ond un agwedd ar fod, o bosibl, yn agored i niwed fel cwsmer yw bod mewn trafferthion ariannol. Hefyd mae'r cyflwr hwnnw o fod yn agored i niwed yn un y bydd llawer o bobl yn ei wynebu ar ryw adeg yn eu bywydau, yn enwedig pan fydd yr amgylchiadau sy'n rheoli eu bywydau yn newid am ryw reswm, boed yn eiddilwch mewn henaent, salwch, profedigaeth neu golli swydd. Ein her fel darparwr cyfleustod hanfodol yw nodi cwsmeriaid o'r fath sy'n agored i niwed, penderfynu ar y ffordd orau o ymgysylltu â nhw, ac yna ddatblygu ffyrdd o leihau'r achosion hynny o fod yn agored i niwed, yn enwedig drwy sicrhau eu bod wedi eu cofrestru i gael gwasanaethau â blaenoriaeth.


Mae hyn yn rhywbeth y gall tîm cyfan Dŵr Cymru gyfrannu ato, o'r darlennydd mesuryddion sy'n gallu gweld bod cwsmer oedranus ychydig yn eiddil a dryslyd, i'r criw cynnal a chadw sy'n gorfod cloddio'r brif bibell y tu allan i gartref rhywun sy'n anabl, a'r cynghorydd bilio sy'n derbyn galwad gan gwsmer y mae ei olwg mor wael fel no all ddarllen y bil diwethaf. Mae gennym dargedau uchelgeisiol i gynyddu'r nifer o'n cwsmeriaid sydd wedi eu cofrestru ar gyfer Gwasanaethau â Blaenoriaeth a nifer y bobl sy'n manteisio ar y gwasanaethau hynny.

Rydym wedi cyflawni llawer iawn dros y flwyddyn ddiwethaf — gan ddatblygu ac ymgynghori ar Dŵr Cymru 2050; defnyddio'r fframwaith hwnnw i ddechrau creu'r cynlluniau manwl ar gyfer y system rheoli prisiau nesaf PR19 a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y 10 mlynedd dilynol; a sicrhau canlyniadau da yn gyffredinol i gwsmeriaid er gwaethaf yr heriau o ran gwynt a thywydd. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y cyflawniadau hyn, pa un a ydynt wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan Dŵr Cymru, neu'n gweithio ochr yn ochr â ni o fewn Capital Alliance Partners a'n contractwyr gweithredol. Rydym yn ffodus iawn bod pobl alluog iawn yn ein cefnogi o fewn ein cadwyn

gyflenwi. Yr haf diwethaf ymwelais ag argae Caban Coch yng Nghwm Elan lle roedd angen gosod pedair falf sgwrio newydd ar waelod yr argae ac o ganlyniad roedd angen cau'r pibellau ar ochr wlyb yr argae a oedd yn arwain at y falfiau hynny dros dro. Roedd yn rhaid felly i dimau arbenigol blymio i ddyfnder o hyd at 30 metr 150 o weithiau gyda bron dim gweledd i ddod o hyd i'r pibellau hynny a'u hynysu ond gan gynnwys cyflenwad llawn o gronfa ddŵr fyw sy'n gwasanaethu tri chwarter miliwn o gartrefi yn Birmingham, Canolbarth Cymru a Henffordd - cyflawniad gwirioneddol anhygoel.

Yn olaf, hoffwn yn fawr gydnabod ymddeoliad Stephen Palmer o'r Bwrdd. Ymunodd Stephen â'r Bwrdd yn 2009 a daeth yn gadeirydd ein Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd yn 2013. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi gwneud cyfraniad enfawr i Dŵr Cymru. Gyda chefnidir gwyddonol ym maes iechyd y cyhoedd fel Athro Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol Caerdydd mae Stephen wedi ychwanegu trylwyredd dadansoddol at drafodaethau'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd; ac yn ein Bwrdd mae wedi cynnig deallusrwydd treiddgar a phryder mawr am ein heffaith ar gymunedau, yn enwedig y rhai mewn amgylchiadau llai ffodus. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr fel cyfarwyddwr ac fel ffrind.

Wrth i un drws gau ac un arall agor — croesawn yr Athro Tom Crick a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar ddechrau mis Hydref. Credwn ein bod yn ffodus iawn i goel Tom yn lle Stephen. Fel Stephen, daw Tom o gefndir gwyddonol fel Athro Cyfrifiadureg a Pholisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Abertawe. Daw â gwybodaeth parth ddofn am y byd digidol fel un sydd wedi cynghori Swyddfa Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru ac sydd, ar hyn o bryd, yn gynghorydd arbenigol i Lywodraeth Cymru ac yn Gadeirydd y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg.



Alastair Lyons
Cadeirydd

7 Mehefin 2018

MAE'R CYFLE I GYNLLUNIO AR GYFER Y 30 MLYNEDD NESAF YN EIN GWAHANIAETHU ODDI WRTH Y SECTOR DŴR YN GYFFREDINOL

STRATEGOL

MAE'R ADRODDIAD
STRATEGOL HWN
YN AMLINELLU EIN
PERFFORMIAD DROS Y
FLWYDDYN, Y RISGIAU
A WYNEBWN A SUT
RYDYM YN EU LLINIARU
A'N GWELEDIGAETH A'N
STRATEGAETH AR GYFER
Y DYFODOL.

ADRODDIAD STRATEGOL

ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR	10
EIN HANES: PWY YDYM NI	14
SUT RYDYM YN EI WNEUD	15
DWEUD EICH DWEUD	16
ARLOESED CHATBOT	17
ADOLYGIAD BLWYDDYN: 2017-18	18
TYWYDD EITHAFOL — EIN HER	20
SUT HWYL RYDYM YN EI GAEL	22
EIN CYFARWYDDWYR	40
EIN RHEOLEIDDWYR A’N RHANDDEILIAID ALLWEDDOL	42
EIN DULL O REOLI RISG	43
RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP	44
DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR	48

ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR

Ein gweledigaeth yw "ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd". Mae'r weledigaeth hon yn hanfodol i'r ffordd rydym yn gweithio ac yn arbennig o briodol i ni fel cwmni heb gyfranddalwyr — yr unig un yn y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r geiriau "bob dydd" wedi bod yn arbennig o arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf. Gwyddom fod cwsmeriaid yn dibynnu arnom i ddarparu gwasanaethau diogel a dibynadwy o ansawdd uchel bob dydd, ni waeth pa dywydd a wynebwn na heriau gweithredol eraill. Mae angen iddynt allu ymddiried ynom i gynllunio ymhell o flaen llaw, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny yn gynaliadwy ac yn gydnorth dros ddegawdau i ddod. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni sicrhau hyd yn oed fwy o effeithlonrwydd ac arloesedd, fel y gall ein rhaglen hirdymor fawr o fuddsoddi yn ein gwaith trin a'n rhwydweithiau gael ei chydbwyso â sicrhau bod biliau'n fforddiadwy i bawb.

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd enghreifftiau da o'r heriau y gallem eu hwynebu yn y dyfodol - gan gynnwys cyfnodau poeth iawn yn yr haf lle bu cryn dipyn yn fwy o alw ar ein rhwydwaith dŵr, ond gyda stormydd difrifol yr haf yn digwydd bob hyn a hyn. Yna gwnaethom wynebu sawl cyfnod oer iawn yn y gaeaf — a arweiniodd at darfu'n gyffredinol ar ein hardal gyfan o ganlyniad i'r eira trwm a gawsom yn ystod "Storm Emma" ym mis Mawrth, a arweiniodd wedyn at y pwysau mwyaf a welwyd ers 2010 ar ein timau gweithredol a'n timau gwasanaeth cwsmeriaid.

Er i ni gynnal perfformiad gweithredol cyffredinol da dros y flwyddyn ddiwethaf, ein her yw sicrhau ein bod, nid yn unig yn cynnal lefelau uchel o wasanaeth, ond hefyd yn cynllunio ymhell o flaen llaw fel y gallwn darfu cyn lleied â phosibl ar ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.


DŴR CYMRU 2050

Ym mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi ein dogfen Dŵr Cymru 2050 derfynol, sy'n nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer busnes dŵr gwirioneddol gydnorth, a fydd yn ein helpu i ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd niferus sydd o'n blaenau — o newid yn yr hinsawdd a newid demograffig i gyflymder cynnydd technolegol a disgygliadau cynyddol cwsmeriaid.

Mae gweledigaeth 2050 yn nodi 18 o "ymatebion strategol" yr ydym ni, ein rhanddeiliaid allweddol a'n cwsmeriaid, yn credu y byddant yn ein helpu i gyflawni'r heriau hyn. Er y bydd llawer o'r ymatebion strategol hyn yn cymryd cenhedlaeth i'w cyflawni, mae'n bwysig dechrau ar y gwaith nawr er mwyn ymateb i risgiau a thueddiadau rhagweladwy, fel y gellir gwneud hyn ar gyflymder fforddiadwy ac na fydd problemau'n cynyddu ac y bydd yn rhaid i genedlaethau'r dyfodol ymdrin â nhw mewn ffordd adweithiol ac, yn y pen draw, mewn modd llai effeithlon o lawer. Bwriadwn gynnal ein hadolygiadau o'n gweledigaeth hirdymor bob pum mlynedd er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein cynnydd bob blwyddyn. Mae'n rhoi cryn hyder i ni yn ein dull arloesol, hirdymor fod ein nodau yn cyd-fynd cystal â'r nodau llesiant a nodir gan Lywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

BYDD ANGEN MWY O
EFFEITHLONRWYDD
AC ARLOESED
ARNOM

MAE DŴR CYMRU
2050 YN NODI EIN
GWELEDIGAETH
HIRDYMOR AR
GYFER BUSNES DŴR
GWIRIONEDDOL
GYDNORTH, A FYDD YN
EIN HELPU I YMATEB
I'R HERIAU A'R
CYFLEOEDD NIFERUS
SYDD O'N BLAENAU



DYLAI POPETH
A WNAWN FOD
ER BUDD EIN
CWSMERIAID

CHRISTOPHER ALUN JONES
PRIF WEITHREDWR

YMGYSYLLTU PARHAUS Â CHWSMERIAID

Gallwn deimlo'n hyderus bod ein strategaeth yn y dyfodol yn ymgorffori'r ystod ehangach o safbwyntiau sy'n bosibl yn dilyn misoedd o ymgynghori — gan gynnwys nifer ddigynsail o 20,000 o ymatebion, i'n hymgynghoriad cwsmeriaid "Dweud eich Dweud" yn ystod haf 2017. Dyma'r nifer fwyaf erioed o safbwyntiau cwsmeriaid — a gasglwyd yn sgil ein presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yng Nghymru a Swydd Henffordd, ymchwil cwsmeriaid parhaus, ac yn ddigidol drwy ein gwefan a'n 'chatbot' dwyieithog — yr enghraifft gyntaf erioed!

Drwy gydol yr ymgynghoriad Dweud eich Dweud a rhaglen ymchwil fanwl i gwsmeriaid, rydym wedi datblygu barn gadarn o'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl gennym o ran gwasanaeth ac yn hollbwysig, y cydbwysedd yr hoffent ei weld rhwng buddsoddiadau i gyflawni ein cynlluniau cydnerthedd hirdymor, a sicrhau ein bod yn cadw biliau cwsmeriaid yn fforddiadwy ar yr un pryd. Bydd yr holl ddeialog barhaus hon â chwsmeriaid yn sail i'n cynllun busnes pum mlynedd nesaf, y byddwn yn ei gyflwyno i'n rheoleiddiwr, Ofwat, ym mis Medi 2018, gan nodi agenda uchelgeisiol ar gyfer gwasanaeth gwell i gwsmeriaid a buddsoddi mewn cydnerthedd hirdymor, gan sicrhau gwerth am arian a fforddiadwyedd.

Rydym yn ymrwymedig i raglen barhaus o gynnwys cwsmeriaid ar faterion penodol, megis y ffordd orau o gefnogi cwsmeriaid mewn amgylchiadau anodd. Rydym hefyd yn ymgynghori â chwsmeriaid ynghylch sut y gallwn fuddsoddi miliynau o bunnoedd bob blwyddyn a fyddai'n mynd i gyfranddalwyr mewn cwmnïau eraill, er mwyn gwella'r gwasanaeth a rhoi gwerth am arian fel y gallwn gyflawni ar gyfer cwsmeriaid yn y dyfodol.

Un datblygiad cadarnhaol yn y cyd-destun hwn yw ein Cymuned Ar-lein newydd, sy'n system barhaus ar gyfer cwsmeriaid sydd am gyfrannu at ein cynlluniau yn rheolaidd — o'n cysylltiadau cynllunio gweithredol a'n cysylltiadau cwsmeriaid, i'r ffordd orau o ddiogelu'r amgylchedd naturiol. Mae ein holl adborth gan gwsmeriaid yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein ffordd o weithio a arweinir gan gwsmeriaid yn sicrhau'r canlyniadau y mae cwsmeriaid am eu cael ac yn disgwyl eu cael.

CYDNERTHEDD

Wrth wraidd Dŵr Cymru 2050 mae cynllun i sicrhau bod ein gwasanaethau yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau annisgwyl a heriau yn y dyfodol, ac y gallwn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau o'r ansawdd gorau posibl am ddegawdau i ddod.

Er enghraifft, rydym yn bwriadu buddsoddi dros sawl cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd mewn rhaglenni cydnerthedd dŵr yfed sy'n targedu ardaloedd sy'n wynebu'r nifer fwyaf o broblemau i'n cwsmeriaid ar hyn o bryd. Rydym eisoes wrthi'n adnewyddu dros 20km o'n rhwydwaith dŵr yng ngogledd Swydd Henffordd, ac yn buddsoddi £23 miliwn mewn gwaith mawr i uwchraddio'r rhwydwaith dŵr yfed yng nghwm Rhondda Fach, i leddfu problemau achlysurol o ran colli cyflenwad neu ddŵr wedi'i afliwio. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn treialu prosiect i greu'r Gymuned Cydnerthedd Dŵr gyntaf yn Rhondda Fach, gan wneud y gymuned leol yn bartner ym mhopeth a wnawn i ddarparu gwasanaethau lleol. Mewn ardal sydd â rhai o'r lefelau uchaf o amddifadedd a wasanaethwn, rydym yn ystyried mabwysiadu dull gwahanol o weithredu, sy'n cynnwys cael deialog barhaus a gwirioneddol gyda phobl leol er mwyn: tarfu cyn lleied â phosibl o ganlyniad i'n gwaith hanfodol; rhoi arweiniad ar y ffordd orau o ddefnyddio ein gwasanaethau yn fwy effeithlon ac arbed arian, a chodi ymwybyddiaeth o'r ystod o gymorth sydd ar gael i'r cwsmeriaid hynny mewn amgylchiadau anodd.

MAE CYDNERTHEDD CORFFORAETHOL AC ARIANNOL YN ALLWEDDOL I GYNNAL BUSNES GWIRIONEDDOL GYDNERTH YN YR HIRDYMROR

Credwn fod cydnerthedd nid yn unig yn golygu cael seilwaith ffisegol cadarn ond mae hefyd yn gynnwys yn fwy cyffredinol i'n gweithgareddau. Mae cydnerthedd corfforaethol ac ariannol yn allweddol i gynnal busnes gwirioneddol gydnerth yn yr hirdymor. Rydym yn falch bod ein sefyllfa ariannol gref, a adeiladwyd dros flynyddoedd lawer, yn golygu bod gennym y statws credyd uchaf o blith yr holl gwmnïau cyfleustodau yn y DU, sy'n ein galluogi i barhau i gael benthyciadau cost isel megis y bond gwerth £300 miliwn sterling a ddyroddwyd ym mis Ionawr eleni. Mae dulliau ariannu effeithlon o'r fath yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o'n galluogi i

fuddsoddi yn ein dŵr a'n gwasanaethau dŵr - gyda'r swm mwyaf erioed, sef £431 miliwn, wedi ei fuddsoddi yn ein rhaglen gyfolaf dros y 12 mis diwethaf - ond gwnaethom lwyddo i gadw'r cynnydd mewn prisiau o dan chwyddiant RPI ar gyfartaledd am yr wythfed flwyddyn yn olynol.

FFORDDIADWYEDD

Un o'n blaenoriaethau allweddol o hyd yw parhau i gefnogi'r rhai sydd wir yn cael trafferth i dalu eu biliau dŵr. Mae'n peri bolchder mawr i mi ein bod ni a'n cwsmeriaid yn gyffredinol bellach yn cefnogi tua 105,000 o gartrefi incwm isel yn yr ardaloedd a wasanaethwn — sy'n fwy nag unrhyw gwmni dŵr arall yn y DU. Rydym wedi gweithio gyda mwy na 100 o sefydliadau partner er mwyn sicrhau bod y rhai sydd angen ein help fwyaf yn cael cymorth i gael gafael arno.

Ond mae ein ffordd o weithio nid er cyfranddalwyr hefyd yn dibynnu ar y ffaith bod y cwsmeriaid hynny sy'n gallu talu eu biliau yn gwneud hynny — neu mae perygl y bydd gweddill ein cwsmeriaid yn gorfod ymdopi â baich annheg. Mae ein cwsmeriaid wedi dangos cefnogaeth yn gyson i helpu cartrefi incwm isel, yn rhannol oherwydd yr ymddiriedaeth sydd ganddynt yn ein model nid er cyfranddalwyr, ond maent yn disgwyl i hyn gael ei gydbwysu gan bawb yn talu eu cyfran deg o gost darparu'r gwasanaeth cyhoeddus hanfodol hwn.

ARLOESED

Rydym yn parhau i groesawu arloesedd yn y cwmni ac yn credu y bydd hyn yn helpu i wneud ein gwasanaethau yn y dyfodol yn well, yn gyflymach ac yn rhatach. Gydag ystod o sefydliadau partner allanol, gwnaethom gynnal ein 'Hackathon' ("her gwibddylunio") cyntaf erioed eleni, i fynd i'r afael â nifer o heriau allweddol mewn gwasanaethau dŵr gwastraff megis carthffosydd yn blocio, cydymffurfiaeth amgylcheddol a phroblemau arogleuon ysbeidiol.

Gwnaethom gynnal ein Cynhadledd Arloesedd flynyddol ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2017, ac yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd ar 21 Mai 2018. Daeth 400 o gynadleddwyr i'r ddau ddigwyddiad i weld y ffyrdd amrywiol y gallwn ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon i gymunedau — o raglenni fel ein rhaglen rheoli dalgylchoedd lwyddiannus, sy'n ceisio gweithio gyda rhanddeiliaid mewn

dalgylchoedd i wella ansawdd y dŵr cyn iddo gyrraedd ein gwaith trin, i'r defnydd arloesol o ddata a thechnoleg i lywio gwelliannau mewn gwasanaethau cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys datblygiadau technolegol megis "realiti estynedig" — a grynhoir orau yn ein "iglw" rhith-wir lle gallwn greu rhith-ddelweddau i roi profiad delweddu 360° i'n dylunwyr, ein peirianwyr a'n cydweithwyr gweithredol, a'u galluogi i ddylunio ein gwaith trin yn y dyfodol yn well. Bydd y datblygiadau hyn yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd mawr i'n cwsmeriaid ac yn ein galluogi i wneud gwaith gwell iddyn nhw ac i'r amgylchedd am flynyddoedd i ddod.

BYDD YN HANFODOL
EIN BOD I GYD
YN YMDRECHU I
ADEILADU AR EIN
LLWYDDIANNAU
YN 2017-18

POBL DŴR CYMRU

Gallwn ond gobeithio ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid drwy ymdrechion ac ymrwymiad eithriadol ein cydweithwyr i gyd yn Dŵr Cymru a'n rhwydwaith ehongach o gontractwyr a phartneriaid. Dros y 12 mis diwethaf, mae'r heriau a wynebwyd yn ystod Storm Emma yn enwedig, wedi dangos unwaith eto fod gennym gydweithwyr medrus ac ymroddedig a fydd yn gwneud eu gorau glas i gynnal gwasanaethau a gwneud y peth cywir i'r cwsmeriaid a wasanaethwn ac i'r amgylchedd yr ydym oll yn dibynnu arno.

Er ei fod yn galonogol iawn cofnodi bod ein hymchwyl annibynnol ddiweddaraf i'r farchnad yn dangos bod 84% o'n cwsmeriaid yn credu y gallant ymddiried yn Dŵr Cymru, bydd yn hanfodol ein bod i gyd yn ymdrechgu i adeiladu ar ein llwyddiannau yn 2017-18, gan ddysgu o'r heriau a wynebwyd gennym, fel y gallwn barhau i gymryd camau breision wrth i ni ddod yn wasanaeth dŵr gwirioneddol gydnherth a chynaliadwy o'r radd flaenaf er budd cenedlaethau'r dyfodol.

C. A. Jones

Chris Jones
Prif Weithredwr

7 Mehefin 2018

EIN GWERTHOEDD

EIN HANES: PWY YDYM NI

Sefydlwyd Glas Cymru yn 2000 fel cwmni "cyfyngedig drwy warant", ac fe'i ffurfiwyd gydag un nod sef prynu Dŵr Cymru, nod a gyflawnwyd y flwyddyn ganlynol.



Rydym yn buddsoddi unrhyw arian
a wnawn yn ôl yn y busnes er budd
cwsmeriaid a'r amgylchedd

Mae Dŵr Cymru yn gweithredu ar sail difidend nid er cyfranddalwyr — gan fuddsoddi unrhyw arian a wna yn ôl yn y busnes er budd cwsmeriaid a'n rhwydweithiau; cadw biliau mor isel â phosibl a diogelu'r amgylchedd o'n hamgylch.

Ers 2001, ein prif nod fu darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff, am bris fforddiadwy, i'n cwsmeriaid. Mewn diwydiant mor gyfalaf ddwys, mae'r ffordd rydym yn gweithredu a'n strwythur corfforaethol yn sicrhau y gallwn ariannu'r rhaglenni buddsoddi cyfalaf mawr sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy, yn risg isel ac am gyn lleied o gost â phosibl i'n cwsmeriaid. Mae ein rhaglen buddsoddi cyfalaf yn cyfateb i dros £1 filiwn y dydd.

Rydym yn wahanol i gwmnïau dŵr eraill yng Nghymru a Lloegr. Nid ar gyfer cyfranddalwyr rydym yma - ond ar gyfer ein cwsmeriaid. Gwasanaethu ein cwsmeriaid yw ein blaenoriaeth fwyaf — ac rydym yn cynnal pob un o'n gwasanaethau er budd ein cwsmeriaid.

BETH RYDYM YN EI WNEUD?

EIN MODEL BUSNES

Rydym yn cymryd dŵr, yn ei drin ac yn dosbarthu dŵr yfed o ansawdd uchel i dair miliwn o bobl yn ein hardal gyflenwi.

Rydym yn casglu, yn trin ac yn dychwelyd dŵr gwastraff i'n hafonydd a'n moroedd yn ddiogel — gan ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd

Rydym yn ailddefnyddio rhan o'n gwastraff ac yn ei droi'n ynni sy'n pweru rhai o'n safleoedd, gyda'r hyn sydd dros ben yn cael ei werthu i'r grid cenedlaethol fel y gallwn sicrhau ein bod yn cadw prisiau i'n cwsmeriaid mor isel â phosibl.

EIN GWERTHOEDD

SUT RYDYM YN EI WNEUD

Dŵr Cymru yw'r ymgymmerwr statudol ar gyfer Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth ar draws ei ardal gyflenwi, gan gwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy a Swydd Gaer. Caiff ein cyllid ei reoleiddio gan Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr am gyfnodau o bum mlynedd, ac mae'r cyfnod cyfredol yn cwmpasu 2015-2020. Mae'r setliad (Adolygiad o Brisiau) bob pum mlynedd yn pennu'r cwmpas ariannu cyffredinol y cawn ein herio ynddo i ddarparu gwasanaethau ac i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol yn y ffordd fwyaf effeithlon.

Mae ein model yn unigryw yn y sector cyfleustodau, gan nad yw'r arian a wna'r cwmni yn mynd i gyfranddalwyr mewn difidendau, ond yn hytrach yn ôl i'r busnes er budd ein cwsmeriaid yn uniongyrchol. Mae'r ymrwymiad hwn i'n cwsmeriaid wrth wraidd gweledigaeth ein cwmni. Mae ein ffocws ar fuddiannau cwsmeriaid wedi ein galluogi i:

- Gadw cynnydd mewn prisiau biliau cartrefi ar gyfartaledd ar gyfradd chwyddiant neu o dan gyfradd chwyddiant am naw mlynedd yn olynol — ac mae disgwyl i ni gyflawni degawd o gynnydd o'r fath erbyn 2020
- Cael y statws credyd gorau o blith unrhyw gwmni cyfleustod yn y DU, sy'n golygu y gallwn fenthylg arian i fuddsoddi yn ein gwasanaethau am y gost isaf bosibl i'n cwsmeriaid
- Helpu mwy na 105,000 o gwsmeriaid incwm isel i dalu eu biliau dŵr — mwy nag unrhyw gwmni arall yng Nghymru a Lloegr
- Cynhyrchu gwerth ychwanegol i'n cwsmeriaid cartrefi a busnes. Ers 2001, rydym wedi gwneud cois am dros £353 miliwn er budd ein cwsmeriaid drwy ein "difidend" nid er cyfranddalwyr.

Ym mis Mehefin 2017 gwnaethom gyhoeddi bod swm Dychwelyd Gwerth o £34m i'w gymhwyso er budd ein cwsmeriaid a oedd yn cynnwys ymrwymadau i fuddsoddi

- £5m tuag at gost darparu tariffau cymdeithasol i gwsmeriaid sy'n cael trafferth i dalu swm llawn eu bil;
- £10 miliwn ychwanegol yn y gwaith mawr o ddisodli rhwydwaith o hen

bibellau dŵr yfed, gan gynnwys Cwm Rhondda, Henffordd ac Ynys Môn;

- mwy na £5 miliwn tuag at fuddsoddiad ychwanegol yn ein canolfannau i ymwelwyr a'n cyfleusterau hamdden, mynediad hamdden a bioamrywiaeth yng nghronfa ddŵr Llyn Alaw ar Ynys Môn, cronfa ddŵr Swiss Valley yn Llanelli a chronfa ddŵr Lliw yn Felindre, Abertawe, a moderneiddio ein canolfannau i ymwelwyr yn Llyn Brenig yng Nghonwy a Chwm Elan,
- £3.5 miliwn yn ychwanegol er mwyn helpu i leihau'r 2,000 o flociadau bob mis yn ein rhwydwaith o garthffosydd sy'n aml yn arwain at lifogydd a digwyddiadau'n ymwneud â llygredd, gan weithio gyda chwsmeriaid i feddwl "Stop Cyn Creu Bloc"
- £5 miliwn ar gyfer gwelliannau i'n gweithfeydd trin dŵr fel y gallant wrthsefyll bygythiadau cynyddol yn well megis tywydd eithafol
- £5 miliwn er mwyn help i wella gwasanaeth cwsmeriaid preswyl a busnes drwy systemau ar-lein ac apiau newydd a thros y ffôn.

Prif ffocws y Grŵp yw sicrhau y gall Dŵr Cymru gyflawni ei rwymedigaeth sylfaenol i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

Sefydlwyd ein his-adran Fasnachol (Welsh Water Infrastructure Limited) yn 2016 i ymgymryd â nifer gyfyngedig o brosiectau sy'n gysylltiedig â'r cylch dŵr neu'r system cynhyrchu ynni a'u lleoli yn y DU. Bwriad y prosiectau hyn yw sicrhau elw sydd naill ai'n lleihau costau gweithredu neu sy'n cynyddu cronfeydd ariannol a all fod yn

rhan o'n system Dychwelyd Gwerth i gwsmeriaid. Ym mis Rhagfyr 2017, caffaelodd Welsh Water Infrastructure Limited fusnes ailgylchu bwyd a gwastraff gwyrdd Kelda yng Nghaerdydd, sydd â chontract i ddarparu gwasanaethau ailgylchu i Gynghorau Coerdydd a Bro Morgannwg (tudalen 39).

CWSMERIAID BUSNES

Mae Dŵr Cymru yn gwasanaethu tua 110,000 o gwsmeriaid busnes sy'n amrywio o weithgynhyrchwyr dwys dŵr i siopau bach a salonau trin gwallt. Gwyddom fod y gwasanaethau a ddarparwn i fusnesau yn hanfodol — ac rydym yn gweithio i sicrhau y gallwn helpu eich busnes i wneud y defnydd mwyaf effeithlon a chost-effeithiol o wasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

Cefnogir cwsmeriaid busnes i leihau eu defnydd o ddŵr, cadw costau ynni yn isel a lleihau eu hól troed carbon.

CWSMERIAID DATBLYGWYR

Mae Dŵr Cymru yn darparu gwasanaethau i ddatblygiadau tai a datblygiadau masnachol a diwydiannol, gan gynnwys prosiectau mawr o fewn ein hardal gyflenwi, drwy ein fîm Gwasanaethau Datblygwyr dynodedig. Yn 2017-18, parhaodd y fîm hwn i gyflawni lefelau cyson uchel o berfformiad yng nghynllun Lefelau Gwasanaeth y sector dŵr, fel y mae wedi gwneud ers mis Ebrill 2015. Mae'r perfformiad cyson uchel hwn yn arwain y diwydiant yn y sector yng Nghymru a Lloegr.

EIN GWERTHOEDD

DWEUD EICH DWEUD

Mae Dŵr Cymru yn gwmni a arweinir gan gwsmeriaid – rydym yn gweithio i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd, fel eu bod yn gwybod ein bod yn gweithio er eu budd nhw, beth bynnag fydd yn digwydd. Cydnabyddwn y bydd cwsmeriaid yn y dyfodol yn disgwyl i ni ddarparu gwasanaeth mwy personol a rhoi rheolaeth dros eu defnydd o wasanaethau iddynt er mwyn sicrhau bod y rhain yn ymateb i'w hanghenion penodol.

Yn unol â'n hymrwymiad i wrando ar ein cwsmeriaid a gweithredu ar yr hyn a glywn, gwnaethom lansio ein hymgyngoriad mwyaf erioed â chwsmeriaid y llynedd. Yn ystod haf 2017, gwnaethom ofyn i'n cwsmeriaid sut y dylem flaenoriaethu ein buddsoddiadau ar gyfer ein cynllun busnes pum mlynedd nesaf hyd at 2025, ond hefyd ar gyfer yr hirdymor. Mae hyn yn gyson â Dŵr Cymru 2050 sy'n nodi sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau hirdymor sy'n wynebu'r diwydiant dŵr.

Gofynnwyd i'n cwsmeriaid flaenoriaethu'r opsiynau canlynol:


- Gweithio gyda natur i gael dŵr glanach
- Gwneud y cyflenwad dŵr yn fwy dibynadwy
- Sicrhau ansawdd dŵr gwell i bawb
- Gweithio gyda natur i leihau llifogydd a risgiau o lygredd
- Afonydd a thraethau glanach
- Helpu pobl sy'n cael trafferth i dalu eu biliau
- Gwneud pethau'n well i gwsmeriaid sy'n cael eu siomi amlaf
- Rhoi mwy yn ôl i'n cymunedau

Cawsom dros 20,000 o ymatebion yn ystod 10 wythnos yr ymgynghoriad, sef y nifer fwyaf erioed, a chasglwyd barn ein cwsmeriaid mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

- presenoldeb mewn nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus allweddol ledled Cymru a Swydd Henffordd gan gynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol Cymru a Pride Cymru;
- o chatbot Facebook Messenger dwyieithog byw;
- drwy adborth gan ein Grŵp Herio Cwsmeriaid;
- drwy ein fforwm cwsmeriaid parhaol - Cymuned Ar-lein Dŵr Cymru



10
digwyddiad
ledled Cymru



20,000 o
ymatebion
dros 10
wythnos



Gofyn i gwsmeriaid
sut y dylem
flaenoriaethu ein
buddsoddiadau

ASTUDIAETH ACHOS

ARLOESED
CHATBOT

ASTUDIAETH ACHOS

Mae gan Facebook bellach tua 44 miliwn o ddefnyddwyr bob mis yn y DU. Roedd y chatbot, a ddatblygwyd gyda Coup Media, yn golygu y gallwn ymgysylltu â chynulleidfao enfawr o bosibl ar blatfform roeddent yn gyfarwydd â'i ddefnyddio bob dydd. Fe'n galluogodd i gyrraedd grwpiau demograffig sy'n llai tebygol o ddweud eu dweud yn draddodiadol — boed hynny yn bobl ifanc neu'n grwpiau anodd eu cyrraedd.

Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn Gymraeg hefyd ac roedd pobl yn gallu dweud eu dweud drwy chatbot Messenger yn Gymraeg am y tro cyntaf erioed.

Cymerodd dros 2,942 o gwsmeriaid ran yn yr ymgynghoriad 10 wythnos drwy'r chatbot, gyda 17,000 arall yn dweud eu dweud drwy ein gwefan bwrsol ac mewn digwyddiadau ledled y wlad.

Ar y cyd â hyn, cafwyd mewnbyn manwl a pharhaus gan gwsmeriaid drwy ein Cymuned

Ar-lein, ystod o grwpiau ffocws cwsmeriaid a'n Bwrdd Ieuenctid newydd. Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad lansio rhanddeiliaid llwyddiannus i gasglu barn sefydliadau ac unigolion allweddol eraill. Daeth dros 100 o rhanddeiliaid i'r digwyddiad, gan gynnwys aelodau Glas Cymru.

BETH RYDYM WEDI EI WNEUD?

Mae canlyniadau ein rhaglen ymgysylltu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid wedi ein helpu i lunio ein Gweledigaeth, sef Dŵr Cymru 2050, sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar yr hirdymor, sy'n arbennig o bwysig i ni fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, a cheidwad asedau hirdymor iawn.

Cyhoeddwyd y ddogfen hon ym mis Mawrth 2018, yn dilyn misoedd o ymgynghori, a byddwn yn ei ddefnyddio fel sail i gynllunio

ein buddsoddiadau hirdymor yn ein rhwydwaith, a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol, er budd ein cwsmeriaid.

GWOBRAU

Ym mis Rhagfyr 2017, yn y digwyddiad Gwobrau Wythnos Cyfleustodau yn Llundain, enillodd ein Tîm Cyfathrebu a Strategaeth Cwsmeriaid y Wobr am Fenter Farchnata'r Flwyddyn yr Wythnos Cyfleustodau am yr ymgyrch Dweud eich Dweud. Enillwyd tair gwobr arall yng Ngwobrau'r Sefydliad Marchnata Siartredig ar gyfer y DU gyfan ym mis Ebrill 2018, pan enillodd yr ymgyrch y wobwr am yr Ymgyrch Hysbysebu Orau, yr Ymgyrch Meithrin Brand Orau a'r Defnydd Gorau o Arloesedd.

EIN GWAITH

ADOLYGIAD BLWYDDYN: 2017-18

EBRILL 2017

DŴR AGORED

Ar 1 Ebrill 2017, cyflwynwyd marchnad fanwerthu fasnachol newydd i wella cystadleuaeth yn y diwydiant dŵr. Bellach, gall mwy o gwsmeriaid busnes ddewis eu manwerthwr dŵr a dŵr gwastraff. Gall yr holl gwsmeriaid busnes a wasanaethir gan gwmnïau dŵr a leolir yn Lloegr yn gyfan gwbl neu'n bennaf newid manwerthwr ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. Fel cwmni sy'n "gyfan gwbl neu'n bennaf" yng Nghymru, mae rheolau'r farchnad newydd yn wahanol. Dim ond safleoedd cwsmeriaid mwyaf Dŵr Cymru, sef y rhai sy'n defnyddio mwy na 50 megalitrau o ddŵr y flwyddyn ar un safle, a all newid manwerthwr a dim ond ar gyfer eu gwasanaethau dŵr glân. Mae ein Tim Manwerthu Masnachol yn darparu gwasanaethau manwerthu busnes i'r cwsmeriaid cymwys hynny nad ydynt am newid i fanwerthwr arall. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r safonau uchaf o werth a gwasanaeth i bob cwsmer busnes, p'un a all gymryd rhan yn y farchnad fanwerthu gystadleuol ai peidio.

MAI 2017

BANERI GLAS

Ym mis Mai, cawsom gadarnhad bod Cymru wedi cael 48 o Faneri Glas (45 o draethau, tri marina) sef y nifer uchaf erioed, am yr ansawdd dŵr ymdrochi uchaf. Rhaid i draethau a marinas gyrraedd y safonau uchaf o ran y canllawiau Ewropeaidd a argymhellir a rhaid i'r traeth fod yn lân, wedi ei reoli'n dda ac yn hyrwyddo dulliau rheoli amgylcheddol cadarn. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith rydym wedi ei wneud i wella ansawdd y dŵr gwastraff wedi ei drin a goiff ei ryddhau i'n dyfrffyrdd, ynghyd â sefydliadau eraill megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd ac elusennau amgylcheddol.

MEHEFIN 2017

CYSTADLEUAETH CYNGHRAIR Y PENCAMPWYR

Bu timau o'r adrannau Dosbarthu Dŵr, Cynhyrchu Dŵr, Rhwydweithiau Dŵr Gwastraff, Cynhyrchu Dŵr Gwastraff, Cynllunio Brys, Logisteg Brys, Gwaith Stryd, Samplu, y Ganolfan Gyswilt Weithredol a Chyfathrebu yn rhan o'r gwaith o baratoi ar gyfer y digwyddiad, pan ddaeth mwy na 300,000 o ymwelwyr i ganol dinas Caerdydd. Canolbwyntiodd hyn yn arbennig ar baratoi ar gyfer effaith gyffredinol y digwyddiad ar y ddinas, ond yn hollbwysig sicrhawyd ein bod yn barod i ymateb i unrhyw argyfyngau, a bod ein rhwydwaith yn barod i ddelio â chryn dipyn yn fwy o ddefnydd o ddŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff.

GORFFENNAF 2017

GWOBR WOMENSPIRE

Cydnabuwyd ein hymdrechion i amrywio ein gweithlu ac annog mwy o ferched i ddilyn gyrfa ym meysydd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) gan yr elusen cydraddoldeb yng Nghymru, Chwarae Teg, fel Cyflogwr y Flwyddyn yn eu Gwobrau "Womenspire".



Cyflogwr y Flwyddyn yng Ngwobrau
"Womenspire" Chwarae Teg

AWST 2017

GWAITH TYWYDD POETH

Gweithiodd timau drwy gydol y mis i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal i gwsmeriaid – gyda haf sych, ynghyd ag adegau o law trwm, roedd angen i'n timau rheng flaen weithio'n galetach i gynnal y cyflenwad, osgoi llifogydd, atal gollyngiadau a chadw ein dyfrffyrdd yn rhydd o lygredd.

MEDI 2017

PIBELLAU'N BYRSTIO YN ABERCYNON AC ALWEN

O ganlyniad i brif bibell gyflenwi Taf yn byrstio ger Abercynon bu cydweithwyr yn ei hatgyweirio am gyfnod hir o amser er mwyn osgoi unrhyw effaith ar y cyflenwad dŵr i hyd at 26,000 o gartrefi yn ardaloedd Cwm Taf a Chaerffili. Gweithiodd timau gweithredol yn galed hefyd i gynnal gwasanaethau pan fyrstiodd dwy bibell yn olynol ar brif bibell diamedr mawr Alwen yn y gogledd-ddwyrain.

HYDREF 2017**DIOGELWCH ARGAEAU**

Ail gam y gwaith hynod gymhleth a thechnegol i gynnal argae Caban Coch yng Nghwm Elan - yn cynnwys deifwyr arbenigol a gosod falfiau sgwrio strategol newydd - wedi ei gwblhau'n ddiogel, gan sicrhau y gall yr argae weithredu'n effeithlon am genedlaethau i ddod.

TACHWEDD 2017**GWAITH DŴR EICH CYMUNED**


Gwnaethom agor nifer o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn ein hardal weithredu - gan gynnwys Rhostir Cog, Treborth, yr Wyddgrug a Llanllieni - i aelodau o'r cyhoedd, fel y gallent ddysgu mwy am y modd y mae ein cylch dŵr a dŵr gwastraff yn gweithio a sut y gallant ein helpu i gadw'r cyflenwad dŵr i lifo yn ein rhwydweithiau.

IONAWR 18**RECRIWTIO PRENTISIAID A GRADDEDIGION**

Dechreuodd ein tasg flynyddol o chwilio am dalent newydd ar gyfer swyddi prentisiaid a graddedigion — gyda rolau'n cwrdd Gwasanaethau Dŵr, Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, Gwasanaethau Manwerthu, Gwasanaethau Datblygwyr a meysydd fel gwyddor data a dadansoddi data, ac mewn rolau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg (STEM).

CHWEFOR 2018**GWEITHREDIADAU TYWYDD OER**

Gwnaeth tywydd oer ac eira trwm effeithio ar Gymru ar 28 Chwefror, gan darfu ar ein rhwydwaith dros y pythefnos canlynol, a tharfwyd ar ein rhwydwaith mewn rhai o'r ardaloedd a wasanaethir gennym am gyfnod estynedig. Buom yn gweithio ar sail argyfwng bob awr o'r dydd a'r nos — a llwyddwyd i gynnal cyflenwad 97.2% o'n cwsmeriaid drwy gydol y cyfnod hwn. Fodd bynnag, hwn oedd y digwyddiad gwaethaf i Dŵr Cymru a oedd yn gysylltiedig â'r tywydd ers y tywydd oer eithafol yn 2010 — gyda 7,000 o gwsmeriaid yn ôl yr amcangyfrif heb gyflenwad am 24 awr neu fwy pan welwyd cynnydd enfawr yn nifer y gollyngiadau o'n prif bibellau a phibellau cyflenwi cwsmeriaid ar ôl i'r eira ddadmer.



Roeddem yn gweithio ar sail argyfwng,
bob awr o'r dydd a'r nos

RHAGFYR 2017**PIBELLAU'N BYRSTIO YN Y GAFAF**

Bu ein timau gweithredol yn gweithio yn y cyfnod cyn y Nadolig ar brif bibell ddŵr strategol a oedd wedi byrstio sawl gwaith yn Aberdâr — gan weithio am bron 24 awr i gynnal cyflenwadau ac atgyweirio'r bibell a oedd wedi difrodi. Gwnaeth cydweithwyr yng Nghaerdydd hefyd frwydro i atgyweirio pibell a oedd wedi byrstio gan effeithio ar nifer o dai yn ardaloedd Tredelerch a Llanrhymni yng Nghaerdydd ar ddydd San Steffan. Bu timau'n gweithio drwy'r dydd a'r nos i sicrhau bod cyflenwadau cwsmeriaid yn cael eu hadfer mor gyflym â phosibl.

MAWRTH 18**DŴR CYMRU 2050**

Lansiwyd ein strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â rhai o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ein gwasanaethau — yn amrywio o newid yn yr hinsawdd, i dwf mewn poblogaeth, a'r economi ddigidol — mewn derbyniad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd, ac roedd rhanddeiliaid allweddol yn bresennol gan gynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Prif Weithredwr Ofwat a Chadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

EIN GWAITH

TYWYDD EITHAFOL — EIN HER

Gwyddom fod ein cwsmeriaid yn rhoi pwyslais penodol ar ddibynadwyedd gwasanaethau hanfodol. Un o'r heriau mwyaf a wynebwyd gennym dros y 12 mis diwethaf oedd effaith tywydd eithafol ar ein rhwydwaith — a'r effaith ar rai o'n cwsmeriaid — ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018 yn ystod "Storm Emma".

Rhoddodd cyfnod o dymereddau isel iawn ac eira trwm, wedyn cyfnod pan wnaeth yr eira ddadmer yn gyflym, bwysau digynsail ar ein rhwydwaith — o ran heriau gweithredol wrth atgyweirio pibellau oedd wedi byrstio a gollyngiadau, a delio â phryderon ein cwsmeriaid.

Roedd y tywydd oer cychwynnol — roedd ein hardal weithredu ynghanol y rhybudd tywydd 'coch' eithriadol ar gyfer eira a rhew — yn golygu bod mwy o risg o'r ddadmer yn symud a difrod i'n rhwydwaith dosbarthu dŵr, yn enwedig i'n pibellau haearn bwrw hŷn sy'n dal i gyfrif am bron 6,000km o'r 27,500km o bibellau yn ein rhwydwaith. Roedd hefyd yn golygu ei bod yn anodd iawn i'n peirianwyr a'n cydweithwyr gweithredol gael mynediad i ardaloedd lle roedd lluwchfeydd eira trwm i atgyweirio'r pibellau, ac i helpu cwsmeriaid a oedd wedi colli eu cyflenwad dŵr. Golygai'r tywydd gwael difrifol fod nifer fawr o safleoedd busnes yn wag ac nad oedd gollyngiadau ar bibellau cyflenwi cwsmeriaid yn cael eu canfod yn gyflym.







Gan fod yr eira'n dadmer yn gyflym gwnaeth rhai o'n pibellau fyrstio ar yr un pryd ar draws sawl ardal yn ein rhwydwaith, a chafwyd tua 2,541 o ymyriadau i'r cyflenwad ar draws ein rhwydwaith (gan effeithio ar tua 2.8% o'n cwsmeriaid). Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymyriadau i'r cyflenwad yn rhai byr a/neu ysbeidiol. Fodd bynnag, gwnaeth tua 7,000 o gwsmeriaid wynebu ymyriadau i'w cyflenwad dŵr am 24 awr neu fwy. Roedd hyn yn arbennig o heriol mewn ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell fel Blaenau Ffestiniog, ardal wledig Sir Benfro gan gynnwys Tyddewi a Solfach, rhannau o Ynys Môn a rhannau gwledig o Ganol Ceredigion. Mae'n ddrwg iawn gennym am yr anghyfleustra a'r ffaith ein bod wedi tarfu ar gwsmeriaid yn ystod y digwyddiad hynod heriol hwn. Wrth i'r eira ddadmer roedd ein timau'n atgyweirio dros 100 o ollyngiadau o bibellau y dydd.

Er i ni gadw nifer ddigonol o boteli dŵr, roedd sicrhau bod cwsmeriaid yn cael gafael arnynt yn ystod y tywydd garw yn arbennig o heriol. Gwnaeth cydweithwyr o bob rhan o'r busnes ein helpu i ddosbarthu cyflenwadau dŵr, gwnaeth timau prosiectau cyfalaf helpu gyda gwaith atgyweirio gollyngiadau brys a gwnaeth gwirfoddolwyr o dimau gwasanaethau cymorth weithio sifftiau yn ein canolfan alwadau er mwyn helpu i ymateb i'r galw ychwanegol gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod hwn.

Y cyfnod hwn oedd ein hymateb mwyaf i ddigwyddiad ers y tywydd eithafol tebyg yn 2010. Ers hynny, rydym wedi buddsoddi arian ac adnoddau yn paratoi i ymateb i bwysau ar ein rhwydwaith — ac yn ystod Storm Emma llwyddom i gadw'r dŵr i lifo ar gyfer 97.2% o'n cwsmeriaid drwy'r tywydd oer a'r cyfnod pan oedd yr eira'n dadmer.

STORM EMMA — MEWN RHIFAU

CYNNYDD CANRANNOL



Cyfortaledd dyddiol Storm Emma
Cyfortaledd dyddiol arferol

£7.2 MILIWN

COST YCHWANEGOL
AMCANGYFRIFEDIG YR AETHPWYD
IDDI WRTH YMATEB I DYWYDD EITHAFOL

300,000

O LITRAU O DDŴR A
DDOSBARTHWDY NEU A GASGLWYD

240

O OLLYNGIADAU WEDI'U COFNODI BOB
DYDD PAN OEDD YR EIRA'N DADMER

97.2%

O EIDDO CYSYLLTIEDIG WEDI PARHAU
I GAEL CYFLENWAD YN YSTOD Y
CYFNOD HWN

SUT GWNAETHOM BARATOI AR GYFER HYN?

Yn dilyn tywydd oer 2010, gwnaethom greu un o'r fflydoedd 4x4 mwyaf yng Nghymru – a oedd yn golygu y gallem gyrraedd ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell.

Hefyd, mae gennym un o'r fflydoedd tanceri dŵr 'mewnol' mwyaf o blith unrhyw gwmni dŵr yn y DU, sef dros 30 o gerbydau – a mwy o yrwyr tanceri wrth gefn i'n helpu i ymateb ar unwaith i broblemau gyda'n rhwydwaith.

Gwnaethom weithredu'r trefniadau cynllunio brys wrth gefn 'Efydd hyd at Aur' sef y strwythur milwrol a sifil ehangach ar gyfer digwyddiadau brys. Roedd hwn ar sail ranbarthol ac yn cwrmpasu pob un o'n prif weithgareddau ymateb gweithredol. Adolygwyd ein cynlluniau paratoi ar gyfer y gaeaf ym mis Tachwedd 2017.

Mae gennym ddau gyfleuster storio brys mawr yn ein prif ganolfan yng Nghlydach yn Abertawe ac un arall yn Ninas ger Caernarfon. Mae'r rhain yn cynnwys llawer iawn o gyfarpar. Roedd gennym dros 55,000 litr o ddŵr potel cyn y digwyddiad a phrynwyd 300,000 litr ychwanegol er mwyn helpu gyda'n hymateb i gwsmeriaid a oedd heb gyflenwad dŵr.

Cafwyd yr orwydd cyntaf o dywydd garw ar 24 Chwefror o'r rhagolwg tywydd hirbell, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Yn dilyn hyn, cadarnhawyd ein cynlluniau ymateb gaeaf ar draws y busnes er mwyn sicrhau ein bod yn barod a threfnwyd bod criwiau atgyweirio gollyngiadau ychwanegol ar gael ac aseswyd y goblygiadau i'r adnoddau. Addaswyd ein gwefan i dynnu sylw at ein neges ynghylch "Wrap up Wales", gan gyfeirio cwsmeriaid at gyngor penodol ar bibellau rhwedidig. Sefydlwyd pwyntiau ysgogi ar gyfer camau gweithredu pellach mewn ardaloedd penodol yn seiliedig ar nifer y galwadau gan gwsmeriaid yn ein hysbysu am bibellau cyflenwi rhwedidig. Gwnaethom hefyd adolygu ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth i asesu pa mor agored i niwedd oedd pobl mewn sefyllfaoedd lle roedd rhew/eiro'n dodmer. O safbwynt gweithredol, roedd y ffocws o'r cam hwn ar gynnal allbwn y gwaith trin i gynnal y broses storio ac osgoi pibellau rhwedidig.

Erbyn 1 Mawrth, roedd mesurau teithio wrth gefn ar waith yn dilyn Rhybudd Tywydd Coch y Swyddfa Dywydd. Yn ogystal, trefnwyd rotas staff diwygiedig, cynlluniwyd ar gyfer y galw uchel disgwyliedig o'r ffaith y byddai pibellau'n byrstio wrth i'r eira ddodmer, a pharatowyd ar gyfer dosbarthu cyflenwadau amgen drwy danceri, bowseri a photeli dŵr. Gwnaeth ein hymatebion i'r digwyddiad Efydd-Aur barhau tan 9 Mawrth.

Ond gwyddom fod gennym lawer mwy o waith i'w wneud – ac i gyfran fach o'n cwsmeriaid, ni wnaeth y gwasanaeth gyflawni'r safonau uchel y gall ein cwsmeriaid eu disgwyl gennym fel arfer.

Mewn rhai cymunedau gwledig ac anghysbell, gwnaethom gymryd mwy o amser na'r disgwyl i adfer eu cyflenwad dŵr – ac i sicrhau bod cymorth yn eu cyrraedd pan oedd ei angen arnynt. Byddwn yn sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad hwn.

Gyda thywydd cynyddol anwadol yn mynd yn fwy cyffredin, gallwn adolygu ein cynlluniau digwyddiadau difrifol yn rheolaidd i weld sut y gallwn sicrhau'r ymateb gorau i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol. Ac rydym yn buddsoddi er mwyn sicrhau bod ein rhwydwaith yn fwy cydnherth fel bod effaith y mathau hyn o ddigwyddiadau yn cael ei lleihau gymaint â phosibl.

UNIONI PETHAU

Rydym yn cydnabod bod y problemau a gafwyd yn ystod y tywydd garw wedi tarfu gryn dipyn ar y cwsmeriaid hynny yr effeithiodd y tywydd garw arnynt. Felly penderfynwyd rhoi taliad ewyllys da i gydnabod hynny. Cafodd y cwsmeriaid hynny yr effeithiwyd fwyaf arnynt, sef tua 14,000 o gwsmeriaid, daliad o £75, sef mwy na thair gwaith y taliad a roddir o dan safonau gwasanaeth gwarantiedig arferol, sydd, gobeithio, yn mynd rywfaint o'r ffordd i ddangos sut rydym yn ymrwymedig i unioni pethau.

Ein rhaglen Astudiaethau Parthol yw un o'r mentrau a fydd yn helpu i wneud ein rhwydwaith yn fwy cydnherth. Dos y cyfnod buddsoddi hwn o bum mlynedd, mae'r rhaglen hon yn cynnwys £40 miliwn o fuddsoddiad mewn ardaloedd sy'n wynebu'r rhan fwyaf o broblemau gyda'r cyflenwad dŵr – ac mae'r gwaith yn cynnwys gosod pibellau haearn bwrw newydd mwy cydnherth yn lle'r hen bibellau.

BETH A DDYSGWYD GENNYM?

Wrth i'r Adroddiad Blynyddol hwn gael ei gyhoeddi, rydym yn aros am ganlyniad ymchwiliad Ofwat i'r ymateb i'r tywydd garw.

Rydym eisoes wedi cynnal ein hadolygiad ein hunain ac wedi nodi meysydd y dylem ganolbwyntio arnynt er mwyn gwneud gwelliannau yn y dyfodol i'n hymateb i dywydd eithafol:

- byddwn yn buddsoddi mewn system wresogi "trace" ychwanegol yn ein Gweithfeydd Trin Dŵr i leihau'r tebygolrwydd y bydd llinellau cemegol yn rhewi
- byddwn yn creu rôl newydd o fewn y fim ymateb brys i ganolbwyntio ar roi'r newyddion diweddaraf yn gyflymach i gymunedau drwy ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol.
- byddwn yn buddsoddi yn ein gallu i glirio eira ein hunain i ategu'r hyn a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd mewn rhai ardaloedd gwledig
- byddwn yn rhoi adnodd ychwanegol dynodedig ar waith yn yr ardal gyflenwi i wella'r modd y dosberthir dŵr potel pan na fydd y prif gyflenwad ar gael
- byddwn yn targedu rhan o'n hymgyrch gaeaf "Wrap up Wales" tuag at gwsmeriaid busnes er mwyn ceisio codi ymwybyddiaeth o'r angen i ynysu cyflenwadau mewn adeiladau gwag yn ystod y gaeaf.

EIN GWAITH

SUT RYDYM YN GWNEUD

Er mwyn ein helpu i fesur ein perfformiad, mae ein Cynllun Busnes yn cynnwys wyth 'canlyniad' allweddol rydym am eu cyflawni erbyn 2020 i'n cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd ehangach. Seilir y canlyniadau hyn ar flaenoriaethau ein cwsmeriaid o'n hymgynghoriad yn 2013.

MESUR LLWYDDIANT	TARGED OFWAT (2017 - 18FD)	ALLDRO 2017-18 O GYM HARU Â THARGED OFWAT	2016-17	ALLDRO 2017-18	2017-18 O GYM HARU Â'R FLWYDDYN FLAENOROL	TARGED 2019-20	AR Y TRYWYDD IAWN I GYFLAWNI TARGED 2020?
1DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL							
A1A* DIOGELWCH DŴR YFED (% CYDYMFFURFIAETH)	-	-	99.99%	99.98%	✗	99.99%	✓
A1B* DIOGELWCH DŴR YFED (CYDYMFFURFIAETH BARTHOL GYMEDRIG)	100%	✗	99.97%	99.96%	✗	100%	✗
A2* DERBYNIOLDEB I GWSMERIAID (CYSYLLTIADAU F/1,000 POB)	-	-	2.88	2.79	✓	1.23	✗
A3 DIBYNADWYEDD Y CYFLENWAD (MUNUDAU CWSMERIAID A GOLLIR)	12	✗	12.2	43.3	✗	12	✓
2DIOGELU'R AMGYLCHEDD							
B1 TYNNU DŴR I'W DDEFNYDDIO	100%	✓	100%	100%	✓	100%	✓
B2* TRIN DŴR GWASTRAFF	100%	✗	99.47%	98.21%	✗	100%	✗
B3A* ATAL LLYGREDD (NIFER Y DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â LLYGREDD)	-	-	114	115	✗	131	✓
B3b* ATAL LLYGREDD (DIGWYDDIADAU LLYGREDD CATEGORI 3 YN UNIG)	131	✓	111	112	✗	131	✓
3YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD							
C1 YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD	15,000	✓	13,661	15,097	✓	25,000	✓
C2 ÔL TROED CARBON (GWH O YNNI GLÂN A GYNHYRCHIR)	70	✓	86.5	97.89	✓	100	✓

Rydym yn mesur ein llwyddiant tuag at gyflawni'r canlyniadau hyn yn erbyn nifer o dargedau - neu Fesurau Llwyddiant - y bwriadwn eu cyflawni neu ragori arnynt bob blwyddyn. Mae'r targedau hyn yn gyfuniad o dargedau rheoleiddiol fel y cytunwyd arnynt gan ein rheoleiddwyr ac eraill ac a bennwyd yn annibynnol gan Fwrdd Glas Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler yr Atodiad - Mesurau Llwyddiant: Diffiniadau (tudalen 138).

MESUR LLWYDDIANT	TARGED OFWAT (2017 - 18FD)	ALLDRO 2017-18 O GYM HARU Â THARGED OFWAT	2016-17	ALLDRO 2017-18	2017-18 O GYM HARU Â'R FLWYDDYN FLAENOROL	TARGED 2019-20	AR Y TRYWYDD IAWN I GYFLAWNI TARGED 2020?
4 GWASANAETH CWSMERIAID							
D1 MECANWAITH CYMELL GWASANAETH (SIM)**	CHWARTEL UCHAF	†	83	85	✓	CHWARTEL UCHAF	✓
D2 GWASANAETH I GWSMERIAID SYDD MEWN PERYGL**	650	✓	575	613	✗	425	✓
D3 EIDDO LLE BU LLIFOGYDD YN YSTOD Y FLWYDDYN	292	✓	242	221	✓	269	✓
D4a BODDHAD CWSMERIAID BUSNES (%)			90.82	88	✗	-	-
D4b BODDHAD CWSMERIAID DIBRESWYL (%)	89%	✗	89	87	✗	90	✓
D5 ENNYN YMDDIRIEDAETH CWSMERIAID (%)	68	✓	85	84	✗	75	✓
5 BILIAU FFORDDIADWY							
E1 BILIAU FFORDDIADWY (% ISLAW CHWYDDIANT)	-1	✓	-1	-2	✓	-1	✓
E2 CYMORTH I GWSMERIAID DAN ANFANTAIS	100,000		71,167	105,864	✓	100,000	✓
6 GOFALU AM EIN HASEDAU							
F1 DEFNYDDIOLDEB ASEDAU	SEFYDLOG (X4)	✓	SEFYDLOG (X4)	SEFYDLOG (X4)	✓	SEFYDLOG	✓
F2 GOLLYNGIADAU DŴR (ML Y DYDD)	173	✓	175.4	172.9	✓	169	✓
F3 CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR)	83	✓	89.5	90.4	✓	87	✓
F3 CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR GWASTRAFF)	74	✓	73.6	77.5	✓	78	✓
7 DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL							
G1 DIGWYDDIDAU RIDDOR			12	14	✗	10	✓
G2 CYMHWYSEDD YN Y RÔL			87%	82%	✗	95%	✓
8 BUSNES EFFEITHLON							
H1 EFFEITHLONRWYDD CYLLID (STATWS CREDYD)			A/A2/A	A/A2/A	✓	A/A3/A	✓

* Wedi ei fesur yn ôl y flwyddyn galendr (mis Ionawr 2017 i fis Rhagfyr 2017). Mesurir canlyniadau eraill yn ôl y flwyddyn ariannol (mis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018).

** Ceir diffiniad o bob Mesur Llwyddiant yn Atodiad 1 ar dudalennau 138-139.

† Nid yw'r alldro terfynol ar gael tan fis Gorffennaf 2018

Gellir gweld cymharoeth forwl o'n perfformiad cyffredinol ar rai mesurau allweddol yn erbyn perfformiad cwmnïau dŵr a chorthffosiaeth eraill yn discoverwater.org

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

1

CANLYNIAD 1:
DŴR YFED O
ANSAWDD
UCHEL

I'N CWSMERIAID, GALLU
DIBYNNU AR ANSAWDD Y DŴR
A GYFLENWN I'W CARTREFI
A'U BUSNESAU YW EU
BLAENORIAETH A'U DISGWYLIAD
MWYAF O'N GWASANAETH .

27,500KM

O BIBELLAU DŴR AR DRAWS EIN HARDAL

£1.95 BILIWN

WEDI'I FUDDSODDI YN EIN HASEDAU YN YSTOD Y
CYFNOD BUDDSODDI CYFREDOL O BUM MLYNEDD

63

O WEITHFEYDD TRIN DŴR AR DRAWS EIN HARDAL

Diogelwch Dŵr Yfed

Er mwyn diogelu ansawdd dŵr, gwnaethom fuddsoddi £213 miliwn yn ein gwasanaethau dŵr eleni. Mae ansawdd ein dŵr yn parhau i fod yn rhagorol, ond methodd 46 o samplau rheoleiddio o gymharu â 34 y llynedd — ac o ganlyniad gwnaethom fethu'r targed, ond dim ond o drwch blewyn, ar gyfer y ddau fesur perfformiad (Cydymffurfiaeth a Chydymffurfiaeth Barthol Gymedrig) sy'n rheoli diogelwch dŵr yfed.

Rydym yn mesur ansawdd dŵr yn ein gwaith trin a'n cronfeydd storio dŵr (sy'n storio dŵr wedi ei drin mewn llefydd gwahanol o amgylch y rhwydwaith). Gwnaethom berfformio'n rhagorol eleni gyda dim ond un methiant yn ein gweithfeydd trin (2016-17: 1) a dim ond dau fethiant bacteriolegol a gafwyd yn ein cronfeydd gwasanaeth (2016-17: 6) — ein perfformiad gorau erioed.

Derbynioldeb i Gwsmeriaid

Gwnaeth nifer y cysylltiadau a gawsom gan gwsmeriaid ynghylch golwg, blas ac arogl eu dŵr (Derbynioldeb i Gwsmeriaid) wella unwaith eto eleni i 2.79 o gwynion fesul 1,000 o gwsmeriaid (2016-17: 2.88). Er nad ydynt yn beryglus fel arfer, gall problemau o ran ymddangosiad, blas ac arogl wneud pobl yn anfodlon. Yn aml, achosir problemau o'r fath gan newidiadau yng nghyflymder llif y dŵr (er enghraifft, am fod pibellau dŵr yn byrstio neu mwy o alw gan gwsmeriaid yn ystod tywydd poeth), a all lacio gwaddodion haearn yn y pibellau ac afliwio'r dŵr.

Yn ystod y flwyddyn gwnaethom ddelio â rhai heriau gweithredol sylweddol, gan gynnwys gorfod cyflenwi hyd at 970 miliwn litr y dydd yn ystod cyfnod o dywydd poeth ym mis Mehefin pan fyddem fel arfer yn cyflenwi tua 800 miliwn litr y dydd, ond hefyd drwy weithio i leddfu effaith digwyddiadau gweithredol yn ystod y flwyddyn ar gwsmeriaid.

Gwnaethom barhau i fynd i'r ofael â nifer y cwynion am afliwio, drwy gyflymu ein rhaglen glanhau pibellau a gosod pibellau newydd o 93.3km yn 2016-17 i 320.8km eleni. Mae'r gwaith hwn yn targedu'r cymunedau hynny y mae'r broblem hon yn effeithio fwyaf arnynt, gan gynnwys Rhondda yn y de, Hwlfordd yn Sir Benfro a rhannau o Swydd Henffordd ac Ynys Môn. Mae hyn yn helpu i leihau cwynion am ddŵr wedi'i afliwio ond cawsom 6,600 o gysylltiadau gan gwsmeriaid o hyd am ddŵr wedi'i afliwio yn y cyflenwad yn ystod y flwyddyn. Rydym yn bwriadu parhau â'r cynnydd hwn gan ein bod yn cydnabod bod gennym lawer mwy i'w wneud yn y maes hwn.

ATGYWEIRIO DRWY ATAL LLIF AR SYSTEM
PRIF BIBELLAU CADFOR, GRWYNE FAWR



ASTUDIAETH ACHOS

Arloeswyd technegau newydd gennym o gynnal cyflenwadau i gwsmeriaid yn ystod digwyddiadau gweithredol yn 2017. Gan ddefnyddio technoleg 'atal llif', gwnaethom lwyddo i atgyweirio dwy o'n piblinellau pwysedd dŵr uchaf yn y de a'r gogledd heb effeithio fawr ddim ar gwsmeriaid. O ganlyniad, gwnaethom osgoi gorfod tarfu ar gyflenwadau dŵr i filoedd o gwsmeriaid er mwyn cyflawni'r gwaith hwn. Bwriadwn ddefnyddio mwy o'r technegau arloesol hyn yn y dyfodol er mwyn gwella ansawdd a dibynadwyedd y cyflenwad i gwsmeriaid, gan sicrhau diogelwch ein cydweithwyr a'n contractwyr ar yr un pryd.

Dibynadwyedd y Cyflenwad

Rydym bob amser yn gwneud ein gorau glas i gynnal y cyflenwad dŵr yn ystod unrhyw ddigwyddiadau drwy ddefnyddio dŵr o rannau eraill o'r rhwydwaith neu drwy ddosbarthu dŵr yn uniongyrchol i'r rhwydwaith mewn tanceri. Nid yw hyn yn bosibl bob tro oherwydd anawsterau peiranyddol, problemau gyda'r rhwydwaith o amgylch neu oherwydd risgiau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch o wynebir gan ein cydweithwyr, yn enwedig yn ystod tywydd garw. O ganlyniad i'r nifer fwy nag arfer o ddigwyddiadau gweithredol ac effaith tywydd garw "Storm Emma", tarfwyd ar gyflenwad cwsmeriaid am 43.3 munud ar gyfartaledd dros y flwyddyn, o gymharu â 12 munud a 2 eiliad ar gyfartaledd y flwyddyn flaenorol.

ER MWYN DIOGELU
ANSAWDD DŴR,
GWNAETHOM
FUDDSODDI £213
MILIWN YN EIN
GWASANAETHAU
DŴR ELENÍ

1	DŴR YFED O ANSAWDD UCHEL	2016-17	2017-18	17-18 O GYMHARU Â 16-17
A1A	DIOGELWCH DŴR YFED (% Y GYDYMFFURFIAETH)	99.99%	99.98	✗
A1B	DIOGELWCH DŴR YFED (% Y GYDYMFFURFIAETH BARTHOL GYMEDRIG)	99.97	99.96	✗
A2A	DERBYNIOLDEB I GWSMERIAID (CYSYLLTIADAU F/1,000 POB)*	2.88	2.79	✓
A3	DIBYNADWYEDD Y CYFLENWAD (MUNUDAU A GOLLWYD/CWSMER)	12.2	43.3	✗

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

2

CANLYNIAD 2:
DIOGELU'R
AMGYLCHEDD

RYDYM YN GWEITHIO I SICRHAU
BOD YR AMGYLCHEDD HARDD
O'N CWMPAS YN CAEL
EI DDIOGELU AR GYFER
CENEDLAETHAU'R DYFODOL

835

O WEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF

36,000KM

O BIBELLAU CARTHFFOS AR DRAWS EIN HARDAL

£7 MILIWN

YN CAEL EI WARO BOB BLWYDDYN
AR DDADFLOCIO CARTHFFOSYDD**Trin dŵr gwastraff**

Arhosodd ein perfformiad amgylcheddol yn sefydlog yn 2017-18, gyda buddsoddiad parhaus yn ein hasedau dŵr gwastraff o £34 miliwn yn helpu i sicrhau bod 98.21% (ychydig yn llai na'n perfformiad gorau, sef 99.47% yn 2016-17) o'r dŵr gwastraff a gafodd ei ddychwelyd i'n dyfrffyrdd yn cyrraedd y safonau sy'n ofynnol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd hyn yn fwy heriol oherwydd y cyfnodau o law trwm ac achosion unigol o weithfeydd trin dŵr gwastraff yn methu â chyrraedd y safonau gofynnol.

Atal Llygredd

Rydym wedi parhau i weithio gyda chwsmeriaid ar ein hymgyrch Stop Cyn Creu Bloc i godi ymwybyddiaeth a gwella addysg ar waredu deunydd priodol yn unig i mewn i'r rhwydwaith carthffosydd er mwyn lleihau blociadau, sef tua 2,000 o achosion y mis ac sy'n costio £7 miliwn bob blwyddyn i'w gywiro. Rydym yn gweld cynnydd da o ran lleihau blociadau'n gyffredinol, gyda 7% yn llai o flociadau mewn carthffosydd yn 2017-18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dangosodd cyfanswm y digwyddiadau llygredd yn 2017-18 ychydig bach o gynnydd i 115 o gymharu â 114 y flwyddyn flaenorol. O'r cyfanswm, nifer y digwyddiadau o'n system dŵr gwastraff oedd 103, y nifer leiaf a welsom erioed. Gollyngiadau o'n Gweithfeydd Trin Dŵr oedd gweddill y digwyddiadau, a all gael effaith o hyd ar yr amgylchedd. Rydym yn gweithio i leihau amllder y digwyddiadau hyn.

BUDDSODDIAD O £34 MILIWN YN
EIN HASEDAU DŴR GWASTRAFF**Ansawdd Dŵr Ymdrochi**

Rydym hefyd yn chwarae rhan bwysig i sicrhau bod ansawdd y dŵr ymdrochi o amgylch ein hardaloedd gweithredu o'r ansawdd uchaf. Rydym yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod y dŵr rydym yn ei drin ac yn ei ryddhau i'n hafonydd a'n moroedd yn lân ac yn ddiogel ac yn cael yr effaith leiaf ar yr amgylchedd — a gwelir hyn yn nifer y Gwobrau Baneri Glas a roddwyd i draethau a marinas ledled Cymru ar gyfer 2017, sef y nifer fwyaf erioed. Cydnabuwyd cyfanswm o 43 o draethau (ynghyd â 3 marina ac 1 gweithredwr cychod) yng Nghymru, sy'n cynrychioli safonau uchel o ran ansawdd dŵr a rheoli'r amgylchedd. Gwnaeth pob safle dŵr ymdrochi heblaw un lwyddo i gyrraedd y safonau gofynnol a osodir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a dim ond Boe Cemaes yn Ynys Môn a gafodd sgôr "gwael". Er nad oes awgrym bod ein gweithgarwch wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd y dŵr, rydym wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Ynys Môn, Cyngor Cymuned Llanbadrig a Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu i sicrhau bod ansawdd y dŵr ar y safle hwn yn gwella dros y blynyddoedd i ddod.

DŴR CYMRU YN CROESAWU AELODAU O DÎM CYDNERTHEDD TREFOL Y CENHEDLOEDD UNEDIG YN GRANGETOWN, CAERDYDD



BUDDSODDI DROS £2 FILIWN YNG NGHYNLLUN GRANGETOWN WERDDACH

Mae Cyngor Caerdydd, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn buddsoddi dros £2 filiwn yn y cynllun Grangetown Werddach, sef cynllun arloesol i reoli dŵr glaw yn ardal Grangetown yng Nghaerdydd yn well. Gan ddefnyddio'r technegau diweddaraf, bydd y cynllun hwn yn casglu ac yn dargyfeirio dŵr glaw glân yn uniongyrchol i mewn i Afon Taf, yn lle ei bwmpio fwy nag wyth milltir drwy Fro Morgannwg cyn ei drin a'i ollwng i'r môr. Yn ogystal ag ardaloedd naturiol â phlanhigion a fydd yn helpu i amsugno dŵr glaw, a chynyddu bioamrywiaeth, bydd y prosiect hefyd yn rhoi mwy o fannau gwyrdd i'r gymuned eu mwynhau.

2	DIOGELU'R AMGYLCHEDD	2016-17	2017-18	17-18 O GYMHARU Â 16-17
B1	TYNNU DŴR I'W DDEFNYDDIO	100	100	✓
B2	TRIN DŴR GWASTRAFF*	99.47%	98.21%	✗
B3A	ATAL LLYGREDD (NIFER Y DIGWYDDIADAU YN YMWNEUD Â LLYGREDD)	114	115	✗
B3b	ATAL LLYGREDD (DIGWYDDIADAU LLYGREDD CATEGORI 3 YN UNIG)	111	112	✗

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

3

CANLYNIAD 3:
YMATEB I
NEWID YN YR
HINSAWDDBYDDWN YN CHWARAE EIN
RHAN I WNEUD EIN BYD YN
FWY CYNALIADWY AR GYFER
CENEDLAETHAU'R DYFODOL

24,000

O BANELI SOLAR AR EIN SAFLEOEDD

35 GWH

WEDI EI GYNHYRCHU O'N CYFLEUSTERAU
PROSESU LLAI

20%

O'N HYNNI WEDI EI GYNHYRCHU O'N FFYNONELLAU
ADNEWYDDADWY EIN HUNAIN

Mae digwyddiadau tywydd dramatig yn parhau i achosi problemau i'n cymunedau, ac fel gwlad gydag arfordir mawr a lefelau uwch o amddifadedd na'r cyffredin ar gyfer y DU, mae ein cymunedau yn fwy agored i niwed na'r mwyafrif i'w effeithiau.


Yn Dŵr Cymru rydym mor benderfynol ag erioed o helpu gyda'r ymdrech fyd-eang i leihau'r effeithiau negyddol ar hinsawdd ein planed drwy leihau ein hallyriadau carbon ein hunain, ond hefyd drwy ddiogelu ein cwsmeriaid a'r rhwydwaith rhag effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol.

RYDYM YN BENDERFYNOL O
HELPU YN YR YMDRECH FYD-
EANG I LEIHU'R EFFEITHIAU
NEGyddOL AR HINSAWDD EIN
PLANED**Ymateb i newid yn yr hinsawdd**

Mae ein cynnydd wrth ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd wedi bod yn amlwg ac yn galonogol iawn dros y flwyddyn ddiwethaf.

Un o'r mesurau allweddol ar gyfer hyn oedd faint o ddŵr wyneb rydym yn ei atal rhag mynd i mewn i'n rhwydwaith carthffosydd — sef prif nod ein prosiect Glawlif arloesol yn Llanelli a'n prosiect Grangetown Werddach yng Nghaerdydd, y mae'r ddau ohonynt yn defnyddio dulliau naturiol i arafu, dargyfeirio a chadw dŵr glaw cyn iddo fynd i mewn i'n carthffosydd. Gyda mwy na 36,000km o garthffosydd ar draws ein hardal weithredu — a adeiladwyd yn aml yn ystod oes Fictoria — bydd lleddfu'r pwysau ar ein rhwydwaith yn bwysicach nag erioed wrth i ni deimlo effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Er mai ein prif brosiectau peilot yw'r ardaloedd hyn o hyd ar gyfer tynnu dŵr wyneb, mae'r egwyddor hon yn cael ei hymgorffori yn y gwaith cynllunio ar gyfer amrywiaeth o brosiectau eraill. O ganlyniad, yn 2017-18 rydym wedi gweld cynnydd mawr yn y maes hwn — gyda chyfaint y dŵr glaw ffo sy'n draenio o ardol, sy'n cyfateb i 15,087 o doeau cartrefi, yn cael ei dynnu o'r system, o gymharu â 13,661 yn 2016-17. Bwriadwn barhau i wella'r cynnydd hwn yn y blynyddoedd i ddod er mwyn diogelu ein cymunedau rhag effeithiau llifogydd dŵr wyneb ymhellach.



Ôl troed carbon

Mae ein hymrwymiad i leihau ein hól troed carbon dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gyson - a bellach mae 20% o'n hynni yn cael ei gynhyrchu o'n ffynonellau adnewyddadwy ein hunain. Mae hyn wedi cynnwys gweithredu ein dau dyrbin gwynt cyntaf, yn ogystal â chynlluniau ynni dŵr a solar mewn gweithfeydd ar draws ein hardal. Mae caffael cyfleuster ailgylchu bwyd ger Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd ym mis Rhagfyr 2017 yn golygu y caiff 53% o'r ynni a ddefnyddir gan y gwaith hwnnw ei gynhyrchu gan y safle ei hun drwy system gynhyrchu gynaliadwy ac adnewyddadwy.

O ganlyniad, cynhyrchwyd cyfanswm o 98GWh o ynni adnewyddadwy ar ein safleoedd yn 2017-18, o gymharu ag 87GWh y flwyddyn gynt.

"Olwyn Cydnerthedd" Dŵr Cymru yw'r dull gweithredu sy'n arwain ein gweledigaeth hirdymor, Dŵr Cymru 2050. Mae'n dwyn ynghyd bob un o feysydd ein busnes, gan gynnwys asedau, pobl, systemau, cyllid, llywodraethu a safbwyntiau allanol. Mae hefyd yn ein galluogi i gymharu ag adolygiadau cydnerthedd 100 o ddinasoedd a sefydliadau ledled y byd — a byddwn yn adolygu ein cynnydd yn ei herbyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion ar gyfer 2050.

BYDDWN YN ADOLYGU EIN CYNNYDD YN RHEOLAIDD ER MWYN SICRHAU EIN BOD YN CYFLAWNI EIN HAMCANION AR GYFER 2050

3	YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD	2016-17	2017-18	17-18 O GYM HARU Â 16-17
C1	YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD	13,661	15,097	✓
C2	ÔL TROED CARBON	86.5	97.89	✓

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

4

CANLYNIAD 4:
GWASANAETH
CWSMERIAID

DYLAI EIN CWSMERIAID
DDISGWYL CAEL
GWASANAETH O'R ANSAWDD
UCHAF GENNYM, BOB TRO.

1.5 MILIWN

NIFER Y CARTREFI A WASANAETHWN

90%

BODDHAD CWSMERIAID BUSNES

98%

O GEISIADAU CYNLLUNIO AR GYFER DATBLYGIADAU
NEWYDD ARFAETHEDIG WEDI'U CEFNOGI

Mae ein dull sicrhau llwyddiant a arweinir gan gwsmeriaid yn rhoi anghenion ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Ymfalchiwn yn fawr yn y gwaith o lunio ein gwasanaethau o amgylch anghenion ein cwsmeriaid — a darparu'r gwasanaeth gorau posibl yw ein blaenoriaeth fwyaf.

Bodddhad Cwsmeriaid

Mae'r Dull Cymell Gwasanaeth (SIM), yn ymchwil a gynhelir gan ein rheoleiddiwr economaidd Ofwat, a gynlluniwyd i annog cwmnïau dŵr ledled Cymru a Lloegr i wella eu gwasanaeth cwsmeriaid, drwy gymharu perfformiad cwmnïau - cyfnewid â chwsmeriaid os oes rhywbeth wedi mynd o'i le, yn ogystal â chwsmeriaid eraill sydd wedi cysylltu â ni am ryw reswm arall.

Ar gyfer yr elfen ansoddol o fesur SIM Ofwat, roedd ein halldro perfformiad yn y pumed safle o blith y 10 Cwmni Dŵr a Charthffosiaeth ar gyfer 2017-18 (2016-17: 5ed) gyda sgôr o 4.47 (o gymharu â chyfartaledd o 4.40 ar gyfer pob cwmni dŵr a charthffosiaeth) yn siomedig. Dioddefodd ein gwasanaeth cwsmeriaid o ganlyniad i doriadau yn y cyflenwad i blatfform meddalwedd allweddol yn ystod un o gyfnodau'r arolwg. Byddwn yn parhau i geisio cyrraedd y targed a sicrhau mai ni yw'r cwmni sy'n perfformio orau o ran gwasanaeth cwsmeriaid. Adlewyrchwyd ein ffocws ar wasanaeth cwsmeriaid hefyd yng Ngwobr Cyllid Cartref Moneywise ar gyfer y Cwmni Dŵr Gorau yn y DU, a ddyfarnwyd ym mis Medi 2017, a roddwyd i Dŵr Cymru am y rheswm canlynol: "readers say the firm offers value for money, good customer service and sends clear and concise bills".

Gwasanaeth i Gwsmeriaid sydd Mewn Perygl

Rydym yn buddsoddi llawer iawn yng nghydnwethedd ein rhwydweithiau i ddiogelu ein cwsmeriaid rhag methiannau'r gwasanaeth. Tybir bod cwsmeriaid sydd wedi gweld eu gwasanaeth yn methu â chyrraedd y targed dro ar ôl tro yn rhai sydd mewn perygl o wynebu methiannau pellach. Rydym yn siomedig bod nifer y cwsmeriaid a gofrestrwyd yn rhai lle mae perygl y byddant yn wynebu methiannau fel carthffosydd yn gorlifo, arogleuon, tarfu ar wasanaethau, a'r cyflenwad dŵr wedi'i afliwio wedi codi i 613 yn 2017-18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (575). Roedd hyn yn bennaf am fod eiddo newydd yn cael eu hychwanegu at y gofrestr fel rhai mewn perygl er gwaethaf ein hymdrechion i ddatrys y problemau a wynebwr gan gwsmeriaid a oedd eisoes ar y rhestr. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol er mwyn lleihau nifer gyffredinol y cwsmeriaid mewn perygl.

Llifogydd

Llifogydd y tu mewn i eiddo cwsmeriaid gyda charthion yw'r methiant gwasanaeth gwaethaf i'n cwsmeriaid — ac rydym wedi ymdrechu'n galed i leihau nifer yr achosion pan fydd ein rhwydwaith yn achosi hyn a gwella ein cymorth i gwsmeriaid pan fydd yn gwneud hynny. O ganlyniad, mae'n galonogol ein bod wedi lleihau nifer y llifogydd mewnol o 242 y llynedd, i 221 eleni, er gwaethaf tywydd anwadd a chyfnodau o law trwm — ac rydym yn benderfynol o adeiladu ar y cynnydd hwn yn 2018/19.

Bodddhad Cwsmeriaid Busnes a Dibreswyl

Mae lefel bodddhad cwsmeriaid busnes a chwsmeriaid dibreswyl eraill wedi parhau'n sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf, er bod y lefel ychydig yn is nag un 2017. Gwnaeth bodddhad cwsmeriaid busnes ostwng i 87.6% (o gymharu â 90.82% y llynedd), a chanran bodddhad cwsmeriaid



Prosiect Cydnheredd Rhondda Fach

Mae prosiect Rhondda Fach yn cynnwys cwsmeriaid mewn penderfyniadau o ddydd i ddydd ynghylch sut y dylem ddarparu gwasanaethau iddynt, mewn ffordd na wnaed o'r bloen — er mwyn gweithio gyda chwsmeriaid ar atebion i heriau gyda'n hasedau ac yn y gymuned. Mae'r prosiect yn gweithio ochr yn ochr â buddsoddiad gwerth £23 miliwn yn ein rhwydwaith dŵr yfed er mwyn sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud o fudd i gwsmeriaid yn yr ardal leol.

Beth rydym am ei gyflawni

Ein huchelgais yw gwella ein gwasanaethau i gwsmeriaid ymhellach, ac ymhlith ein nodau allweddol ar gyfer 2018 mae'r canlynol:

- Cymorth parhaus, drwy dariffau cymdeithasol, i gwsmeriaid sy'n cael trafferth talu eu biliau dŵr
- Cyfanswm o 50 o archwiliadau effeithlonrwydd ynni cartref
- Datblygu ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau yn briodol i gwsmeriaid mewn amgylchiadau anodd
- Creu rhaglenni addysg wedi'u teilwra i gynyddu'r diddordeb mewn materion megis sut mae ein cylchoedd dŵr a dŵr gwastraff yn gweithio a bod yn ymwybodol ohonynt, sut i aros yn ddiogel ar ein safleoedd a sut i ddiogelu'r amgylchedd o'n cwmpas
- Cysoni cynlluniau buddsoddi er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl mewn ardaloedd lle rydym yn gweithio

dibreswyl oedd 87% (2016-17: 89%). Ein bwriad yw gwella lefel boddhad yn y blynyddoedd i ddod, gydag amrywiaeth o wasanaethau gwerth ychwanegol i gwsmeriaid — gan edrych yn benodol ar wasanaethau arbed dŵr megis archwiliadau a thelemetreg, biliau electronig, biliau cyfunol ar gyfer busnesau mwy ar sawl safle, a dull rheoli cyfrifon dynodedig.

Gwasanaethau Datblygwyr

Rydym wedi parhau i ddarparu safon uchel o wasanaeth i'n cwsmeriaid Datblygwyr eleni, gan gefnogi prosiectau tai, prosiectau masnachol a diwydiannol yn ein hardal gyflenwi. Cyrhaeddodd y tîm Gwasanaethau Datblygwyr y safle cyntaf ar gyfer dŵr a'r pedwerydd safle ar gyfer gwasanaethau corthffosiaeth ym mesur Lefelau Gwasanaeth y sector dŵr ar gyfer 2017-18 am wasanaethau i gwsmeriaid Datblygwyr, ac mae wedi cyflawni'r perfformiad gorau mwyaf cyson yn y diwydiant ers i'r cynllun gael ei lansio yn 2015. Bellach rydym hefyd yn ymgynghori statudol yn y broses gynllunio ac wedi cefnogi 98% o'r holl unedau tai a gynhwysir mewn ceisiadau cynllunio.

Cambrian Utilities

Ym mis Ebrill 2017 agorodd y farchnad fonwerthu yn swyddogol yng Nghymru a Lloegr, ac roedd cwsmeriaid yn ein hardal gyflenwi a oedd yn defnyddio mwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn mewn un safle yn gymwys i newid manwerthwr, ond dim ond ar gyfer gwasanaethau dŵr glân.

Sefydlodd Glas Cymru Cambrian Utilities Ltd yn 2016 fel is-gwmni ar wahân i weithredu fel manwerthwr i gwsmeriaid a oedd am newid eu safleoedd yng Nghymru a Lloegr i un manwerthwr. Mae'r is-gwmni hwn yn anweithgar ar hyn o bryd wrth i ni aros i weld sut mae'r farchnad gystadleuol ar gyfer gwasanaethau busnes manwerthu yn datblygu.

Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid

Mae ymddiriedaeth ein cwsmeriaid yn allweddol i ni — a gweledigaeth

gyffredinol y cwmni yw "ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd". Bob blwyddyn rydym yn cynnal arolwg o gwsmeriaid i fesur lefel yr ymddiriedaeth sydd ganddynt ynom.

Eleni, arhosodd lefel yr ymddiriedaeth yn gymharol sefydlog, sef 84% (2016-17: 85%). Mae hyn er gwaethaf blwyddyn heriol ar gyfer digwyddiadau gweithredol — yn enwedig achosion proffil uchel o bibellau'n byrstio yn Aberdâr a Chaerdydd o amgylch y Nadolig a Dydd San Steffan, a'r achosion anodd iawn o darfu ar y gwasanaeth a welwyd yn ein hardal yn dilyn y tywydd oer eithafol ym mis Chwefror a mis Mawrth 2018 yn ystod "Storm Emma".

Cynhyrchodd Storm Emma lefel ddigynsail o gysylltiadau gan gwsmeriaid yn ystod y tywydd rhewllyd iawn a'r cyfnod pan wnaeth yr eira ddadmer wedi hynny — gyda phum gwaith a hanner y nifer gyfartalog ddyddiol arferol o alwadau, bron ddeg gwaith y nifer arferol o gysylltiadau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, bron bedair gwaith y nifer o we-sgyrsiau â'n cynghorwyr a bron chwe gwaith y nifer gyfartalog o drawiadau ar ein gwefan. Mae manylion maint yr ymateb hwn i'w gweld ar dudalennau 20-21. Rhoddodd hyn lower iawn o bwysau ar ein hadnoddau a'n gallu i ymateb i gwsmeriaid yn gyflym, ac rydym yn adolygu hyn er mwyn gweld sut y gallwn wella cydnheredd a chapasiti yn y dyfodol ymhellach i ddelio â digwyddiadau tebyg.

I grynhoi

Ym mis Awst 2017, cydnabuwyd ein Tîm Strategaeth Cwsmeriaid am yr ap symudol adborth cwsmeriaid a ddatblygwyd i'w gwneud yn haws i gwsmeriaid roi adborth gwerthfawr i ni ar ein gwasanaethau. Gellir defnyddio'r ap newydd ar ôl i ymweliad â chwsmer gael ei gwblhau. Cofnododd lefelau boddhad cwsmeriaid o fwy na 90% ac enillodd wob Menter Boddhad Cwsmeriaid y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyflawni'r Diwydiant Dŵr.

4	GWASANAETH CWSMERIAID	2016-17	2017-18	17-18 O GYMHARU Â 16-17
D1	SIM	83	85	✓
D2	GWASANAETH I GWSMERIAID SYDD MEWN PERYGL	575	613	✗
D3	EIDDO LLE BU LLIFOGYDD YN YSTOD Y FLWYDDYN	242	221	✓
D4a	BODDHAD CWSMERIAID BUSNES (%)	90.82	88	✗
D4b	BODDHAD CWSMERIAID DIBRESWYL (%)	89	87	✗
D5	ENNYN YMDDIRIEDAETH CWSMERIAID (%)	85	84	✗

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

5

CANLYNIAD 5: BILIAU FFORDDIADWY

BYDDWN YN SICRHAU BOD
EIN BILIAU'N DEG AC YN
FFORDDIADWY I BOB UN O'N
CWSMERIAID — A BYDDWN YN
CYNNIG CEFNOGAETH I BAWB
SY'N CAEL TRAFFERTH I DALU.

105,000

O GARTREFI INCWM ISEL WEDI'U CEFNOGI GAN
DARIFFAU CYMDEITHASOL

£200

CAP AR FILIAU BLYNYDDOL I GWSMERIAID HELPU

£9.2M

WEDI'I ADENNILL MEWN GWEITHGAREDDAU CASGLU
DYLEDION GAN GWSMERIAID SY'N GALLU Fforddio
TALU, OND SY'N DEWIS PEIDIO Â GWNEUD HYNNY

Mae gennym gyfrifoldeb i gydbwyso buddsoddiad i wella ein gwasanaethau, a chadw biliau ar lefel fforddiadwy er mwyn sicrhau eu bod yn deg i gwsmeriaid. Er ein bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r rhai sydd ag anawsterau ariannol gwirioneddol rydym hefyd yn mynd ar drywydd y rhai sy'n gallu talu eu bil dŵr ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny.

Biliau Fforddiadwy

Yn ein hadolygiad cyffredinol diwethaf o daliadau a godir ar gwsmeriaid, gwnaethom addo y byddem, erbyn 2020, wedi cyflawni degawd o gynnydd yn y bil cartrefi blynyddol cyfartalog a oedd ar gyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) neu'n is na hynny. Byddai hyn yn sicrhau, hyd yn oed ar adegau anodd, y byddai cwsmeriaid yn gwybod bod eu biliau dŵr yn fforddiadwy ac mor isel â phosibl.

Rydym yn falch ein bod wedi cyflawni naw mlynedd yn olynol o gynnydd yn y bil cartrefi cyfartalog sydd o dan gyfradd chwyddiant RPI, ac yn ein cyhoeddiad diweddaraf ym mis Chwefror 2018 gwnaethom gadarnhau cynnydd o 1.8% i fil cyfynol cyfartalog o £439 (2016-17: 0.3%). Mae hyn yn cynnydd o £8 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd ymhlith y cynnydd cyfrannol isaf yn y diwydiant dŵr ledled Cymru a Lloegr.

MAE GENNYM GYFRIFOLDEB I GADW BILIAU AR LEFEL FFORDDIADWY I GWSMERIAID

Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfantais

Mae ein hardal weithredu yn cynnwys cymunedau sydd â rhai o'r lefelau uchaf o amddifadedd yn y DU — felly ar adegau anodd, mae ein cwsmeriaid yn teimlo effaith hyn yn fwy nag eraill.

Dyna pam ein bod wedi rhoi'r fath bwyslais ar gefnogi'r cwsmeriaid hynny sydd wir angen cymorth i dalu eu biliau dŵr. Roedd gennym darged i gefnogi 100,000 neu fwy o'r cwsmeriaid hyn erbyn 2020, ac rydym yn falch o nodi ein bod bellach wedi cyflawni'r trothwy hwnnw ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl — gyda mwy na 105,000 wedi cofrestru ar gyfer ein hystod o dariffau cymdeithasol, a 50,000+ bellach yn cael eu cefnogi gan ein tariff HelpU blaenllaw, sy'n capio biliau cartrefi cymwys i lai na £200 y flwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli lefel cefnogaeth i gartrefi incwm isel nas cyfatebir gan unrhyw gwmni dŵr arall yng Nghymru a Lloegr.

CYMORTH TARIFFAU CYMDEITHASOL



ASTUDIAETH ACHOS

Rydym yn gweithio gydag amrywioeth o sefydliadau i nodi cwsmeriaid a allai gael budd o'n tariffau cymdeithasol a chefnogaeth arall – fel rhan o'n hymrwymiad i helpu'r rhai sydd wir yn cael trafferth i dalu eu biliau.

Cafodd Phyllis Collins, o Bort Talbot, gymorth i gofrestru ar gyfer ein tariff blaenllaw, HelpU, gan Katrina Bradley o Cymru Gynnes, sy'n gweithio gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat er mwyn helpu i sicrhau bod cartrefi'n cael dull gwresogi fforddiadwy ac er mwyn helpu i leddfu tlodi tanwydd.

"Gwnaeth Katrina o Cymru Gynnes fy nghofrestru ar y cynllun a'm helpu i lenwi'r ffurflenni. Roeddwn yn talu £45 y mis ond bellach rwy'n talu £17 y mis sy'n arbed tipyn o arian i mi. Rwy'n ddiolchgar iawn am hyn" - cwsmer HelpU Phyllis Collins, 85 oed

EIN NOD YW CEFNOGI 100,000 O GWSMERIAID SYDD WIR ANGEN CYMORTH I DALU EU BILIAU DŴR

Rydym hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r tariffau cymdeithasol sydd ar gael gennym, gan gynnwys:

- Gweithio gydag oddeutu 187 o sefydliadau cefnogi fel StepChange, Cyngor ar Bopeth, a Banc Bwyd Caerdydd i hyrwyddo'r tariffau i'w defnyddwyr gwasanaeth
- Helpu i hyfforddi cynghorwyr o'r sefydliadau hynny
- Hyrwyddo cefnogaeth amgen fel Watersure Cymru – sy'n rhoi terfyn ar filiau os oes gennych fesurydd dŵr ac os ydych yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau cymwys/credydau treth – a'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid ar gyfer y rhai sy'n wynebu caledi ariannol difrifol
- Ei gwneud yn haws i gwsmeriaid symud i fesurydd dŵr a all arbed arian iddynt

5	BILIAU FFORDDIADWY	2016-17	2017-18	17-18 O GYMHARU Â 16-17
E1	BILIAU FFORDDIADWY (% ISLAW CHWYDDIANT)	-1	-2	✓
E2A	CYMORTH I GWSMERIAID DAN ANFANTAIS	71,167	105,864	✓

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

6

CANLYNIAD 6:
GOFALU AM
EIN HASEDAU

BYDDWN YN BUDDSODDI
YN EIN HASEDAU ER
MWYN GWASANAETHU
CENEDLAETHAU'R DYFODOL

£431 MILIWN

O FUDDSODDIADAU CYFALAF YN 2017-18

172.9

MEGALITR O DDŴR A GOLLWYD O'R RHWYDWAITH
MEWN GOLLYNGIADAU Y LLYNEDD

£23 BILIWN

CYFANSWM GWERTH AMCANGYFRIFEDIG EIN
HOLL ASEDAU

Gyda mwy na 27,500km o bibellau dŵr, a thros 36,000km o garthffosydd, a channoedd o weithfeydd trin dŵr a dŵr gwastraff, mae ein rhwydwaith yn un helaeth — ac yn cynnwys tir mynyddig anodd, cymunedau gwledig prin eu poblogaeth a chanolfannau trefol.

Mae angen buddsoddi llawer iawn o arian yn y rhwydwaith er mwyn ei gynnal. Pe baem yn disodli'r holl seilwaith sydd gennym ar unwaith, byddai'n costio tua £23 biliwn. O ganlyniad, rydym wedi bod yn buddsoddi £213 miliwn yn ein hasedau dŵr, a £197 yn ein hasedau dŵr gwastraff dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ein buddsoddiad cyfalaf yn fwy nag £1 filiwn y dydd, ac mae ein buddsoddiad cyfalaf ar gyfer 2017-18 ar ei uchaf erioed sef mwy na £430 miliwn (2016-17: £366 miliwn).

Mae cynnal ein hasedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn rhan hollbwysig o'n cyfrifoldeb i gwsmeriaid — ac yn un rydym yn ei gymryd o ddifrif.

Defnyddioldeb asedau

Asesir hyn gan nifer o fesurau allweddol er mwyn i Ofwat fonitro'r modd rydym yn buddsoddi yn ei hasedau. Rhoddir sgôr "gwella", "sefydlog", "ymylol", neu "gwaethygu" i gwmnïau. Ar gyfer 2017-18, cawsom sgôr "sefydlog" ar gyfer pob mesur.

Gollyngiadau

Mae lleihau gollyngiadau o'n rhwydwaith yn darged allweddol ar gyfer ein timau Gwasanaethau Dŵr, ac yn un lle mae Ofwat wedi gosod lefelau heriol i ni eu cyflawni. Rydym wedi ymateb i hyn drwy fuddsoddi mewn technoleg newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn canfod ac atgyweirio pibellau sydd wedi byrstio neu sy'n gollwng yn gynt nag erioed o'r blaen. Er enghraifft, rydym wedi dechrau defnyddio dronau i edrych ar ardaloedd lle yr amheuir bod pibell yn gollwng er mwyn dod o hyd iddi yn gynt, ac rydym yn defnyddio systemau monitro a rhybuddio o'r radd flaenaf i ganfod achosion o bibellau'n gollwng o bosibl wrth iddynt ymddangos.

Bu eleni yn flwyddyn heriol o ran digwyddiadau gweithredol ar ein rhwydwaith, a thywydd garw. Er gwaethaf y flwyddyn heriol hon, rydym wedi lleihau faint o ddŵr a gollir o'n rhwydwaith i 172.8 megalitr y dydd — gan gyrraedd ein targed (175.43 2016-17).

Rhoddodd y tywydd eithafol a gafwyd yn ystod "Storm Emma" ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth ein hasedau o dan bwysau sylweddol ychwanegol. Yn ystod y cyfnod cychwynnol o dywydd rhewlyd, roedd yr amodau teithio ar y ffyrdd yn heriol iawn a oedd yn golygu ein bod yn cael mwy o drafferth i gyrraedd a chynnal y pŵer yn ein gweithfeydd trin a'n gorsafoedd pwmpio. Wrth i'r eira ddadmer, gwelsom y galw mwyaf, o gymharu â'r lefelau arferol — gyda chynnydd o 20% yn y galw yn cyfateb i gyfnod parhaus o'r allbwn mwyaf yn ystod yr haf — a phob un o'r 63 o weithfeydd trin

GWAITH TRIN DŴR DOLBENMAEN
YN AGOR YN SWYDDOGOL

Ym mis Mehefin 2017, agorodd Lesley Griffiths A.C., Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cyllunio a Materion Gwledig (yn y llun gyda'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas A.C., Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, a Chris Jones, Prif Weithredwr) Waith Trin Dŵr Dolbenmaen yng Ngwynedd yn swyddogol yn dilyn rhaglen uwchraddio gwerth £28 miliwn er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn Nolbenmaen a'r ardaloedd o'i hamgylch yn parhau i goel cyflenwad dŵr yfed o ansawdd uchel. Mae'r gwaith yn cyflenwi dŵr i 20,000 o bobl yn yr ordal, ac roedd yn rhan o'n hymrwymiaidau cyfalaf gwerth £2 biliwn, sef y swm uchaf erioed, yn y pum mlynedd hyd at 2020.

dŵr yn gweithio ar eu llawn gapasiti drwy gydol y cyfnod. Gwelsom hefyd fwy na 240 o bibellau'n byrstio neu'n gollwng bob dydd ar ein rhwydwaith dŵr ar ôl i'r eira ddadmer, o gymharu â chyfartaledd arferol o tua 75.

Cydnherthedd Asedau (Dŵr)

Mae cydnherthedd hirdymor ein hasedau wedi ei fesur gan Ofwat yn erbyn set o feini prawf sy'n dangos sut maent yn cyflawni ac yn darparu gwasanaeth i'n cwsmeriaid. Fel cwmni, rydym yn buddsoddi tua £213 miliwn yn ein hasedau Gwasanaethau Dŵr er mwyn sicrhau cydnherthedd a pherfformiad gwasanaeth hirdymor — yn enwedig yn ein gwaith trin dŵr ac asedau eraill. Mae hyn yn rhan hynod bwysig o'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer Dŵr Cymru 2050 sy'n ceisio atgyfnerthu cydnherthedd ein hasedau er mwyn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid yn y dyfodol. Fel y cyfryw, mae'n galonogol bod ein sgôr cydnherthedd asedau dŵr wedi parhau'n sefydlog eleni ar 90.4 allan o 100. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad cyffredinol ein gweithfeydd trin dŵr.

Cydnherthedd Asedau (Dŵr Gwastraff)

Gyda 36,000km o garthffosydd ar draws ein hardal weithredu — digon i fynd o Gymru i Dde Cymru Newydd a nôl — a mwy nag 835 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, mae ein rhwydwaith gwasanaethau dŵr gwastraff yn anferth ac o bwys strategol enfawr. Mae Ofwat yn mesur perfformiad a chydnerthedd ciplun o'r rhwydwaith hwn yn erbyn set o feini prawf er mwyn monitro a ydynt yn cyflawni gwasanaethau dibynadwy i gwsmeriaid. Rydym yn falch o nodi bod ein sgôr wedi gwella i 77.5 allan o 100, o gymharu â 73.9 y flwyddyn flaenorol. Mae'r gwelliant yn rhannol o ganlyniad i waith da a wnaed gan ein Tîm Ynni i wella'r cydnherthedd pŵer a'r cynlluniau sydd ar waith ar gyfer digwyddiadau diogelwch neu argyfwng yn ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff a'n gorsafoddd pwmpio carthion.

6	GOFALU AM EIN HASEDAU	2016-17	2017-18	17-18 O GYM HARU Â 16-17
F1	DEFNYDDIOLDEB ASEDAU	SEFYDLOG (X4)	SEFYDLOG (X4)	✓
F2	GOLLYNGIADAU DŴR (ML Y DYDD)	175.4	172.9	✓
F3	CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR)	89.5	90.4	✓
F3	CYDNERTHEDD ASEDAU (DŴR GWASTRAFF)	73.6	77.5	✓

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

7

CANLYNIAD 7:
DATBLYGU AC
AMDDIFFYN
EIN POBL

BYDDWN YN GWARCHOD AC
YN DATBLYGU'R TALENTAU
GORAU AR GYFER Y DYFODOL
— MEWN DIWYLLIANT SY'N
CADW EIN POBL YN DDIOGEL,
YN IACH AC YN HAPUS.

3,435

O GYFLOGEION (AR 31 MAWRTH 2018)

5.8%

EIN BWLCH CYFLOG CYMEDRIG RHWNG Y RHYWIAU

36

O RADDEDIGION A PHRENTISIAID NEWYDD WEDI
YMUNO Â DŴR CYMRU YN 2017-18

80%

SGÔR YMGYSYLLTU Â CHYFLOGEION

Iechyd a Diogelwch

Ein pobl yw ein hasedau mwyaf — a'n cenhadon mwyaf. Felly rydym yn gwerthfawrogi iechyd a diogelwch ein cydweithwyr uwchlaw popeth arall ac yn sicrhau, beth bynnag a wnânt, eu bod yn mynd adref yn ddiogel ar ddiwedd y dydd.

O ganlyniad, rydym wedi canolbwyntio ar feithrin diwylliant lle mae iechyd a diogelwch yn hollbwysig i bob swydd a wnawn. Mae ein timau gweithredol yn cynnal "diwrnodau diogelwch" yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i adolygu arfer gorau ac i wella'r gweithdrefnau ym mhob tîm. Rydym hefyd yn trafod â chydweithwyr i weld sut y gallant fod yn ddiogel dros fisoedd y gaeaf pan fydd yr amodau gweithio yn fwy peryglus, gan weithredu dull "Safety Takes Every Person (STEP)" a'r dull "Take 5" (cymerwch bum munud) i asesu diogelwch pob swydd.

Eleni, rydym yn falch o nodi ein bod wedi cyflawni ein perfformiad gorau ond un erioed o ran anafiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus) — gyda 14 o ddigwyddiadau o'r fath yn ystod y flwyddyn. Mae'n siomedig ein bod wedi cael dau ddigwyddiad yn fwy na'n perfformiad y llynedd (2017:12). Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar atal yr anafiadau mwyaf difrifol hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn fras

Ym mis Gorffennaf, dyfarnwyd Gwobr Aur y Gymdeithas Frenhinol Er Atal Damweiniau (RoSPA) i gydnabod ein perfformiad o ran Iechyd a Diogelwch a'n gwelliannau Taith i Sero. Mae'r gwobrau yn ystyried systemau iechyd galwedigaethol a rheoli diogelwch cyffredinol ymgeiswyr, ochr yn ochr â'u perfformiad yn y pum mlynedd diwethaf.

Cymhwysedd yn y rôl

Rydym hefyd yn ymrwymedig i helpu ein pobl i gyd i dyfu a ffynnu yn eu gyrfa gyda Dŵr Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod gennym weithlu sy'n heneiddio mewn rhai rolau a meysydd, ac mae ein gweledigaeth ar gyfer Dŵr Cymru 2050 yn nodi prawfesur ein gweithlu i ateb yr heriau dros y 30-40 mlynedd nesaf, yn enwedig y bwch sgiliau a nodwyd yn y blynyddoedd i ddod yng Nghymru ar draws rolau allweddol sy'n gysylltiedig â STEM, fel elfen allweddol o'n strategaeth hirdymor.

Felly, rydym yn cynnal adolygiadau rheolaidd ym mhob rhan o'r busnes er mwyn gweld a oes gan y tîm y sgiliau cywir i ateb yr heriau y byddant yn eu hwynebu. Mae ein sgôr gyffredol wedi gostwng i 82% (2017: 87%), a all, yn rhannol, fod o ganlyniad i'r amser y mae'n ei gymryd i hyfforddi dechreuwyr newydd i lefel cymhwysedd ar gyfer eu rôl yn y busnes ac oedi wrth recriwtio hyfforddwr newydd.

Y PRENTIS TRACEY MCGAULEY – CAERFYRDDIN



ASTUDIAETH ACHOS

"Clywais am gynllun prentisiaeth Dŵr Cymru ac roeddwn yn gallu uniaethu ag ef ar unwaith, gan fy mod yn rhywun sy'n hoffi bod yn yr awyr agored ac sy'n mwynhau her dda. Fodd bynnag, heb unrhyw brofiad na gwybodaeth uniongyrchol credais na fyddwn yn ymgeisydd addas ar gyfer y rôl, ond gan fod y posibiladau yn swnio'n gyffrous, fe wnes i barhau i ddarllen am y cwmni a'r rôl ac ymchwilio iddynt. Po fwyaf a ddarllenais, y mwyaf roeddwn yn uniaethu â'r cwmni a doeddwn i ddim yn gallu credu eu model busnes nid er elw – nac ychwaith pa mor gryf oedd eu moeseg a'u pryderon am yr amgylchedd. Roedden nhw'n cyd-fynd â'n ffordd i o feddwl, roeddwn wir yn teimlo fy mod yn gorfod gweithio i'r cwmni hwn a doeddwn i erioed wedi eisiau swydd yn fwy."

Cynwysoldeb

Fel busnes, rydym wedi gweithio'n galetach dros y blynyddoedd diwethaf i ddenu mwy o ferched i weithio yn Dŵr Cymru. Yn draddodiadol, mae mwy o ddynion o lawer wedi gweithio mewn cwmnïau cyfleustodau, ac mae cael cydbwysedd gwell rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn arbennig o heriol mewn rolau gweithredol neu rolau sy'n gysylltiedig â STEM, lle nad yw merched wedi'u cynrychioli'n ddigonol.

Ers 2014-15, rydym wedi cynyddu cyfran y merched sy'n gweithio yma o 27% i 29%, ac roedd 40% o'r bobl newydd a gafodd eu cyflogi gennym yn 2017-18 yn ferched. Rydym hefyd wedi gweithio i deilwra ein proses flynyddol o recriwtio prentisiaid a graddedigion i ddenu mwy o ferched i wneud cais – ac mae cyfran y ceisiadau gan ferched wedi codi i 14% eleni o gymharu ag 8% yn 2014.

Caiff merched sy'n gweithio yn Dŵr Cymru eu cefnogi gan eu cydweithwyr i ffynnu a datblygu eu rolau – ac mae rheolwyr yn mentora cydweithwyr llai profiadol yn eu rolau, ac yn ymweld ag ysgolion lleol i siarad am eu gyrfaedd yn y diwydiant dŵr – gan helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ymuno â'n diwydiant.

Cydnabuwyd Dŵr Cymru gan elusen Chwarae Teg yng Nghymru, sy'n gweithio i ddatblygu cyfleoedd i ferched yn y gweithle, fel Cyflogwr y Flwyddyn yn 2017.

Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau

Rydym yn ymrwymedig i wneud Dŵr Cymru yn weithle cynhwysol i bawb – ac rydym yn gweithio i sicrhau bod merched yn cael pob cyfle i ffynnu yn eu gyrfa gyda ni.

Mae'r adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn dangos y bwlch cyflog a bonysau canolrif a chymedrig cyffredinol rhwng y rhywiau ni waeth beth fo'r rôl na'r hynafedd – ac yn Dŵr Cymru y bwlch canolrif yw 7.5% (Cyfartaledd cenedlaethol: 18.4%) a'r bwlch cymedrig yw 5.8% (Cyfartaledd cenedlaethol: 17.4%). Mae'n bwysig nodi bod hyn yn wahanol i egwyddor cyflog cyfartal – mae pob dyn a menyw yn Dŵr Cymru yn cael cyflog cyfartal am wneud gwaith cyfartal. Er ein bod yn falch o fod gryn dipyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o ran Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau, rydym yn gwbl ymrwymedig i leihau hyn ymhellach nes bod y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau'n diflannu'n llwyr.

Ymgysylltu â Chyflogeion

Er mwyn i Dŵr Cymru fod yn lle gwych a chynhwysol i weithio ynddo, gwyddom fod angen i'r diwylliant gael ei arwain gan ein cydweithwyr sydd eisoes yn gweithio yma. Fel y cyfryw, roedd yn galonogol gweld, yn ein harolwg diwethaf a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, fod ein sgôr ymgysylltu â chyflogeion wedi codi i 80%, sef y ganran uchaf erioed (2016: 77%) ac roedd ein cyfradd ymateb ar ei huchaf erioed hefyd sef 83% (2016: 81%). Cydnabuwyd y cynnydd hwn pan gawsom ein rhoi ar y rhestr fer ar gyfer y Fenter Ymgysylltu â Chyflogeion Orau yng Ngwobrau'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD).

7	DATBLYGU AC AMDDIFFYN EIN POBL	2016-17	2017-18	17-18 O GYM HARU Â 16-17
G1	DIGWYDDIDAU RIDDOR	12	14	✗
G2	CYMHWYSEDD YN Y RÔL	87%	82%	✗

EIN GWAITH — SUT RYDYM YN GWNEUD

8

CANLYNIAD 8: BUSNES EFFEITHLON

BYDDWN YN RHEDEG BUSNES
EFFEITHLON GYDA SAIL
ARIANNOL GADARN ER BUDD
EIN CWSMERIAID.

£300M

DYRODDIAD BONDIAU — MIS IONAWR 2018

A2/A

Y STATWS CREDYD CRYFAF O UNRHYW GYFLEUSTOD
GYDA MOODY'S A STANDARD & POOR'S

£34M

O ELW O FUDDSODDIADAU GWERTH A GYHOEDDWDY
YM MIS MEHEFIN 2017

Rydym yn parhau i fuddsoddi er mwyn gwarchod a gwella'r gwasanaethau hanfodol a ddarparwn ar gyfer y dyfodol. Yn 2017-18, roedd hyn yn fwy na £430 miliwn mewn buddsoddiad cyfalaf — ein buddsoddiad blynyddol mwyaf erioed yn ein hasedau a'n seilwaith ac yn unol â'n cytundeb buddsoddi gwerth £1.95bn (£250m ychwanegol y Rhaglen Gyfalaf) gyda'n rheoleiddiwr, Ofwat, am y cyfnod 2015-2020.

Mae'r perfformiad ariannol eleni wedi bod yn unol â'n disgwyliadau — ac yn cydbwysu ein blaenoriaeth i fuddsoddi yn ein rhwydwaith â chadw biliau'n fforddiadwy i gwsmeriaid.

Gwelliant Parhaus mewn Effeithlonrwydd

Rydym wedi gweithio gyda Capital Alliance Partners yn ystod y cyfnod cynyddol o weithgarwch mewn buddsoddiadau prosiectau cyfalaf, er mwyn sicrhau bod y buddsoddiadau cynyddol hyn wedi cael eu cynnal mor effeithlon â phosibl. Rydym wedi rhannu enillion effeithlonrwydd â'n Partneriaid er mwyn sicrhau buddsoddiad gan bob parti i hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol.

Rydym hefyd wedi parhau i weithredu arbedion effeithlonrwydd gweithredol ar draws y busnes ac wedi nodi gostyngiadau pellach mewn costau yn ein timau gwasanaethau gweithredol a chymorth wrth i ni baratoi ar gyfer y cyfnod buddsoddi rheoleiddiol nesaf, 2020-2025.

RYDYM WEDI BUDDSODDI MWY NA £430 MILIWN

Statws Credyd Cryf

Ers 2001 pan gaffaelodd Glas Cymru Dŵr Cymru, rydym wedi lleihau ein gerio o 93% i 57%, sy'n gyson â pholisi'r Bwrdd o gynnal gerio ar 60% neu ychydig islaw hynny er mwyn cydbwysu ein buddsoddiadau yn y ffordd orau, ein mynediad at fenthyciadau cost isel a'n cydnherthedd ariannol.

Mae ein statws credyd gan yr asiantaethau statws credyd blaenllaw — yn enwedig Moody's (A2) a Standard & Poor's (A) — yn golygu mai ni yw'r cwmni cyfleustodau uchaf o ran statws credyd yn y DU, sy'n sicrhau y gallwn fenthgy arian ar gyfraddau llog isel a buddsoddi gan sicrhau'r gwerth mwyaf i'n cwsmeriaid.

GWAITH GWASTRAFF
BWYD I YNNI, CAERDYDD



Cydrabyddiaeth: Eicon Construction

ASTUDIAETH ACHOS

Fel rhan o strategaeth Dŵr Cymru o fuddsoddi mewn prosiectau masnachol i leihau costau neu sicrhau elw i'w ailfuddsoddi er budd ein cwsmeriaid, cwblhaodd ein his-gwmni newydd, Welsh Water Infrastructure, y gwaith o gaffael hen waith ailgylchu bwyd a threulio anerobig Kelda yn Nhremorfa, Caerdydd, ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r safle yn cyfrannu at lefelau ailgylchu Caerdydd a Bro Morgannwg, a bydd y gwaith o dreulio'r gwastraff bwyd a gesglir gan Gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg yn anerobig yn cynhyrchu trydan a fydd, o'i gyfuno â'r hyn a gynhyrchir ar hyn o bryd yn y gwaith trin, yn bodloni tua hanner cyfanswm gofynion ynni y safle, gan arbed cryn dipyn o gostau gweithredol. O ganlyniad i effaith gyfunol yr hyn a gynhyrchwyd gennym o laid ac o wastraff bwyd yng Nghaerdydd arbedodd y busnes £2.3m mewn costau trydan yn 2017-18 (a dylai'r arbedion costau hyn barhau i godi wrth i'r cynhyrchiant gynyddu).

Llwyddwyd i godi £300 miliwn mewn dyroddiad bondiau sterling ym mis Ionawr 2018 i'n helpu i barhau i fuddsoddi yn ein busnes er budd cwsmeriaid — drwy welliannau i'r gwasanaeth a thrwy fynd i'r afael â heriau hirdymor sy'n ein hwynebu, megis newid yn yr hinsawdd, diogelu adnoddau dŵr, a heriau gwasanaethau poblogaeth sy'n heneiddio ac yn tyfu. Mae ein statws credyd cryf yn sicrhau y gallwn gael arian i'w fuddsoddi ar gyfraddau llog a arweinir gan y sector, ond gan gadw biliau cwsmeriaid mor isel â phosibl.

Yn fras

Un o'n cyfrifoldebau yw sicrhau ein bod yn cydbwysu cymorth i'r rhai sydd angen help i dalu eu biliau, â mynd ar drywydd y rhai sydd wir yn gallu talu, ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny. Mae ein Tîm Ymglyfreitha yn allweddol i hyn — a chafodd gwaith y tîm ei gydnabod pan enwyd Leon Hughes yn Rheolwr Cefnogi y Flwyddyn yng Ngwobrau Canolfannau Cyswllt Cymru. Yn ystod 2017-18, gwnaeth y tîm ymdrin â mwy nag 20,000 o gyfrifon ymglyfreitha gan helpu i adennill mwy nag £16 miliwn mewn reffeniw.



Leon Hughes

8	BUSNES EFFEITHLON	2016-17	2017-18	17-18 O GYMHARU Â 16-17
H1	EFFEITHLONRWYDD CYLLID (STATWS CREDYD)	A/A2/A	A/A2/A	✓

EIN POBL

EIN CYFARWYDDWYR



1

JOANNE KENRICK
CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

2

MENNA RICHARDS
UWCH
GYFARWYDDWR
ANNIBYNNOL

3

**YR ATHRO TOM
CRICK**
CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

4

**ALASTAIR LYONS
CBE**
CADEIRYDD

5

CHRIS JONES
PRIF WEITHREDWR



BYWGRAFFIADAU LLAWN TUDALENNAU 54-56

6

ANNA WALKER CBE
CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

7

JOHN WARREN
CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

8

GRAHAM EDWARDS
CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

9

PETER BRIDGEWATER
CYFARWYDDWR
CYLLID A
MASNACHOL

10

PETER PERRY
RHEOLWR
GYFARWYDDWR

EIN GWAITH

EIN RHEOLEIDDWYR A'N RHANDDEILIAID ALLWEDDOL

Mae'r diwydiant dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr wedi ei reoleiddio mewn tri maes allweddol, sef: ariannol ac economaidd, amgylcheddol ac ansawdd dŵr. Mae'r rheoleiddwyr hyn yn ceisio diogelu defnyddwyr a'r amgylchedd ac yn monitro perfformiad pob cwmni yn ofalus.

Rydym bob amser yn ceisio cynnal cydberthnasau da â'r cyrff rheoleiddio hyn er mwyn helpu i lunio rhaglenni buddsoddi cytbwys sy'n diwallu anghenion pob cwsmer a rhanddeiliad.

Gellir gweld copïau o'r adroddiadau hyn a gyhoeddwyd gan y rheoleiddwyr hyn ar berfformiad Dŵr Cymru ar ein gwefan dwrcymru.com neu ar wefan y rheoleiddwr perthnasol.

Ofwat

Ofwat

Caiiff Dŵr Cymru ei reoleiddio, ar faterion economaidd, gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat), sy'n rheoleiddio pob darparwr dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Pennir terfynau ynghylch taliadau dŵr a dŵr gwastraff a godir ar gylch pum mlynedd gan Ofwat, wedi eu llywio gan y cyd-destun polisi a bennir gan Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr eraill.

ofwat.gov.uk



Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Y rheoleiddwr annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith.

hse.gov.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Mae'n gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus i Gymru, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth ar faterion dŵr, carthffosiaeth a materion amgylcheddol.

llyw.cymru



Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Yr adran sy'n gyfrifol am fewnbwn Llywodraeth y DU i'r protocol polisi dŵr a charthffosiaeth â Llywodraeth Cymru.

defra.org.uk



Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed

Caiiff ansawdd dŵr yfed ei reoleiddio a'i fonitro gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.

dwi.gov.uk



Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Corff annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid o ran pris, gwasanaeth a gwerth am arian. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion cwsmeriaid ynglŷn ag ansawdd dŵr.

ccwater.org.uk



Y Cynllun Unioni Dŵr (WATRS)

Y dyfarnwr annibynnol ar gyfer anghydfodau rhwng cwsmeriaid a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth Cymru a Lloegr.

watrs.org



Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Awdurdod annibynnol y DU a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hyrwyddo gonestrwydd ymhlith cyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion.

ico.org.uk



Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Caiiff ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig y ffordd rydym yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr ac yna'n gollwng dŵr gwastraff ar ôl iddo gael ei lanhau, ei reoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Maent yn goruchwyllo'r ffordd rydym yn rheoli safleoedd dynodedig mewn perthynas â chadwraeth natur a sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol.

cyfoethnaturiol.cymru

gov.uk/government/organisations/environment-agency



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Comisiynydd y Gymraeg

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyflwyno ein hadroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth i swyddfa'r Comisiynydd gan nodi sut rydym wedi cydymffurfio â darporiaethau ein Cynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid.

comisiynyddygymraeg.cymru/cymraeg

EIN DULL O REOLI RISG

Mae pob cydweithiwr yn chwarae ei ran er mwyn sicrhau y rheolir risg yn effeithiol, sy'n hanfodol er mwyn ategu proses gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r sefydliad, ac yn y pen draw sicrhau llwyddiant hirdymor y busnes.

EIN PROSES

- Mae ein systemau rheolaeth fewnol wedi'u cynllunio i nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sy'n effeithio ar y busnes. Caiff y systemau rheolaeth fewnol hyn eu hystyried a'u monitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio.
- Mae nodi risgiau a newidiadau wrth asesu risgiau yn golygu bod y Bwrdd yn gallu cynnal ei asesiad hyddysg ei hun o'r prif risgiau sy'n wynebu'r cwmni a gweithio gyda'r Tîm Gweithredol i gytuno ar y modd y mae'r Grŵp yn goddef risgiau yn y meysydd allweddol hyn yn rheolaidd.
- Yna caiff yr asesiad hwn ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd, gan gynnwys penderfyniadau yn ymwneud â'n rhaglen fuddsoddi. Mae pob papur diweddar strategol a gyflwynir i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn cynnwys adroddiad risg a lle mae risgiau'n nodi'r angen am fesurau lliniaru pellach, bydd yn cynnwys cynlluniau gweithredu gydag amserlenni cytûn er mwyn tracio cynnydd.

EIN DULL O REOLI RISG

- Mae timau unigol o fewn y busnes yn cymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Mae pob uned fusnes yn bwydo i mewn i system rheoli risg "'o'r bôn i'r brig", gan uwchgyfeirio risgiau drwy ein strwythur llywodraethu o bwyllgorau a chyfarfodydd tîm. Trafodir risgiau a gofnodir drwy'r broses honno yn ystod trafodaeth sy'n fwy "'o'r brig i lawr" ynghylch risg bob mis mewn cyfarfod o'r tîm Gweithredol.
- Adolygir y wybodaeth ddiweddaraf gan y Tîm Gweithredol am risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad manwl o risgiau strategol ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn asesu lefel bresennol pob risg a'r lefel darged.
- Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg ac mae'n atebol i'r Bwrdd am ddigonolrwydd rheolaethau mewnol.
- Mae'r dull hwn o reoli risg o'r bôn i'r brig ac o'r brig i lawr yn rhoi sicrwydd bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol gan y busnes, ac yn nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymryd camau lliniaru pellach.

TAIR LLINELL AMDDIFFYN

Byddwn yn defnyddio model y "Tair Llinell Amddiffyn" i liniaru'r risg o fethu â chydymffurfio â'n prosesau a'n polisiau:

1. Y llinell amddiffyn gyntaf yw cymryd perchenogaeth o risg a rheoli risg. Cyflawnir hyn gan ein timau gweithredol a'n rheolwyr.
2. Yr ail linell amddiffyn yw rheoli risg. Cyflawnir hyn gan ein tîm cydymffurfiaeth a phwyllgorau mewnol.
3. Y drydedd linell amddiffyn yw prosesau adolygu a goruchwyllo annibynnol. Cyflawnir hyn gan Archwilwyr Mewnol ac Allanol, gan gynnwys ein cyngorydd technegol ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group).

RISGIAU ALLWEDDOL A WYNEBIR GAN Y GRŴP

Mae'r dadansoddiad isod yn canolbwyntio ar y risgiau hynny a fyddai'n peryglu perfformiad, solfedd neu hylifedd y cwmni yn y dyfodol. Nid yw'r risgiau wedi eu gosod yn nhrefn pwysigrwydd na difrifoldeb.

Risg allweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Digwyddiad Mawr yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch	Mae iechyd a diogelwch ein cyflogeion a'r cyhoedd wrth ddarparu ein gwasanaethau ac ar ein safleoedd yn flaenoriaeth bwysig iawn ni. Mae risgiau yn cynnwys y posibilrwydd o ddamwain i aelod o'r cyhoedd neu farwolaeth, ar un o'n safleoedd neu o ganlyniad i'n gweithredoedd, neu i gyflogai wrth gyflawni ei ddyletswyddau. Rydym yn gyfrifol am iechyd a diogelwch tua 6,000 o gydweithwyr a phartneriaid. Mae diogelwch yn fater difrifol iawn i ni oherwydd, ar gyfartaledd, mae un farwolaeth y flwyddyn yn y sector a achosir gan ddamweiniau. Yn ystod cyfnod o weithgarwch prosiectau cyfalaf dwys, rydym yn ymwybodol iawn o'r risgiau posibl ac wedi cynyddu'r ffocws ar iechyd, diogelwch a llesiant, gan weithio gyda'n cynghair o bartneriaid.	- Polisiau iechyd a diogelwch clir a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. - Rydym yn dilyn arfer gorau'r diwydiant ac yn adolygu ein hamserlenni hyfforddi yn rheolaidd. - Ffocws parhaus ar ddiogelwch ymddygiadol ac adrodd yn gadarnhaol ar ymyriadau. - Cyfathrebu'n rheolaidd â phob rhan o'r busnes. - Adolygu ein system gweithio ar eich pen eich hun a chydymffurfio'n well â pholisi. - Adolygu gwersi a ddysgwyd o achosion mewn rhannau eraill o'r sector.	Ni fu unrhyw symudiad yn ystod y cyfnod.	
Digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd	Gallai problem barhaus ag ansawdd dŵr yfed gael effaith sylweddol ar iechyd a lles ein cwsmeriaid. Byddai angen hysbysiad ynghylch berwi dŵr dros ardal eang a gallai arwain at achos erlyn proffil uchel. Gallai digwyddiad o'r fath gael ei achosi gan fethiant osed, risg mewn dalgylch nas rhagwelwyd, neu ddifrod bwriadol. Rydym yn ceisio gwneud popeth posibl i leihau'r potensial am ddigwyddiad iechyd y cyhoedd ar raddfa fawr. Yn dilyn achos o cryptosporidiwm yn 2005 rydym wedi atgyfnerthu ein hasedau trin dŵr yn sylweddol a'n gallu i reoli ansawdd dŵr. Yn gyffredinol, rydym mewn sefyllfa dda i osgoi'r potensial am ddigwyddiad mawr o ganlyniad i welliant yn y 10 mlynedd diwethaf, fodd bynnag, mae ffocws cyson ar barhau i wella er mwyn gwella perfformiad a lliniaru risg.	- ISO9001 Gweithdrefnau Gweithredu Achrededig a chyfleusterau cau mewn argyfwng. - Strategaeth Cryptosporidiwm ac astudiaeth academiaidd gysylltiedig. - Rhaglen Arolygu Rheoliadau Dŵr. - Adrodd yn ddyddiol ar ansawdd i Reolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr, Pennaeth Ansawdd Dŵr a Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru.	Ni fu unrhyw symudiad yn ystod y cyfnod.	
Methiant i gyflawni lefelau perfformiad gofynnol ac orbedion effeithlonrwydd yn ystod y cyfnod 2015-2020	Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Gallai dirywiad parhaus mewn perfformiad arwain at golli hyder cwsmeriaid, amharu ar ein henw da ymhlith rhanddeiliaid ac at gamau rheoleiddio (gan gynnwys cosbau perfformiad cymhellion cyflawni canlyniadau (ODI)). Ein nod yw sicrhau'r lefelau gorau posibl o wasanaeth ac ansawdd i'n cwsmeriaid a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae perfformiad yn erbyn mesurau cwsmeriaid a lefel gwasanaeth yn bwysig iawn o ran ein henw da ymhlith cwsmeriaid, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill.	- Strategaeth asesu arloesol a blaenoriaethu buddsoddiad Astudiaethau Porthol - Strategaeth Cydymffurfio o ran Haearn - Strategaethau gwella Ansawdd Dŵr Glân a Dŵr Gwastraff o ran Perfformiad Cwsmeriaid ac Ansawdd - Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf AMP 6	Yn dilyn cyfnod sych estynedig yn ystod rhan gyntaf yr haf, gwelwyd cynnydd o 20% yn y cyflenwad dŵr. Arweiniodd hyn at fwy o achosion o ddŵr wedi'i afliwio a chysylltiadau a chwynion priodol. Wynebodd y timau gweithredol nifer ddigynsail o ddigwyddiadau ar ein rhwydwaith dŵr glân o ganlyniad i'r tywydd eithafol o rew/eira'n dadmer ar ddechrau mis Mawrth. Effeithiodd hyn ar nifer y cysylltiadau o ran gollyngiadau a dŵr wedi'i afliwio o ganlyniad i fwy o ddŵr yn y cyflenwad yn symud gwaddodion mewn pibellau.	

Risg ollweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Methiant Asedau Strategol	Methiant argae, gwaith trin neu ddigwyddiad yn ymwneud â llifogydd gyda pherygl i fywyd. Fel arall, achos llai difrifol (ond arwyddocaol o hyd) a phosibl o waith yn methu gyda'r posibilrwydd y byddai miloedd o gwsmeriaid yn colli cyflenwad.	– Rhaglen Monitro Diogelwch Argae Cronfa Ddŵr / Adroddiad Diogelwch Cronfa Ddŵr Blynnyddol i'r Bwrdd ac asesu risgiau portffolio. – Seilwaith Cenedlaethol Critigol a Chyfarwydddeb Mesurau Brys Diogelwch Gweithdrefnau a Buddsoddiad (gwrthderfysgaeth). – Gweithdrefnau Cynllunio mewn Argyfwng, gan gynnwys rhaglen ymarfer efelychu flynyddol. – Cymorth wrth gefn 24/7 gyda chontractwyr arbenigol cymwys. – Buddsoddiad cyfalaf â blaenoriaeth (gyda ffocws ar gynyddu cydnheredd) a gwaith cynnal a chadw gweithredol.	Gwnaethom gwblhau cam cyntaf ein cynllun atgyweirio a gwella pibellau mewn argaeau yr haf diwethaf, ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn ystod yr haf.	
Methu â chyflawni cynllun effeithlonrwydd AMP6, gan gynnwys Manwerthu	Y risg na fydd y cwmni yn gallu cyflawni ei ostyngiadau o ran costau Cyfanwerthu a Manwerthu dros y ddwy flynedd nesaf i gyflawni'r gyllideb costau a'r lwfansau referiwn gostyngol. Mae'r risg yn fwy mewn Manwerthu lle gallai methiant i gyflawni cost-effeithlonrwydd (yn benodol lleihau drwgddyledion ac arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaeth cwsmeriaid) arwain at fusnes manwerthu yn colli arian.	– Cynlluniau lleihau costau AMP6 yn cael eu rhoi ar waith – Strategaeth lleihau drwgddyledion ar waith ac yn dangos cynnydd	– Drwgddyledion ar y trywydd iawn i gael eu lleihau i £19m erbyn 2020. – Wedi rhagori ar y targed o ran nifer y cwsmeriaid ar Dariffau Cymdeithasol a bydd hyn hefyd yn helpu o ran drwgddyledion. – Rydym yn dechrau cyfres arall o ostyngiadau o ran costau mewn timau gweithredol a thimau gwasanaethau cymorth i baratoi ar gyfer AMP7.	
Colli talent, gallu a chymhwysedd ollweddol	Mae'r gwelliant diweddar yn yr economi a buddsoddi mewn diwydiannau lle rydym yn cystadlu am lafur yn cynnig risg newydd i'n gallu i ddenu a chadw cyflogaion sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd sydd eu hangen arnom. Rydym hefyd yn wynebu'r risg y gallai unigolion ollweddol gael eu targedu gan gwmnïau dŵr eraill.	– Dadansoddiad o wraidd y broblem o ran trosiant er mwyn sicrhau bod strategaethau'n mynd i'r afael â phroblemau go iawn ac nid rhai canfyddedig – Ymgych Cynllun Adnoddau pum mlynedd treigl sy'n nodi risgiau ac amseriad recriwtio – Parhau i gyflogi'r nifer flynyddol o brentisiaid a graddediogion ond atgyfnerthu'r ffaith bod angen i hyfforddeion llwyddiannus fod yn barod i fod yn hyblyg yn ddogaeryddol. – Cynlluniau datblygu a chadw i reolwyr ollweddol a chyflogaion addawol a nodwyd	Yn ystod y flwyddyn wynebwyd sawl her o ran cadw staff. Fodd bynnag, mae lefelau trosiant cyflogaion yn dal i fod yn llai na 10%. Rydym yn parhau i fod yn rhagweithiol a gweithredu strategaethau ataliol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i allu denu a chadw trydanwyr, technegwyr offerynnau, peirianwyr, arbenigwyr caffael a'n gallu o ran dadansoddi data.	
Risg TGCh	Mae colli gwasanaeth TGCh ar raddfa fawr yn peryglu perfformiad busnes, tra bod sawl cynllun gwella busnes yn dibynnu ar systemau TGCh newydd. Yn seiliedig ar brofiad yn y gorffennol gallwn gael 1 neu 2 o doriadau mawr yn y system bob blwyddyn. Mae'r rhain wedi tueddu i gael eu datrys o fewn 'oriau' ac ond yn tarfu am gyfnod byr iawn. Rydym yn effro i'r bygythiadau newidol i Seiberddiogelwch ac yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o wella ein mesurau amddiffyn drwy raglenni gwelliant parhaus.	Bu bygythiadau cynyddol i'r sector yn gyffredinol eleni ac mae ein tîm Diogelwch Gwybodaeth yn parhau i gysylltu â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ac awdurdodau eraill o ran bygythiadau newydd. Grŵp Llywio Diogelwch Gwybodaeth. – Mae'r Bwrdd Systemau a Newid yn rheoli'r rhaglen buddsoddi systemau mawr. – Cyflawnwyd Cyber Essentials Plus yn gynnar ym mis Mehefin 2017. – Buddsoddiad parhaus mewn systemau a monitro rhagweithiol.	Yn ystod y flwyddyn rydym wedi uwchraddio rhaglenni byw SAP sydd wedi arwain at rai problemau o ran perfformiad. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae ein systemau a'n prosesau yn parhau i fod yn gadarn. Bu nifer gynyddol o fygythiadau allanol a risgiau canfyddedig ar draws y sector yn ystod 2017-18.	

Risg allweddol a'i difrifoldeb	Effaith bosibl	Lliniaru	Newidiadau dros y cyfnod	Tueddiadau o gymharu â'r llynedd
Setliad rheoleiddio anodd i AMP7	Mae'r adolygiad rheoleiddiol cyfredol o brisiau i bennu buddsoddiadau a phrisiau ar gyfer 2020-25 yn mynd rhagddi yn erbyn cefndir o amgylchedd gwleidyddol cymhleth. Mae Ofwat wedi mynegi barn yn gynnar gan ddweud y bydd cost lefelau cyfalaf ar gyfer y cyfnod nesaf yn llai o lawer, ac mae ei Chadeirydd wedi sôn am "putting the sector back in balance" (ymgynghoriad Ofwat ar newidiadau i Fethodoleg PR19 - mis Mai 2018). Er nad yw llawer o'r materion llywodraethu a godir gan Ofwat yn uniongyrchol gymwys i Dŵr Cymru, mae pryder y gallai dull cyffredinol o reoleiddio'r sector arwain at ganlyniadau annisgwyl i Dŵr Cymru.	Ymgysylltu'n helaeth â chwsmeriaid er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i'n Cynllun Busnes drafft; Gwaith manwl er mwyn sicrhau bod methodoleg Ofwat yn cael ei deall yn iawn a bod ei phryderon yn cael eu trafod yn ein Cynllun Busnes drafft	Beirniadaeth wleidyddol ddwysach o'r enillion a wnaed yn y sector; Ansicrwydd gwleidyddol yn y cyfnod cyn Brexit.	
Ansicrwydd yn dilyn Brexit	Anwadalrwydd gwleidyddol ac ariannol yn y farchnad cyn, ac yn dilyn penderfyniad y DU i adael yr UE, gan arwain at bwysau ariannol posibl. Gallai dirwasgiad gynyddu drwgddyddion, a gallai dibrisio sterling effeithio ar referniw a thaliadau llog, a gall costau pŵer cynyddol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â doler yr Unol Daleithiau ar ôl Brexit olygu bod sicrhau cyllid newydd gan fanciau yn fwy anodd neu'n ddrutach. Rhwymedigaethau amgylcheddol: Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid arwyddocaol i'r rheoliadau caeth sy'n deillio o Gyfarwydddebau'r UE e.e. Cyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos, er ei bod yn ymrwymedig i'r egwyddorion sy'n sail i'r rhan fwyaf o Gyfarwydddebau e.e. Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, gall ystyried newidiadau i reoliadau sy'n sicrhau canlyniadau amgylcheddol gwell.	Mae 90% o'r gofynion pŵer am y tair blynedd nesaf yn fras eisoes wedi'u pennu neu eu rhagfantoli. Mae ein £3.6 biliwn o ddyddion wedi'u rhagmantoli'n llawn mewn cyfraddau llog sefydlog (30%) neu gyfraddau a fynegeiwyd yn ôl RPI (70%). Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ystyried newidiadau rheoleiddio amgylcheddol a fydd yn angenrheidiol yn dilyn Brexit.	Er i rywfaint o gynnydd gael ei wneud yn y cyd-drafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, erys ansicrwydd ynghylch cytundebau masnachu yn y dyfodol. Gall hyn arwain at ddirwasgiad economaidd a dibrisio sterling ymhellach. Gwnaethom sicrhau'r cyllid mwyaf posibl gydag EIB yn 2016-17 ac eleni rydym wedi dyroddi bond gwerth £300m a fydd yn sicrhau cyllid ar gyfer buddsoddiad AMP7. Rydym yn parhau i elwa ar y statws credyd uchaf yn y sector, sy'n lleihau ein cost benthyca.	Cyflwynir adroddiad yn erbyn y risg hon am y tro cyntaf yn 2017-18, er i adroddiadau ar risg ariannu yn y dyfodol a chydberthnasau â buddsoddwyr gael eu cyflwyno fel risg yn 2016-17.
Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid	Methiant i ennyn a chynnal ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid gan arwain at fethiant i gyflawni ein hamcan corfforaethol, niwed i'n henw da, costau gwasanaeth cwsmeriaid ychwanegol, niwed i gydberthnasau â rheoleiddwyr/llywodraeth a morâl yn gostwng ymhlith cyflogeion. Mae cysylltiad annatod rhwng y risg hon a llawer o'r risgiau eraill a nodwyd. Mae gennym enw da cryf a chadarnhaol a lefelau uchel o ymddiriedaeth ymhlith ein cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae ymddiriedaeth yn seiliedig ar ganfyddiad cwsmeriaid o wasanaeth da a gwerth am arian a bod yn gyfarwydd â'r cwmni. Mae Dŵr Cymru yn parhau i berfformio'n gadarn o ran ymddiriedaeth cwsmeriaid a oseswyd, er gwaethaf y ffocws gwleidyddol parhaus ar ailwladoli'r sector, modelau perchenogaeth a pholisïau difidend, ac effaith Storm Emma. Cododd ein hymgyrch proffil ymwybyddiaeth o statws nid er cyfranddalwyr o 31% i 56% a chyflawnodd gynnydd cadarn o ran amgyffred o ymddiriedaeth a gwerth am arian. Bydd sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data o fis Mai 2018 hefyd yn hanfodol i gynnal a meithrin ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Rydym yn llunio cynllun prosiect er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'n systemau a'n prosesau ac er mwyn sicrhau newid mewn diwylliant i wella'r camau diogelu sydd ar waith ac i sicrhau bod ein data cwsmeriaid yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch.	Cyflwyno Llwyddiant a arweinir gan Gwsmeriaid ym mhob rhan o'r busnes. — Ymgyrchoedd codi proffil ac ymddygiad cwsmeriaid — Y Grŵp Herio Cwsmeriaid — Cynllun Ymgysylltu â Chwsmeriaid ac Ymchwil AMP6 uchelgeisiol — Rhaglen Llwyddiant a arweinir gan Gwsmeriaid (gan gynnwys Pwyntiau Poen) i sicrhau gwelliannau mewn gwasanaeth — Gweithio gyda'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmeriaid — Camau pellach i wella sgoriau Ymgysylltu â Chyflogeion. — Rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgysylltu gwleidyddol barhaus		

NODYN AR ANGHYDFODAU SYLWEDDOL A ALLAI EFFEITHIO AR Y CWMNI

TATA STEEL

Yn ystod y flwyddyn bu'r anghydfod hirsefydlog â Tata Steel mewn perthynas â phrisio cyflenwadau dŵr diwydiannol ar ei safleoedd o fewn ein hardal gyflenwi yn destun setliad terfynol cyfrinachol ar delerau boddhaol ac nid yw'r swm dan sylw yn berthnasol i'r Adroddiad a Chyfrifon hwn.

DWYN ACHOS AM DORRI CYFRAITH EWROPEAIDD MEWN PERTHYNAS AG ABER AFON LLWCHWR

Ym mis Mawrth 2014, hysbyswyd Llywodraeth y DU am achos o dorri cyfraith Ewropeaidd a oedd ar fin digwydd, a oedd yn honni bod y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol wedi cael ei thorri o amgylch y DU, gan gynnwys rhannau o Aber Afon Lluchwr a dalgylchoedd Tre-gŵyr a Llanelli. Mae rhaglen fuddsoddi yn mynd rhagddi yn yr ardal, yn enwedig o ran systemau draenio trefol cynaliadwy, a groesawyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ac a gaiff ei chwblhau erbyn diwedd 2020. Er gwaethaf y buddsoddiad parhaus hwn, ym mis Mai 2017 cyhoeddodd Llys Cyfiawnder y Cymunedau Ewropeaidd ei ddyfarniad yn yr achos yn erbyn y DU mewn perthynas â safleoedd lluosog gan gynnwys Llanelli a Thre-gŵyr, a ganfu fod y DU wedi methu â chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb erbyn y dyddiad gofynnol sef mis Medi 2014. Nid yw'n glir eto a fydd y rhaglen fuddsoddi yn dderbyniol i'r Comisiwn.

HAWLIADAU O DAN REOLIADAU GWYBODAETH AMGYLCHEDDOL 2001 (EIR)

Hysbyswyd y cwmni yn 2017 am hawliadau posibl o dan yr EIR yn ymwneud â thaliadau a godwyd o'r blaen ar gyfer chwiliadau draenio a dŵr a gynhaliwyd ers 2004, a ddylai fod wedi cael eu darparu am ddim yn ei farn ef. Rydym wedi parhau i fonitro gohebiaeth mewn perthynas â'r hawliadau hyn. Hyd yma, nid oes fawr ddim manylion wedi eu rhoi mewn perthynas â'r hawliadau ac mae'r cwantwm posibl a hawlir yn aneglur. Rydym yn bwriadu amddiffyn yr hawliadau, nad oes disgwyl i'r cwantwm sy'n gysylltiedig â nhw fod yn berthnasol yng nghyd-destun yr Adroddiad a'r Cyfrifon.

DATGANIAD AM HYFYWEDD HIRDYMOR

Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd. Mae angen i'n cwsmeriaid wybod y gallant ddibynnu ar y gwasanaethau a ddarparwn yn yr hirdymor. Mae sicrhau cydnerthedd hirdymor ein busnes, gan gynnwys cydnerthedd ariannol, yn faes ffocws allweddol felly i ni.

Gan nad oes gennym gyfranddalwyr (a allai ddarparu cydraddoldeb yn achos anhawster ariannol), mae cynnal mynediad parod i ddyledion cost isel yn rhan allweddol o'n model perchenogaeth nid er cyfranddalwyr. Yna caiff buddiannau'r cyllid cost isel hwn eu trosglwyddo i gwsmeriaid ar ffurf biliau is.

Pan sefydlwyd y strwythur perchenogaeth o dan Glas Cymru yn 2001, canolbwynt y strategaeth cydnerthedd ariannol hon oedd lleihau ein gerio. Mae gerio ychydig yn is na tharged y Bwrdd o 60% ar hyn o bryd ac mae'r gostyngiad hwn mewn gerio wedi creu swm cadarn o gronfeydd ariannol wrth gefn (sydd bellach yn £2.4bn).

Er nad ydym yn gwmni rhestredig, rydym yn dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU gymaint â phosibl ar gyfer cwmni cyfyngedig drwy warant.

EIN DULL O YSTYRIED HYFYWEDD A RISG

Mae ystyriaeth y Bwrdd o hyfywedd hirdymor y Grŵp wedi'i hymgorffori yn ein proses cynllunio busnes; mae hyn yn cynnwys rheolaethau rheoli risg cadarn, rhagamcanion ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd, yn ogystal ag adolygiadau cyllidbol rheolaidd. Mae'r broses hon wedi'i hategu gan ddiwylliant o gymorth a her sy'n llifo o'n ffin arwain i bob agwedd ar ein gweithrediadau. Eleni rydym wedi ailystyried y cyfnod priodol y dylid adrodd am hyfywedd ynddo: Rydym o'r farn mai cyfnod o hyd at ddeuddeg mlynedd yw'r cyfnod mwyaf addas i'r Bwrdd asesu rhagolygon y Grŵp. Mae o fewn y cyfnod a gwmpesir gan ein proses gyfredol o gynllunio busnes ac yn cwmpasu'r ddau gyfnod nesaf o adolygiad rheoleiddio, hyd at 2030. Rydym wedi egluro ein rheolaethau cyfredol o ran prisiau rheoleiddio hyd at 2020, yn datblygu cynlluniau manwl ar gyfer y cyfnod rheoleiddio nesaf (AMP7) hyd at 2025, ac rydym hefyd yn datblygu cynlluniau amlinellol ar gyfer y cyfnod canlynol (AMP8) hyd at 2030 yng nghyd-destun ein dogfen cynllunio strategol "Dŵr Cymru 2050".

Nodir y prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp (a sut rydym yn eu lliniaru) ar dudalennau 44 i 46 mewn perthynas â'n gallu i gyflawni ein hamcanion strategol. Caiff risgiau eu nodi a'u hasesu drwy gylch parhaus o adrodd ac adolygu o'r bôn i'r brig ac adborth o'r brig i lawr a sganio'r gorwel. Rydym yn derbyn bod croesawu a rheoli risg yn rhan angenrheidiol o gynnal busnes, ac mae ein proses o reoli risg yn anelu at gasglu rhychwant o risg o risg gynhenid i risg sy'n dod i'r golwg, ac ymhob maes busnes.

Mae'r Bwrdd wedi dadansoddi effeithlonrwydd a chadernid ei fframwaith rheoli o ran rheoli achosion a goblygiadau tebygol pob risg, ac mae wedi adolygu tybiaethau a chynlluniau wrth gefn y Grŵp. Mae'r Bwrdd wedi trafod effaith ariannol bosibl y prif risgiau hyn a'r effaith o ran enw da'r cwmni yn erbyn gallu'r Grŵp i gyflawni ei gynllun busnes 2018, sy'n cael ei baratoi i'w gyflwyno i Ofwat mewn perthynas â rheoli prisiau PR19 ac sy'n bennaf yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2018 a diwedd y cyfnod adolygu rheoleiddiol nesaf (AMP7) ym mis Mawrth 2025, gyda rhagolygon ariannol yn ymestyn i 2035. Er i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer AMP9 (hyd at 2035) rydym yn ystyried bod maint yr ansicrwydd gan edrych y tu hwnt i'r ddau adolygiad rheoleiddiol cronnol yn gwneud cynlluniau o'r fath yn anoddas ar gyfer ein hadolygiad o hyfywedd a risg. Felly, rydym wedi defnyddio ein cynlluniau a'n rhagolygon hyd at 2030 ar gyfer yr adolygiad hwn.

Rydym wedi straen-brofi rhagolygon ein cynllun busnes hyd at 2030 yn erbyn senarios ariannol gwahanol sy'n cynnwys effaith amcangyfrifedig pob un o'r prif risgiau a'r ansicrwydd yn digwydd, yn unigol ac ar y cyd yn seiliedig ar asesiad y Bwrdd o'u tebygolrwydd a'u difrifoldeb. Rydym hefyd wedi cyfuno'r effaith a ragwelir â senarios chwyddiant uchel ac isel yn ystod y cyfnod (5% a 0% yn y drefn honno). Yn ogystal, rydym wedi defnyddio pwysau costau cyffredinol o ostyngiad o 10% mewn reffeniw ym mhob blwyddyn a gorwariant o 10% ym mhob blwyddyn.

Mae'r senarios hyn wedi cael eu dewis am eu bod yn darparu prawf difrifol, credadwy a rhesymol o hyblygrwydd cyffredinol yn y cynllun ariannol, yn seiliedig ar y prif risgiau y mae'r Bwrdd wedi nodi bod y Grŵp wedi ei amlygu iddynt. Er ei bod yn annhebygol iawn y bydd yr holl senarios a nodwyd yn digwydd ar yr un pryd, neu hyd yn oed y byddent yn digwydd unwaith yn ystod y cyfnod, rydym wedi modelu effaith hyn er mwyn deall lefel y cydnerthedd ymhlyg yn y rhagolygon. Wrth asesu effaith ariannol pob senario, mae rheolwyr wedi ystyried eu profiadau eu hunain a data eraill sydd ar gael yn gyhoeddus.

Nid yw effaith amcangyfrifedig pob senario sy'n cael ei throsgosod ar gynllun ariannol y Grŵp yn creu unrhyw fgythiad perthnasol i hyfywedd y Grŵp. Cafodd senarios chwyddiant uchel ac isel effaith gymharol fach hefyd ar hyfywedd y Grŵp, gan fod refeniw a chyfran sylweddol o ddyledion net yn gysylltiedig â chwyddiant. Hyd yn oed mewn "senario argyfwng", lle mae'r holl brif risgiau ac ansicrwydd yn digwydd mewn amgylchedd chwyddiant isel, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn disgwyl torri'r sbardun lefel gerio o 85% a gyfamodir gyda'n darparwyr dyledion. Er nad ystyrir bod hon yn senario realistig at ddiben rhagolygon, mae'n rhoi arwydd o lefel gyffredinol y cydnerthedd ariannol y tu hwnt i'r cyfnod adolygu rheoleiddiol nesaf.

Pe bai'r senarios hyn y gellir eu rhagweld yn rhesymol yn codi, byddai opsiynau amrywiol ar gael i'r Grŵp er mwyn cynnal hylifedd a pharhau i weithredu. Mae cyllid eisoes ar gael i gyflawni'r cynllun busnes hyd at fis Mawrth 2020, gan gynnwys lwfans ar gyfer hyblygrwydd i'r cyfuniad mwyaf eithafol o senarios croes yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn ystyried ffynonellau ariannu ychwanegol ar gyfer AMP7 a thu hwnt ac, o gofio llwyddiant ein dyroddiad bondiau diwethaf (ym mis Ionawr 2018), nid ydym yn rhagweld y cawn anawsterau arwyddocaol. Mae'r Grŵp yn gweithredu mewn sector sefydlog gyda llifau arian parod rhagweladwy a rheoleiddiwr cefnogol; mae lefelau hyder buddsoddwyr wedi bod yn uchel yn hanesyddol ac nid yw newidiadau tebygol i'r amgylchedd rheoleiddio nac i brif risgiau'r Grŵp ei hun yn debygol o gael effaith sylweddol ar statws credyd y cwmni yn ystod y cyfnod a adolygir. Felly, mae'r Cyfarwyddwyr yn hyderus, ym mhob senario a nodwyd, y dylai'r Grŵp gynnal y mynediad i farchnadoedd perthnasol ar gyfer gofynion ailiariannu.

Mae'r Bwrdd wedi asesu effeithiau posibl y risgiau hyn yng nghyd-destun ei awydd i fentro ac mae'n hyderus bod y rheolaethau sydd ar waith yn ddigonol i godw perfformiad ariannol y Grŵp o fewn lefelau goddefiant priodol. Wrth wneud eu hasesiad, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried rhagolygon cadarn y Grŵp a'i gerio gwirioneddol o tua 60%, ei lefel gadarn o hylifedd a'i allu i godi cyllid. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod gan Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y cwmni, ddyletswydd statudol i sicrhau y gall cwmnïau dŵr effeithlon ariannu'r gwaith priodol o gyflawni eu swyddogaethau'n gywir — er nad yw hyn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar ein gweithgareddau cynllunio busnes.

PROSIECTAU MASNACHOL

Mae gweithgareddau'r Grŵp y tu allan i'r busnes monopol a reoleiddir wedi'u cyfyngu gan ein Cytundeb Telerau Cyffredin gyda'n darparwyr dyledion i sector cyfleustodau'r DU gydag uchafswm buddsoddiad o £100m (prisiau 2016). Felly mae gweithgareddau o'r fath yn ymylol i'r busnes craidd ac nid ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar hyfywedd cyffredinol y Grŵp nac ar y cydnerthedd ariannol, er eu bod yn anelu at gynhyrchu arian ychwanegol y gellid ei gymhwyso er budd ein cwsmeriaid, neu i leihau costau yn y busnes gweithredol.

PROSES AU SICRWYDD

Mae ein ffrydiau gwaith cynllunio busnes mewnol yn gwahanu'r gwaith o baratoi rhagolygon llifau arian parod gweithredol oddi wrth y gwaith modelu o ariannu costau, sy'n hwyluso croeswiriad dwyffordd cadarn o gadernid y rhagolygon cyn yr adolygiad gan y tîm gweithredol, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd. Mae'r model ariannol sy'n sail i'r rhagolygon wedi bod yn destun gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn allanol a gynlluniwyd i roi sicrwydd ynghylch ei uniondeb, heb nodi unrhyw eithriadau, ac rydym hefyd wedi cael sicrwydd allanol ynghylch y tybiaethau allweddol a'r metrigau credyd a ragwelir yn ein cynlluniau drafft ar gyfer y cyfnod rhwng 2020 a 2025. Mae'r Datganiad Hyfywedd hwn ei hun yn cynnwys rhan o'r Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon y mae ein harchwilwyr allanol yn darparu barn archwilio annibynnol arnynt.

CASGLIAD

O ganlyniad i'r asesiad hwn, mae gan y Cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2030.

LLYWOD

ADRODDIAD LLYWODRAETHU

MAE'R ADRODDIAD
LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL HWN YN
DARPARU GWYBODAETH AM
FWRDD A PHWYLLGORAU GLAS
CYMRU, SUT RYDYM YN BODLONI
GOFYNION COD LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL Y DU,
MANYLION EIN HAELODAU A'N
DULL GWEITHREDU O RAN
CYDNABYDDIAETH

RAETHU

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD	52
EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL	53
BWRDD Y CYFARWYDDWYR	54
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU	57
RHEOLAETH FEWNOL	63
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO	64
DATGANIADAU ARIANNOL DIWEDD Y FLWYDDYN	65
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD AC AMGYLCHEDD	67
ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU	68
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID	68
ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH	69
ADRODDIAD POLISI	72
ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDNABYDDIAETH	75
ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR	83

CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

AR RAN Y BWRDD RWY'N FALCH
O GYFLWYNO ADRODDIAD
LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
GLAS CYMRU HOLDINGS CYFYNGEDIG
AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A
DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018.

Mae ein strwythur nid er cyfranddalwyr yn golygu ein bod yn canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r 3.1 miliwn o bobl a wasanaethir gennym ledled ein hardal gyflenwi. Gweledigaeth Dŵr Cymru yw Ennyn Ymddiriedaeth ein Cwsmeriaid Bob Dydd. Rydym yn deall bod sicrhau'r safonau llywodraethu uchaf yn hollbwysig wrth ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Mae system llywodraethu corfforaethol dda yn helpu i ymgorffori diwylliant ac yn atgyfnerthu ac yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r busnes. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau y gweithredir system lywodraethu dda ac mae'n dilyn Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU cyhyd â phosibl ar gyfer Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r fframwaith llywodraethu sydd ar waith gennym a rhydd wybodaeth am ein Bwrdd a'n Pwyllgorau.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn egluro sut rydym yn bodloni gofynion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU, manylion ein Haelodau a'n dull gweithredu o ran cydnabyddiaeth.



Alastair Lyons
Cadeirydd

7 Mehefin 2018

EIN STRWYTHUR CORFFORAETHOL

MAE EIN DATGANIADAU ARIANNOL
(O DUDALEN 100) YN RHOI MANYLION
Y CWMNIAU CANLYNOL SY'N RHAN O
STRWYTHUR EIN GRŴP:

Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Glas Cymru) sef cwmni cyfyngedig drwy warant a sefydlwyd ar 15 Rhagfyr 2015. Gwnaethom greu'r cwmni daliannol newydd hwn fel rhan o broses ailstrwythuro corfforaethol a ddaeth i rym ar 1 Mawrth 2016, i'n galluogi i greu buddsoddiadau masnachol cyfyngedig mewn is-gwmnïau y tu hwnt i delerau'r Cytundeb Telerau Cyffredin â buddsoddwyr.

Dŵr Cymru Cyfyngedig sef is-gwmni y mae Glas Cymru yn berchen arno'n llawn a phrif gwmni masnachu'r Grŵp — fe'i gelwir yn Dŵr Cymru yn yr adroddiad hwn. Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.

Glas Cymru Anghyfyngedig a arferai fod yn rhiant-gwmni i'r grŵp o gwmnïau a ariennir o dan Gytundeb Telerau Cyffredin Gwaraneiddio Busnes Cyfan.

Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig yw'r cwmni daliannol ar gyfer Dŵr Cymru (Holdings) Limited a'i is-gwmnïau.

Dŵr Cymru (Holdings) Limited yw cwmni daliannol canolradd Dŵr Cymru Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Financing) Limited.

Dŵr Cymru (Financing) Limited sef cwmni 'dyroddi' bondiau'r Grŵp, a restrir ar Bourse Lwcsembwrg. Sefydlwyd Dŵr Cymru (Financing) Limited cyn i Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru yn 2001, ac fe'i cofrestrir yn Ynysoedd y Cayman ac yng Nghymru a Lloegr. Caiff ei reoli yn y DU ac ystyrir ei fod yn preswyllo yn y DU at ddibenion treth. Mae'r cwmni yn trosglwyddo elw unrhyw ddyroddion bond i Dŵr Cymru Cyfyngedig. Disgwyliwn drosglwyddo'r ddyled a ddelir yn y cwmni hwn i gwmni newydd sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr erbyn diwedd mis Rhagfyr 2018.

Welsh Water Holdings Limited sef cwmni daliannol cwmnïau nad ydynt yn rhan o'r Cytundeb Telerau Cyffredin:

- Crëwyd **Cambrian Utilities Limited** er mwyn cynnig gwasanaethau manwerthu i gwsmeriaid busnes.
- Mae **Welsh Water Infrastructure Limited** yn mynd ar drywydd prosiectau masnachol.
- Prynwyd **Welsh Water Organic Energy Limited** a **Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited** ym mis Rhagfyr 2017 ac maent yn darparu gwasanaethau treulio bwyd anerobig a chompostio i Gynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR



CADEIRYDD

ALASTAIR LYONS CBE (64)**YN Y SWYDD ERS:** MAI 2016**AELODAETH O BWYLLGORAU:**

C CYD AA E CADEIRYDD

Profiad

Mae gan Alastair, a hyfforddodd fel cyfrifydd siartredig, 18 mlynedd o brofiad fel cadeirydd anweithredol cwmnïau rhestredig a phreifat. Yn ystod gyrfa weithredol helaeth ym maes gwasanaethau ariannol, ef oedd Prif Swyddog Gweithredol y National Provident Institution a Chymdeithas Adeiladu'r National and Provincial, Rheolwr Gyfarwyddwr Is-adran Yswiriant Abbey National plc a Chyfarwyddwr Prosiectau Corfforaethol ym Manc y National Westminster plc.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir or hyn o bryd

Mae'n Gadeirydd Harworth Group plc ac EUI ac AECS, dau o is-gwmnïau gweithredol Grŵp Admiral.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Gwasanaethodd Alastair yn flaenorol fel Cadeirydd Grŵp Admiral, y cwmni yswirio moduron uniongyrchol, rhwng 2000 a 2017, roedd yn Gadeirydd Towergate Insurance, Cadeirydd Serco, sef y grŵp gwasanaethau rhyngwladol, ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yng nghwmni Phoenix, sef y cyfunwr yswiriant bywyd. Mae hefyd wedi bod yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol yr Adran Drafnidiaeth a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Dyfarnwyd CBE iddo yn 2001 am ei wasanaethau i nawdd cymdeithasol.



PRIF WEITHREDWR

CHRIS JONES (54)**YN Y SWYDD ERS:** MEDI 2013**AELODAETH O BWYLLGORAU:**

C E AA

Profiad

Daeth Chris yn Brif Weithredwr ym mis Medi 2013. Cyn ei benodiad, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid Dŵr Cymru ers mis Mai 2001 ac yn Gyfarwyddwr Cyllid Glas Cymru ers mis Ebrill 2000. Mae hefyd wedi gwasanaethu'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru a South Wales Electricity plc. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, bu'n un o Gyfarwyddwyr National Economic Research Associates a, chyn hynny, bu'n gweithio i Drysorlys EM.

Swyddi Anweithredol a ddelir or hyn o bryd

Is-Gadeirydd Cyngor Cyngori the Prince's Trust - Cymru ers 2009.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality.

Un o ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.

A Archwilio

C Cyllid

E Enwebiadau

CYD Cydnabyddiaeth

AA Ansawdd ac Amgylchedd



UWCH GYFARWYDDWR
ANNIBYNNOL

MENNA RICHARDS (65)

YMUNODD:

TACHWEDD 2010

YN Y SWYDD ERS:

GORFFENNAF 2014

AELODAETH O

BWYLLGORAU:

E CYD

Profiad

Treuliodd Menna ei gyrfa weithredol ym maes darlledu fel Cyfarwyddwr BBC Cymru (2000–2011) a chyn hynny roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr, HTV Wales.

Swyddi Anweithredol eraill a ddelir ar hyn o bryd

Cyfarwyddwr Anweithredol Opera Cenedlaethol Cymru. Cadeirydd elusen ALOUD. Is-Lywydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cadeirydd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Aelod o fwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Cymdeithas Adeiladu'r Principality.



CYFARWYDDWR CYLLID
A MASNACHOL

PETER BRIDGEWATER (55)

YN Y SWYDD ERS:

MEDI 2014

AELODAETH O

BWYLLGORAU:

C

Profiad

Ymunodd Peter â Dŵr Cymru ym mis Medi 2014 gyda 15 mlynedd o brofiad yn gweithio mewn swyddi Cyllid a swyddi Rheolwr Gyfarwyddwr ym mhob rhan o'r sector ynni a'r sector dŵr, yn y DU a thramor. Bu Peter yn Gyfarwyddwr Gweithredol gydag E.ON a Sembcorp Industries mewn cyfleustodau a reoleiddir a diwydiannau cystadleuol, yn ogystal ag ymddiriedolwr cronfa bensiwn. Cyn ymuno â'r diwydiant ynni yn 1994 roedd Peter yn gyfrifydd siartredig ac yn ymgynghorydd rheoli gyda PwC.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd

Cyfarwyddwr Anweithredol Ebico Limited (darparwr nwy a thrydan nid er elw).



RHEOLWR
GYFARWYDDWR

PETER PERRY (55)

YN Y SWYDD ERS:

GORFFENNAF 2006

AELODAETH O

BWYLLGORAU:

AA

Profiad

Penodwyd Peter yn Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru ym mis Hydref 2017 ar ôl pedair blynedd fel Prif Swyddog Gweithredu. Mae gan Peter, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Dŵr Cymru ym mis Gorffennaf 2006, gefndir ym maes peirianeg sifil. Cyn hynny, ef oedd Prif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau i UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol gyda Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn ymuno ag UUOS gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd

Roedd yn un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Cynllun Cyngori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.



CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL

GRAHAM EDWARDS (64)

YMUNODD: HYDREF 2013

AELODAETH O

BWYLLGORAU:

A AA CADEIRYDD

Profiad

Graham yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities. Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Cyn gweithio yn y sector cyfleustodau, bu'n dal uwch swyddi mewn ystod o swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gweithgynhyrchu gan gynnwys Peirianeg, Cynhyrchu ac Adnoddau Dynol. Mae gan Graham MBA o Ysgol Fusnes Caerdydd ac mae'n Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu.

Swyddi Anweithredol a ddelir ar hyn o bryd

Aelod o Fwrdd Prifysgol De Cymru.

Swyddi Anweithredol blaenorol

Cyn-Gadeirydd CBI Cymru a Busnes yn y Gymuned Cymru ac un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Coleg Brenhinol Cerdd a Drama.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**JOANNE KENRICK (51)****YMUNODD:**
TACHWEDD 2015**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A AA

Profiad

Joanne oedd Cyfarwyddwr Marchnata Homebase tan ddiwedd 2015. Cyn hynny, Joanne oedd Prif Swydddog Gweithredol Start, gan sefydlu a rhedeg menter gyhoeddus Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru ar gyfer sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Cyfarwyddwr Marchnata ac Arlwy Cwsmeriaid B&Q, Cyfarwyddwr Marchnata'r Loteri Genedlaethol, a Chyfarwyddwr Gwerthiannau Grŵp a Marchnata Wilson Connolly. Bu'n gweithio hefyd i Woolworths, Asda, Pepsico a Masterfoods. Mae gan Joanne radd yn y Gyfraith o Brifysgol Nottingham a thra roedd yn y coleg hi oedd un o'r merched cyntaf erioed i gael ei hyfforddi i hedfan gan yr RAF.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Mae hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu Coventry, BACS Payment Services Limited, Safestore, sef busnes hunanstorio mwyaf y DU, a hi yw Cadeirydd ymddiriedolwyr yr elusen plant Make Some Noise.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Roedd Joanne yn Gyfarwyddwr Anweithredol gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality am soith mlynedd.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**YR ATHRO TOM CRICK (37)****YMUNODD:** HYDREF 2017**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

AA

Profiad

Mae Tom yn Athro Cyfrifiadureg a Pholisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Abertawe; mae a wnelo ei ddiddordeb academaidd â'r rhyngwyneb ymchwil/polisi, sef datrys problemau a yrrir gan ddata a phroblemau cyfrifiadurol dwys mewn amrywiaeth o barthau. Mae wedi rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar bolisiâu ym maes gwyddoniaeth/arloesedd, seilwaith data, gwasanaethau cyhoeddus arloesol ac addysg STEM, ac mae'n Gadeirydd y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Cafodd Tom MBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines yn 2017 am ei wasanaethau i gyfrifiadureg a hyrwyddo addysg gyfrifiadurol.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Aelod Annibynnol/ Cyfarwyddwr Anweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Is-Lywydd/ Ymddiriedolwr BCS, y Sefydliad Siartredig ar gyfer TG.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**ANNA WALKER CBE (67)****YMUNODD:** MAWRTH 2011**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

A CYD CADEIRYDD

Profiad

Mae gan Anna doreth o brofiad ym maes rheoleiddio, gwasanaethau cwsmeriaid, llunio polisiâu a gweithio gyda llywodraethau. Cynhaliodd Anna adolygiad annibynnol ar gyfer y llywodraeth yn 2008 ar godi tâl am ddŵr mewn cartrefi. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd (2004-2009), Cyfarwyddwr Cyffredinol, Defnydd Tir a Materion Gwledig yn DEFRA, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Ynni DTI, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Offel, rheoleiddiwr y sector telathrebu.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Anna, a ddaeth yn Gydymaith Urdd y Baddon yn 2003 am ei gwasanaeth cyhoeddus, yw Dirprwy Gadeirydd Cyngor Which?, ac mae'n aelod o'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ymddiriedolaeth Sylfaen y GIG De Llundain a Maudsley.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Anna oedd Cadeirydd y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd rhwng 2009 a 2015 ac mae wedi gwasanaethu fel Is-Gadeirydd Consumer Focus, sef y corff hyrwyddo defnyddwyr statudol.

CYFARWYDDWR
ANWEITHREDOL**JOHN WARREN (64)****YMUNODD:** MAI 2012**AELODAETH O
BWYLLGORAU:**

CYD A CADEIRYDD

C CADEIRYDD

Profiad

Mae John yn gyfrifydd cymwysedig gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn uwch rolau ariannol ac mae ganddo brofiad helaeth o gadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau a restrir yn y DU. Nes iddo ymddeol yn 2005, ef oedd Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp WH Smith PLC a, chyn hynny, United Biscuits (Holdings) Plc.

**Swyddi Anweithredol eraill
a ddelir ar hyn o bryd**

Ar hyn o bryd, mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Greencore Group plc, 4imprint Group plc a Bloomsbury Publishing Plc. ac mae'n cadeirio Pwyllgorau Archwilio'r cwmnïau hynny.

**Swyddi Anweithredol
blaenorol**

Bu John yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol ac yn Gadeirydd Pwyllgor Archwilio'r cwmnïau canlynol: Spectris plc, Rexam Plc, Bovis Homes Group PLC, Rank Group Plc, Uniq Plc, Arla Foods UK plc, BPP Holdings plc.

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

AELODAU

Fel Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno, gwrthbwyswn y ffaith nad oes gennym gyfranddallwyr â chael Aelodaeth sy'n cyflawni rôl llywodraethu hanfodol. Mae Aelodaeth yn bersonol ac yn ddi-dâl ac nid oes gan Aelodau unrhyw fudd ariannol yn y busnes. Mae'r fath annibyniaeth yn galluogi Aelodau i sicrhau bod y Bwrdd yn otebol am warchod ein hasedau a darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol mewn ffordd a fydd yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Caiff ein Haelodau eu penodi gan y Bwrdd ond fe'u dewisir gan Bonel Dethol Aelodau annibynnol, y mae'n ofynnol iddo sicrhau aelodaeth gytbwys ac amrywiol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth buddiannau ein cwsmeriaid a'n rhondeiliaid eraill cymaint â phosibl ac sy'n cynrychioli pob rhan o'n hardal gyflenwi. Cadeirydd annibynnol y Panel Dethol Aelodau yw Glyn Mathias, a'i Aelodau eraill yw Arthur Walford a Menna Richards. Bydd Glyn Mathias yn rhoi'r gorau i'w rôl ym mis Gorffennaf 2018 ar ôl pum mlynedd o wasanaeth, ac mae Syr Paul Silk wedi cytuno i ymgymryd â rôl Cadeirydd. Caiff ei benodi o 6 Gorffennaf 2018 am gyfnod cychwynnol o dair blynedd.

Ar hyn o bryd mae gan Glas Cymru 66 o Aelodau annibynnol. O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn Aelod. Yn ystod 2017-18, ymddiswyddodd 17 o Aelodau a chafodd 14 eu penodi. Cynhaliwn Gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (AGM) ac ail gyfarfod i Aelodau bob blwyddyn er mwyn darparu diweddariad chwe mis ar ein perfformiad a'n strategaeth. Hefyd cynhaliwn ddau gyfarfod rhanbarthol i Aelodau ledled yr ardal gyflenwi er mwyn rhoi cyfle mwy anffurfiol i feithrin dealltwriaeth o'n safleoedd gweithredol, cwrdd â thimau lleol neu ddarparu trosolwg manylach o'n strategaethau. Caiff Aelodau eu gwahodd i weithdai a chyfarfodydd eraill ar sail ad hoc drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol i Aelodau yn Llanfair-ym-Muallt a Chwm Elan, a chynhaliwyd gweithdai i Aelodau ar strategaeth Dŵr Cymru 2050 ac Adolygiad Prisiau PR19 yng Nghaerdydd.

BWRDD

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Grŵp yn gyfrifol ar y cyd am ei lwyddiant hirdymor. Mae'r Bwrdd yn pennu nodau strategol y Grŵp, yn monitro perfformiad rheolwyr yn erbyn y nodau strategol, yn sicrhau llywodraethu da, yn pennu lefelau mentro ac yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith yn y busnes. Mae Byrddau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a Dŵr Cymru Cyfyngedig (deiliad y drwydded/cwmni gweithredu) yn union debyg, sy'n sicrhau y gweithredir mewn modd unedig.

CADEIRYDD

Mae ein Cadeirydd, Alastair Lyons, yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn unedig, gan hwyluso cyfarfodydd, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith. Cytunir ar agendâu cyfarfodydd drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, er y gall unrhyw Gyfarwyddwr ofyn i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda. O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Cadeirydd yn cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol heb fod y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol, i ystyried perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac i roi adborth. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn unigol â phob Aelod o'r Bwrdd i adolygu perfformiad unigol o leiaf unwaith y flwyddyn.

UWCH GYFARWYDDWR ANNIBYNNOL

Mae ein Huwch Gyfarwyddwr Annibynnol, Menna Richards, yn cydweithio â'n Haelodau. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad y Cadeirydd.

CYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu penodi i'r Bwrdd yn unol â'n Polisi Amrywiaeth, er mwyn cyfrannu eu harbenigedd a rhoi her annibynnol a chadernid i drafodaethau'r Bwrdd.

PRIF WEITHREDWR

Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr sy'n bennaf cyfrifol am reoli materion y cwmni o ddydd i ddydd. Mae ein Prif Weithredwr, Chris Jones, yn cael ei gefnogi gan y tîm Gweithredol i roi'r strategaeth ar waith a rheoli'r cwmni o ddydd i ddydd.

YSGRIFENNYDD Y CWMNI

Mae Ysgrifennydd y Cwmni, Nicola Williams, yn gyfrifol am helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y Grŵp yn arddangos trefniadau llywodraethu da. Mae tîm Ysgrifennyddol y Cwmni ar gael i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac mae'n gweithio i sicrhau bod llifau gwybodaeth da rhwng y Bwrdd, Pwyllgorau a rheolwyr y cwmni.

EIN LLYWODRAETHU

Mae trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn yn ategu'r gwerthoedd a bennir gan y Bwrdd, ac yn cefnogi fframwaith gwneud penderfyniadau'r Grŵp. Dilynw'n God Llywodraethu Corfforaethol y DU o'n gwirfodd cyhyd â phosibl ar gyfer Grŵp y mae cwmni cyfyngedig drwy warant yn berchen arno. Rydym yn cymhwyso'r darpariaethau a nodir o ran cyfranddalwyr i'n Haelodau Glas a'n buddsoddwyr cyhyd â phosibl. Rhoddir manylion ein fframwaith llywodraethu ar dudalennau 58 i 62. Mae ein rheoleiddiwr economaidd, Ofwat, hefyd wedi datblygu cyfres o egwyddorion sy'n ategu'r cod ac yn cynrychioli'r safonau gofynnol ar gyfer arweinyddiaeth, tryloywder a llywodraethu ar lefel Bwrdd i gwmnïau yn y sector dŵr. Ymatebwn i ofynion llywodraethu corfforaethol Ofwat yn ein Cod Llywodraethu. Am ragor o fanylion ewch i dwrcymru.com/governance.

Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â mwy na'r ffordd y caiff cwmni ei reoli a'i gyfarwyddo. Mae'n ymwneud ag ymddygiad, diwylliant a gwerth sefydliad a sut y gall hyn wneud y busnes yn fwy effeithiol ac ennyn ymddiriedaeth. Pennir diwylliant Grŵp Glas Cymru gan ein Bwrdd ac mae'n gyson â'n strategaeth a'n gweledigaeth, ond rhaid sicrhau cefnogaeth ein holl gydweithwyr. Ymhlith y ffyrdd y mae'r Bwrdd a Thim Gweithredol Dŵr Cymru yn atgyfnerthu'r diwylliant mae:

- Ffôngynhadledd fisol a gynhelir gan ein Prif Weithredwr sy'n agored i bob cyflogai er mwyn clywed y newyddion diweddaraf am y cwmni a gofyn cwestiynau;
- Ymweliadau gweithredol rheolaidd â safleoedd gan ein Cadeirydd a'n Cyfarwyddwyr Anweithredol, ynghyd â chwrdd â chydweithwyr o fewn y busnes. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y materion cyfredol sy'n effeithio ar y busnes yn cael eu deall yn eu cyd-destun;
- Cynadleddau Arweinyddiaeth chwemisol lle mae Uwch Reolwyr o bob rhan o'r busnes yn clywed wrth y tim Gweithredol;
- Sioeau teithiol i gyflogeion a diwrnodau 'Cwrdd â'r Cyfarwyddwr' gyda'r tim Gweithredol a gynhelir ym mhob rhan o'r busnes;
- Ymateb i adborth o'n Harolwg Ymgysylltu â Chyflogeion blynyddol;
- Hyrwyddo ein polisi chwythu'r chwiban, sy'n cynnwys llinell gymorth allanol i dawelu meddyliau cydweithwyr y gallant godi materion yn ddienw os dymunant wneud hynny.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – ARWEINYDDIAETH

- Gan ein bod yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol, rydym yn deall bod y ffordd y cawn ein llywodraethu yn hollbwysig wrth ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd;
- Cawn ein harwain gan Fwrdd effeithiol sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am lwyddiant hirdymor y cwmni;
- Rhennir cyfrifoldebau'n glir rhwng rhedeg y Bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am redeg busnes y cwmni. Nid oes gan un unigolyn bwerau gwneud penderfyniadau dilyffethair;
- Mae ein Cadeirydd yn gyfrifol am arwain y Bwrdd ac am sicrhau ei fod yn effeithiol;
- Mae Cyfarwyddwyr Anweithredol yn herio mewn ffordd adeiladol ac yn helpu i ddatblygu cynigion ym maes strategaeth.

MATERION A GEDWIR YN ÔL I'R BWRDD

Mae rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd a'r Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am feysydd fel strategaeth, risg a llawer o benderfyniadau eraill. Caiff y rhestr o faterion a gedwir yn ôl ei adolygu a'i ddiweddarau o bryd i'w gilydd, ynghyd â blaenamserlenni ac agendâu.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am redeg y busnes o ddydd i ddydd i'r rheolwyr yn unol â'r strategaeth a bennwyd, a Phwyllgorau sy'n gyfrifol am feysydd penodol fel yr amlinellir yn eu cylch gorchwyl. Cynhelir blaengynllun gan Ysgrifennydd Cwmni'r Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgorau ar y cyd â'r Cadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau. Caiff y Bwrdd ei annog i adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau a'u bwydo i mewn i'r blaenamserlen yn flynyddol.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Cynlluniwyd y system rheolaethau i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau archwiledig a luniwyd i nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y busnes.

GWEITHGAREDDAU

Yn ystod 2017-18 mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Polisi Iechyd a Diogelwch a'i reolaeth;
- Goruchwyllo perfformiad gweithredol;
- Cynllunio busnes;
- Paratoi ar gyfer Adolygiad Prisiau Ofwat;
- Adolygiadau o effeithlonrwydd;
- Dŵr Cymru 2050;
- Prosesau rheoli risg a'r awydd i fentro;
- Cyfleoedd masnachol;
- Arloesedd.

CYFARFODYDD Y BWRDD A PHRESENOLDEB

Yn 2017-18 cynhaliodd y Bwrdd 11 cyfarfod a drefnwyd ac un cyfarfod ychwanegol. Cynhelir y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd wedi'u trefnu dros gyfnod o ddeuddydd er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen ar y Bwrdd i adolygu cynnydd yn erbyn amcanion strategol ac i gyfarfod â rheolwyr busnes allweddol. Yn ystod y flwyddyn, cofodd rhai o gyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd eu hymestyn er mwyn mynd i'r afael â materion penodol a oedd yn deillio o baratoi cynllun busnes Dŵr Cymru ar gyfer proses Adolygiad Prisiau PR19.

Disgwylir i bob Cyfarwyddwr fynychu cyfarfodydd y Bwrdd a rhai'r Pwyllgorau maent yn aelod ohonynt. Pan na all Cyfarwyddwr fod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn ceisio ei safbwyntiau ar eitemau allweddol cyn y cyfarfod fel y gellir eu hychwanegu at y drafodaeth. Dangosir presenoldeb Cyfarwyddwyr yn y tabl canlynol:

Cyfarwyddwr	Bwrdd	PAA	Archwilio	Cydnabyddiaeth	Enwebiadau	Cyllid
Peter Bridgewater	12/12	-	5/5	-	-	0/0
Tom Crick *	6/7	3/3	-	-	-	-
Graham Edwards	12/12	6/6	4/5	-	3/3	-
Chris Jones	12/12	6/6	5/5	-	3/3	0/0
Joanne Kenrick	11/12	5/6	5/5	-	-	-
Alastair Lyons	12/12	6/6	-	5/6	3/3	0/0
Stephen Palmer **	8/9	4/4	-	-	-	-
Peter Perry	12/12	6/6	-	-	-	-
Menna Richards	11/12	-	-	5/6	3/3	-
Anna Walker	11/12	-	4/5	5/6	-	-
John Warren	12/12	-	5/5	6/6	-	0/0

*Ymunodd Tom Crick â'r Bwrdd ym mis Hydref 2017 **Ymddeolodd Stephen Palmer ym mis Rhagfyr 2017

Mae pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn rhoi digon o'u hamser i gyflawni eu dyletswyddau. Yn ystod 2017-18, ymgwymerodd y Cadeirydd â rôl Cadeirydd Harworth Group Plc ac ymunodd â Bwrdd Vitality Health Limited. Fodd bynnag, rhoddodd y gorau i'w rôl fel Cadeirydd Grŵp Admiral plc yn ystod y cyfnod.

PENODIADAU

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i wneud penodiadau newydd mewn ffordd dryloyw ac i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sgiliau a phrofiad a chefnidiroedd amrywiol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr ddangos barn annibynnol a'r gallu i herio mewn ffordd adeiladol. Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n gyfrifol am chwilio am ymgeiswyr i'r Bwrdd ar sail rhinwedd, yn erbyn meini prawf gwrthrychol a bennir ar gyfer y rôl, a chydag ystyriaeth briodol i sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad a phwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ar y Bwrdd. Defnyddir cwmnïau dethol allanol i ddod o hyd i ymgeiswyr a chefnogi'r broses. Yn 2017, defnyddiwyd y cwmni chwilio allanol Goodson Thomas i ddod o hyd i Tom Crick, a ymunodd â'n Bwrdd ym mis Hydref 2017.

Mae llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd drwy wneud cais i Ysgrifennydd y Cwmni. Maent hefyd ar gael i'w harchwilio gan ein Haelodau ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae Glas Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, gwrthwahanïaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogaion, darpar gyflogaion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r Bwrdd wedi dogfennu ei ddull recriwtio mewn Polisi Amrywiaeth y mae'n ymrwymedig i'w ddilyn.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU — EFFEITHIOLRWYDD

- Mae gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau y cydbwysedd priodol o sgiliau, profiad, annibyniaeth a gwybodaeth am y cwmni i'w galluogi i gyflawni eu priod ddyletswyddau a chyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu hyn yn rheolaidd mewn trafodaethau ag Ysgrifennydd y Cwmni, y Pwyllgor Enwebu ac fel rhan o'n hadolygiad o effeithiolrwydd.
- Mae gan Glas Cymru weithdrefn ffurfiol, gadarn a thryloyw ar gyfer penodi Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd.
- Caiff Cyfarwyddwyr raglen sefydlu wedi'i theilwra wrth ymuno a rhaglenni addysgiadol, llawn gwybodaeth parhaus ar bynciau sy'n berthnasol i weithredu a llywodraethu'r busnes.
- Mae pob Cyfarwyddwr yn rhoi digon o'u hamser i'r cwmni i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.
- Darperir holl ddeunyddiau cyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgorau wythnos ymlaen llaw.
- Caiff ein Cyfarwyddwyr Anweithredol fynediad i Ysgrifennydd y Cwmni a chynghorwyr allanol er mwyn rhoi safbwynt allanol i'r Bwrdd.

SEFYDLU A DATBLYGU

SEFYDLU

Cynhelir proses sefydlu bersonol i Gyfarwyddwyr Anweithredol newydd, gan gynnwys gweld hen bopurau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau, ymweld â safleoedd a chyfarfodydd un i un gydag uwch reolwyr. Lle y bo'n briodol, mae Cyfarwyddwyr Anweithredol newydd hefyd yn mynychu cwrs Sefydliad y Cyfarwyddwyr i Gyfarwyddwyr newydd.

DEALL Y BUSNES GWEITHREDOL

Eleni, cynhaliodd Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd ddau ymweliad â safleoedd sy'n ymwneud â'r busnes, sef Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Trefonnen a'n cynllun Glawlif yn Llanelli. Mae ein Cadeirydd hefyd yn ymweld â safleoedd gweithredol ledled yr ardal gyflenwi yn rheolaidd ac anogir Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill i fynd ar o leiaf un o'r ymweliadau hyn yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith yr ymweliadau a gynhaliwyd yn 2017/18 roedd:

- Ebrill 2017:** Gwaith Trin Dŵr Cefni, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Llangefni, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Ganol
- Mai 2017:** Linea (trosolwg o wasanaethau gweithredol gan gynnwys gwyddor data a llywodraethu data)
- Mehefin 2017:** Gwaith Trin Dŵr Dolbenmaen (ar gyfer yr agoriad swyddogol), Gwaith Trin Dŵr Pen Y Cefn, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Dolgellau
- Gorffennaf 2017:** Gwaith Trin Dŵr Bretton, Gwaith Trin Dŵr Cwellyn, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Llanberis, Pum Rhyd
- Awst 2017:** Rig Hyfforddi Sluvad, Llandegfedd, Gwaith Trin Dŵr Court Farm, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Trefonnen a Chwm Elan
- Medi 2017:** Gwaith Trin Dŵr Glien House a Bolton Hill
- Hydref 2017:** Parc Cinnel, Gwaith Trin Dŵr Glascoed, Gwaith Trin Gwastraff Dŵr Caer
- Mawrth 2018:** Linea a Chronfa Dŵr Llanisien/Llys-faen

Datblygu ein Cyfarwyddwyr yn barhaus — rydym yn sicrhau bod y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am ddatblygiadau mewn deddfwriaeth a threfniadau llywodraethu corfforaethol ac adrodd fel y bo'n briodol. Mae presenoldeb rheolaidd ein harchwilwyr, KPMG LLP, yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio hefyd wedi sicrhau bod Cyfarwyddwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cyfredol, gan gynnwys ymgynghoriad FRC ar gynigion i ddiwygio Cod Llywodraethu

Corfforaethol y DU. Eleni, rhoddwyd ffocws penodol ar y gwaith o baratoi ar gyfer proses adolygu prisiau PR19. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Strategaeth gyflwyniad addysgu i'r Bwrdd a darparodd ymgynghorwyr allanol sesiynau ar agweddau penodol ar y broses.

CYDBWYSEDD AC ANNIBYNIAETH

Mae gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau aelodaeth briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, yn seiliedig ar ystod eang o gefndiroedd, oedranau, sgiliau a phrofiad. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod pob Cyfarwyddwr yn cael digon o amser i gyflawni ei rôl. Ystyir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydberthynas fusnes na chydberthynas arall a allai ddylanwadu ar eu barn annibynnol.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Caiff effeithiolrwydd y Bwrdd a'i Bwyllgorau ei adolygu bob blwyddyn a chynhelir adolygiad annibynnol wedi'i hwyluso'n allanol bob tair blynedd.

Fel rhan o adolygiad o effeithiolrwydd 2018, cynhaliwyd arolwg ar-lein manwl o holl Gyfarwyddwyr y Bwrdd a'r sawl sy'n mynychu'r Bwrdd yn rheolaidd. Yna, cynhaliodd y Cadeirydd gyfarfod un i un gyda phob Cyfarwyddwr i drafod sylwadau a materion penodol. Er bod consensws cyffredinol ymhlith y Cyfarwyddwyr bod y Bwrdd a'i Bwyllgorau yn gweithredu'n effeithiol iawn, trafodwyd canfyddiadau manwl y gwerthusiad a chynigion ar gyfer gwelliannau pellach yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin a chytunwyd ar gynllun gweithredu.

AILETHOL CYFARWYDDWYR

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU, bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan Aelodau bob blwyddyn a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn sefyll i gael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf.

AMRYWIAETH O RAN Y RHYWIAU


Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i gael lefel briodol o amrywiaeth ym mhob rhan o'r busnes. Ar hyn o bryd, rydym yn rhagori ar dargedau awgrymedig Adroddiad Davies 2010 o ran cynrychiolaeth merched ar lefel Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae 30% o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ferched, mae 27% o'r tîm Gweithredol yn ferched ac mae 41.3% o Dîm Arwain ehangach y Grŵp yn ferched. Cyhoeddwyd Adroddiad Glas Cymru ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar 8 Mawrth 2018. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adroddiad ar ein gwefan dwrcymru.com/reports.



GWRTHDARO BUDDIANNAU

O dan gyfraith cwmnïau'r DU, rhaid awdurdodi sefyllfaoedd lle ceir gwrthdaro posibl ymlaen llaw er mwyn osgoi achosion lle y bydd Cyfarwyddwr yn mynd yn groes i'w ddyletswydd statudol. Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr ddatgelu unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau, neu unrhyw achosion posibl o'r fath, ar unwaith. Yn ogystal, mae pob Cyfarwyddwr yn llofnodi datganiad blynyddol o fuddiannau ac yn datgelu eu penodiadau allanol. Mae Cyfarwyddwyr hefyd yn hysbysu'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cwmni o unrhyw benodiadau sydd yn yr arfaeth ac yn cyhoeddi unrhyw benodiadau allanol newydd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd fel bod y Bwrdd cyfan yn ymwybodol.

HYD GWASANAETH



PENODIADAU ALLANOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Mae Peter Bridgewater yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Ebico Limited, a chaiff ei dalu £15,000 y flwyddyn ar wahân am hynny.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – ATEBOLRWYDD

Mae Bwrdd cyfunol Glas Cymru a Dŵr Cymru:

- yn sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn cyflwyno asesiad teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa a rhagolygon y cwmni.
- yn pennu'r lefel briodol o risg wrth gyflawni ein hamcanion strategol, tra'n sicrhau bod systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol cadarn ar waith.
- â threfniadau ffurfiol a thryloyw ar gyfer ystyried sut y dylai gymhwyso egwyddorion cyflwyno adroddiadau corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a chynnal cydberthynas briodol ag archwilyr y cwmni.
- mae pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan yr Aelodau ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn cyflawni ei rôl am gyfnod o dair blynedd a all gael ei ymestyn i ddiwedd naw mlynedd o'i benodi.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – CYDNABYDDIAETH

- Mae gennym Bwyllgor Cydnabyddiaeth a chyflwynir ei adroddiad ar dudalennau 69-81.
- Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'i chynllunio i hyrwyddo llwyddiant hirdymor y cwmni.
- Mae elfennau sy'n ymwneud â pherfformiad yn dryloyw, yn ymestynol ac wedi'u cymhwyso'n fanwl gywir.
- Ceir gweithdrefn ffurfiol a thryloyw ar gyfer datblygu polisi ar gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol ac am bennu pecynnau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol.
- Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr ynghlwm wrth bennu ei gydnabyddiaeth neu ei chydnabyddiaeth ei hun.
- Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor gan ymgynghorwyr allanol.

DARPARIAETH COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL Y DU – CYSYLLTIADAU Â CHYFRANDDALWYR

- Caiff egwyddorion cyfranddalwyr ar lywodraethu eu cymhwyso gennym yn wirfoddol i'n Haelodau a'n Buddsoddwyr.
- Cynhaliwn drafodaeth reolaidd ag Aelodau a buddsoddwyr bondiau.
- Mae ein Bwrdd yn defnyddio cyfarfodydd cyffredinol i gyfathrebu ag Aelodau.
- Mae tîm Trysorlys y Cwmni yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddwyr yn gwbl hyddysg, drwy adroddiadau chwarterol a chyfarfod blynyddol o fuddsoddwyr yn Llundain, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd gyda buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y Cwmni.
- Mae Trysorydd ein Grŵp yn fwy na pharod i drefnu i gyfarfod â buddsoddwyr ar gais bob amser. Eleni, sicrhawyd bod y cyfarfodydd canlynol ar goel i bob buddsoddwr a darpar fuddsodwr:
- Diweddariad blynyddol i Fuddsoddwyr (Llundain) – 19 Gorffennaf 2017
- Sioe Deithiol Bondiau, Caeredin 12 Ionawr 2018, Llundain 15 a 16 Ionawr 2018 – yn arwain at lansio Dyroddiad Bondiau B7 £300m y Grŵp sy'n aeddfedu ar 31 Mawrth 2036 ar gwpon sefydlog o 2.5%.

MANYLION Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ein Haelodau ddydd Gwener 6 Gorffennaf 2018 yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe am 9:30am.

PWYLLGORAU'R BWRDD

Fel yr eglurwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r Bwrdd yn cadw rhai materion yn ôl i'w hun. Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei rôl yn effeithiol, caiff rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd eu dirprwyo i Bwyllgorau, sy'n chwarae rôl bwysig wrth weithio gyda'r rheolwyr er mwyn sicrhau bod ein busnes yn ariannol gadarn, y caiff ei lywodraethu'n dda, ac y caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru. Cadeirir pob Pwyllgor gan Gyfarwyddwr Anweithredol. Mae gan holl Bwyllgorau'r Bwrdd gylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n crynhoi'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt.

Caiff y cylch gorchwyl ei adolygu'n rheolaidd a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor a'r Bwrdd. Ar ôl ymuno â Phwyllgor, caiff Cyfarwyddwyr gyfnod sefydlu priodol a chynigir cyfleoedd hyfforddiant ac addysg parhaus iddynt. Ar ôl pob cyfarfod, rhoddir crynodeb o'r materion a drafodwyd i'r

Bwrdd, ac anfonir cofnodion y Pwyllgor at y Cyfarwyddwyr. Gall pob Pwyllgor ddefnyddio gwasanaethau unrhyw gynghorwyr sydd eu hangen arno i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Prif Bwyllgorau'r Bwrdd yw:

Pwyllgor Archwilio	Cadeirir gan John Warren Adroddiad ar dudalen 64 22
Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Cadeirir gan Graham Edwards Adroddiad ar dudalen 67 51
Pwyllgor Enwebiadau	Cadeirir gan Alastair Lyons Adroddiad ar dudalen 68 21
Pwyllgor Cydnabyddiaeth	Cadeirir gan Anna Walker Adroddiad ar dudalen 69 22
Pwyllgor Cyllid	Cadeirir gan John Warren Adroddiad ar dudalen 68 4

Tîm Gweithredol Dŵr Cymru

Tîm Gweithredol Dŵr Cymru (GDC) yw ein Pwyllgor rheoli, sy'n cynnwys 11 aelod o'r tîm rheoli (gan gynnwys y tri Chyfarwyddwr Gweithredol). Mae GDC yn canolbwyntio ar sicrhau bod y busnes yn cael ei redeg yn ôl y strategaeth a bennwyd gan y Bwrdd ac ar adolygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn sicrhau bod y targedau a bennwyd gan y Bwrdd yn cael eu cyflawni. Mae sawl pwyllgor rheoli a grwpiau prosiect yn atebol i GDC.

Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae gan ein Cyfarwyddwyr Anweithredol sgiliau amrywiol. Yn ogystal â chadeirio neu fod yn aelod o Bwyllgor, mae pob Cyfarwyddwr Anweithredol yn neilltuo amser a mewnbwn ychwanegol mewn perthynas â'r materion canlynol:

Alastair Lyons	Cyswllt cyffredinol â Chyfarwyddwyr Gweithredol a rhan weithredol mewn ymweliadau rheolaidd â safleoedd lleol
Graham Edwards	Gweithrediadau a materion yn ymwneud ag adnoddau dynol
John Warren	Cyllid ac archwilio
Menna Richards	Cyfathrebu a chyswllt Aelodau
Anna Walker	Gwasanaeth cwsmeriaid, rheoleiddio a chydabyddiaeth
Joanne Kenrick	Gwasanaethau marchnata, masnachol a chwsmeriaid
Tom Crick	Gwyddor data, addysg a pholisi Llywodraeth Cymru

Mae rhai o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol hefyd yn mentora rhai aelodau o'r tîm rheoli.

RHEOLAETH FEWNOL

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Cynlluniwyd y system rheolaethau i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau archwiliedig a luniwyd i nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y busnes.

Mae adolygiad manwl o risgiau ar gael ar dudalennau 44-46. Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, aeth y tîm Gweithredol ati i adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant. Mae nodweddion allweddol ein system yn arferol i fusnes o'r maint a'r cymhlethdod hwn. Yn eu plith mae:

- nodi'r prif risgiau strategol a chyfleoedd sy'n wynebu'r busnes;
- adolygu materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg yng nghyfarfodydd y tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd;
- atebolrwydd clir ymysg rheolwyr mewn perthynas â rheoli risg, wedi'i ategu gan adroddiadau rheolaidd ar risg i'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a'r Pwyllgor Archwilio;
- paramedrau risg derbyniol wedi'u pennu gan y Bwrdd, yn enwedig yng nghyfarfodydd y broses cynllunio busnes at ddibenion y cyfnod nesaf o bum mlynedd;
- rhoi rheolaethau ar waith sy'n cydnabod bod natur a chydwybodedd risgiau yn newid ac yn esblygu;
- rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n llywodraethu'r broses o gymeradwyo a rheoli eitemau sylweddol o wariant cyfalaf, caffael a gwaredu asedau perthnasol, ac ymrwymiad i unrhyw drefniant a allai arwain at rwymedigaeth sylweddol;
- sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn addas ar gyfer paratoi cyfrifon rheoli ac ariannol;
- prosesau rheoli a gynlluniwyd yn briodol er mwyn sicrhau bod gweithrediadau'r busnes yn cael eu pennu a'u hadolygu'n effeithiol, a ategir gan ddangosyddion perfformiad allweddol cywir ac amserol.

Caiff y Bwrdd sicrwydd drwy waith annibynnol gan gynghorydd technegol Dŵr Cymru ar faterion adrodd rheoleiddiol (Jacobs Engineering Group) a'r rhaglen archwilio mewnol, y caiff eu prif ganfyddiadau eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd.

Caiff risgiau eu hadolygu a'u hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a chaiff adolygiad strategol o risgiau yn erbyn goddefiant risg ei ystyried ddwywaith y flwyddyn fel rhan o broses a gaiff ei chadeirio gan y Prif Weithredwr, sy'n rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar farn y tîm Gweithredol ar y risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd cyfan. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Cadeirydd: John Warren

Aelodau: Graham Edwards, Joanne Kenrick, Anna Walker

Bu'n flwyddyn brysur i'r Pwyllgor Archwilio sydd wedi canolbwyntio ar faterion cydymffurfio, yn enwedig yn sgil y rhaglen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol newydd ar Ddiogelu Data, sy'n weithredol o fis Mai 2018, ac ar fesurau a gymerwyd i liniaru risg diogelwch gwybodaeth o fewn y busnes.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn bodloni'r gofyniad o ran cael arbenigedd perthnasol o'r sector gan fod Graham Edwards yn Brif Weithredwr cwmni cyfleustodau arall ac mae ganddo brofiad blaenorol o weithio i gwmni arall yn y sector dŵr.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor, cyfrannaf brofiad ariannol fel cyfrifydd siartredig, wedi gweithio'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyllid WH Smith ac United Biscuits, a chadeirio Pwyllgorau Archwilio mewn cwmnïau mawr eraill. Mae'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Phennaeth Sicrwydd y Busnes yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn rheolaidd.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith yn ystod 2017-18. Yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth 2018, cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur arall, fel mewn blynyddoedd blaenorol. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad gan yr archwilyr allanol ar Adroddiad Blynyddol 2017-18, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd allweddol yn ymwneud â barn yn y datganiadau ariannol. Aeth y Pwyllgor ati hefyd i gynnal adolygiad critigol o fersiwn ddrafft o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-2018 er mwyn sicrhau ei fod yn cyflwyno asesiad "teg, cytbwys a dealladwy" o statws ariannol y cwmni, yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Cefnogir y Pwyllgor Archwilio gan yr archwilyr allanol, KPMG LLP, a benodwyd ym mis Medi 2015 am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

DATGANIADAU ARIANNOL DIWEDD Y FLWYDDYN

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwylgor Archwilio a'r archwilyr allanol wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny o'r datganiadau ariannol oedd yn cynnwys y lefel fwyaf o farn rheolwyr wedi'i chymhwyso iddynt, a'r rheini yr ystyrir eu bod yn peri'r risg gynhenid fwyaf. Ar gyfer y datganiadau ariannol diwedd blwyddyn, roedd y rhain fel a ganlyn:

Cydnabod referniw gan gynnwys incwm cronedig ar werthiannau mesuredig

Referniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy ar gyfer gwasanaethau a ddarperir. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer, crynhoir a chynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn referniw – y cronid incwm a fesurwyd. Mae'r system filio yn cyfrifo'r cronid incwm a fesurwyd ar sail mesurydd unigol. Ar 31 Mawrth 2018 roedd yr amcangyfrif hwn yn £70.8m, sef cynnydd o £2m o gymharu â diwedd y flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd twf yn y sail cwsmeriaid mesuredig. Mae'r rheolwyr yn adolygu'r tybiaethau a ddefnyddir yn y cronid gan gynnwys amcangyfrifon o gyfaint a thaliadau cymwys, ac roedd y Pwylgor yn fodlon o hyd bod y camau a gymerwyd yn gyson ac yn gytbwys at ddibenion y cyfrifon.

Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf

Mae'r cwmni yn buddsoddi lefel uchel o wariant mewn asedau sefydlog, gan gynnwys trwsio a chynnal a chadw, a chostau gwella. Mae angen arddel barn wrth benderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, ar asedau seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu. Cynyddodd y lefel o wariant cyfalaf net yn ystod y flwyddyn i £380.6m (2017: £342.3m) yn ôl y disgwyl wrth i'r timau cyflawni cyfalaf barhau i ddatblygu capasiti yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen fuddsoddi pum mlynedd.

Roedd y Pwylgor yn fodlon bod y farn a arddelwyd a'r symiau a gyfalafwyd yn briodol.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Roedd lefel y ddarpariaeth a oedd yn ofynnol yn seiliedig ar asesiad o berfformiad hanesyddol o ran casglu arian parod ac yn ystyried ansicrwydd economaidd parhaus a'r broses o ddiwygio system les y wladwriaeth. Hefyd ystyriwyd cynnydd diweddar o ran casglu arian parod yn sgil mentrau parhaus i wella perfformiad. Wrth fynd ati i wneud eu hargymhelliad i'r Pwylgor Archwilio, archwiliodd y rheolwyr berfformiad o ran casglu arian parod ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd yn ystod 2017-18, gan ddod i'r casgliad y gallai Dŵr Cymru, yn y pen draw, ddisgwyl casglu rhyw 55.7% o'r ddyled (na chaiff ei bilio ymlaen llaw) a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2018 (2017: 48.7%).

Gan ystyried yr holl wybodaeth casglu hanesyddol, cytunodd y Pwylgor Archwilio y dylai darpariaeth drwgddyledion Dŵr Cymru fod yn £83.8 miliwn (2017: £96 miliwn) gan adlewyrchu mwy o leihad mewn hen ddyled yn y flwyddyn, gan felly leihau'r ddarpariaeth o ran y fantolen. Mae'r tâl dyledion amheus yn y datganiad incwm ("lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy") sef £22.1 miliwn ar 31 Mawrth 2018 wedi lleihau rhywfaint o gymharu â thâl y flwyddyn flaenorol (31 Mawrth 2017: £23.3 miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu gorchmynion codi tâl newydd yn 2017/18 ar gyfer adennill mwy o arian.

Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Er mwyn cyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn buddiannau diffiniedig i'w chynnwys ar y fantolen yn unol ag IAS 19, mae'n rhaid defnyddio dau amcangyfrif ariannol allweddol, sef y gyfradd ddisgowntio i'w

chymhwyso i rwymedigaethau'r dyfodol a chwyddiant yn y dyfodol y rhwymedigaethau hynny. Roedd y gyfradd ddisgowntio dybiedig yn deillio o arenillion ar fondiau corfforaethol AA-, a phennwyd y lefel chwyddiant dybiedig drwy ystyried y gwahaniaeth rhwng yr arenillion ar fondiau llog sefydlog a bondiau mynegrifol y llywodraeth yn ogystal â ffynonellau eraill o ragfynegi chwyddiant. Trafododd y pwylgor y tybiaethau hyn gyda KPMG a nododd fod y tybiaethau o fewn ystod dderbyniol. Mae gwerth teg yr asedau pensiwn buddiannau diffiniedig wedi gostwng £6.8 miliwn yn ystod y cyfnod. Daeth y Pwylgor i'r casgliad fod prisiadau cyson wedi'u cynnal gan reolwyr cronfeydd unigol sy'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau a amlygir i anweddolrwydd y farchnad, sy'n rhoi cyfrif am y gostyngiad bach mewn prisiad.

Daeth y Pwylgor i'r casgliad fod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn dderbyniol at ddibenion y cyfrifon ac, yn benodol, bod y gyfradd ddisgowntio a gymhwyswyd, sef 2.80%, o fewn ystod dderbyniol.

Offerynnau ariannol deilliadol

Caiff gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol eu darparu gan wrthbarthion cyfnewidiadau. Mae llwyfan set ddata ariannol Bloomberg yn galluogi rheolwyr i gynnal prisiad annibynnol o'r contractau hyn a gaiff ei gymharu wedyn â chadarnhad gwrthbartion cyn cymhwyso addasiad "risg credyd bersonol" priodol. Roedd cyfanswm (net) y rhwymedigaeth ar y fantolen ar 31 Mawrth 2018 yn £397.1 miliwn (2017: £477.0 miliwn).

Cytunodd y Pwylgor fod y ffigur hwn yn rhesymol i'w gynnwys yn y cyfrifon. Nododd y Pwylgor hefyd y bydd angen adrodd ar effaith IFRS 15 (cydnabod referniw) ac IFRS 9 (dosbarthiad a lleihad yng ngwerth asedau ariannol) yn fanylach yn Adroddiad Blynyddol 2019.

GWEITHGAREDDAU ERAILL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Canolbwyntiodd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai a mis Tachwedd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, ar adolygu canlyniadau ariannol rhagarweiniol ac interim y Grŵp a meysydd cysylltiedig o ran barn a pholisi cyfrifyddu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dibynnu ar y rôl weithredol a chwaraeir gan y swyddogaeth Sicrwydd Busnes (archwilio mewnol) i roi sicrwydd ac adolygu digonolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol i reoli risg, gan adrodd ar hyn i'r tîm Gweithredol a'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo'r cynllun gwaith Sicrwydd Busnes ar gyfer y flwyddyn ac yn adolygu hynt y cynllun.

Aeth y Pennaeth Sicrwydd Busnes â'r Pwyllgor drwy adolygiad o gynnydd yn erbyn y cynllun Sicrwydd Busnes hanner ffordd drwy'r flwyddyn ac eto ar ddiwedd y flwyddyn, ar gyfer archwiliadau gweithredol ac archwiliadau proses, a datblygodd gynllun cadarn a heriol hefyd ar gyfer 2018-19 a gymeradwydd gan y Pwyllgor ym mis Chwefror 2018. Roedd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd wedi cymeradwyo'r cynllun Sicrwydd Busnes ar wahân gan ei fod yn ymwneud ag archwilio prosesau gweithredol. Mae'r swyddogaeth Sicrwydd Busnes yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm Cydymffurfiaeth i wella polisiau a gweithdrefnau mewn meysydd fel rheoli cyflenwyr, talu anfonebau cyflenwyr yn brydlon a chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Grŵp.

Yn ystod 2017-18, parhaodd y Pwyllgor i ddefnyddio cyfarfodydd preifat i adolygu ymchwiliadau o faterion a godwyd gan chwythwyr chwiban y tu mewn a'r tu allan i'r cwmni, yn unol â'r polisi chwythu'r chwiban sefydledig. Mae'r polisi yn annog cyflogeion ac eraill i roi gwybod am broblemau, yn diogelu unigolion sy'n gwneud datgeliadau perthnasol ac yn cynnwys darpariaeth llinell gymorth annibynnol i godi materion. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y polisi chwythu'r chwiban yn elfen hanfodol o'r system rheolaethau mewnol.

Hefyd, parhaodd y Pwyllgor Archwilio i dderbyn sicrwydd a chyngor annibynnol o ran cywirdeb a chyflawnrwydd adroddiadau rheoleiddiol yn ystod 2017-18 gan gynghorydd technegol Dŵr Cymru ar faterion adrodd rheoleiddiol, Jacobs Engineering Group. Yn dilyn proses dendro, penodwyd Jacobs am gyfnod cychwynnol o dair blynedd ym mis Ebrill 2016. Cefnogodd Jacobs y gwaith o baratoi'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gyflwynwyd i Ofwat ym mis Awst 2017

a hefyd roddodd fewnbwn i'r Cynllun Sicrwydd a datganiadau methodoleg er mwyn ategu adroddiadau'r cwmni yn erbyn ei Fesurau Llwyddiant o Benderfyniad Terfynol 2016, a wnaiff ategu'r broses adrodd yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ym mis Awst 2018.

Mae'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd preifat o leiaf unwaith y flwyddyn gyda phob un o'r archwilwyr allanol a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes.

YMHLLITH Y PYNCAU ERAILL A ADOLYGWYD GAN Y PWYLLGOR ARCHWILIO YN 2017-18 ROEDD:

- Ystyriaeth fanwl o strategaeth ariannu'r Grŵp ac argymhelliaid i'r Bwrdd ar y cynnig i ymrwymo i gyfleuster bondiau £300m newydd;
- Goruchwyliaeth o'r rhaglen gydymffurfio i wella ein systemau a'n prosesau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data o fis Mai 2018;
- Adolygiad o bolisiau a rheolaethau'r Trysorlys, gan gynnwys cymeradwyo terfynau arian parod newydd ar gyfer ein bancwyr cydberthnasau;
- Seiber-Ddiogelwch, materion diogelwch gwybodaeth a threfniadau adfer ar ôl trychineb TG, gan gynnwys ystyried effeithiolrwydd cymharol ein gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg yn y maes hwn o gymharu â'r rheini a sefydlwyd mewn busnesau tebyg;
- Trefniadau cyflenwyr a chydymffurfiaeth â pholisiau caffael;
- Yr amserlen a'r prosesau ar gyfer llunio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol terfynol;
- Y camau a gymerwyd gan y Grŵp i gydymffurfio â gofynion Llywodraethu Corfforaethol, gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a gofynion o ran adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiâu ym mis Mawrth 2018;
- Canlyniadau adroddiadau archwilio mewnol ac amserlenni i gwblhau'r camau a argymhellwyd.

Hefyd adolygodd y Pwyllgor ganlyniadau gwerthusiad mewnol o berfformiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2018, ac aeth ati i adolygu perfformiad yr archwilwyr allanol yn ystod y flwyddyn.

FFIOEDD ARCHWILWYR NAD YW AR GYFER GWAITH ARCHWILIO

Mae'n bolisi gennym i beidio â defnyddio archwilwyr allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol yn gyffredinol, a bod unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn destun Polisi Caffael y Grŵp.

Rhaid i unrhyw ffioedd nad yw ar gyfer gwaith archwilio a delir i Archwilwyr naill ai gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ymlaen llaw neu, mewn sefyllfa frys, gan y Cadeirydd ac yna eu hadrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Yn ystod y cyfnod 2017-18 roedd ffioedd archwilio datganiadau ariannol y Grŵp yn £159,000 ac roedd ffioedd ar gyfer gwasanaethau sicrwydd eraill yn £143,000. Roedd ffioedd a dalwyd ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn gysylltiedig ag archwilio yn £203,000. Felly y gymhareb ffioedd sicrwydd/ffioedd nad oeddent ar gyfer gwaith archwilio a ffioedd ar gyfer gwaith archwilio oedd 2.18x. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i fonitro'r gymhareb ffioedd nad ydynt ar gyfer gwaith archwilio a ffioedd sydd ar gyfer gwaith archwilio yn sgil y newidiadau sydd ar ddod i ganllawiau ar gyfer cwmnïau rhestredig. Ceir rhagor o wybodaeth yn y datganiadau ariannol ar dudalen 112.

CYFARFODYDD Â BUDDSODDWYR

Mae aelodau'r Pwyllgor ar gael i gyfarfod â buddsoddwyr drwy drefnu hynny ymlaen llaw ag Ysgrifennydd y Cwmni. Eleni, cynhelir y Cyfarfod ffurfiol â'r Buddsoddwyr yng Ngwesty Andaz, Llundain am 8:30am ar 11 Gorffennaf 2018.



John Warren
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio
7 Mehefin 2018

ADRODDIAD Y PWYLLGOR ANSAWDD AC AMGYLCHEDD

Cadeirydd:

Graham Edwards (ers mis Ionawr 2018),
Stephen Palmer (cadeirydd tan fis Rhagfyr 2017)

Aelodau:

Chris Jones, Joanne Kenrick, Alastair Lyons, Peter Perry a Tom Crick
(o fis Hydref 2017)

Cynghorwyr Gwyddonol Annibynnol:

Steve Brown (Amgylchedd), Andrew Davies (Dŵr) (tan fis Chwefror 2018),
Julian Dennis (Dŵr) (penodwyd ym mis Chwefror 2018)

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo cyfrifoldeb i'r PAA am adolygu a monitro meysydd risg strategol digwyddiadau iechyd a Diogelwch mawr, rheoliadau amgylcheddol, methiant i gyrraedd lefelau perfformiad gofynnol, methiant asedau strategol a digwyddiad iechyd y cyhoedd mawr. Mae'r PAA hefyd yn gyfrifol am graffu ar berfformiad gweithredol ac asesu priodoldeb strategaethau gwella gweithgareddau dŵr a dŵr gwastraff Dŵr Cymru.

Mae'r PAA hefyd yn gwneud y canlynol:

- yn adolygu, yn monitro ac yn dylanwadu ar y cynllun rheoli iechyd a diogelwch a'i gyflawniad;
- yn sicrhau bod Dŵr Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau iechyd y cyhoedd o ran darparu dŵr yfed glân a diogel a glanweithdra dŵr gwastraff yn unol â safonau statudol;
- yn sicrhau bod gan y cwmni drefniadau argyfwng a diogelwch digonol yn unol â chanllawiau statudol cyfredol megis safonau'r Seilwaith Cenedlaethol Critigol (CNI) a Chyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD);
- yn adolygu ac yn dylanwadu ar raglen archwilio anariannol y cwmni ac yn cael canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol ac allanol yn ymwneud â darpariaeth gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.

Mae'r PAA yn cyfarfod â rhanddeilioid

allweddol ar ran y Bwrdd. Yn ystod 2017-18 mynychodd uwch realwyr o'r Arolygiaeth Dŵr Yfed a Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarfodydd.

Mae'r PAA yn chwarae rôl bwysig yn y gwaith o annog y defnydd deallus o ddata a mabwysiadu technoleg newydd briodol neu fesurau arloesol eraill a wnaiff wella gwasanaeth i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Ymhlith yr enghreifftiau o brosiectau sy'n defnyddio data mewn ffordd ddeallus mae mapio clorin i wella profiad cwsmeriaid a model i gefnogi'r gwaith o ragfynegi blociadau mewn carthffosydd.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu canfyddiadau ymchwiliadau i unrhyw fethiant o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd neu wasanaeth cwsmeriaid. Cynhelir Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol gan Brif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru sy'n cyfarfod â'r Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr/Dŵr Gwastraff perthnasol ar gyfer y methiannau hynny y tybir eu bod yn ddifrifol. Cyflwynir adroddiad i'r PAA sy'n nodi'r prif reswm, gwersi a ddysgwyd a chomau i'w cymryd. Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd Adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol mewn perthynas ag ansawdd dŵr neu ddigwyddiadau llygredd yng Ngwaith Trin Dŵr Pontsticill, Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Eign a Gaerwen o ran digwyddiad iechyd a diogelwch yn ymwneud ag is-gontractiwr a oedd yn ymgymryd â gwaith cyfalaf.

Ymhlith yr enghreifftiau o feysydd ffocws ar gyfer cyfranogiad y PAA yn 2017-18 roedd:

- Adroddiadau iechyd a diogelwch
- Adroddiadau perfformiad ar gyfer Dŵr a Dŵr Gwastraff
- Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau
- Strategaeth Astudiaethau Porthol
- Strategaeth Haearn a Derbynioldeb
- Strategaeth Munudau Cwsmeriaid a Golli
- Strategaeth Dalgylch
- Canlyniadau'r Archwiliad i'r Gyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng
- Strategaeth Llifogydd
- Strategaeth Llygredd
- Strategaeth Monitro Hyd Digwyddiadau
- Strategaeth Lleihau Aroglau

**Graham Edwards**

Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd

7 Mehefin 2018


ADRODDIAD Y PWYLLGOR ENWEBIADAU

Codeirydd: Alastair Lyons

Aelodau: Graham Edwards, Chris Jones a Menno Richards

Rôl y Pwyllgor yw adolygu system cynllunio olyniaeth y Bwrdd a rhoi prosesau ar waith i fynd i'r afael â hyn, gan adrodd i'r prif Fwrdd. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau hefyd yn adolygu polisiau sy'n berthnasol i recriwtio, yn enwedig ein Polisi Amrywiaeth.

Yn 2017-18 aeth y Pwyllgor Enwebiadau ati i ganfod olynnydd i'r Athro Stephen Palmer. Yn dilyn proses dendro, penodwyd Goodson Thomas i gynghori'r Pwyllgor a chefnogi'r broses. Penodwyd yr Athro Tom Crick i'r Bwrdd ym mis Hydref 2017 a rhoddodd Stephen Palmer y gorau i'r rôl ym mis Rhagfyr 2017.



Alastair Lyons

Codeirydd Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau

7 Mehefin 2018

ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID

Codeirydd: John Warren

Aelodau: Peter Bridgewater, Chris Jones, Alastair Lyons

Sefydlir y Pwyllgor Cyllid ag awdurdod i gymeradwyo penderfyniadau ariannol yn gyflym ar sail ad hoc rhwng cyfarfodydd. Ni fwriadwn ddefnyddio'r Pwyllgor hwn yn fynych am ein bod fel rheol yn blaengynllunio digon i ymdrin â materion o'r fath yng Nghyfarfodydd y Bwrdd neu'r Pwyllgor Archwilio. Ni chyfarfu'r Pwyllgor Cyllid yn 2017-18.



John Warren

Codeirydd Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

7 Mehefin 2018

ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Cadeirydd: Anna Walker

Aelodau: Alastair Lyons, Menna Richards, John Warren

Ar ran y Bwrdd, rwy'n falch o gyflwyno Adroddiadau Cydnabyddiaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Cyfarwyddwyr ar gyfer 2018. Mae sicrhau gwerth am arian a threfniadau llywodraethu da o ran polisiau cydnabyddiaeth yn hanfodol er mwyn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill.

RÔL Y PWYLLGOR

Rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw argymhell i'r Bwrdd ei gymeradwyo, a'i adolygu'n gyson, Bolisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd fel mae'n gymwys i'r busnes cyfan. Yn fwy penodol, rôl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw:

- cytuno ar y Polisi a'r contractau fframwaith a gwasanaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, a'r fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer y tîm Gweithredol yng nghyd-destun polisi cydnabyddiaeth ym mhob rhan o'r Grŵp;
- penderfynu ar drefniadau tâl amrywiadwy sy'n annog ac yn cydnabod perfformiad da ac yn gwobrwyo unigolion, mewn modd teg a chyfrifol, am eu cyfraniad i lwyddiant hirdymor y Grŵp, a datblygu'r polisiau i gefnogi'r egwyddorion hyn.

Wrth gyflawni ei rôl, mae'r Pwyllgor yn arddel rhai egwyddorion allweddol (a nodir isod) y cytunodd arnynt yn 2015-16 ac a drafodwyd ag Aelodau Glas.

Yn ystod 2017-18, mae prif weithgareddau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi cynnwys:

- ystyried tueddiadau cydnabyddiaeth ac arfer gorau;
- pennu targedau perfformiad "ymestynnol" ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol a monitro cynnydd yn eu herbyn;
- adolygu'r gydnabyddiaeth darged ar gyfer y tîm Gweithredol ehangach;
- adolygu cyflogau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a ffi'r Cadeirydd, ac ystyried argymhellion ar gyfer y cynnydd blynyddol arfaethedig;
- asesu perfformiad yn erbyn yr amodau sydd ynghlwm wrth Gynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol (AVPS) 2017-18 a Chynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor AMP6 (LTVPS) a chytuno ar ddyfarnaliadau i'w gwneud i gyfranogwyr;
- cymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2017;
- adolygu'r gwaith a wnaed gan KPMG ar y broses o adrodd ar y bwch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn cyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2018 ar ôl i'r Bwrdd gymeradwyo cynllun i weithio tuag at leihau'r bwch a nodwyd ymhellach;
- ystyried elfennau allweddol o'r Polisiau Cydnabyddiaeth a fydd yn gymwys i'r busnes yn ystod 2020-25 a'r ffactorau allanol a fydd yn berthnasol, wrth i'r Bwrdd ddechrau ystyried y fframwaith cyflogau a dyfarnaliadau ar gyfer pob rhan o'r Grŵp Glas ar gyfer y cyfnod rheoli prisiau nesaf o bum mlynedd.

RÔL AELODAU GLAS

Mae Aelodau Glas yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o sicrhau bod system lywodraethu dda ar waith o ran datblygu a chymeradwyo polisiau cydnabyddiaeth.

Cafodd y polisi cydnabyddiaeth presennol ei gymeradwyo gan Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015 a bydd y polisi yn destun cymeradwyaeth bellach gan Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018, pan ofynnir i Aelodau Glas ailgymeradwyo'r polisi am gyfnod pellach hyd at fis Ebrill 2020. O'r dyddiad hwnnw, bydd angen polisi diwygiedig a fydd yn nodi'r materion perfformiad allweddol ar gyfer AMP7. Mae hyn hefyd yn unol â'r rheoliadau adrodd ar gydnabyddiaeth sy'n gymwys i gwmnïau a restrir yn y DU. Mae Aelodau yn cymeradwyo Polisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd drwy bleidlais gyfrwymol, o leiaf unwaith bob tair blynedd (neu lle cynigir unrhyw newid sylweddol).

Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth hefyd yn destun pleidlais gynghorol gan Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf yn 2018, yn ôl yr arfer. Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd, pleidleisiodd holl Aelodau Glas o blaid yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni, bydd y Pwyllgor hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y gwaith cychwynnol a wnaed hyd yma i baratoi'r polisi a fyddai'n gymwys i'r cyfnod 2020-2025 a chynlluniau i gynnwys Aelodau yn y gwaith o ddatblygu'r Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer y cyfnod AMP nesaf.

Caiff y Polisi Cydnabyddiaeth diwygiedig ei gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019. Caiff targedau cydnabyddiaeth eu cysylltu â'r mesurau perfformiad y bydd y cwmni yn eu targedu yn ystod y cyfnod 2020-2025, a byddant yn gyson â nodau tymor hwy'r Grŵp fel y'u nodir yn strategaeth Dŵr Cymru 2050. Byddai'r polisi cydnabyddiaeth diwygiedig arfaethedig yn weithredol o fis Ebrill 2020 pan fydd y cyfnod rheoli prisiau newydd yn dechrau.

EGWYDDORION CYDNABYDDIAETH GRŴP GLAS

Wedi'u cytuno ag Aelodau Glas yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2015

- Dylai cydnabyddiaeth wobrwyo/cymell buddiannau hirdymor y busnes ac adlewyrchu ei ddull strategol cytûn o weithredu yn y dyfodol
- Dylai cydnabyddiaeth helpu i gysoni buddiannau cyfarwyddwyr a chyflogeion â chwsmeriaid y busnes
- Dylai cydnabyddiaeth ganolbwyntio ar brif bryderon y busnes — ansawdd dŵr ac amgylcheddol, gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad ariannol
- Dylai cydnabyddiaeth adlewyrchu nod Dŵr Cymru i fod yn un o'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn y sector
- Dylai targedau cydnabyddiaeth fod yn ymestynnol o ran perfformiad blaenorol ac o gymharu â chwmnïau eraill yn y sector. Lle y bo'n bosibl, dylent fod yn ffigurau caled y gellir eu harchwilio. Er bod rhai yn flynyddol, dylent hefyd fod yn gyson ag amcanion strategol a rheoleiddiol y busnes
- Bwriedir i gydnabyddiaeth gymell rheolwyr yn absenoldeb cyfranddallwyr ac opsiynau cyfranddaliadau
- Dylai cydnabyddiaeth hefyd fod yn deg ac yn gystadleuol o ran y sector ac yn fewnol er mwyn denu a chadw unigolion o'r radd flaenaf
- Dylai cyfran sylweddol o gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn amrywiadwy (rhaniad 60/40 sy'n sefydlog/amrywiadwy yw'r targed a nodwyd) er mwyn taro'r cydbwysedd cywir o ran mentro
- Dylai'r strwythur cydnabyddiaeth fod yn ddigon clir fel bod y sawl y mae'n effeithio arnynt yn deall beth yw ei nod
- Bydd cydnabyddiaeth yn dryloyw i Aelodau Glas ac yn cael ei chymeradwyo'n rheolaidd.

NEWIDIADAU ALLANOL A DATBLYGIADAU SY'N BERTHNASOL I BOLISIÂU CYDNABYDDIAETH

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd parhad o ran y strwythur cydnabyddiaeth a sefydlwyd yn y cyfnod AMP cyfredol (2015-2020), gyda'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar newidiadau a heriau allanol a fydd yn effeithio ar y busnes yn ystod y cyfnod nesaf o bum mlynedd. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r meincnodau priodol y dylid ystyried cyflogau a dyfarndaliadau yn eu herbyn, gan gyfeirio at y canlynol:

- Yr angen i allu cynllunio ar gyfer y tymor hwy, a denu a chadw sgiliau a thalent priodol, yn enwedig o ystyried heriau sylweddol y dyfodol a nodwyd yn nogfen strategaeth Dŵr Cymru 2050 y Grŵp;
- Datblygiadau ym maes llywodraethu corfforaethol yn cynnwys paratoi ar gyfer AMP7, ffocws Ofwat ar dryloywder, a chyflog cysylltiedig â pherfformiad sydd â chysylltiad clir â pherfformiad sylfaenol y cwmni;
- Strwythur y Grŵp a'i statws fel Grŵp nad yw'n eiddo i gyfranddallwyr.


Ar ôl treulio amser yn ystyried strwythur a chynnwys polisiau cydnabyddiaeth y Grŵp yn erbyn yr amrywiaeth hon o feincnodau, mae'r Pwyllgor hefyd wedi gweithio gyda'i ymgynghorwyr newydd, Mercer, i ystyried yr elfennau allweddol a gynigiwyd ar gyfer y polisiau cydnabyddiaeth a fydd yn gymwys ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf o bum mlynedd (2020-2025). Mae'n rhaid i gyflogau gymell perfformiad cryf gan Gyfarwyddwyr Gweithredol, ond ni ddylai eu hannog i gymryd gormod o risg. Wrth ystyried y dull o strwythuro cydnabyddiaeth a'r cysylltiad â pherfformiad, mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynnwys strategaeth Dŵr Cymru 2050, sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau a materion tymor hwy a datblygu mwy o gydnerthedd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r broses o ailstrwythuro'r tîm Gweithredol wedi cynnwys penodi Peter Perry yn Rheolwr Gyfarwyddwr y busnes rheoleiddiedig (y Prif Swyddog Gweithredol gynt), Samantha James yn Rheolwr Gyfarwyddwr ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid Preswyl, ac Ian Wyatt yn Gyfarwyddwr ar gyfer Gwasanaethau Cwsmeriaid Busnes. Cafwyd rhywfaint o ailstrwythuro o ran cyfrifoldebau'r tîm gweithredol hefyd. Fel rhan o'r broses o ailstrwythuro'r uwch dimau rheoli, bu'r Pwyllgor yn ystyried sut y dylid cymhwyso polisiau cydnabyddiaeth cyfredol y Grŵp at y tîm Gweithredol newydd.


PERFFORMIAD A GWOBROWYO AR GYFER 2017-18

Roedd y gydnabyddiaeth a dalwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:

- cyflog sylfaenol (a gododd 1.6% ym mis Ebrill 2017) ynghyd â phensiwn (neu daliadau cyfatebol) a buddiannau iechyd preifat ac iechyd parhaol;
- o dan AVPS 2017-2018, gwnaed dyfardaliadau a oedd yn gyfwerth â 22.8% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn elfen Cwsmeriaid a Chydymffurfiaeth y cynllun, 15.5% ar gyfer Cyfanswm Gwariant Perfformiad Cost a rhwng 24.3% a 26.3% yn erbyn Amcanion Strategol (Ffocws Blynyddol) a Phersonol, gan wneud cyfanswm dyfardal o rhwng 62.6% a 64.6% o'r cyflog sylfaenol ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol

Alldro AVP 2017-18 (uchafswm 100% y flwyddyn)

- o dan LTVPS, gwnaed taliadau am berfformiad yn ymwneud ag elfen Gwerth Cwsmeriaid y cynllun: nid oes unrhyw swm yn daladwy mewn perthynas ag elfen Gwerth Cwsmeriaid y cynllun, sy'n dibynnu ar ganlyniad mesur perfformiad SIM Ofwat.

Alldro LTVPS 2017-18 (uchafswm 60% y flwyddyn)

Gwasanaeth Cwsmeriaid: Ni fydd alldro terfynol perfformiad Dull Cymell Gwasanaeth (SIM Gwasanaeth Cwsmeriaid) Dŵr Cymru yn 2017-18 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn yr haf. Fodd bynnag, amcangyfrifwn y bydd Dŵr Cymru yn y chweched safle allan o ddeg o blith cwmnïau dŵr a chorthffosiaeth a fydd yn golygu na fydd unrhyw swm yn daladwy eleni am elfen Gwasanaeth Cwsmeriaid y dyfardaliad, a gyfrifir ar sail SIM cyfartalog tair blynedd treigl. Byddai'r dyfardaliad yn cael ei addasu pe bai'r canlyniadau yn gofyn am wneud hynny. Dylid nodi bod gwahaniaethau cymharol fach mewn canlyniadau SIM wedi arwain at amrywiadau sylweddol mewn dyfardaliadau yn ddiweddar.

Gwerth Cwsmeriaid: dyfarnwyd taliad o 16% o'r cyflog (53.3% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon o'r LTVPS) o dan y cynllun am elfen Gwerth Cwsmeriaid o ystyried cyflawniad ariannol yn y cyfnod.

GWEITHREDU'R POLISI CYDNABYDDIAETH YN 2018-19

Mae'r Egwyddorion Cydnabyddiaeth cytûn yn pwysleisio y dylai cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol o'r ffin Gweithredol ehangach fod yn gyson â buddiannau'r Grŵp, ac yn arbennig fuddiannau cwsmeriaid. Byddant yn parhau i lywodraethu ein dull gweithredu yn 2018-19. Y pwyntiau allweddol o ran gweithredu'r Polisi Cydnabyddiaeth yn 2018-19 yw:

- Cynyddodd cyflogau 3% o 1 Ebrill 2018 yn unol â'r dyfarniad cyflog a gafodd cyflogaion eraill. Cytunwyd ar y dyfarniad o 3% yn sgil meincnodi cymharol a pherfformiad da parhaus;
- o dan yr AVPS, mae'r uchafswm y gellir ei ennill yn 2018-19 yn parhau ar lefel o 100% o'r cyflog. Bydd y Cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar gwsmeriaid, cydymffurfiaeth, cost ac amcanion personol, yn ogystal â nifer o fesurau hollbwysig eraill o ran llwyddiant byrdymor a thymor canolog;
- mae'r LTVPS yn nodi mai'r uchafswm cyffredinol y gellir ei ennill yng nghyfnod rheoleiddio pum mlynedd AMP6 yw 300% o'r cyflog sylfaenol (h.y. 60% y flwyddyn). Mae hanner yr LTVPS yn destun mesurau Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae hanner yn destun mesurau Gwerth Cwsmeriaid.

Mae Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn cynnwys:

- Adroddiad Polisi Cydnabyddiaeth (tudalennau 72-74). Mae'r Pwyllgor yn dal i fod yn fodlon bod y Polisi Cydnabyddiaeth yn parhau i fod yn briodol ac yn addas at y diben ac mae'n bwriadu ceisio cymeradwyoeth bellach gan Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 i ymestyn y polisi cyfredol hyd at ddiwedd y cyfnod AMP cyfredol, sef Mawrth 2020. Gofynnir i Aelodau gymeradwyo Polisi Cydnabyddiaeth newydd y Grŵp yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2019, a bydd y polisi hwnnw'n weithredol o fis 2020 pan fydd y cyfnod rheoli prisiau nesaf yn dechrau.
- Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth (tudalennau 75-82) sy'n disgrifio sut y cafodd y Polisi Cydnabyddiaeth ei weithredu ar gyfer 2017-18 a sut rydym yn bwriadu ei gymhwyso ar gyfer 2018-19. Bydd yr adroddiad hwn yn destun pleidlais gyngorol gan Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i New Bridge Street (Aon Hewitt) am y cyngor proffesiynol a roddwyd ganddo hyd at fis Gorffennaf 2017 ac i Mercer, sy'n olynu New Bridge Street fel Ymgynghorwyr Cydnabyddiaeth i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth o fis Awst 2017.

Wrth gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydnabyddiaeth, mae'r Pwyllgor wedi ystyried gofynion canllawiau Ofwat ar dryloywder yn ei Ganllawiau Rheoleiddio a Chyfrifyddu 3.09, gan gynnwys y gofyniad i gynnwys nodyn sy'n disgrifio'r cysylltiad rhwng cyflog cyfarwyddwyr a safonau perfformiad fel sy'n ofynnol gan adran 35A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (a fewnosodwyd yn y Ddeddf honno gan adran 50 o Ddeddf Dŵr 2003) — am ragor o wybodaeth, gweler tudalennau 76-79.

Anna Walker

Anna Walker

Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
7 Mehefin 2018

ADRODDIAD POLISI

Cafodd rhannau allweddol o'r Adroddiad Polisi a gymeradwywyd gan Aelodau Glas yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015 eu cynnwys eto yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. Ceir yr Adroddiad Polisi gwreiddiol ar dudalennau 76 i 78 yn Adroddiad a Chyfrifon 2015 ar wefan y Cwmni dwrwymru.com/reports

POLISI CYDNABYDDIAETH

Cafodd egwyddorion a fframwaith y Polisi Cydnabyddiaeth presennol eu cymeradwyo gan Aelodau Glas yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 3 Gorffennaf 2015 a daethant i rym o'r dyddiad hwnnw.

Mae'r Polisi yn cysoni cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol â'r broses o roi strategaeth Dŵr Cymru ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. O dan y polisi, mae cydnabyddiaeth yn gysylltiedig â pherfformiad blynyddol a thros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015.

Gweithredir y Polisi er mwyn sicrhau'r canlynol:

- yr ystyrir bod lefelau cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth (o'u hasesu yn erbyn y farchnad o bryd i'w gilydd) yn deg ac yn gystadleuol gan ystyried profiad a chyfrifoldeb unigolyn;
- y caiff gwelliant mewn perfformiad ei annog drwy sicrhau bod cyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth y gellir ei thalu yn gysylltiedig â pherfformiad, tra'n cydbwyso hyn â chyflog sylfaenol er mwyn sicrhau nad oes cymhelliant i gymryd gormod o risg;
- bod cymhellion yn canolbwyntio ar y canlyniadau a ystyrir yn bwysig i gwsmeriaid a'u calibradu yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol ac yn erbyn perfformiad cwmnïau eraill a asesir gan Ofwat a rheoleiddwyr eraill, er mwyn cymhell perfformiad sy'n arwain y sector mewn ffordd dryloyw ac atebol;
- bod yr LTVPS yn canolbwyntio ar berfformiad strategol, gwerth cwsmeriaid ac ariannol hirdymor Dŵr Cymru.

Mae'r Grŵp yn negodi cyflogau ar gyfer y gweithlu ehangach gyda'r tri undeb llafur cydnabyddedig drwy ddull gweithredu un bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn nodi'r broses a'r cynnydd y cytunwyd arno ar gyfer y sylfaen cyflogaion ehangach ac yn adolygu arferion ac amodau'r farchnad.

Mae'r Mesurau Llwyddiant a'r elfennau cost sydd wrth wraidd AVPS Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r tîm Gweithredol ehangach hefyd yn sail i drefniadau cyflog amrywiol y sefydliad cyfan. Nid yw'r Pwyllgor yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol â chyflogaion ar gyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol, ond mae'n ceisio barn y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn rheolaidd ac yn ystyried sofwbwyntiau a fynegir mewn trafodaeth ag Aelodau Glas, yn ogystal â meincodi ac arfer gorau.

DISGRESIWN Y PWYLLGOR CYDNABYDDIAETH

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu'r AVPS a'r LTVPS yn unol â'u priod bolisiau cynllun ac yn unol â'r Rheolau Rhestru, Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU a Chanllawiau IA/ISS lle y bo'n briodol.

Mae'r Pwyllgor yn cadw ei ddisgresiwn, yn gyson ag arfer y farchnad, o ran gweithredu a gweinyddu'r cynlluniau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, ystyried materion diogelwch neu enw da o bwys, neu waethgiad sylweddol mewn perfformiad. Mae rheolau'r cynllun yn caniatáu adfachu cyflog amrywiol gan gyfarwyddwyr, boed hynny cyn neu ar ôl breinio dyfardaliadau.

GORUCHWYLIO POLISIAU CYDNABYDDIAETH AR GYFER Y GRŴP EHangach

Fel rhan o'i adolygiad parhaus o bolisiau, mae'r Pwyllgor yn ystyried cydnabyddiaeth y Grŵp cyfan, a phriodoldeb targedau, tra'n cydnabod mai mater i'r tîm Gweithredol yw manylion polisïau cyflog y gweithlu ehangach a sut y cânt eu gweithredu.

Mae Ffigur 1 (dde) yn crynhoi elfennau pecynnau cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Pholisi Cydnabyddiaeth y Grŵp.

FFIGUR 1: YR ELFENNAU SY'N RHAN O BECYNNAU CYDNABYDDIAETH Y CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL


	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Er mwyn helpu i recriwtio, cadw a chymell cyflogeion o galibr uchel	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso o 1 Ebrill. Mae'r adolygiad yn adlewyrchu: — rôl, profiad a pherfformiad — amodau economaidd ehangach — y codiadau a ddyfernir i'r gweithlu ehangach — ystyried lefelau mewn cyflestodau eraill yn y farchnad ehangach o bryd i'w gilydd	Codiadau blynyddol fel arfer yn gysylltiedig â rhai'r gweithlu ehangach, er bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cadw disgrisiwn i ddyfarnu codiadau unigol uwchlaw'r lefel hon lle bo'n briodol. Datgelir cyflogau cyfredol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth	Dim
Buddiannau	Darparu pecyn buddiannau sy'n gystadleuol o gymharu â'r farchnad er mwyn helpu i recriwtio a chadw Cyfarwyddwyr Gweithredol Mae buddiannau gofal iechyd yn hybu parhad y busnes	Mae gan y Cyfarwyddwyr yr hawl i yswiriant iechyd preifat ac yswiriant bywyd Mae gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr hawl hanesyddol i yswiriant iechyd parhaol Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn cael lwfans car o £5,000 sy'n weithredol o 1 Hydref 2017 Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety gael eu cynnig fel y bo'n briodol.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Grŵp ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw	Dim
Pensiwn	Helpu i recriwtio a chadw cyflogeion o galibr uchel Darpariaeth cynllunio arwahanol ar ôl ymdddeol	O 1 Ebrill 2017, mae aelodau gweithredol o Gynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Dŵr Cymru sy'n trosglwyddo i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yn cael cyfraniad cyflogwr o hyd at 24% o gyflog (yn unol â chyflogeion eraill) gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod amgen sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogwr. Ar gyfer aelodau gweithredol eraill o Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru, y cyfraniad mwyaf y gall y cyflogwr ei wneud i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yw 11% ar yr amod bod y cyflogai yn cyfrannu 6% neu fwy. Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i gyfraniad cyffredinol y Cyflogwr, wedi'i addasu ar gyfer cyfraniadau YG.	O 1 Ebrill 2017, caiff y Prif Weithredwr lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog a chaiff y Rheolwr Gyfarwyddwr lwfans arian parod amgen o 15.8% o gyflog. Mae'r gwerth yn cyfateb i daliadau blaenorol ond yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng arall.	Dim
AVPS	Er mwyn cymell unigolion i gyflawni targedau ymestynol ac amcanion personol bob blwyddyn	Caiff targedau AVPS eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cynllunnir y targedau mewn perthynas â meysydd busnes y mae gan y swyddog Gweithredol reolaeth benodol drostynt Pennir yr alldro gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau ac: — fe'u telir fel arian parod; — nid ydynt yn bensiynadwy Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: — ailddatgan cyfrifon; — comliwio sylweddol; — camymddwyn difrifol neu niwed a ochosir i enw da'r Cwmni neu Gwmnïau'r Grŵp Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl i wrthod dyfardaliadau os bydd materion o bwys yn effeithio ar daliogelwch neu enw da'r cwmni. Gall dyfardaliadau AVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfardal ar gyfer blwyddyn ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	Hyd at 100% o gyflog	Caiff mesurau eu cysoni â themâu'r Cynllun Busnes sef Cwsmer, Cydymffurfiaeth a Chost, gyda thargedau ffocws blynyddol a phersonol ychwanegol (Gweler tudalen 76)

Wrth gymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth hwn, rhoddwyd awdurdod i'r Grŵp anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau a wnaed â Chyfarwyddwyr cyfredol neu gyn-Gyfarwyddwyr sydd wedi'u datgelu mewn Adroddiadau Cydnabyddiaeth blaenorol. Caiff manylion unrhyw daliadau i gyn-Gyfarwyddwyr eu nodi yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth wrth iddynt godi fel sy'n afynnol o dan y Rheoliadau Cydnabyddiaeth.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
LTVPS	Er mwyn cysoni buddiannau hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru Er mwyn cymell unigolion i greu gwerth yn yr hirdymor	Dyfarndaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynnol sy'n ymwneud â: – perfformiad SIM cymharol am gyfnod treigl o dair blynedd – mesur cyfunol o'r twf mewn Cronfeydd Wrth Gefn a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: – ailddatgan cyfrifon – camliwio sylweddol – camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu Gwmniau'r Grŵp Mae'r Pwyllgor hefyd yn cadw'r hawl i wrthod gwobrwyon os bydd materion o bwys yn effeithio ar ddiogelwch neu enw da'r cwmni. Gall dyfarndaliadau LTVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfarndal ar gyfer blwyddyn ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	300% o'r cyflog dros y cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020 (uchafswm dyfarndaliad posibl o 60% y flwyddyn).	50% yn seiliedig ar berfformiad SIM cymharol 50% yn seiliedig ar werth cwsmeriaid a gynhyrchir (gweler tudalen 77)
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	Mae'n rhoi lefel briodol o ffi sefydlog i recriwtio a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo lefel y ffi sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall pob Cyfarwyddwr gael ei dalu am dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas â'i rôl ar y Bwrdd ac unrhyw oblygiadau o ran buddiannau trethodwy sy'n deillio o hynny.	Ni thelir unrhyw ffioedd i Gyfarwyddwyr Anweithredol am gadeirio Pwyllgorau Telir mwy i'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol er mwyn adlewyrchu ehangder ei ddyletswyddau neu ei dyletswyddau.	Dim
Penodi Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd	Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, data priodol ar y farchnad a gwybodaeth gymharol fewnol. Os ystyrir ei bod yn briodol penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyflog sy'n is na lefel y farchnad, mae'n bosibl y caiff gyfres o godiadau cyflog hyd at y sefyllfa cyflog dymunol dros gyfnod priodol o amser yn amodol ar ei berfformiad yn y swydd. Bydd hyn yn gymwys i benodiadau mewnol ac allanol. Y polisi fydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd fod yn rhan o'r strwythur cydnabyddiaeth a nodir uchod. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu roi trefniadau trosiannol ar waith pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno hanner ffordd drwy'r cyfnod rheoleiddio o bum mlynedd. Ar gyfer y sawl a gaiff eu dyrchafu'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn fewnol, nid effeithir ar yr hawl i AVPS na LTVPS a gronnydd yn flaenorol, hyd at y dyddiad penodi. Pe bai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth o'r farn bod angen prynu tâl cymhelliant y byddai unigolyn yn ei ffordfedu pan fyddai'n gadael ei gyflogwr presennol, caiff iawndal o'r fath, lle y bo'n bosibl, ei strwythuro er mwyn sicrhau bod telerau'r prynu yn adlewyrchu ffurf a strwythur y gydnabyddiaeth a gaiff ei disodli.			
Polisi ar gyfer taliadau i gyfarwyddwyr gweithredol sy'n ymadael	Mae cyfnod rhybudd o 12 mis ynghlwm wrth gontactau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer talu iawndal os bydd y Grŵp yn terfynu contract yn gynnar. Yn ôl disgrisiwn y Grŵp, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig yn lle rhybudd i Gyfarwyddwr Gweithredol. Os bydd y Grŵp yn dewis gwneud taliad yn lle rhoi rhybudd, mae elfen sylweddol o liniaru yn rhan o'r contract. Pan fydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiadau ac nad yw'n ofynnol iddo weithio ei gyfnod rhybudd, bydd ganddo'r hawl i Dâl Diswyddo Statudol ynghyd â chyflog 12 mis yn lle rhybudd ynghyd â thâl yn lle gwyliau sydd wedi cronni ond nas cymerwyd. Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol ymddiswyddo, disgwylir iddo weithio cyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant amgen megis absenoldeb garddio neu gyfnod rhybudd llai. Os bydd y Grŵp yn terfynu cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Grŵp yn gofyn am yngor cyfreithiol a dim ond y swm y bydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol hawl gyfreithiol i'w gael a delir iddo. Os daw cyflogaeth i ben, caiff dyfarndaliadau AVPS ac LTVPS eu trin yn unol â rheolau'r cynllun perthnasol sy'n disgrifio'r modd yr ymdrinnir ag unrhyw daliad drwy gyfeirio at dermau gadael 'da' neu 'wael'. Caiff y Cyfarwyddwr Gweithredol gadw unrhyw swm wedi'i freinio a dalwyd iddo eisoes cyn y dyddiad y daeth ei gyflogaeth i ben.			

Mae'r graffiau isod yn dangos ar gyfer pob Cyfarwyddwr Gweithredol:

- y lefel sylfaenol o gydnabyddiaeth, sy'n cynnwys cyflog sylfaenol, buddiannau mewn da a phensiwn ac nid yw'n ddibynnol ar berfformiad;
- y lefel ddisgwyliedig o gydnabyddiaeth, sy'n adlewyrchu lefel nodweddiadol perfformiad yn erbyn targedau ar gyfer yr AVP a'r LTVP
- uchafswm y gydnabyddiaeth, pe bai pob un o dargedau perfformiad AVP ac LTVP yn cael eu cyflawni'n llawn



ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYDNABYDDIAETH

Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol –
gweithredu'r polisi

CYFLOG

Yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth 2018, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi pennu'r cyflogau sylfaenol ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2018-2019 (yn weithredol o 1 Ebrill 2018) fel y nodir yn Ffigur 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd o 3% a ddyfarnwyd i gyflogeion ar 1 Ebrill 2018 yn unol â'r cytundeb cyflog pum mlynedd â thri undeb llafur cydnabyddedig y Grŵp (GMB, UNSAIN ac UNITE) yn 2015 a'r cyflogeion hynny nad ydynt yn rhan o Gytundeb Gweithio gyda'n Gilydd. Ystyriwyd manylion cyflogau sylfaenol Cyfarwyddwyr Gweithredol o fewn Dŵr Cymru a'r Diwydiant Dŵr yn gyffredinol yn ystod trafodaethau ar y setliad cyflog ar gyfer y gweithlu ehangach.

FFIGUR 2: CYFLOG SYLFAENOL CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

	Yn weithredol o 1 Ebrill 2017	Yn weithredol o 1 Hydref 2017	Yn weithredol o 1 Ebrill 2018
Chris Jones	£297,267	£297,267	£306,186
Peter Perry	£240,220	£280,000	£288,400
Peter Bridgewater	£240,220	£240,220	£247,427

Yn dilyn ailstrwythuro'r tîm Gweithredol ym mis Hydref 2017, mae codiad cyflog Peter Perry yn adlewyrchu'r adolygiad cyflog blynyddol a'i rôl newydd fel Rheolwr Gyfarwyddwr busnes rheoleiddiedig Dŵr Cymru.

FFIOEDD SY'N DALADWY I'R CADEIRYDD

Cynhaliwyd adolygiad o'r ffioedd sy'n daladwy i'r Cadeirydd ym mis Mawrth 2017 a phenderfynodd y Pwyllgor y dylai ffi'r Cadeirydd gynyddu o £212,000 i £215,400 y flwyddyn (1.6% wedi'i dalgrynnu) o 1 Ebrill 2017 yn unol â'r gweithlu ehangach. Cynhaliwyd adolygiad arall ym mis Mawrth 2018 a chynyddwyd ffi'r Cadeirydd ymhellach i £221,900 y flwyddyn (3% wedi'i dalgrynnu) o 1 Ebrill 2018, unwaith eto yn unol â'r cynnydd cyffredinol i gyflogeion.


FFIOEDD SY'N DALADWY I GYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Ym mis Mawrth 2017, penderfynodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol y dylai ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol gynyddu o £58,900 i £59,850, gyda ffi'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynyddu o £69,700 i £70,820 (tua 1.6% ym mhob achos) o 1 Ebrill 2017. Cynhaliwyd adolygiad arall ym mis Mai 2018 a phenderfynwyd y dylid cynyddu ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol i £61,650, gyda ffi'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynyddu i £72,950 (tua 3% ym mhob achos) o 1 Ebrill 2018. Mae'r cynnydd hwn hefyd yn unol â'r cynnydd i gyflogeion yn gyffredinol. Cyfanswm y ffioedd a oedd yn daladwy i Gyfarwyddwyr Anweithredol yn 2017-18 oedd £600,421 (2016-17: £588,026).

CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL (AVPS)

Mae'r uchafswm tâl amrywiadwy y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr AVPS yn 2018-19 yn ddigyfnawid ac yn cyfateb i 100% o'r cyflog sylfaenol. Asesir cyflawniad tâl amrywiadwy ar sail pum elfen, sy'n gyson â'r ffordd y gweithredwyd yr AVPS yn 2017-18, fel y nodir yn Ffigur 3. Noder bod pwysoliadau unigol fesul elfen wedi newid fel y gwelir isod.

FFIGUR 3A: STRWYTHUR CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY BLYNYDDOL 2018-2019



FFIGUR 3B: MESURAU PERFFORMIAD AVPS

	Cwsmer	Cydymffurfiaeth	Cost	Ffocws Blynyddol	Personol
Mesurau perfformiad	Mesurau llwyddiant allweddol a gymerir o Gynllun Busnes 2018-19: boddhad cwsmeriaid busnes, derbynioldeb cwsmeriaid, dibynadwyedd y cyflenwad, eiddo a aeth o dan ddŵr yn ystod y flwyddyn, sgôr hyrwyddwr net, cwynion	Mesurau llwyddiant allweddol a gymerir o Gynllun Busnes 2018-19: diogelwch dŵr yfed, trin dŵr sydd wedi cael ei ddefnyddio, atal llygredd, gollyngiadau dŵr, defnyddioldeb asedau	Mesurau llwyddiant allweddol a gymerir o Gynllun Busnes 2018-19: Cyfanswm Totex y Cwmni, drwgddyledion	Mesurau llwyddiant a gymerir o Gynllun Busnes 2018-19: Dibynadwyedd y cyflenwad, derbynioldeb cwsmeriaid, trin dŵr sydd wedi cael ei ddefnyddio	Amcanion unigol sy'n gysylltiedig â phob rôl
Rhesymeg dros y mesurau dethol	Wedi'u cysylltu â chynllun busnes 2018-2019	Wedi'u cysylltu â chynllun busnes 2018-2019	Wedi'u cysylltu â chynllun busnes 2018-2019	Wedi'u cysylltu â chynllun busnes 2018-2019	Wedi'u cysylltu â chynllun busnes 2018-2019
Cyfnod y Perfformiad	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn	Blwyddyn
Targed o ran perfformiad	Pum mesur gydag uchafswm dyfarnadl posibl o 20%: – 25% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 62.5% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynol	Pum mesur gydag uchafswm dyfarnadl posibl o 20%: – 25% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 62.5% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynol	Un mesur gydag uchafswm dyfarnadl o 20%: – 25% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 75% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynol	Pum mesur gydag uchafswm dyfarnadl posibl o 20%: – 20% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad trothwy – 60% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad targed – 100% o'r dyfarnadl yn daladwy am gyflawni perfformiad ymestynol	Nifer amrywiol o fesurau gydag uchafswm dyfarnadl posibl o 20%

CYNLLUN TÂL AMRYWIADWY HIRDYMOR (LTVPS)

Amcan yr LTVPS yw cysoni'r agweddau tymor hwy ar gyfanswm y gydnabyddiaeth â pherfformiad y Cwmni dros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd a ddaw i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r dyfardaliadau yn cynnwys taliad arian parod. O dan yr LTVPS, gellir gwneud dyfardaliadau ar sail perfformiad yn erbyn y ddau fesur arwahanol canlynol:

- Dyfardal Gwerth Cwsmeriaid, sy'n cyfuno dau fesur ariannol o'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (gwerth cyfalaf rheoleiddiol llai dyled net) a Throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (sy'n cynrychioli symiau sydd ar gael o ran Dyranu i Gwsmeriaid) yn ystod y cyfnod rheoleiddio. Mae'r cynnydd mewn Cronfeydd Wrth Gefn (fel mesur o sefyllfa ariannol) a'r trosglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (fel mesur o lifau ariannol), a gaiff eu cyfrifo ar wahân ond a gaiff eu hychwanegu at ei gilydd, yn nodi cyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid (a ddychwelwyd ac a gadwyd) gan y Grŵp. Yn y pen draw, dyma'r amcan ariannol pwysicaf i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol;
- Dyfardal Gwasanaethau Cwsmeriaid, a fesurir yn ôl safle cyfartalog Dŵr Cymru yn nhabl cynghrair Ofwat ar gyfer SIM dros gyfnod treigl o dair blynedd. Felly caiff y Dyfardal Gwasanaethau Cwsmeriaid ei lywio gan berfformiad cymharol Dŵr Cymru o'i gymharu â chwmnïau tebyg yn y sector ac mae'n gwobrwyo'r perfformiad hwnnw hefyd. Defnyddir SIM ar gyfer y Dyfardal Gwasanaethau Cwsmeriaid ac mae'n cynnwys dau fesur gwasanaethau cwsmeriaid: mesur ansoddol sy'n adlewyrchu canlyniadau gwaith ymchwil annibynnol a wnaed ar ran Ofwat i nodi boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth a gawsant; a mesur meintiol sy'n cwmmpasu cwynion gan gwsmeriaid a galwadau diangen.

Mae targedau perfformiad LTVPS yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd y dylai Dŵr Cymru gael ei restru ochr yn ochr â phrif gwmnïau'r diwydiant ar fesurau allweddol o ran gwasanaethau cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ariannol hirdymor er budd cwsmeriaid.

Disgrifir y targedau perfformiad o dan bob un o'r dyfardaliadau LTVPS yn fanylach yn Ffigur 4.

FFIGUR 4: MESURAU PERFFORMIAD LTVPS


	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Gwerth Cwsmeriaid ¹
Mesurau perfformiad	Mesurir drwy gyfeirio at fesur SIM Ofwat.	Gwerth cwsmer gwirioneddol (cynnydd mewn cronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau i Gronfeydd Cwsmeriaid wrth Gefn) a grëwyd ar 31 Mawrth 2020 (diwedd cyfnod AMP6) o gymharu â'r targedau.
Rhesymeg dros y mesurau dethol	Mesur SIM Ofwat o brofiad pwysig y cwsmer sy'n annibynnol, gwrthrychol a mesuradwy, ac sy'n ei gwneud yn bosibl i berfformiad cymharol gael ei gymharu â chwmnïau dŵr a charthffosioeth eraill	Dyma'r mesur ariannol mwyaf cadarn o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid gan y Cwmni.
Cyfnod y Perfformiad	Tair blwyddyn ariannol yn union cyn y flwyddyn ariannol y gwneir dyfardal ynddi	1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2020 — fel y dangosir yn Ffigur 5 isod
Targed perfformiad^{2,3}	O blith 10 o gwmnïau dŵr a charthffosioeth y DU: — 100% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y safle cyntaf — 75% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd yr ail safle — 50% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y trydydd safle — 25% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y pedwerydd safle — 0% o'r dyfardal yn daladwy am gyrraedd y pumed safle neu is.	Uchafswm o 30% o'r dyfardal bob blwyddyn os yw'r gwerth a grëir yn unol â'r targedau a bennir bob blwyddyn ond a bennir dair blynedd ymlaen llaw: — 100% o'r dyfardal yn daladwy am gyflawni targed ymestynnol — 66% o'r dyfardal yn daladwy am gyflawni'r targed — 0% am berfformiad sy'n cyrraedd y trothwy neu sy'n is na'r trothwy — Dyfarniad pro rata yn daladwy am berfformiad rhwng y terfynau hyn Ar gyfer y ddau gyfnod perfformiad terfynol yn AMP6, y targed Gwerth Cwsmeriaid ar gyfer 2018-19 yw £173 miliwn a'r targed Gwerth Cwsmeriaid ar gyfer 2019-20 yw £189 miliwn.

Troednodyn i Ffigur 4

- Gellir diwygio'r targedau gwerth cwsmeriaid mewn rhai amgylchiadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae (i) gwahaniaethau rhwng y chwyddiant gwirioneddol a'r tybioethau a wnaed yn wreiddiol; (ii) unrhyw ffactorau allanol sylweddol eraill y mae'r Pwyllgor yn penderfynu eu bod y tu hwnt i ddylanwad y Cyfarwyddwyr Gweithredol.
- Gellir gohirio taliadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor os bydd dirywiad sylweddol mewn perfformiad. Gellir gohirio taliadau am hyd at ddwy flynedd, neu nes bod y diffyg wedi'i unioni, p'un bynnag a ddigwydd gyntaf.
- Wrth benderfynu ar lefel unrhyw dyfardal, bydd y Pwyllgor yn ystyried safle bondiau'r Grŵp a gall yn ôl ei ddisgrisiwn ohirio'r dyfardal cyfan neu ran ohono os cânt eu gwyllo gan asiantaethau credyd neu eu hisradddio.

Dangosir y cyfnod y penderfynir ar berfformiad a'r dyddiadau talu posibl yn ystod y cyfnod rheoliadol yn y diagram yn Ffigur 5. Nodir manylion y taliadau a wnaed o dan LTVPS ar gyfer 2017-18 yn Ffigur 6.

FFIGUR 5: CYFNOD PERFFORMIAD LTVPS



BETH A DALWYD YN 2017-2018 A'R CYSWLLT RHWNG CYFLOG A PHERFFORMIAD

TALIADAU A WNAED I GYFARWYDDWYR YN 2017-2018

Mae Ffigur 6 yn nodi enillion Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

FFIGUR 6: TALIEDAU A BUDDIANNAU A ENILLWYD GAN GYFARWYDDWYR YN 2017-2018

	Cyflog/Ffioedd		Buddiannau trethadwy ²		Arall		AVP ⁴		LTVPS ⁵		Arian Parod Amgen Pensiwn ⁶		Cyfanswm	
	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17	2017/18
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Chris Jones	292,585	297,267	1,068	1,250	-	-	220,609	192,034	114,840	47,563	-	62,723	629,102*	600,837
Peter Bridgewater	236,437	240,220	1,068	1,250	12,000	12,000	174,727	150,378	92,801	38,435	26,008	26,424	543,041	468,707
Peter Perry	236,437	260,110 ¹	1,068	1,250	-	2,500	177,091	168,031	92,801	41,618	-	41,097	507,397*	514,606
Robert Ayling	58,048	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,048	-
Alastair Lyons	165,778	215,392	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	165,778	215,392
Stephen Palmer	58,900	44,882	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,900	44,882
Menna Richards	69,700	70,816	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	69,700	70,816
Anna Walker	58,900	59,850	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,900	59,850
John Warren	58,900	59,850	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,900	59,850
Graham Edwards	58,900	59,850	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,900	59,850
Joanne Kenrick	58,900	59,850	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	58,900	59,850
Tom Crick	-	29,925	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	29,925
Cyfanswm	1,353,485	1,398,012	3,204	3,750	12,000	14,500	572,427	510,443	300,442	127,616	26,008	130,244	2,267,566	2,184,565

Nodiadau i'r tabl
Newidiadau o ran Cyfarwyddwyr: Penodwyd Alastair Lyons i'r Bwrdd ar 1 Mai 2016 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar 8 Gorffennaf 2016. Ymddiswyddodd Robert Ayling o'r Bwrdd ar 8 Gorffennaf 2016. Ymddiswyddodd Stephen Palmer o'r Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2017. Penodwyd Tom Crick i'r Bwrdd ar 1 Hydref 2017. Y ffigurau uchod yw'r symiau a dalwyd ar gyfer y cyfnod mewn swydd.
1. Penodwyd Peter Perry yn Rheolwr Gyfarwyddwr o 1 Hydref 2017 gyda chodiad cyflog i £280,000 wedi'i gynyddu i £288,400 o 1 Ebrill 2018.
2. Buddiannau trethadwy sy'n ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.
3. Mae hyn yn cynrychioli lwfans car chwe mis o £5,000 y flwyddyn fel y'i cytunwyd fel rhan o'r pecyn cydnabyddioeth a roddwyd ar waith ym mis Hydref 2017.
4. Gweler pennu canlyniad AVPS ar dudalen 79. Arweiniodd perfformiad yn erbyn targedau AVPS yn 2017-18 at daliad is nag yn 2016-17.
5. Gweler pennu canlyniad LTVPS ar dudalen 79.
6. Mae'r cyfraniad pensiwn ar gyfer Peter Bridgewater yn lwfans arian parod amgen. Dangosir y taliadau arian parod amgen a wnaed yn 2016/17 a 2017/18 yn Ffigur 6. Caiff buddiannau pensiwn cronedig ar gyfer 2017-18 mewn perthynas â'r cynllun pensiwn Buddiannau Diffiniedig (sydd wedi cau) ar gyfer Chris Jones a Peter Perry eu datgelu ar wahân yn Ffigur 8.
7. Y Cyfarwyddwr a dalwyd fwyaf yn 2017-18 oedd Chris Jones a gafodd £600,837 (£629,102 yn 2016-17). Pe bai newidiadau mewn croniadau pensiwn yn coel eu cynnwys yn y cyfrifiad hwn, y cyfarwyddwr a dalwyd fwyaf fyddai Peter Perry a gafodd £721,750 (£636,982 yn 2016-17). Gweler Ffigur 8 ar gyfer gwerthoedd cronedig cynlluniau pensiwn Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi'u cyfalafu.

*Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rhai yn Adroddiad Blynyddol 2017 am nod ydynt yn cynnwys croniadau i werth trosglwyddo buddiannau ymddeol wedi'i gyfalafu.

PENNU CANLYNIAD AVPS 2017-18

Ar gyfer 2017-18, mesurodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad yn erbyn pob targed, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni strategaeth y Cwmni, fel y nodir yn y tabl isod. Arweiniodd perfformiad yn 2017-18 at ddyfarnnal AVPS o rhwng 62% a 64% o gymharu â dyfarnnal o rhwng 73.9% a 75.4% ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn 2016-17.

FFIGUR 7: CANLYNIAD AVPS 2017-2018 (ARCHWILIEDIG)

Mesur	Pwysoliad	Crynodeb o'r targedau (% cyflog)	Canlyniad	% o'r uchafswm
Cwsmer – Boddhad Cwsmeriaid Busnes – Derbynioldeb i Gwsmeriaid – Dibynadwyedd y Cyflenwad – Eiddo lle cofwyd Llifogydd yn ystod y Flwyddyn – Sgôr Hyrwyddo Net	20%	Trothwy 5% Targed 12.5% Ymestyn 20%	9.2%	46%
Cydymffurfiaeth – Diogelwch Dŵr Yfed – Trin Dŵr sydd wedi cael ei Ddefnyddio – Atal Llygredd – Gollyngiadau Dŵr – Defnyddioldeb Asedau	20%	Trothwy 4% Targed 12.5% Ymestyn 20%	13.6%	68%
Cost – Cyfanswm Totex y Cwmni	20%	Trothwy 5% Targed 15% Ymestyn 20%	15.5%	77.5%
Ffocws blynyddol – Dibynadwyedd y Cyflenwad – Derbynioldeb i Gwsmeriaid – Drwgddyledion – Cwynion	20%	Trothwy 4% Targed 12% Ymestyn 20%	8.3%	41.5%
Personol	20%		16%-18%	80%-90%
Cyfanswm	100%		62.6% - 64.6%	62.6% - 64.6%

Nodiadau i'r tabl

Amcanion Personol: Roedd amcanion personol (gwerth hyd at 20% o'r cyflog sylfaenol) y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyson â chyflawni amcanion strategol allweddol Dŵr Cymru a chyflawni cynllun busnes 2017-18.

- Prif amcan personol Chris Jones oedd arwain y gwaith o gwblhau strategaeth Dŵr Cymru 2050 mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol. Ym marn y Pwyllgor roedd Chris Jones wedi cyflawni ei amcanion personol i raddau helaeth a dyfarnwyd 18% o'i gyflog iddo.
- Prif amcan personol Peter Bridgewater oedd cyflawni gwasoeth cwsmeriaid ardderchog ar gyfer cwsmeriaid manwerthu busnes cymwys, a phrynu busnes gwastraff bwyd Kelda yng Nghoerdydd a'i integreiddio i mewn i'r busnes. Ym marn y Pwyllgor roedd Peter wedi gwneud cynnydd perthnasol wrth gyflawni ei brif amcan personol a dyfarnwyd 16% o'i gyflog iddo.
- Prif amcanion personol Peter Perry oedd datblygu cynllun lleihau costau clir a bwrw ymlaen â'r gwaith o gytuno ar Gynllun Amgylcheddol Cenedlaethol. Ym marn y Pwyllgor roedd Peter wedi cyflawni ei brif amcanion personol i raddau helaeth a dyfarnwyd 18% o'i gyflog iddo.

PENNU CANLYNIAD LTVPS 2017-18

Ni fydd gradd SIM Dŵr Cymru o gymharu â graddau SIM cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill dros y cyfnod perfformiad o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2018 yn hysbys tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ar yr adeg hon, amcangyfrifir ei fod yn gydradd chweched, ac os felly ni fyddai unrhyw ddyfarnnaliad yn daladwy. Pennir y dyfarnnaliad gwirioneddol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn pan gyhoeddir gwybodaeth gymharu lawn gan Ofwat. Yr uchafswm posibl yw 30% o'r cyflog.

Ar gyfer yr elfen Gwerth Cwsmeriaid o'r cynllun a fesurwyd rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, gwnaed taliad o 16% o gyflog (53.3% o'r uchafswm ar gyfer yr elfen hon). Seiliwyd hyn ar benderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth mai'r cyfanswm gwerth a gynhyrchwyd at ddibenion LTVPS yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 oedd £125 miliwn yn erbyn targed o £129 miliwn (ac ymestyniad o £139 miliwn).

BUDDIANNAU PENSIWN

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2017, roedd Chris Jones a Peter Perry ill dau yn aelodau o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru (y 'Cynllun'), sy'n drefniant pensiwn buddiannau diffiniedig.

Rhoddwyd y gorau i Gronni Gwasanaeth Pensiynadwy o 31 Mawrth 2017. Fodd bynnag, caiff unrhyw gynnydd mewn Enillion Pensiynadwy yn y dyfodol ei ystyried wrth gyfrifo buddiannau. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu yswiriant bywyd ar gyfradd pedair gwaith Cyflog Pensiynadwy am farwolaeth mewn swydd, pensiwn taladwy os bydd ymdddeoliad oherwydd salwch a phensiwn i briod sy'n daladwy os bydd aelod yn marw.

Mae Chris Jones a Peter Perry yn Aelodau Lwfans Oes a/neu Lwfans Blynyddol wedi'u Capio o'r Cynllun a, lle mae eu buddiannau yn rhagori ar derfynau CThEM, darperir buddiannau ychwanegol drwy Gynllun Buddiannau Ymdddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS). Ni chaiff goblygiadau'r Cwmni o dan y cynllun EFRBS eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r cyfryw oblygiadau yn gyfwerth â rhwymedigaethau'r Cwmni, sy'n daladwy pan fyddant yn ddyledus.

Yn dilyn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur cydnabyddedig yn 2014-2015, penderfynwyd dileu'r hawl i bensiwn heb ei leihau mewn achos o ddiswyddiad neu

ddileu gwirfoddol dewisol o 1 Ebrill 2015; dileu'r hawl i bensiwn Dŵr Cymru tra'n parhau mewn cyflogaeth; a chau Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i Gronni Gwasanaeth Pensiynadwy o 31 Mawrth 2017.

Fel iawndal, cytunwyd gwneud cyfraniadau cyflogwr uwch i Gynllun Pensiwn Personol y Grŵp yn achos y rhai yr effeithiwyd arnynt yn sgil cau'r cynllun tan 31 Mawrth 2020.

Ym mis Ebrill 2016 cyflwynwyd cynllun arian parod amgen i uwch reolwyr.

Dewisodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr lwfans arian parod amgen a ddaeth i rym o 1 Ebrill 2017. Roedd y Prif Weithredwr mewn categori buddiannau aelod arbennig o'r EFRBS (gan Gronni pensiwn ar gyfradd o un rhan o 45 o gyflog pensiynadwy'r flwyddyn o gymharu ag un rhan o 60 o gyflog pensiynadwy a gronwyd gan aelodaeth o Gynllun Pensiwn ehangach Dŵr Cymru).

Felly, cytunodd y Pwyllgor y câi'r priod welliannau cymesur eu rhoi i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr tan 31 Mawrth 2020.

O 1 Ebrill 2017, caiff y Prif Weithredwr lwfans arian parod amgen o 21.1% o gyflog a chaiff y Rheolwr Gyfarwyddwr lwfans arian parod amgen o 15.8% o gyflog. Dim ond tan 31 Mawrth 2020 y telir y taliadau uwch. O 1 Ebrill 2020, caiff y Prif Weithredwr lwfans arian parod amgen o 12.9% o gyflog a chaiff y Rheolwr Gyfarwyddwr lwfans arian parod amgen o 9.7% o gyflog.

Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr sy'n rhan o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Ffigur 8 sydd wedi'i archwilio.

Ers iddo gael ei gyflogi ar 1 Medi 2014, mae Peter Bridgewater wedi dewis derbyn lwfans arian parod amgen o 11% o'i gyflog yn lle hynny.

BUDDIANNAU ERAILL

Caiff y Cyfarwyddwyr Gweithredol fudd o yswiriant iechyd preifat.

Mae gan Chris Jones a Peter Perry yswiriant iechyd parhaol hefyd.

FFIGUR 8: BUDDIANNAU PENSIWN

Dangosir newidiadau mewn buddiannau pensiwn cronedig ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn ystod y flwyddyn isod (archwiledig).

Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017								
	Oedran Ymdddeol Arferol	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2016	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2016	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2016 ¹	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2017	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2017	Swm Mewnbyn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod yn ystod 2017) ²
		£	£	£	£	£	£	£
Chris Jones	60	134,978	2,699,562	2,699,562	143,505	2,870,094	26,333	144,199
Peter Perry	60	134,803	2,696,056	2,696,056	142,346	2,848,920	21,279	129,585
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018								
		Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2017	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio'r pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 ¹	Pensiwn a gronwyd ar 31 Mawrth 2018	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2018	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2018	Swm Mewnbyn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod yn ystod 2018) ²
Chris Jones		143,505	2,870,094	2,898,795	148,824	2,976,480	-	77,685
Peter Perry		142,346	2,846,920	2,875,390	154,855	3,097,100	-	221,710

Yn unol â'r dull a gymhwyswyd ar gyfer cyflogaion eraill ar ôl cau'r cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig i groniadau gwasanaeth pensiynadwy yn y dyfodol, mae buddiannau pensiwn Chris Jones a Peter Perry yn parhau i gynyddu yn unol â'r cynnydd yn eu cyflog sylfaenol, a darperir ar gyfer y cynnydd hwn yn y Cynllun Buddiannau Ymdddeol a Ariennir gan y Cyflogwr. Mae gwerth cyfalafedig yr hawliad cronedig yn cynrychioli gwerth yr asedau y byddai'r cynllun pensiwn yn eu trosglwyddo i ddarparwr pensiwn arall wrth drosglwyddo rhwymedigaeth y cynllun mewn perthynas â buddiannau pensiwn cyfarwyddwr. Nid yw'n cynrychioli symiau sy'n daladwy i gyfarwyddwr ac felly ni ellir ei ychwanegu mewn ffordd ystyrlon at gydnybuddiaeth flynyddol.

Nodiadau ar fuddiannau:

1. Cynyddwyd yn unol â'r ffigur twf CPI gwirioneddol ar gyfer y mis Medi blaenorol – 0% ar gyfer cyfnod datgelu 2017 ac 1% ar gyfer 2018.


2. Yn seiliedig ar werth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar ddiwedd y flwyddyn, llai gwerth cyfalafedig wedi'i ailbrisio'r pensiwn cronedig ar ddechrau'r flwyddyn.

• Mae pensiynau cronedig yn cynnwys Gwasanaeth Pensiynadwy blaenorol a gwbllhawyd o dan Gynlluniau Pensiwn Hyder Water ac United Utilities.

• Mae'r ffigurau pensiwn cronedig yn cynnwys yr hawliadau safonol o fewn y Cynllun (sy'n gyfyngedig yn unol â therfynau CThEM) a'r buddiannau ychwanegol sy'n daladwy o dan y Cynllun Buddiannau Ymdddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS).

CYMHARU CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL

Mae Ffigurau 9 a 10 yn dangos sut mae ein dyfardaliadau cyflog wedi cymharu â pherfformiad ac yn cymharu cyfanswm cyflog ein Prif Weithredwr â thwf blynyddol mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (h.y. gyda'r cronfeydd ariannol wrth gefn yn cynrychioli'r gwerth cyfalaf rheoliadol llai dyled net) dros yr wyth mlynedd flaenorol.

FFIGUR 9: CRONFEYDD CWSMERIAID WRTH GEFN DROS GYFNOD O WYTH MLYNEDD HYD AT 31 MAWRTH 2018**FFIGUR 10: CYFLOGAU A PHERFFORMIAD CYFFREDINOL**

	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
	£	£	£	£	£	£	£	£
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (Chris Jones)	-	-	-	741,569	973,688	746,430	629,102	600,837
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr (Nigel Annett)	665,965	677,770	590,210	709,890	-	-	-	-
Dyfardal AVPS (Chris Jones)	-	-	-	51.1%	79.4%	70.3%	75.4%	64.6%
Dyfardal AVPS (Nigel Annett)	76.3%	77.6%	60.6%	49.9%	-	-	-	-
LTVPS ar gyfer AMP6	-	-	-	-	-	39%	39.25%	16%
LTVPS ar gyfer AMP5	25.0%	40.0%	50.0%	78.6%	90.6%	-	-	-

Ar gyfer 2014, mae ffigurau ariannol llawn wedi'u darparu ar gyfer Chris Jones a Nigel Annett ac nid ydynt yn ymwneud â'r cyfnod fel Prif Weithredwr/Rheolwr Gyfarwyddwr yn unig. Dangosir LTVPS ar gyfer AMP5 fel canran o'r uchafswm yn hytrach na chanran o'r cyflog a ddyfarnwyd.

PWYSIGRWYDD CYMHAROL GWARIANT AR GYFLOGAU

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried cost cydnabyddiaeth mewn perthynas â ffactorau eraill megis perfformiad y cwmni. Rhydd Ffigur 11 y newid o ran cyfanswm gwariant, cyfanswm costau cydnabyddiaeth cyflogaion a Chronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yn 2018 o gymharu â 2017.

FFIGUR 11: PWYSIGRWYDD CYMHAROL GWARIANT AR GYFLOGAU

	2017	2018	Newid	
	£m	£m	£m	%
Cyfanswm gwariant ¹	868.5	980.7	112.2	12.9%
Costau cydnabyddiaeth cyflogaion	134.4	151.2	16.8	12.5%
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn ²	2301	2350	49	2.1%
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol	1.68	1.58	(0.10)	(5.7%)

1. Gwariant gweithredol, gwariant cyfalaf a chostau cyllido.

2. Gwerth cyfalaf rheoliadol llai dyled net. Mae metrig ecwiti cwsmeriaid wedi'i gynnwys er mwyn galluogi cymhariaeth â chwmnïau sy'n eiddo i gyfranddalwyr.

CYSONI CYFLOGAU YM MHOB RHAN O'R GRŴP

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y dylai cyflog fod yn deg ym mhob rhan o'r Grŵp. Felly, wrth wneud penderfyniadau ynghylch strwythur cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried y strwythurau cyflog ledled y busnes, gan nodi'n arbennig bod y tâl amrywiadwy blynyddol "bonws cydweithiwr neu gyflogai" yn defnyddio'r un mesurau â chynllun tâl amrywiadwy blynyddol y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

CYNNYDD CANRANNOL YNG NGHYDNABYDDIAETH Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Dengys Ffigur 12 y symudiad mewn cyflog, ar gyfer Chris Jones fel Prif Swyddog Gweithredol, rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol flaenorol o gymharu â'r symudiad yng nghyflog cyflogai cyffredin. Nod y Pwyllgor yw sicrhau bod y dull o sicrhau cyflog teg yn cael ei weithredu'n ymarferol ym mhob rhan o'r Grŵp.

CYMHAREB CYFLOG Y PRIF WEITHREDWR I GYFLOG CYFLOGAI CYFFREDIN

Mae'r gymhareb hon yn defnyddio'r ffigur ar gyfer cyfanswm cyflog y Prif Swyddog Gweithredol a nodir yn Ffigur 6. Gweler y nodiadau i'r tabl hwn i weld sut y cyfrifwyd hyn ar gyfer 2017-18. Os caiff y gwerth trosglwyddo cyfalaf yn Ffigur 8 ei gynnwys, y gymhareb fyddai 15:1.

FFIGUR 12: NEWID CANRANNOL YNG NGHYFLOG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL O GYMHARU Â CHYFLOGEION ERAILL

	Prif Weithredwr newid % o 2016-17	Cyflogeion newid % o 2016-17
Cyflog	3%	3%

FFIGUR 13: CYMHAREB CYFLOG Y PRIF WEITHREDWR I GYFLOG CYFLOGAI CYFFREDIN

Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr: Cydnabyddiaeth Cyflogai Cyffredin

13.5:1 (2016-17: 15.5:1)

MANYLION CONTRACTAU GWASANAETH A LLYTHYRAU PENODI CYFARWYDDWYR

Mae dyddiadau contractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2018 fel a ganlyn:

Chris Jones	4 Gorffennaf 2013
Peter Perry	17 Medi 2013
Peter Bridgewater	1 Medi 2014
Menna Richards	22 Tachwedd 2010
Anna Walker	3 Mawrth 2011
John Warren	3 Mai 2012
Graham Edwards	1 Hydref 2013
Joanne Kenrick	1 Tachwedd 2015
Alastair Lyons	1 Mai 2016
Tom Crick	1 Hydref 2017

Mae copïau o'r contractau gwasanaeth ar gael ar gais gan Ysgrifennydd y Cwmni. Am ragor o wybodaeth am rolau a chyfrifoldebau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, gweler tudalen 57.

Mae'r Bwrdd o'r farn bod holl aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn annibynnol ac, yn achos Alastair Lyons, ystyriwyd ei fod yn annibynnol pan gafodd ei benodi'n Gadeirydd y Cwmni.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth drwy wahoddiad (ac eithrio lle y trafodir eu cydnabyddiaeth eu hunain). Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth chwe gwaith yn ystod 2017-18.

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2017, derbyniodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor annibynnol gan New Bridge Street (NBS), sef un o enwau masnachol Aon Hewitt Limited (un o gwmnïau Aon plc). Cyfanswm y ffioedd a dalwyd i NBS ar gyfer y cyfnod hwn oedd £15,906. Ar gyfer gweddill 2017-18, derbyniodd y Pwyllgor gyngor annibynnol gan Mercer, a benodwyd o fis Gorffennaf 2017 am gyfnod o hyd at bum mlynedd, yn dilyn proses dendro gystadleuol. Cyfanswm y ffioedd a oedd yn daladwy i Mercer ar gyfer y cyfnod 2017-18 oedd £52,340. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod NBS a Mercer yn annibynnol. Maent wedi ymrwymo i God Ymddygiad Grŵp y Cynghorwyr Cydnabyddiaeth a choiff unrhyw gyngor a roddir ei lywodraethu gan y Cod.



ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r Grŵp mewn sefyllfa ariannol gadarn ar 31 Mawrth 2018: mae gerio yn parhau i fod yn isel ar 57% ac rydym wedi cynnal ein statws credyd sy'n arwain y sector.

REFENIW

Cynyddodd trosiant Glas Cymru rywfaint yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 i £757 miliwn (2017: £744 miliwn): mae cynnydd cymedrol o 2.0% yn adlewyrchu addasiad prisiau Penderfyniad Terfynol PR14 Ofwat wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan lai o refeniw am fod mwy o gwsmeriaid yn cael budd o dariffau fforddiadwydd.

EITEMAU GWEITHREDOL

Cyfanswm costau gweithredol Glas Cymru (ac eithrio gwariant ar adnewyddu seilwaith mewn perthynas â chynnal o chadw ein rhwydwaith o bibellau tanddaearol a dibrisiant) oedd £319 miliwn (2017: £313 miliwn).

Mae nifer o achosion o gynyddu costau penodol (cyfraddau cyflogaeth, prisiau ynni a chostau'n ymwneud â'r cyfnod o dywydd gwael a gafwyd ym mis Mawrth 2018) wedi'u gwrthbwyso'n rhannol gan gostau is contractau TG a ailnegodwyd, ordrethi busnes is yn dilyn gostyngiad mewn gwerthoedd ardrethol ac ad-daliadau.

Mae pob cwmni dŵr a charthffosiaeth yn defnyddio llawer o bŵer, yn enwedig ar gyfer prosesau trin a phwmpio dŵr. Mae'r dirwedd fryniog ledled Cymru yn golygu bod hyn yn her benodol i ni. Cyfanswm y costau pŵer yn ystod 2017-18 oedd £43 miliwn (2017: £41 miliwn).

Erys cryn ansicrwydd ynglŷn â chostau ynni yn y dyfodol, ac rydym wedi blaen-brynu cyfran o ofynion pŵer amcangyfrifedig y busnes dros y cyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Mawrth 2020.

Ni chaniateir i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ddatgysylltu cyflenwadau i gwsmeriaid domestig nad ydynt yn talu ac, er gwaethaf ffocws ar ffyrdd eraill o adennill dyledion, mae casglu arian parod wedi parhau i fod yn her. Mae'r flaenoriaeth uchel a'r ffocws cynyddol ar adennill dyledion yn y busnes Manwerthu wedi arwain at welliannau pellach i gasglu dyledion yn ystod y flwyddyn, ac o ganlyniad mae'r ffigur drwgddyledion am y flwyddyn wedi gostwng, am y drydedd flwyddyn yn olynol, i £22 miliwn (2017: £23 miliwn). Rydym yn targedu cwsmeriaid na wnânt dalu eu biliau, yn wahanol i'r rheini na allant dalu, ac mae'r gostyngiad yn deillio'n bennaf o sicrhau gorchmynion arwystlo dros eiddo sy'n berchen i gwsmeriaid, gan sicrhau tua 4,000 o orchmynion dros bron £9 miliwn o ddyledion ein cwsmeriaid ar 31 Mawrth 2018.

COSTAU CYLLIDO

Roedd y llog net taladwy, sef £172 miliwn (ac eithrio enillion neu golledion cyfrifyddu ar ddeilliadau a nodir isod) £31 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf o ganlyniad i chwyddiant uwch y Mynegoi Prisiau Manwerthu.

Mae gan Glas Cymru nifer o gontractau cyfnewidiadau deilliannol sy'n cadw neu'n cysylltu cost dyledion â chwyddiant, yr aed iddynt pan oedd gan y cwmni lefel gerio uchel. Er bod y rhain yn enghreifftiau effeithiol o ragfantoli masnachol, nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39. Gall newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad greu anwadlwrwydd yn y datganiad incwm a'r enillion gwerth teg yn 2017-18 oedd £80 miliwn (2017: colledion o £63 miliwn). Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith ar lifau arian parod: mae'r cwmni yn bwriadu dal

y cyfnewidiadau sy'n weddill nes bod y ddyled sylfaenol yn aeddfedu a, thros oes y cyfnewidiadau, bydd y colledion hyn yn mynd yn ddim.

TRETHIANT

Mae'r Grŵp yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol mewn gwariant cyfalaf er budd ein cwsmeriaid. Mae rhyddhad treth y gwariant cyfalaf hwn a'r llog a dalwn i'w ariannu yn arwain at oedi o ran taliadau treth gorfforaeth mewn cyfnodau i ddod.

Cynhyrchwyd credyd treth o £0.4m yn sgil ildio colledion treth yn ymwneud â'n buddsoddiad mewn gwariant cyfalaf ynni-effeithlon o dan gynllun a gymeradwywyd gan y llywodraeth. Mae'r cwmni hefyd wedi hawlio credyd treth o £1.4m o dan fenter Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu'r Llywodraeth (RDEC), sydd wedi'i gynnwys yn y gwariant gweithredu yn nodyn 3. Mae credyd treth RDEC yn drethadwy a chaiff y tâl treth cyfatebol o £0.3m ei gynnwys yn y trethi cyfredol yn nodyn 5.

Roedd cyfanswm y credyd treth yn y datganiad incwm yn £2.6m (2017: credyd o £28.9m). Cafwyd credyd treth gohiriedig o £12.4m ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, a hynny'n deillio o'r gyfradd treth gorfforaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo trethi gohiriedig sy'n gostwng o 18% i 17% o 1 Ebrill 2020. Gan nad yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi unrhyw newidiadau pellach i gyfraddau treth corfforaeth, nid oes unrhyw gredyd treth gohiriedig yn y flwyddyn gyfredol o ostyngiadau yn y gyfradd treth gorfforaeth.

Cafwyd credyd treth bach o £0.1m yn ymwneud â chyfnodau blaenorol. Os na chaiff y credyd hwn ei gynnwys fel rhan o gyfanswm y credyd treth o £2.6m, y gyfradd wirioneddol ar gyfer y cyfnod fyddai 16.9% (2017: 16.7%) sydd fwy neu lai'n unol â'r gyfradd treth gorfforaeth safonol (19%). Ceir cysoni yn nodyn 5.

COLLED CYN TRETH

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn nodi colled cyn trethiant o £15 miliwn (2017: colled o £99 miliwn) sy'n ystyried chwyddiant a'r symudiadau gwerth teg fel y trafodir uchod. Mae elw gweithredu wedi gostwng o £105m y llynedd i £75m; mae gwariant ar adnewyddu seilwaith wedi cynyddu £16 miliwn yn unol â'n lefel uchaf o fuddsoddi cyfalaf ym mwyddyn tri o raglen fuddsoddi pum mlynedd. Hefyd, mae dibrisiant £20 miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd ailbrisio osedau sefydlog.

STRATEGAETH TRETH Y GRŴP

EIN DULL O REOLI RISG A THREFNIADAU LLYWODRAETHU

Ein Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol sy'n bennaf cyfrifol am ein strategaeth llywodraethu treth, gyda'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio yn goruchwyllo hynny.

Ateir ein strategaeth treth gan Bolisi Treth y Grŵp mewnol manwl, ynghyd â fframwaith o systemau a rheolaethau mewnol sy'n llywodraethu gweithrediadau masnachol Glas Cymru Holdings a'i is-gwmnïau (y Grŵp). Ein Pennaeth Treth sy'n gyfrifol am weithredu'r strategaeth treth yn feunyddiol ac am reoli materion treth y Grŵp. Mae ein Pennaeth Treth yn gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol. Caiff materion, risgiau a datblygiadau treth perthnasol eu rhannu'n rheolaidd â'r Pwyllgor Archwilio.

Mae ein tîm treth yn cynnwys grŵp bach o weithwyr proffesiynol sydd â phrofiad helaeth o dreth yn y sector dŵr. Ateir yr arbenigedd hwn gan y defnydd o gynghorwyr allanol dibynadwy lle bo angen.

EIN DULL O GYNLLUNIO TRETH AC YMDRIN Â RISGIAU TRETH

Mae holl gwmnïau'r Grŵp yn drethdalwyr y DU ac yn talu treth gorfforaeth y DU ar eu helw.

Canolbwyntiwn ar gydymffurfiaeth; sicrhau bod ein holl drethi yn cael eu cyfrifo a'u hadrodd yn gywir, ac yn cael eu talu erbyn y dyddiad y maent yn ddyledus.

Nid ydym yn ymwneud â threfniadau artiffisial heb unrhyw ddiben masnachol, na thrafodion sy'n anelu at gamfanteisio ar ddeddfwriaeth trethi er mwyn talu llai o dreth. Cydymffurfiwn â'r gyfraith, mewn gair ac ysbryd.

Nodir risgiau treth ar gofrestr risg y Grŵp a ddiweddarir yn rheolaidd.

Mae ein prif risgiau treth yn deillio'n bennaf o ddatblygiadau busnes a newidiadau i ddeddfwriaeth treth a all arwain at oblygiadau treth nas rhagwelwyd. Lle bo modd ceisiwn liniaru risgiau treth fel bod y risg sy'n weddill mor fach â phosibl.

Mae ein tîm treth ynghlwm wrth bob datblygiad busnes o bwys gan

olygu y gellir cynnal asesiad llawn o'r goblygiadau treth.

Ceisiwn adborth gan gynghorwyr allanol dibynadwy lle mae'r goblygiadau treth yn dal i fod yn aneglur. Mewn achosion lle erys peth ansicrwydd cydweithiwn â CThEM i ddatrys hynny.

Mae ein tîm treth yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau treth o fewn y diwydiant dŵr. Caiff y tîm y wybodaeth ddiweddaraf am faterion technegol yn rheolaidd gan ein cynghorwyr proffesiynol ac o'n cyfarfodydd cyfnodol â CThEM.

Mae hyn yn sicrhau bod y tîm yn ymwybodol o'r holl ddatblygiadau perthnasol ym maes cyfraith trethi, gan ei alluogi i ddatblygu systemau a rheolaethau priodol i fynd i'r afael â newidiadau mewn deddfwriaeth.

Cyfrannwn at broses llunio polisiau treth y DU drwy ymateb i ymgynghoriadau'r Llywodraeth.

EIN CYDBERTHYNAS Â CTHEM

Rydym yn ymrwymedig i gydberthynas agored a thryloyw â CThEM. Ein polisi yw datgelu'n llawn unrhyw faterion neu wallau wrth iddynt godi, a cheisio eu datrys cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Rydym yn cyfarfod â CThEM ddwywaith y flwyddyn am drafodaeth ffurfiol am ein cynlluniau busnes a datblygiadau, ynghyd â newidiadau perthnasol i ddeddfwriaeth treth.

Mae'r Grŵp wedi'i ddosbarthu'n risg isel gan CThEM ers sefydlu'r broses Adolygu Risgiau Busnes yn 2009. Adolygir hyn ym mis Mawrth 2019.

RHYDDHAD TRETH A CHYMHELLION

Nid oes gan ein Grŵp unrhyw gyfranddalwyr a chaiff ei redeg er budd ein cwsmeriaid yn unig. Felly, ceisiwn ddefnyddio'r rhyddhad treth a chymhellion sydd ar gael gan y Llywodraeth i sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl ar gael er budd ein cwsmeriaid.

Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn gwariant cyfalaf, er enghraifft gweithfeydd trin dŵr a'n rhwydwaith o bibellau a gorsafoedd pwmpio, er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'n cwsmeriaid yn barhaus. Felly, gallwn fanteisio ar ryddhad treth sy'n anelu at ysgogi'r math hwn o fuddsoddiad. Gall cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf hwn gael ei didynnu wrth gyfrifo elw trethadwy'r Grŵp. Gallwn hefyd

ddidynnu costau llog yr eir iddynt er mwyn ariannu'r buddsoddiad cyfalaf hwn. I bob diben, mae hyn yn golygu nad oes angen gwneud taliadau treth gorfforaeth tan yn ddiweddarach. Mae ein cwsmeriaid hefyd felly'n cael budd o filiau rhatach.

Mae cyfundrefn Credyd Gwariant Ymchwil a Datblygu'r Llywodraeth yn cymell cwmnïau i fuddsoddi mwy mewn ymchwil a datblygu. Mae'r Grŵp yn buddsoddi cryn dipyn mewn ymchwil a datblygu ac yn hawlio credydau treth o dan y gyfundrefn hon.

TRYLOYWDER

Deallwn werth cyflwyno adroddiadau ariannol llawn gwybodaeth i'n cwsmeriaid, buddsoddwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae trethiant yn foes a all beri dryswch. Felly ceisiwn gyflwyno darlun clir a chytbwys o'n sefyllfa dreth. Gweler tudalennau 114-115.

CYFRANIAD

Mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i amrywiaeth o drethi a thollau, gan gynnwys treth gorfforaeth, ardrethi busnes, trethi amgylcheddol, trethi cyflogaeth, Yswiriant Gwladol, TAW, toll ar danwydd a thrwyddedau. Felly mae'r Grŵp yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyllid cyhoeddus, yn ogystal â chyflogi dros 3,000 o bobl a chwarae rôl bwysig yn yr economi ranbarthol.

DATGELIADAU ERAILL

ARIAN PENSIWN

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn nodi ennill actiwaraid cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig o £12 miliwn (2017: collod o £43 miliwn) a rhwymedigaeth y fantolen ar 31 Mawrth 2018 oedd £80 miliwn (2017: £95 miliwn).

Mae'r prisiad hwn ar sail IAS 19 at ddibenion cyfrifyddu ac nid yw'n gyson â phrasiad actiwaraid y cynllun at ddibenion ariannu. Roedd y prisiad diweddaraf o'r fath o'r cynllun, ar 31 Mawrth 2016, yn rhagamcanu diffyg o £46 miliwn, y gellir ei adennill drwy daliadau o £7 miliwn y flwyddyn hyd at 2019 ac yna £3 miliwn y flwyddyn hyd at 2030. Lliniarir amlygiad i unrhyw rwymedigaethau ychwanegol sylweddol yn y dyfodol drwy gau'r rhan fwyaf o'r rhannau o'r cynllun o 1 Ebrill 2017.

BUSNES GWEITHREDOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y busnes ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ar sail busnes gweithredol.

POLISI DIFIDEND — BUSNES PENODEDIG (DŴR CYMRU CYFYNGEDIG)

Ym mis Mawrth 2016, cymeradwyodd Bwrdd Glas Bolisi Difidend i alluogi hyd at £100m i gael ei dalu rhwng y Grŵp, y tu allan i'r hyn a neilltuir at ddibenion rheoleiddio, er mwyn ariannu prosiectau masnachol. Yn ystod 2017-18, mae difidend o £30m wedi'i dalu i Glas Cymru Holdings i'w ddosbarthu ymlaen drwy fenthyciad rhyng-Grŵp i is-gwmnïau masnachol Welsh Water Holdings Limited. Cafodd £21.6m o'r difidend hwn i Glas Cymru Holdings ei fenthycio i Welsh Water Holdings i brynu busnes gwastraff bwyd Kelda yng Nghaerdydd (Welsh Water Organic Energy Limited) ym mis Rhagfyr 2017 (gweler tudalen 39).

"DIFIDEND" DYCHWEL YD GWERTH I GWSMERIAID

Mae ein strwythur corfforaethol yn sicrhau y caiff pob gwarged ei ddefnyddio er budd cwsmeriaid. Ers 2001, mae Glas Cymru wedi defnyddio cyfanswm o £353m er budd cwsmeriaid. Mae'r dosbarthiadau hyn yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau a fyddai'n gymwys i dalu difidendau mewn strwythur cwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr. Yn unol â hynny, nodwyd bod cyfanswm gwerth o £34m wedi'i ddychwelyd yn 2017-18. Sicrhaodd hyn y gallai'r targed gerio gael ei gynnal, ar ychydig o dan 60% yn 2020, er mwyn cynnal statws credyd cryf a chydnerthedd ariannol er budd cwsmeriaid yn y tymor hwy. Mae'n ystyried costau hysbys a disgwylidig a sefyllfa'r Grŵp o ran ariannu pensiwn (gan gynnwys ymrwymadau i gyfrannu at ddiffyg daliadau). Ceir rhagor o fanylion ynghylch sut y caiff y dosbarthiadau Dychwelyd Gwerth hyn eu cymhwyso yn ystod 2017-18 ar dudalen 15.

BUDDSODDIAD CYFALAF

Atgyfnerthwyd sefyllfa ariannol gadarn Glas Cymru dros yr 17 mlynedd ddiwethaf ac ar y sail sefydlog hon gall ymateb yn gadarnhaol i heriau'n ymwneud ag ansicrwydd economaidd a pharhau â'i raglen gyfalaf fawr. Mae Glas Cymru yn gweithio gyda chynghrair o bartneriaid i gyflawni'r rhaglen buddsoddi cyfalaf am y gwerth gorau am arian i'w gwsmeriaid. Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith) oedd £431 miliwn (2017: £366 miliwn). Hon oedd ein buddsoddiad mwyaf erioed ac, yn unol â'r gwaith proffilio a gynlluniwyd ar Raglen Gyfalaf AMP6, roedd yn cynnwys buddsoddiadau carlam yn ein rhaglen Astudiaethau Parthol.

Gwnaethom fuddsoddi tua £1.5 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2010 a 2015 yn rhaglen fuddsoddi AMP5 a wnaeth sicrhau gwelliannau parhaus i wasanaeth cwsmeriaid, ansawdd dŵr yfed a'r amgylchedd.

Mae'r Grŵp yn bwriadu buddsoddi o leiaf £1.7 biliwn arall dros y cyfnod rheoleiddio cyfredol o bum mlynedd (AMP6, 2015-2020), ein rhaglenni buddsoddi mwyaf erioed.

Rydym wrthi'n cwblhau ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer AMP7 a fydd yn rhedeg o 2020 tan 2025, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'n rheoleiddiwr, Ofwat, fel rhan o'r broses adolygu prisiau pum mlynedd a fydd yn pennu lefelau biliau cwsmeriaid a ganiateir ar gyfer y cyfnod rheoleiddiol nesaf.

STATWS CREDYD A RHEOLI CYFRADDAU LLOG

Mae gan Glas Cymru y statws credyd gorau yn y sector dŵr, sy'n adlewyrchu lefel uchel y Grŵp o deilyngdod credyd. Statws dyledion Dosbarth A a B y Grŵp ar 31 Mawrth 2018 oedd A/A2/A yn ôl statws Standard & Poor's (S&P), Moody's a Fitch yn y drefn honno.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd tua 65% o ddyled gros yn fynegrifol drwy fondiau o deillionau (2017: 65%), gyda'r gweddill ar gyfraddau llog sefydlog. Mae aeddfedrwydd disgwylidig y bondiau cyfradd sefydlog a'r bondiau mynegrifol sy'n ddyledus yn amrywio o 2021 i 2057, ac nid oes mwy nag 20% yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'n polisi ailariannu.

POLISI GERIO

Polisi gerio i RCV Glas Cymru yw targedu gerio ar 60% neu oddeutu'r ganran honno, a sicrhau bod cymarebau sicrwydd llog yn cynnal ein statws credyd gradd 'A' sy'n arwain y sector. Dylai hyn ein helpu i gadw proffil risg isel, gan sicrhau y gall y Cwmni gael gafael ar gyllid cost isel drwy gydol AMP6 a thu hwnt er mwyn cadw costau ariannu yn isel i gwsmeriaid.

HYLIFEDD A CHRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Nod Glas Cymru yw cynnig buddsoddiad diogel, risg isel i fuddsoddwyr. Drwy adeiladu a chynnal sefyllfa ariannol gadarn, rydym yn bwriadu cadw ein costau benthycau yn isel, a fydd yn ein galluogi i ariannu buddsoddiad yn y dyfodol yn effeithlon.

Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2018, defnyddiodd y Grŵp gyfleuster benthyg o £60m gyda Banc KfW (18 Mai 2017) ac, ar 17 Ionawr 2018, gwnaethom gyhoeddi meincnod – trafodyn bond Dosbarth B maint GBP. Setlwyd enillion y bond, sef £300 miliwn, ar 24 Ionawr 2018 a phennwyd dyddiad aeddfedu o 31 Mawrth 2036 a chwpon sefydlog o 2.5%.

Pan gaffaelodd Glas Cymru Dŵr Cymru ym mis Mai 2001, roedd gerio (dyled net/Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV)) yn 93%. Ers hynny, mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella'n gyson. Erbyn 31 Mawrth 2018, roedd y gerio wedi gostwng i 57% ac roedd y 'cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn' (RCV llai dyled net) wedi cyrraedd £2.4 biliwn. Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Grŵp gyfanswm hylifedd o £703 miliwn, gan gynnwys balansau arian parod o £283 miliwn.

Mae arian ar gael gennym hyd at ddiwedd y cyfnod rheoleiddiol cyfredol ym mis Mawrth 2020 ac mae gennym £170 miliwn arall o gyfleusterau credyd cylchdro nas hawliwyd.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DIWEDD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen.

CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL – EIN HEFFAITH EHANGACH

Fel un o gyflogwyr mwyaf Cymru sy'n gwasanaethu 3.1 miliwn o bobl ym mhob rhan o'n hardal gyflenwi yng Nghymru a Lloegr, rydym yn ymwybodol iawn o'n cyfrifoldeb i'n cyflogeion ac i'r gymuned ehangach. Rydym wedi nodi manylion y gwaith ychwanegol a wnawn yn y cymunedau a'r ardaloedd gwledig a wasanaethir gennym yn ein Hadroddiad Effaith. Gellir gweld yr Adroddiad Effaith hwn ar ein gwefan yn dwrcymru.com.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r effaith a gawn ar y byd o'n cwrpas, o safbwynt cwsmeriaid, cymunedau a chydweithwyr. Rhydd adolygiad o'n gweithgarwch dros y 12 mis blaenorol, gan ddangos yr hyn a wnawn i helpu i wireddu ein gweledigaeth i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid. Caiff rhai o'r meysydd lle cawn effaith ehangach eu trafod isod:

CEFNOGI EIN CYDWEITHWYR A'R GADWYN GYFLENWI

Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a'n cadwyn gyflenwi i sicrhau bod yr egwyddorion allweddol sy'n ategu polisiâu hanfodol yn cael eu cyfleu a'u deall fel rhan o'r gwerthoedd sy'n gymwys i bopeth a wnawn i'n cwsmeriaid.

Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Rydym yn ymrwymedig i safonau iechyd a diogelwch galwedigaethol uchel. Yn ystod 2017-18, rydym wedi gweld gostyngiad yng nghyfradd digwyddiadau adroddadwy RIDDOR (RIR) yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), a'r Cyfradd RIR a'r Cyfradd Pob Anaf (AIR) isaf ers dros 10 mlynedd. Mae rhagor o wybodaeth am ein strategaeth a'n perfformiad o ran iechyd a diogelwch ar gael yn ein Hadroddiad ar Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ar gyfer 2017 sydd i'w weld yn dwrcymru.com

Iechyd a Lles

Yn ystod chwarter cyntaf 2018, arweiniodd ein tîm Iechyd, Diogelwch a Lles ymgyrch ar faterion iechyd meddwl a chymerodd cydweithwyr ran mewn nifer o weithgareddau. Dechreuwyd sgysiau cynhyrchol hefyd yn sgîl ein cyfranogiad yn y Diwrnod Amser i Siarad a'r gobaith yw y bydd y rhain yn parhau drwy gydol y flwyddyn. Rhannodd y tîm adnoddau a gwybodaeth â'r rheini yr oedd angen help arnynt, neu a oedd am gael gwybod mwy am gyflyrau iechyd meddwl penodol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â'r elusen iechyd meddwl Mind Cymru i'n helpu i barhau i ganolbwyntio ar leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl yn yr hirdymor, ac i sicrhau y gwnawn bopeth o fewn ein gallu i helpu cydweithwyr sydd angen cymorth.

Hawliau Dynol

Rydym yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr a'n cadwyn gyflenwi. Ail-lansiwyd ein Cod Ymddygiad ym mis Mawrth 2018. Mae'r Cod hwn yn annog cydweithwyr i "siarad i fyny" os na fydd rhywbeth yn ymddangos yn iawn er mwyn atgyfnerthu ein diwylliant o "wneud y peth iawn" ac atebolrwydd unigol.

Caiff y Cod ei ategu gan nifer o bolisiau'r Grŵp, yn ogystal â gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys:

Gwrth-fwllo ac Aflonyddu

Rydym yn parchu urddas pobl a hawliau unigolion. Mae polisi'r Grŵp yn nodi sut y dylai cydweithwyr ymddwyn tuag at ei gilydd. Yn ystod 2018, ymgwymerodd y Tîm Gweithredol a rhai uwch reolwyr â hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol er mwyn atgyfnerthu ein hymrwymiad i ddiwylliant o gynwysoldeb a pharch.

Diogelu

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cydweithwyr sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael yr hyfforddiant cywir ac, eleni, rydym wedi datblygu ein polisi yn y maes hwn i gefnogi hyn.

Chwythu'r Chwiban

Mae diwylliant iach lle mae unigolion yn teimlo y gallant siarad am unrhyw beth sy'n peri pryder iddynt yn rhan bwysig o "drydedd linell amddiffyn" ein model cydymffurfiaeth. Eleni, rydym wedi sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o argaeledd ein llinell gymorth allanol sy'n darparu ffordd gyfrinachol a diogel ychwanegol i'n cydweithwyr godi pryderon ynghylch ymddygiad sy'n mynd yn groes i'n gwerthoedd. Rydym yn gwbl ymrwymedig i ddiogelu unrhyw gyflogai sy'n sôn am unrhyw achos neu achos a amheuir o fynd yn groes i'r Cod Ymddygiad neu sy'n datgelu unrhyw beth arall er budd i'r cyhoedd.

Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni nodau Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Gwrthwynebw'n gryf gaethwasiaeth, masnachu mewn pobl a llafur plant ac rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o fewn y busnes ac yn ein cadwyni cyflenwi ac unrhyw ran o'r busnes. Mae ymddiried ynom i wneud y peth iawn yn un o'n gwerthoedd craidd. Ni fyddem byth yn ymwybodol ymwneud â chyflenwyr na contractwyr sydd ynghlwm wrth gaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl. Mae ein Polisi Gwrthgaethwasiaeth yn amlinellu ymrwymiad y Grŵp i ymddwyn yn foesebol ac yn onest o ran trefniadau ein cadwyni cyflenwi. Fel rhan o'n proses gaffael, bydd yn ofynnol i unrhyw gontractwr neu gyflenwr posibl gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ac, os cânt eu penodi, mae'n ofynnol iddynt rannu'r gofynion a osodwn arnynt ag unrhyw is-gontractwyr a ddefnyddiant i ddarparu eu gwasanaethau i ni. Bydd ein telerau ac amodau yn cynnwys darpariaethau cytundebol sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern. Rydym yn gweithredu'r darpariaethau newydd hyn fel rhan o bob cytundeb newydd, wrth adnewyddu cytundebau allweddol ac wrth gyflwyno archebion prynu. Rydym wedi ysgrifennu at ein cyflenwyr allweddol presennol i'w hatgoffa o ofynion y Ddeddf a'n polisi yn y maes hwn. Mae gan ein tîm Adnoddau Dynol bolisiau recriwtio i ddiogelu unigolion rhag caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn ein gweithrediadau ein hunain ac rydym yn gweithio tuag at gyflawni'r 12 ymrwymiad yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn cadwyni cyflenwi. Ceir rhagor o fanylion a'n datganiad ar wrthgaethwasiaeth yn y ddolen isod:

dwrcymru.com/Company-Statements

Gwrth-lwgrwobrwyath, Llygredd a Gwrth-dwyll

Mae polisi'r Grŵp yn nodi'n glir na fyddwn yn goddef unrhyw achosion o dwyll, anonestrwydd, llwgrwobrwyath, llygredd, dwyn asedau na datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn amhriodol. Mae'r Grŵp yn trin y materion hyn yn ddifrifol iawn ac mae'n disgwyl i bob achos gael ei adrodd ar unwaith. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ein polisi llym ar Letygarwch a Rhoddion gan gyflenwyr a gaiff ei fonitro a'i orfodi'n rheolaidd. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnal adolygiad blynyddol o'n systemau rheolaethau mewnol fel rhan o'n hymdrechion parhaus i atal llwgrwobrwyath a llygredd yn ein busnes a'n cadwyn gyflenwi.

Gwrthdaro Buddiannau

Rydym yn disgwyl i'n cyflogeion gyflawni eu dyletswyddau yn onest ac i osgoi gwrthdaro rhwng unrhyw fuddiannau ariannol neu fasnachol personol a'u cyfrifoldebau i Dŵr Cymru.

Cydymffurfio â Chyfraith Gystadleuaeth

Mae Dŵr Cymru yn gwbl gefnogol i gystadleuaeth agored a theg ac yn ymrwymedig i lynu'n gaeth wrth yr holl gyfreithiau cystadleuaeth.

Polisi Talu Cyflenwyr

Yn ystod y flwyddyn, mae tîm Cyllid y Grŵp wedi gweithio i wella ein telerau talu ar gyfer pob cyflenwr. Pan fydd cyflenwyr yn cydymffurfio â thelerau ac amodau eu penodiad, gan gynnwys darparu anfoneb ddilys â dogfennaeth ategol berthnasol, ein polisi yw y dylid prosesu'r taliad o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y derbynnir yr anfoneb. Rydym yn gweithio i wella ein perfformiad yn erbyn yr amcanion polisi clir hyn ac mae'r Tîm Gweithredol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf bob mis.



Ein
Hadroddiad
Effaith

CEFNOGI EIN CWSMERIAID A'N CYMUNEDAU

Mynediad a Hamdden

Ni yw gwarcheidwad tua 40,000 hectar (99,000 erw) o dir sy'n gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu cyfleoedd hamdden ardderchog i'r cyhoedd a, phob blwyddyn, mae tua miliwn o bobl yn ymweld ag un o'n 17 o brif safleoedd cronfeydd dŵr lle y darparwn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden. Rydym hefyd wedi sefydlu Canolfannau Ymwelwyr a Gweithgareddau yn ein safleoedd yn Llandegfedd (Gwent), Brenig (Sir Ddinbych), Llys y Frân (Sir Benfro) a Chwm Elan (Powys). Ceir rhagor o wybodaeth om ein cyfraniad at fynediad cyhoeddus a thwristiaeth yn yr Adroddiad Effaith ar ein gwefan dwr.cymru.com.

Bioamrywiaeth

O fis Rhagfyr 2019, o dan Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016, byddwn yn cyflwyno adroddiadau bob tair blynedd ar gydymffurfiaeth â'n dyletswydd i atgyfnerthu bioamrywiaeth ac ecosystemau yn ein hardal gyflenwi.



Staff yn
Hosbis Marie Curie
ym Mhenarth

CRONFA GYMUNEDOL DŴR CYMRU

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lansio Cronfa Gymunedol Dŵr Cymru i gefnogi'r cymunedau hynny y gallai ein buddsoddiad gweithredol fod wedi tarfu arnynt.

Mae'r Gronfa Gymunedol yn gyfle i gymunedau roi hwb i'w hymdrechion i godi arian at achosion da yn eu hardal. Wrth wneud rhoddion o'r gronfa hon, mae'r pwyllgor Cronfa Gymunedol yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd lle mae Dŵr Cymru wedi bod yn gwneud gwaith a all fod wedi effeithio ar y gymuned leol. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiant mawr hyd yn hyn, gyda mwy na 200 o geisiadau yn dod i law ers iddo gael ei lansio ym mis Medi 2017. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Effaith ar ein gwefan dwr.cymru.com.



Tîm pêl-droed o dan 6 oed
Whitehead Graig United
yng Nghasnewydd

DIOGELU DATA A GWYBODAETH

Rydym wedi ymgymryd â rhaglen cydymffurfiaeth ac ymwybyddiaeth i'r Grŵp cyfan yn ystod y flwyddyn er mwyn paratoi ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Nod y rhaglen hon oedd atgyfnerthu ymwybyddiaeth y Grŵp cyfan o'r ffaith bod y data personol a ddelir gennym yn eiddo i gwsmeriaid neu gydweithwyr unigol a thynnu sylw at bwysigrwydd diogelu preifatrwydd yr unigolyn mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddelir gennym. Rydym wedi pennu egwyddorion allweddol sy'n rheoli'r modd y caiff gwybodaeth personol ei chasglu, ei defnyddio a'i thrin ac sy'n rhoi hawliau pwysig i unigolion. Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd i'w weld ar ein gwefan dwrcymru.com/privacy.

Mae ein polisiau hefyd yn atgyfnerthu rôl unigolion o ran cadw gwybodaeth yn fwy diogel a chywir yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu'r ffordd yr ymdriniwn â risgiau Seiber-Ddiogelwch yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ennill ardystiad Cyber-Essentials Plus ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau achrediad ISO 27001 ar gyfer ein rheolaethau diogelu gwybodaeth.

ARLOESIEDD

Mae ein portffolio arloesi yn parhau i dyfu gyda 300 o syniadau a chynigion wedi'u hasesu drwy broses iLab ers mis Ebrill 2015. Rydym wedi cwblhau tua 78 o brosiectau, gan ennill mwy nag wyth gwobr arloesedd yn y broses. Rydym hefyd wedi gweithio gyda 121 o sefydliadau partner, gan fuddsoddi tua £5.9m ym maes arloesedd yn 2017/18 ar ran ein cwsmeriaid. Mae'r gwaith hwn yn parhau i hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd, lleihau ein hól-troed amgylcheddol, a gwella ein hiechyd a diogelwch yn arbennig. Yn ogystal â buddsoddi mewn hyrwyddo newid arloesol, parhawn i weithio'n agos gyda'n Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol (sy'n cynnwys rheoleiddwyr, academyddion a rhanddeiliaid amgylcheddol) sy'n rhoi cyngor i'r busnes ar yr holl waith gwyddoniaeth ac ymchwil a wneir gennym. Mae'r Panel yn parhau i'n helpu i fanteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael o fewn cyrff o'r fath a meithrin ein cydberthnasau â hwy, er mwyn dod o hyd i gyllid ac arbenigedd i'w defnyddio yn ein gwaith gwyddoniaeth ac ymchwil. Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i lywio elfennau o'r agenda ymchwil genedlaethol drwy ein cydberthynas strategol â'r Cyngor Ymchwil Amgylcheddol Naturiol (NERC) a thrwy gymryd rhan mewn mentrau ymchwil o fewn y diwydiant dŵr, yn fwyaf nodedig drwy fod yn aelod o bartneriaeth UK Water Industry Research, sy'n rheoli ac yn cydgyssylltu buddiannau ymchwil cwmnïau dŵr yn y DU.

RHODDION GWLEIDYDDOL

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â gwneud rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd taliad o £33,750 i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth i ariannu cynghorydd dyledion i roi cyngor i'n cwsmeriaid yn Rhondda Cynon Taf, a thaliad o £18,000 i Step Change i helpu gyda'r gwaith y mae'r elusen yn ei wneud yn rhoi cyngor ar ddyledion i'n cwsmeriaid. Rydym yn datgelu'r taliadau hyn gan fod y ddau sefydliad hefyd yn ymgyrchu dros newidiadau i bolisiau'r llywodraeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â dyledion. Fodd bynnag, cafodd yr arian a ddarparwyd ei neilltuo ar gyfer rhoi cyngor penodol ar ddyledion. Heblaw am hyn, ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

NWYON Tŷ GWYDR

Rydym yn ceisio lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ym mhopeth a wnawn, gan gynnwys ceisio lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr. Rydym yn mesur hwn drwy gyfrifo ein allyriadau carbon gweithredol. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r allyriadau hyn wedi'u dominyddu gan ynni a gyflenwir o'r grid (trydan a nwy). Fodd bynnag, yn 2017/18 sefydlwyd trefniant cyflenwi trydan newydd ag Orsted (DONG yn flaenorol) sy'n sicrhau bod yr holl drydan a ddefnyddir gennym yn dod o ffynonellau adnewyddadwy gwyrdd (wedi'i ategu gan y cynllun Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO)). Mae'r newid hwn yn golygu bod ein cyflenwad trydan yn ddi-garbon, ar wahân i rai allyriadau sy'n gysylltiedig â thrawsyrro a dosbarthu'r trydan, sef gostyngiad o 134ktCO₂e (o ran ffactorau allyriadau 2017/18).

Yn 2017-18 gostyngodd ein hallyriadau carbon gweithredol 71% i 62ktCO₂e (2016/17: 212 ktCO₂e). Pe na baem wedi newid ein contract cyflenwi trydan, byddai'r allyriadau carbon wedi gostwng 7% i 197ktCO₂e, yn bennaf oherwydd y gostyngiad parhaus yn lefel y carbon a geir mewn trydan gan mai nwy yn hytrach na glo a gaiff ei ddefnyddio gan amlaf i gynhyrchu trydan bellach. Gwelwyd cynnydd o 466 GWh yn y trydan a ddefnyddir gennym (2016/17: 451 GWh), a wrthbwyswyd yn rhannol gan gynydd yn yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gennym i 98 GWh (2016: 87 GWh), gyda chynnydd mewn ynni dŵr (o 37 GWh i 42 GWh) a'n flwyddyn lawn gyntaf o gynhyrchu ynni'r gwynt (6 GWh). Gwelwyd cynnydd o 4ktCO₂e yn yr allyriadau carbon o rannau eraill o'r busnes o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn bennaf oherwydd gwaith prosesu llaid, y defnydd o drafnidiaeth a'r tanwydd a ddefnyddir gennym.

CYFLOGEION

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Grŵp 3435 o gyflogeion. Gwyddom fod ein llwyddiant yn dibynnu ar ein gweithlu ymrwymedig, llawn cymhelliant ac rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl er mwyn ateb heriau gweithredu ein busnes yn y dyfodol ac i annog gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gennym yn llawn.

Gwella amrywiaeth ein gweithlu

Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr na chyflogeion ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ("nodweddion gwarchodedig" yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) nac unrhyw nodwedd personol arall. Os oes gan gyflogogai anabledd neu os yw'n cael anabledd, rhown ystyriaeth i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ei helpu i oresgyn neu leihau effaith hynny. Mae'n bolisi gan y Grŵp y dylai hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person anabl, cyn belled â phosibl, fod yn union debyg i hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person nad oes ganddo anabledd.

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn hapus i ymdrin â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu yn Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth effeithiol yn y ddwy iaith.

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gynllun a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i baratoi ar gyfer rhoi darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg.

WATERAID

Fel sy'n gweddu i'n model gweithredu, nid ydym yn darparu unrhyw nowdd corfforaethol ond parhawn i gefnogi WaterAid. Ceir rhagor o fanylion yn ein Hadroddiad Effaith Gymdeithasol.

UNIGOLION Â RHEOLAETH SYLWEDDOL

Cadwn Gofrestr o Bobl â Rheolaeth Sylweddol er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015 (Deddf 2015). Mae'r cwmni wedi nodi endidau cyfreithiol perthnasol y gellir eu cofrestru o fewn strwythur y Grŵp.

DATGANIAD Y CYFARWYDDWYR

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru, yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu perfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Er mwyn cyrraedd y sefyllfa hon, cafodd y Bwrdd ei gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- drafftiiwyd yr Adroddiad Blynyddol gan uwch reolwyr a goruchwyliwyd y broses gydgyssylltu gyffredinol gan y Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni er mwyn sicrhau cysondeb
- cynhaliwyd adolygiadau o fersiynau drafft gan aelodau o'r tîm Gweithredol a chynhaliwyd proses wirio a oedd yn cynnwys archwilywyr y Grŵp
- adolygwyd y fersiwn ddrafft derfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i chyflwyno i Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi paratoi Adroddiad Strategol sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad a pherfformiad busnes y Grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ac sy'n cwmparu'r datblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol. Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig (Rhif cwmni 09917809) yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gorfforedig yng Nghymru a Lloegr. Mae ein swyddfa gofrestredig yn Heol Pentwyn, Nelson, CF46 6LY.

Mae'r ddogfen Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hon yn cydgrynhoi gweithgarwch a chanlyniadau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ('Glas Cymru') a'i is-gwmnïau. Ceir rhagor o wybodaeth am y Prif Weithgareddau ar dudalen 15.

ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL

Mae Amod F o'r Offeryn Penodi y mae Dŵr Cymru yn gweithredu yn unol ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth ariannol ychwanegol fel 'busnes penodedig'. Caiff copi o'r wybodaeth hon ei gyhoeddi ar ein gwefan.

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 ddydd Gwener 6 Gorffennaf 2018 yng Ngwesty'r Marriott, Abertawe. Bydd y Cyfarfod yn ymdrin â'r canlynol:

- derbyn Adroddiad y Cyfarwyddwyr;
- derbyn y Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018;
- cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 a chymeradwyo estyniad i'r Polisi Cydnabyddiaeth am gyfnod pellach o ddwy flynedd;
- ailethol pob Cyfarwyddwr;
- cynnig i awdurdodi'r Grŵp i wneud rhoddion i sefydliadau gwleidyddol yn yr UE a mynd i wariant gwleidyddol o fewn yr UE hyd at derfynau diffiniedig;
- cynigion i benodi'r archwilywyr ac awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i bennu eu ffioedd.

Busnes arferol yw'r holl gynigion hyn. Nid oes unrhyw fusnes arbennig.

Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r cynigion yn Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 a anfonwyd at Aelodau Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

ADDYSG

Mae buddsoddi mewn addysg ac ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethir gennym er mwyn sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn deall y rhan sydd ganddynt i'w chwarae wrth helpu i gyflawni ein gweledigaeth yn rhan allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir gennym. Mae gennym bedair canolfan addysg (Cwm Elan ger Rhaeadr Gwy, Cilfynydd ger Pontypridd, Rhostir Cog ger Dinas Powys a Brenig ar Rostir Sir Ddinbych), y mae dros 14,000 o blant yn ymweld â hwy bob blwyddyn. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni ymarferol, llawn hwyl er mwyn i blant a theuluoedd allu profi byd dŵr drostynt hwy eu hunain.

Er mwyn ymestyn cyrhaeddiad ein darpariaeth addysg, mae gennym raglen allgymorth hefyd lle mae ein hathrawon yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu gweithdai ar yr ymgyrchoedd newid ymddygiad rydym yn eu cynnal mewn perthynas ag effeithlonrwydd dŵr (Love Dŵr) a llygredd (Stop Cyn Creu Bloc). Mae tua 41,000 o ddisgyblion y flwyddyn yn cael budd o'r rhaglen hon.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR O RAN YR ADRODDIAD BLYNYDDOL A'R DATGANIADAU ARIANNOL

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Gwmni yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae cyfraith cwmni yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Gwmni ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Gwmni yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ('IFRS') fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE a chyfraith gymwys.

O dan gyfraith cwmni, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o faterion y Grŵp a'r rhiant-Gwmni ac o'u helw neu golled ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r rhiant-Gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol, perthnasol a dibynadwy;
- datgan a baratowyd y datganiadau ariannol yn unol ag IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE;
- asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-Gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol;
- defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-Gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y rhiant-Gwmni ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y rhiant-Gwmni ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod ei ddatganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y fath rheolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, ac mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau sy'n rhesymol agored iddynt i ddiogelu asedau'r grŵp ac i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi Datganiad Llywodraethu Corfforaethol fel pe bai angen i'r cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestru a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol a gynhwysir ar wefan y cwmni ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Ystyriwn fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon, yn eu cyfanrwydd, yn deg, yn gyfbwys ac yn ddealladwy ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfranddalwyr i asesu sefyllfa a pherfformiad y Grŵp, ei fodel busnes a'i strategaeth.

Drwy orchymyn y Bwrdd



Nicola Williams

Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni

7 Mehefin 2018

ARCHWILWYR

KPMG yw archwilwyr Glas Cymru ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018. Fel rhan o'r broses archwilio, rydym wedi cadarnhau, hyd y gŵyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, a'u bod wedi cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Grŵp yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cadarnhawm hyd eithaf ein gwybodaeth:

- Mae'r datganiadau ariannol, a baratowyd yn unol â'r safonau cyfrifyddu cymwys, yn rhoi darlun cywir a theg o berfformiad y Grŵp.
- Mae'r adroddiad strategol yn cynnwys adolygiad teg o berfformiad y busnes, ei risgiau a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn bod yr adroddiad blynyddol yn deg, yn gyfbwys ac yn ddealladwy.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, mae'r tîm rheoli yn adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddionau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau, colled neu fethiant. Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol. Gyda'i gilydd, mae'r prosesau hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.

CHICK

ADOLYGIAD ARIANNOL A CHANLYNIADAU

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD
ANNIBYNNOL I AELODAU GLAS CYMRU

96

DATGANIADAU ARIANNOL

100

Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Gyfarwyddwyr Glas Cymru Holdings Cyfyngedig

1. Nid yw ein barn wedi newid

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfunol, y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol, y datganiad cyfunol o newidiadau mewn ecwiti, y fantolen gyfunol, mantolen y rhiant-gwmni, datganiad y rhiant-gwmni o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, y datganiad llif arian parod cyfunol, datganiad llif arian parod y rhiant-gwmni a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2018, ac o golled y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr UE);
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a chyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod.

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol FRC fel y'i cymhwysir at endidau rhestredig, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennym yn cynnig sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn.

Trosolwg

Perthnasedd: £11.0m (2017:£10.0m)
datganiadau ariannol
cyfan y grŵp 0.17% (2017: 0.17%) o Gyfanswm yr Asedau

Cwmpas 100% (2017:100%) o golled y grŵp (2016: colled) cyn treth

Risgiau o gamddatganiad perthnasol o gymharu â 2017

Risgiau mynych	Croniad incwm a fesurwyd	◀▶
	Asedau sefydlog	◀▶
	Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy	◀▶
	Rhwymedigaeth pensiwn grŵp	◀▶
Risgiau'r rhiant-gwmni	Buddsoddiad y rhiant-gwmni	◀▶

2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau o gamddatganiad perthnasol

Materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd bwysicaf, yn ein barn broffesiynol ni, wrth archwilio'r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys y risgiau o gamddatganiad perthnasol yr aseswyd eu bod bwysicaf (boed o ganlyniad i dwyll ai peidio) a nodwyd gennym, gan gynnwys y rheini a gafodd yr effaith fwyaf ar y canlynol: y strategaeth archwilio gyffredinol; y broses o ddyrannu adnoddau yn ystod yr archwiliad; a chyfeirio ymdrechion y tîm ymgysylltu. Ymdrinwyd â'r materion hyn yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol cyfan, ac wrth lunio ein barn ar y datganiadau hynny, ac nid ydym yn rhoi barn ar wahân ar y materion hyn. Wrth lunio ein barn archwilio uchod, roedd y materion archwilio allweddol, wedi'u rhestru yn ôl pwysigrwydd mewn perthynas â'r archwiliad gyda'r pwysicaf gyntaf, fel a ganlyn (nid ydynt wedi newid ers 2017):

Y risg	Ein hymateb	
Croniad incwm a fesurwyd (£70.8 miliwn; 2017: £68.8 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 65 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 106 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 110 (datgeliadau ariannol).	Amcangyfrif goddrychol Mae'r broses o gyfrifo incwm mesuredig nas biliwyd yn cynnwys amcangyfrif o werth y dŵr a gyflenwyd i gwsmeriaid â mesurydd rhwng y darlleniad mesurydd olaf a diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar nifer y cwsmeriaid ar fesuryddion, y pris fesul uned o ddŵr, a lle y bo'n briodol, gwybodaeth bilio hanesyddol wedi'i haddasu er mwyn ystyried newidiadau mewn ffactorau allanol fel y tywydd, a allai gael eu datgan yn anghywir.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Prawf manylion: gwnaethom ailgyfrifo'r cronriad ar gyfer sampl o gwsmeriaid a chynnal asesiad beirniadol o fanylion mathemategol y cyfrifiad, gan gysoni tariffau â'r cynllun taliadau a'r defnydd cyfartalog mewn biliau a chyfriflenni banc diweddar. Disgwyliadau o gymharu â chanlyniadau: Ffurfiwyd disgwyliad o'r incwm mesuredig, gan gynnwys y cronriad cysylltiedig, gan ystyried prif sbardunau'r balans, gan gynnwys nifer y cwsmeriaid, newidiadau mewn prisiau yn seiliedig ar gynllun taliadau cyhoedddeg y grŵp ac, os oedd yn briodol, unrhyw ffactorau allanol fel y tywydd, a chymharwyd hyn â'r incwm mesuredig gwirioneddol a gydnabuwyd; Asesu tryloywder: gwnaethom hefyd asesu digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â graddfa'r amcangyfrif dan sylw er mwyn pennu'r cronriad incwm.

	Y risg	Ein hymateb
Dosbarthu costau rhwng gwariant gweithredu a gwariant cyfalaf Ychwanegiadau: (£349.4 miliwn; 2017: £308.5 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 65 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 107 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 116 (datgeliadau ariannol).	Y broses gyfrifyddu Mae'r grŵp yn mynd i lefel uchel o wariant ar PPE ("eiddo, offer a chyfarpar"), gan gynnwys trwsio a chynnal a chadw, a chostau gwella. Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnol arall, ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu, ac y cânt eu cynnwys felly yn y gwerth cario ar gyfer PPE, neu fel arall a ddylid mynd iddynt ar unwaith. Oherwydd y risg y gallai costau o'r fath gael eu cyfalafu'n amhriodol, yn seiliedig ar y penderfyniadau a wneir gan gyfarwyddwyr neu'r trydydd parti a benodir gan y grŵp mewn perthynas â gwariant ar seilwaith a gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, dyma un o brif feysydd ffocws ein harchwiliad.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Dadansoddi'r broses gyfrifyddu: gwnaethom asesu polisi cyfalafu'r grŵp yn erbyn gofynion y safonau cyfrifyddu; Dylunio rheolaethau: gwnaethom brofi rheolaethau mewn perthynas â sampl o brosiectau cyfalaf drwy gydol y flwyddyn ariannol er mwyn cadarnhau bod y rheolaethau'n gweithredu fel y'u disgrifiwyd o ran dosbarthu gwariant naill ai fel cyfalaf neu weithredol ac yn unol â pholisi ac yn ddarostyngedig i adolygiad ac awdurdodiad gan y lefel briodol o fewn hierarchaeth y busnes; Profiad y sector: ar sail sampl, gwnaethom herio'r penderfyniadau a wnaed gan y grŵp (gwariant ar bethau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith) a'r trydydd parti annibynnol a benodwyd gan y grŵp (gwariant ar seilwaith) mewn perthynas â lefel y cyfalafu yn seiliedig ar bolisiau cyfrifyddu'r cwmni, gwybodaeth am y sector a natur sylfaenol y prosiectau; Asesu gallu arbenigol: gwnaethom asesu cymhwysedd arbenigwyr y trydydd parti i ymgymryd â'r rôl hon drwy ystyried eu profiad yn y sector gan gyfeirio at brosiectau blaenorol mewn perthynas â'r diwydiant a'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd ganddynt.
Darpariaeth ar gyfer symiau masnach derbyniadwy Symiau masnach derbyniadwy: (£556.7 miliwn; 2017: £556.6 miliwn) Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy: (£83.8 miliwn; 2017: £95.8 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 65 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 108 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 119 (datgeliadau ariannol).	Amcangyfrif goddrychol Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn faes risg sylweddol o ganlyniad i gymhlethdod y cyfrifiad, ei natur oddrychol, ac oherwydd ei maint a'r ffaith y byddai unrhyw newid yn y ddarpariaeth o ran y fantolen yn effeithio'n uniongyrchol ar elw. Seilir y fethodoleg darpariaeth ar gyfraddau methiant a ragwelir yn y dyfodol gan ddefnyddio profiad blaenorol o gasgliadau arian parod hanesyddol, ac unrhyw ffactorau allanol sy'n cael effaith, fel newidiadau mewn ymddygiad cwsmeriaid, er mwyn amcangyfrif cyfran y symiau sy'n dderbyniadwy ar ddiwedd y flwyddyn y mae'r grŵp yn disgwyl eu cael.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Gweithredu'r fethodoleg: aseswyd a oedd y cyfrifiad yn ymgorffori'r wybodaeth, y risgiau a'r data priodol gan gynnwys casgliadau arian parod hanesyddol ac achosion o ddileu dyled, er mwyn amcangyfrif lefel y ddyled na ellir ei hadennill, yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y grŵp a'r diwydiant; Profiad y sector: heriwyd tybiaethau'r cyfarwyddwyr ynghylch profiliau casglu arian parod yn seiliedig ar ein gwybodaeth am y farchnad, tueddiadau hanesyddol, perfformiad gweithredol, achosion hanesyddol o ddileu dyledion, tueddiadau economaidd a lefelau prisio; Dadansoddi sensitifrwydd: cyflawnwyd dadansoddiad o sensitifrwydd ar y tybiaethau a wnaed, yn enwedig cyfraddau casglu arian parod yn y dyfodol, a chymharwyd yr effaith ar lefel y ddarpariaeth; Asesu tryloywder: aseswyd digonolrwydd datgeliadau'r grŵp ynghylch graddau'r ansicrwydd ynghylch amcangyfrif sy'n gysylltiedig â chyfrifo'r ddarpariaeth.
Rhwymedigaeth pensiwn grŵp Gwerth presennol rhwymedigaethau: (£474.1 miliwn; 2017: £497.3 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 65 (Adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio), tudalen 108 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 129 (datgeliadau ariannol).	Prisiad goddrychol Byddai newidiadau bach yn y tybiaethau a'r amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio rhwymedigaeth pensiwn y grŵp fel cyfraddau disgowntio, pris chwyddiant, cyfraddau marwoldeb yn cael effaith sylweddol ar ddiffyg pensiwn net y grŵp.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Tybiaethau meincnodi: gyda chymorth ein harbenigwyr actiwaraidd ein hunain, gwnaethom herio'r tybiaethau allweddol a gymbhwyswyd, sef y gyfradd ddisgowntio, pris chwyddiant a chyfraddau marwoldeb. Asesu tryloywder: rydym hefyd wedi ystyried digonolrwydd datgeliadau'r grŵp mewn perthynas â sensitifrwydd y diffyg i newidiadau mewn tybiaethau allweddol.
Prisiad o fuddsoddiad y rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau Buddsoddi mewn is-gwmnïau: (£3,398.1 miliwn; 2017: £3,228.6 miliwn) Cyfeiriwch at dudalen 107 (polisi cyfrifyddu) a thudalen 118 (datgeliadau ariannol).	Prisiad yn seiliedig ar ragolygon Datgenir y prisiad o fuddsoddiadau'r rhiant-gwmni yn ôl gwerth teg. Cyfrifir y gwerth teg gan ddefnyddio model llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Roedd y barnau yn gysylltiedig â'r rhagolygon llif arian parod ar gyfer y dyfodol a'r defnydd o werth cyfalaf rheoleiddio (RCV) y cwmni gan fod ei werth terfynol yn oddrychol sy'n golygu bod y fantolen hon yn faes allweddol i ni ganolbwyntio arno fel rhan o'n harchwiliad.	Roedd ein gweithdrefnau yn cynnwys: Gweithredu'r fethodoleg: aseswyd p'un a oedd y cyfrifiad yn cynnwys y mewnbynnau priodol, gan gynnwys rhagolygon rhesymol a thybiaethau am lwyddiant yr is-gwmnïau yn y dyfodol; Cymariaethau hanesyddol: gwnaethom werthuso gallu'r cyfarwyddwyr i lunio rhagolygon drwy gymharu rhagolygon blaenorol â chanlyniadau gwirioneddol; Tybiaethau meincnodi: gwnaethom asesu'r dull prisio yn seiliedig ar brisiau diweddar a dalwyd am gwmnïau tebyg yn y diwydiant, gan ganolbwyntio ar luosrif y Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio a gofnodwyd gan OFWAT a ddefnyddiwyd; Ein profiad o'r sector: rydym yn asesu'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir yn y llif arian parod wedi'i ddisgowntio gan gyfeirio at y WACC a ddefnyddir ar gyfer cwmnïau tebyg.

Rydym yn parhau i ddefnyddio gweithdrefnau yn hytrach nag offerynnau ariannol deilliadol. Fodd bynnag, yn dilyn lleihad yn yr asesiadau a gynhaliwyd gennym o gymhlethdod y prisiau a'r ffaith nad oedd unrhyw gamddatganiadau archwilio yn ystod y flwyddyn flaenorol, nid ydym o'r farn bod y risg hon ymhlith y risgiau pwysicaf o ran ein harchwiliad o'r flwyddyn gyfredol ac, felly, ni chaiff ei nodi ar wahân yn ein hadroddiad eleni.

3. Ein cymhwysiad o berthnasedd a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Y berthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y grŵp oedd £11.0 miliwn, a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r grŵp, y mae'n cynrychioli 0.17% ohonynt (2017: 0.17%).

Y berthnasedd ar gyfer datganiadau ariannol cyfan y rhiant-gwmni oedd £5.9 miliwn (2017: £5.5 miliwn) a bennwyd drwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm asedau'r grŵp, y mae'n cynrychioli 0.17% ohonynt (2017: 0.17%).

Gwnaethom gytuno i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd neu nas cywirwyd a nodwyd sy'n fwy na £0.5 miliwn, yn ogystal ag unrhyw gamddatganiadau eraill a nodwyd y gellid cyfiawnhau rhoi gwybod amdanynt ar sail ansoddol.

O blith 10 elfen adrodd y grŵp (2017: 8), gwnaethom gynnal archwiliadau cwmpas llawn ar gyfer 10 ohonynt (2017: 8) at ddibenion y grŵp.

Yr elfennau a oedd o fewn cwmpas ein gwaith a luniodd y canrannau a nodir gyferbyn.


Cymeradwyodd tîm y Grŵp lefelau berthnasedd yr elfennau, a oedd yn amrywio o £0.1m i £11m, gan ystyried cymysgedd maint a phroffil risg y Grŵp ar draws yr elfennau. Gwnaed y gwaith ar yr holl elfennau gan dîm y Grŵp.

Cyfanswm yr asedau


£6,337.0m (2017: £5,857.5m)

Perthnasedd y Grŵp

£11.0m (2017: £10.0m)




Refeniw'r Grŵp



Elw cyn treth y Grŵp



Cyfanswm asedau'r Grŵp



■ Cwmpas llawn at ddibenion archwilio'r grŵp 2018
■ Cwmpas llawn at ddibenion archwilio'r grŵp 2017

4. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â busnes gweithredol

Mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os oes gennym unrhyw beth perthnasol i'w ychwanegu neu i dynnu eich sylw ato mewn perthynas â datganiad y cyfarwyddwyr yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol ar y defnydd o'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol heb unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros ddefnydd y Grŵp a'r Cwmni o'r sail honno am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol. Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

5. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall a gyflwynir yn yr Adroddiad Blynyddol yn ogystal â'r datganiadau ariannol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o gasgliad sy'n rhoi sicrwydd ar y wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth a gynhwysir wedi'i chamddatgan neu'n anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall.

Adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr

Yn seiliedig ar ein gwaith ar y wybodaeth arall yn unig:

- nid ydym wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiadau hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- yn ein barn ni, mae'r adroddiadau hynny wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ein penodi i archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel un a gafodd ei archwilio, y mae'r Cyfarwyddwyr wedi penderfynu ei baratoi fel pe bai'n ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â gofynion Atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig eu Maint (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 (OS 2008 Rhif 410) a wnaed o dan Ddeddf Cwmnïau 2006.

Yn ein barn ni, paratowyd y rhan o Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr i'w harchwilio yn briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, fel petai'r gofynion hynny yn gymwys i'r cwmni.

Datgeliadau o'r prif risgiau a hyfywedd tymor hwy

Yn seiliedig ar y wybodaeth a gawsom yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, nid oes dim perthnasol gennym i'w ychwanegu nac i dynnu sylw ato mewn perthynas â'r canlynol:

- cadarnhad y cyfarwyddwyr yn y datganiad ar hyfywedd hirdymor (tudalen 48) eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Grŵp, gan gynnwys y rheini a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd a'i hylifedd;
- y datgeliadau o'r Prif Risgiau yn disgrifio'r risgiau hyn ac yn egluro sut y cânt eu rheoli a'u lliniaru;
- esboniad y cyfarwyddwyr yn y datganiad ar hyfywedd hirdymor o sut y maent wedi asesu rhagolygon y Grŵp, dros ba gyfnod y maent wedi gwneud hynny a pham yr ystyriwyd bod y cyfnod hwnnw yn briodol, a'u datganiad o ran p'un a oes ganddynt ddisgwyliad rhesymol y bydd y Grŵp yn gallu parhau i weithredu a chyflawni ei rwymedigaethau fel y

byddant yn dod yn ddyledus dros gyfnod eu hasesiad, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau cysylltiedig yn tynnu sylw at unrhyw amodau neu dybiaethau angenrheidiol.

Datgeliadau llywodraethu corfforaethol

Mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- rydym wedi nodi anghysondebau perthnasol rhwng y wybodaeth a gaffaelwyd gennym yn ystod ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol a datganiad y cyfarwyddwyr, lle maent o'r farn bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfarwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn rhoi'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i randdeiliaid asesu safle a pherfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp; neu
- os nad yw'r adran o'r adroddiad blynyddol sy'n disgrifio gwaith y Pwyllgor Archwilio yn mynd i'r afael yn briodol â materion y mae'r Pwyllgor Archwilio wedi rhoi gwybod i ni amdanynt.

Yn ogystal â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr wedi ein penodi i adolygu eu Datganiad Llywodraethu Corfforaethol fel pe bai angen i'r cwmni gydymffurfio â Rheolau Rhestru a Chanllawiau Datgelu a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'r materion hynny. Yn unol â thelerau ein penodiad, mae'n ofynnol i ni adolygu'r rhan o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y Cwmni â'r 11 darpariaeth yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU a nodwyd ar gyfer ein hadolygiad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

6. Nid oes gennym ddim i'w nodi mewn perthynas â'r materion eraill y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n ofynnol i ni roi gwybod i chi os, yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni, neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- na wneir datgeliadau penodol o gydnybwyddiaeth y Cyfarwyddwyr a nodir gan y gyfraith; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i'w nodi yn hyn o beth.

7. Priod gyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Fel yr eglurir yn fanylach yn eu datganiad a nodir ar dudalen 93, mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, gan gynnwys bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol ag sydd ei hangen yn eu barn hwy er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r broses gyfrifyddu ar sail busnes gweithredol onid ydynt naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu lle nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilywyr

Rydym yn anelu at gael sicrwydd rhesymol o ran p'un a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau perthnasol ai peidio, boed o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn cynnig lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol lle y bydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities

8. Diben ein gwaith archwilio a phwy rydym yn atebol iddynt

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu aelodau'r Cwmni o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu ohonynt yr adroddiad yr archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau a luniwyd gennym.



James Ledward

Uwch Archwilydd Statudol

dros ac ar ran Cyfrifwyr Siartredig
Archwilywyr Statudol KPMG LLP

3 Sgwâr y Cynulliad, Cei Britannia,
Caerdydd, CF10 4AX
7 Mehefin 2018

DATGANIADAU ARIANNOL

DATGANIAD INCWM CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

Gweithgareddau parhaus	Nodyn	2018	2017
		£m	£m
Refeniw		756.7	743.6
Costau gweithredu:			
Gwariant gweithredol	3	(319.0)	(312.6)
Gwariant ar adnewyddu seilwaith		(86.0)	(69.7)
Dibrisio ac amorteiddio	3	(276.3)	(256.6)
		(681.3)	(638.9)
Elw gweithredu		75.4	104.7
Elw ar waredu asedau sefydlog		1.8	-
Elw cyn llog		77.2	104.7
Treuliau cyllido:			
Costau cyllido sy'n daladwy a threuliau tebyg	4a	(175.9)	(144.2)
Incwm cyllid sy'n dderbyniadwy		3.9	3.6
Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	4b	80.0	(63.0)
		(92.0)	(203.6)
Colled cyn trethiant		(14.8)	(98.9)
Trethiant	5	2.6	28.9
Colled am y flwyddyn		(12.2)	(70.0)

Mae'r cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 oedd £0.3m (Cyfnod o 15 mis hyd at 31 Mawrth 2017: £30.2m).

DATGANIAD CYFUNOL O INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

	Nodyn	2018 £m	2017 £m
Colled am y flwyddyn		(12.2)	(70.0)
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
Ennill/(colled) actiwaraidd a gdnabuwyd yn y cynllun pensiwn	21	12.2	(43.3)
Treth ohiriedig gysylltiedig	6	(2.8)	5.9
Ailbrizio eiddo, offer a chyfarpar	7	158.1	156.8
Treth ohiriedig gysylltiedig	6	(26.9)	(15.3)
Cyfanswm yr eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled		140.6	104.1
Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		128.4	34.1

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU MEWN ECWITI AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018


	Cronfa oilbrizio wrth gefn £m	Enillion orgadwedig £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2016	977.9	103.9	1,081.8
Colled am y flwyddyn	-	(70.0)	(70.0)
Colled actiwaraidd llai treth	-	(37.4)	(37.4)
Ailbrizio llai treth	141.5	-	141.5
Trosglwyddo i enillion orgadwedig	(50.3)	50.3	-
Ar 31 Mawrth 2017	1,069.1	46.8	1,115.9
Colled am y flwyddyn	-	(12.2)	(12.2)
Ennill actiwaraidd llai treth	-	9.4	9.4
Ailbrizio llai treth	131.2	-	131.2
Trosglwyddo i enillion orgadwedig	(57.5)	57.5	-
Ar 31 Mawrth 2018	1,142.8	101.5	1,244.3

MANTOLEN GYFUNOL AR 31 MAWRTH 2018

	Nodyn	2018 £m	2017 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	5,312.1	5,065.2
Asedau anniriaethol	9	146.3	119.5
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	0.9	-
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	15	1.9	2.2
		5,461.2	5,186.9
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	577.7	563.2
Stocrestrau		3.2	2.8
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	15	6.4	4.0
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	288.5	100.6
		875.8	670.6
Cyfanswm yr asedau		6,337.0	5,857.5
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(564.1)	(556.5)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	14	(41.5)	(39.3)
- offerynnau ariannol deilliadol	15	(29.2)	(35.2)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	17	(2.4)	(1.2)
		(637.2)	(632.2)
Asedau cyfredol net		238.6	38.4
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(233.9)	(204.6)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	14	(3,317.3)	(2,938.8)
- offerynnau ariannol deilliadol	15	(376.2)	(448.0)
Buddiannau ôl-gyflogaeth	21	(80.4)	(95.2)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	17	(6.5)	(9.6)
		(4,014.3)	(3,696.2)
Asedau net cyn treth ohiriedig		1,685.5	1,529.1
Treth ohiriedig - net	6	(441.2)	(413.2)
Asedau net		1,244.3	1,115.9
Ecwiti			
Cronfa ailbrisio wrth gefn		1,142.8	1,069.1
Enillion argadwedig		101.5	46.8
Cronfeydd wrth gefn		1,244.3	1,115.9

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol
ar dudalennau 101 i 133 gan Fwrdd y
Cyfarwyddwyr ar 7 Mehefin 2018 ac
fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


C A Jones
Prif Weithredwr


P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol

MANTOLEN Y RHIANT-GWMNI AR 31 MAWRTH 2018

	Nodyn	2018 £m	2017 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Benthyciad rhwng-gwmni		21.6	-
Buddsoddi mewn is-gwmnïau	10	3,398.1	3,228.6
		3,419.7	3,228.6
Asedau cyfredol			
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	8.6	30.1
Llog rhwng-gwmni derbyniadwy		0.2	-
		8.8	30.1
Asedau net		3,428.5	3,258.7
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion argadwedig		30.5	30.2
Cronfa ailbrisio wrth gefn		3,398.0	3,228.5
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		3,428.5	3,258.7


DATGANIAD Y RHIANT-GWMNI O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

	Cronfa ailbrisio wrth gefn £m	Enillion argadwedig £m	Cyfanswm £m
Balans adeg corffori	-	-	-
Elw am y cyfnod	-	30.2	30.2
Ailbrisio	3,228.5	-	3,228.5
Balans ar 31 Mawrth 2017	3,228.5	30.2	3,258.7
Elw am y flwyddyn	-	0.3	0.3
Ailbrisio	169.5	-	169.5
Balans ar 31 Mawrth 2018	3,398.0	30.5	3,428.5

Corfforwyd y rhiant-gwmni ar 15 Rhagfyr 2015. Mae'n gweithredu fel cwmni daliannol ac nid yw'n masnachu.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 104 i 105 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 7 Mehefin 2018 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:


C A Jones
Prif Weithredwr


P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid a Masnachol

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

	Nodyn	2018 £m	2017 £m
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	18a	347.5	336.9
Llog a dalwyd	18b	(132.9)	(124.6)
Treth incwm a dderbyniwyd		0.4	1.1
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		215.0	213.4
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Caffael is-gwmnïau		(0.5)	-
Llog a dderbyniwyd		3.8	3.8
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(302.6)	(237.7)
Asedau anniriaethol a brynwyd		(48.5)	(33.5)
Elw o werthu offer a chyfarpar		2.5	-
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		11.4	16.1
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(333.9)	(251.3)
Llif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(118.9)	(37.9)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Benthyciadau hirdymor a dderbyniwyd		60.0	70.0
Dyrodidi bondiau		300.0	-
Costau dyrodidi bondiau		(3.5)	-
Ad-dalu benthyciadau		(18.2)	(36.9)
Ad-daliadau cyfnod benthyciad		(21.6)	(20.3)
Prif daliadau prydlesau cyllid		(9.8)	(9.3)
Ad-daliadau benthyciadau eraill		(0.1)	(0.1)
Llif arian parod net o weithgareddau cyllido		306.8	3.4
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	19b	187.9	(34.5)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		100.6	135.1
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	288.5	100.6

DATGANIAD LLIF ARIAN PAROD Y RHIANT-GWMNI AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2018

	2018 £m	15 mis hyd at 31 Mawrth 2017 £m
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi		
Difidend a dderbyniwyd	-	30.2
Buddsoddi mewn is-gwmni	-	(0.1)
Llog a dderbyniwyd	0.1	-
Benthyciad hirdymor i is-gwmni	(21.6)	-
Llif arian parod net o weithgarwch buddsoddi	(21.5)	30.1
(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	(21.5)	30.1
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod	30.1	-
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	8.6	30.1

1. POLISIÂU CYFRIFYDDU, RHEOLI RISGIAU CYLLIDO AC AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU

Polisiau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018

Mae Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ("y Cwmni") yn gwmni preifat sy'n hanu o Gymru ac wedi'i gorffori a'i gofrestru yno. Y rhif cofrestredig yw 09917809 a'r cyfeiriad cofrestredig yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris, CF46 6LY.

Nodir y prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiau hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flwyddyn a gyflwynwyd.

Sail y paratoi

Corfforwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig ar 15 Rhagfyr 2015 ac mae'n gyfyngedig drwy warant. Trosglwyddodd Aelodau Glas Cymru Anghyfyngedig i fod yn Aelodau o Glas Cymru Holdings Cyfyngedig. Yn unol â hynny, Glas Cymru Holdings Cyfyngedig bellach yw rhiant-gwmni terfynol Grŵp Glas.

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Holdings Cyfyngedig a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd gan yr UE ("IFRS Mabwysiedig"). Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbrizio asedau sefydlog, asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol (yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) ar werth teg drwy elw neu golled.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol penodol. Mae hefyd angen i reolwyr lunio barn wrth gymhwyso'r polisiau cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n gymhleth iawn, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 110.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i is-gwmnïau. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys canlyniadau cyfuniadau busnes gan ddefnyddio'r dull caffael. Yn y fantolen gyfunol, caiff asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau digwyddiadol

y sawl sy'n caffael eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerthoedd teg ar y dyddiad caffael. Caiff canlyniadau gweithrediadau a goffaelwyd eu cynnwys yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol o'r dyddiad y ceir rheolaeth drostynt. Cânt eu dadgyfuno o'r dyddiad y daw'r rheolaeth i ben.

Mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyflwyno gwybodaeth am y cwmni fel endid ar wahân ac nid am ei grŵp.

Busnes gweithredol

Fel y disgrifir yn yr adran ar reoli risg cyllido, mae'r Grŵp yn bodloni ei ofyniad cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy ei gyfleusterau banc. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r Grŵp, sy'n ystyried newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran perfformiad masnach, yn dangos y dylai allu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Felly, mae'r Grŵp yn parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

Newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu a datgeliadau

Cyhoeddwyd yr IFRS Mabwysiedig canlynol ond nis cymhwyswyd yn y datganiadau ariannol hyn.

— IFRS 9 Offerynnau Ariannol (dyddiad gweithredol 1 Ionawr 2018). Mae'r safon yn cyflwyno model diwygiedig ar gyfer dosbarthu a mesur offerynnau ariannol, dull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â chyfrifyddu ar sail rhagfantoli a model lleihad "colled disgwyliedig". Mae'r Grŵp wedi adolygu effaith debygol mabwysiadu'r safon hon ac yn cydnabod, er bod y model lleihad yn unol â'i ddull gweithredu presennol, y bydd angen datgeliadau ychwanegol er mwyn dangos profiad hanesyddol a graddau'r ffactorau sy'n edrych tuag at y dyfodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i asesu graddau posibl colledion disgwyliedig yn y dyfodol mewn perthynas â'r cronïad incwm mesuredig ond yn dilyn asesiad cychwynnol, ni ddisgwyliar y bydd yr effaith yn berthnasol.

— IFRS 15 Refeniw o Gontractau â Chwsmeriaid (dyddiad gweithredol 1 Ionawr 2018). Mae'r safon yn ymdrin â chydabod refeniw ac yn pennu egwyddorion ar gyfer cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am natur, swm, amseru a sicrwydd refeniw a llifoedd arian parod sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Caiff refeniw ei gydnabod pan fydd cwsmer yn cael rheolaeth dros nwydd neu wasanaeth ac felly, gall gyfeirio'r defnydd a wneir ohono a chael budd o'r nwydd neu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r safon yn disodli IAS 18 'Refeniw' ac IAS 11 'Contractau Adeiladu', a dehongliadau cysylltiedig. Mae'r Grŵp wedi cynnal asesiad o effaith IFRS 15 ac er bod sail y cyfnod gohirio o bosibl yn wahanol ar gyfer taliadau seilwaith, nid yw'r Cyfarwyddwyr yn rhagweld y bydd yn arwain at unrhyw newid perthnasol o ran y refeniw a gaiff ei gydnabod.

— IFRS 16 Prydlesau (dyddiad gweithredol 1 Ionawr 2019). Mae'r safon yn diwygio'r ffordd y caiff prydlesau eu trin mewn datganiadau ariannol ac i raddau helaeth yn cael gwared ar y gwahaniaeth cyfrifyddu rhwng prydlesau gweithredu a phrydlesau cyllid. Dim ond nifer fach o brydlesau gweithredu byrdymor, gwerth isel sydd gan y Grŵp, ac felly ni ddisgwyliar y bydd effaith mabwysiadu'r safon hon yn berthnasol.

Cydnabod refeniw

Refeniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, heb gynnwys treth ar werth. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd anfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn refeniw (ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol'). Mae'r refeniw a gydnabuwyd yn adlewyrchu gwerth gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw fel ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohiriedig.

Adrodd segment

Caiff segmentau gweithredu eu hadrodd mewn modd sy'n gyson â'r adroddiad mewnol a roddir i'r prif wneuthurwr penderfyniadau

gweithredol. Nodwyd mai'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r pwyllgor llywio sy'n gwneud penderfyniadau strategol.

Buddsoddiadau

Mae buddsoddiadau'r rhiant-gwmni yn cynnwys daliadau ecwiti mewn is-gwmnïau a berchnogir yn llawn, fel y nodir yn nodyn 10. Datgenir y rhain ar werth teg, gydag unrhyw ennill neu golled ganlyniadol yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, yn y gronfa ailbrisio wrth gefn.

Mae'r gwerth teg wedi cael ei gyfrifo gan ddefnyddio techneg llif arian parod gostyngol, ynghyd ag ystyried trafodion marchnad arsylwadwy, gan gyfeirio at gost gyfartalog cyfalaf y Grŵp wedi ei phwysoli.

Eiddo, offer a chyfarpar

Mae gwerth economaidd busnes dŵr a charthffosiaeth y Grŵp yn deillio o'r Gwerth Cyfalaf Rheoleiddio (GCRh) a bennwyd gan Ofwat yn ystod ei adolygiadau pum mlynedd o briesiau. Mae'r Grŵp o'r farn bod dull gwerth teg o brisio ei asedau yn adlewyrchu'n well werth sylfaenol yr asedau na dull cyfrifyddu cost hanesyddol sy'n tannatgan gwerth cyfredol yr asedau a ddefnyddir.

Ar 31 Mawrth 2018, mae cyfanswm gwerth asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol wedi cael ei ailbrisio i 'GCRh cysgodol' y Grŵp, sef GCRh 31 Mawrth 2018 a gyhoeddwyd gan Ofwat yn ei Phenderfyniad Terfynol PR14 fel y'i haddaswyd ar gyfer effaith unrhyw orwariant/tanwariant a gwobrau/cosbau Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau. Dosbarthiadau asedau yr effeithir arnynt yw asedau seilwaith a strwythurau gweithredol.

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl; adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd cronni dŵr a chronfeydd storio dŵr crai wedi ei bwmpio, argaeau, pibellau llaid a gollyngfeydd i'r môr;
- Asedau eraill (gan gynnwys eiddo, strwythurau a chyfarpar gweithredol uwchben y ddaear, a gosodiadau a ffitiadau).

Asedau seilwaith

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd cronni dŵr a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gyda nodweddion ac oes ased debyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Ymdrinnir â gwariant ar asedau seilwaith sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu achosion perthnasol o adnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, a gynhwysir ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant a godir am asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, y gwerth gweddilliol amcangyfrifedig o'r oes ddefnyddiol gyfartalog ddisgwyliedig sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 o flynyddoedd.

Asedau eraill

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 mlynedd
Strwythurau gweithredol	5 – 80 mlynedd
Offer, cyfarpar a chaledwedd gyfrifiadurol	3 – 40 mlynedd

Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

Costau benthycu

Costau benthycu cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymhwyso yw costau benthycu. Asedau cymhwyso yw asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i baratoi ar gyfer eu defnydd neu werthiant bwriadedig.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau system ac ymchwil a datblygu yn bennaf, ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng 3 ac 20 mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

Asedau ar brydles

Cyllidir rhai asedau gan drefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo, i raddau helaeth, holl risgiau a gwobrau perchenogaeth ased i'r lesddeiliad (prydlesau cyllid). Caiff yr asedau hyn eu cyfalafu a'u cynnwys mewn 'eiddo, offer a chyfarpar' gyda'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r lesydd yn cael ei chynnwys o fewn 'rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau'. Mae taliadau prydlesu yn cynnwys elfen gyfalaf a thâl cyllid; mae'r elfen o gyfalaf yn lleihau'r rhwymedigaeth i'r lesydd a chaiff y tâl cyllido ei gydnabod dros gyfnod y brydles yn seiliedig ar ei gyfradd ymhlyg er mwyn rhoi cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Ystyrir pob prydles arall yn brydles weithredu. Codir costau rhentu o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad incwm ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau mewn perthynas â gwariant refeniw eu credydu i'r Datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

Cymelldaliadau rhaglenni gwariant cyfalaf

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys croniat ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

Symiau masnach derbyniadwy

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth wrth heneiddio. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math yma o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad coffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuon gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

Costau pensiwn

1) Cynllun buddiannau diffiniedig

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru, a gaeodd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017 ar gyfer pob aelod heblaw am aelodau adran 18 ESPS. Ariennir y cynllun gan gyfraniadau cyflogwyr yn ogystal â chyfraniadau cyflogaion o'r aelodau gweithredol sy'n weddill. Seilir cyfraddau cyfraniadau ar gyngor actiwari sy'n gymwys yn broffesiynol a chynhelir prisiadau actiwaraidd o'r

cynllun o leiaf bob tair blynedd.

Y rhwymedigaeth a gydnabuwyd yn y fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwari annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn gysylltiedig yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes marchnad ddofn mewn bondiau o'r fath, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu codi neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Cydnabyddir costau ôl-wasanaeth ar unwaith yn y datganiad incwm.

2) Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig, Cynllun Pensiwn Personal Grŵp Dŵr Cymru, y mae pob cyflogai yn gymwys i ymuno ag ef. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwylidig offerynnau o'r fath ar gyfradd sefydlog ar y swm cario.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes.

Mae'r offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yn cynnwys cyfnewidiadau cyfradd llog, cyfnewidiadau chwyddiant

a rhagfantolion pŵer. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddibenion rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y grŵp.

Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018, nid oedd yr un o ddeilliadau'r Grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39 (2017: dim). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Treth ohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio o sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabod ased neu rhwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn yn hytrach nag o gyfuno busnes nad oedd, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled trethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwreiddu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chydabod mewn perthynas ag enillion a ailfuddsoddiwyd ac eithrio lle yr ailfuddsoddiwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r grŵp yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd y hoese economaidd ddefnyddiol. Mae'r grŵp yn rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am elw bach, neu elw sy'n llai na'u sylfaen treth, ac felly ni ddisgwylir i unrhyw enillion taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro a cholledion nas yswirwyd eu cydnabod pan fydd gan y Grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau

er mwyn setlo'r rhwymedigaeth, ac mae'r swm wedi cael ei amcangyfrif yn rhesymol. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys diswyddo cyflogeion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r Grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagddynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad yw yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei gynnwys yn yr un dosbarth o rwymedigaethau yn fach.

Trethiant

Treth gorfforaeth yw'r trethiant presennol yn y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar yr elw trethadwy ar gyfer y cyfnod ac fe'i darperir yn ôl symiau y disgwylir iddynt gael eu talu neu eu hadennill gan ddefnyddio cyfraddau a chyfreithiau treth a ddeddfwyd neu a ddeddfwyd i raddau helaeth ar ddyddiad y fantolen.

AMCANION A PHOLISIÂU RHEOLI RISG CYLLIDO

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiau ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisiau yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hapfasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Caiff polisiau monwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gellir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol. Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau cyllid, cyfleusterau benthychiadau banc a deilliadau.

Y risg o ran credyd

Mae gan y Grŵp bolisi doeth ar gyfer buddsoddi arian parod ac adneuo'n banc byrdymor, a nodwyd

gan y ddogfennaeth bondiau yn y Cytundeb Telerau Cyffredin. Gellir gosod adneuo'n gyda'n Banc Cyfrifon am risg dros nos yn unig neu am hyd at flwyddyn gyda gwrthbartion sydd â sgôr fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf gan Standard & Poor's, Moody's a Fitch yn y drefn honno. Dylid gosod adneuo'n am dros flwyddyn gyda gwrthbartion â sgôr hirdymor o AA-/Aa3/AA- o leiaf.

Yn ymarferol, yn yr amgylchedd economaidd cyffredol, mae'r Grŵp wedi mabwysiadu dull mwy darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuo'n wedi'u hamseru am uchafswm o 35 diwrnod gyda banciau yn amodol ar feini prawf o sgôr hirdymor o A-/A3/A- o leiaf. Dim ond gydag uwchfanciau cenedlaethol gradd AAA - penodol y gellir gosod bondiau a phryniannau papur masnachol am hyd at flwyddyn. Yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £73m (2017: £69m).

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae'r Grŵp yn rhagfantoli o leiaf 85% o'i holl rwymedigaethau ariannol sydd heb eu bodloni, gan gynnwys prydlesau cyllid, naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae refereniw a gwerth asedau rheoliadol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyoeth y Bwrdd, gallai'r Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu drwy lunio trafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ail-gyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthychiadau o £3,359m ar 31 Mawrth 2018 (2017: £2,978m), nid oedd yr un ohonynt yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2017: dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd 100% (2017: 100%) o ddyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol ('RPI') ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r rhagfantolion a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn economaidd o ran natur, ond nid ydynt yn bodloni

gofynion penodol IAS 39 er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £397m ar y fantolen ar 31 Mawrth 2018 (2017: £477m) ond, gan dybio bod y cyfnewidiadau wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen draw.

Rhagfantolion pris pŵer

Mae'r grŵp yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Mae'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol ac fe'u cynhwysir yn y datganiadau ariannol.

Ailgyllido risg

Caiff y broses o ailgyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthyciadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, mathau a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfedrwydd yn gosod straen gormodol ar ei allu i ad-dalu benthychiadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthychiadau'r Grŵp o £3,309m (2017: £2,923m) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis.

Y risg o ran hylifedd

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliad bond a chredydwy'r ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis. Ar 31 Mawrth 2018, roedd y grŵp wedi ymrwymo cyfleusterau benthyca nas hawliwyd o £420m (2017: £460m) ac arian parod ac arian parod cyfatebol (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £294m (2017: £95m).

Mae'r cyfleusterau nas hawliwyd yn cynnwys £170 miliwn o gyfleusterau credyd cylchdro sydd ar gael tan 2020 a chyfleuster benthyca £250m gan European Investment Bank, sydd ar gael tan fis Ionawr 2019. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10m hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2017: £135 miliwn); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr

Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfamedau cyllido dyled. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Risg cyfalaf

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Cyfrifir hon fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfamedau benthyca'r Grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV) fel y'i cysylltir â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ac fel y'i pennwyd gan Ofwat. Ar 31 Mawrth 2018, roedd y gerio rheoleiddiol hwn yn 57% (2017: 56%).

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 16.

AMCANGYFRIFON CYFRIFYDDU CRITIGOL

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen y defnydd o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o refeniw a threuliau a nodir yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu gamau gweithredu hyd y gellir, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Cyfrifir colledion unigol oherwydd lleihad mewn gwerth ar ddyledion cwsmeriaid ar sail asesiad unigol o'r llifau arian parod a ddisgwyllir. Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad mewn gwerth ar symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Y dybiaeth allweddol yn y model yw'r tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau pan fyddant yn ôl-ddyledus. Pennir y tebygolrwydd o fethu ag adennill dyled gan brofiad yn y gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol. Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. I'r graddau y mae methu ag adennill ôl-ddyledion yn newid 1%,

byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £0.9m (2017: £1.0m).

Buddiannau pensiwn

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiwaraid, sy'n cynnwys nifer o dybiaethau. Mae'r tybiaethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, chwyddiant prisiau a chyfraddau marwoldeb, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi. Pe bai'r gyfradd ddisgowntio hon yn gostwng neu'n cynyddu 0.1%, byddai gwerth cario'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Mawrth 2018 yn cynyddu neu'n lleihau £8.9m (2017: £9.9m).

Croniad incwm a fesurwyd

Mae refeniw yn cynnwys cronriad ar gyfer taliadau nas biliwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir y cronriad drwy ddefnyddio methodoleg ddiffiniedig yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog, wedi'i bwysoli o ddŵr yn ôl tariff, a gyfrifir ar sail gwybodaeth filio hanesyddol wedi'i haddasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol, megis y tywydd. Roedd cyfanswm y cronriad ar 31 Mawrth 2018 yn £70.8 miliwn (2017: £68.8m). Byddai newid o 1% mewn defnydd gwirioneddol o'r hyn a amcangyfrifwyd yn cynyddu neu'n lleihau'r cronriad £0.5 miliwn (2017: £0.5 miliwn).

Amcangyfrif gwerth teg

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categorioeddio'n lefelau gwahanol:

Lefel 1: prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd ar Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (prisiau) neu'n anuniongyrchol (yn deillio o brisiau).

Lefel 3: mewnbynnau ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth nad ydynt yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad.

Caiff holl ddeilliadau masnachu a

thrysorlys y Grŵp eu categorioeddio ar Lefel 2 ac ar 31 Mawrth 2018 fe'u prisiwyd fel a ganlyn:

Asedau: deilliadau masnachu £4.8m, deilliadau trysorlys £3.5m. (Mawrth 2017: deilliadau masnachu £2.6m, deilliadau trysorlys £3.6m).

Rhwymedigaethau: Deilliadau masnachu £0.3m, deilliadau trysorlys £405.1m. (Mawrth 2017: deilliadau masnachu £3.3m, deilliadau trysorlys £479.9m).

Deilliadau masnachu sy'n ymwneud â rhagfantolion pris pŵer. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog ac fe'u cofnodir ar werth teg ar y fantolen. Aseswyd bod pob un o'r rhain ar Lefel 2.

Pennwyd gwerth teg contractau rhagfantoli pris pŵer gan ddefnyddio cyfraddau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol. Pennir gwerth teg cyfnewidiadau cyfradd llog gan ddefnyddio blaengyfraddau llog a dynnir o gromliniau cynnyrch canfyddadwy. Mae effeithiau disgowntio yn ansylweddol ar y cyfan ar gyfer deilliadau Lefel 2.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu priso gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

Cyfalafu

Mae angen gallu da i wneud penderfyniadau er mwyn penderfynu a yw costau, sef gwariant cychwynnol a dilynol, gan gynnwys gwariant ar gyflogaion a gwariant mewnl arall, ar seilwaith ac asedau nad ydynt yn gysylltiedig â seilwaith, yn bodloni'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyfalafu (y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased, gan ddarparu budd economaidd tebygol ac y gellir eu mesur yn ddibynadwy) ac a gânt eu cynnwys felly wrth brisio eiddo, offer a chyfarpar, neu fel arall a ddylent gael eu gwario ar unwaith.

2. GWYBODAETH SEGMENTOL

Ym marn y Cyfarwyddwyr dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu busnes dŵr a charthffosiaeth (a gweithgareddau

masnachol ymylol) yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r

datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn.

3. COLLED CYN TRETHIANT

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r golled cyn trethiant:

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Gwariant gweithredu		
Pŵer	42.7	41.0
Cemegion	9.6	9.3
Deunyddiau a chyfarpar	5.5	5.5
Cerbydau ac offer	8.5	7.8
Treuliau swyddfa	9.8	10.3
Costau eiddo	4.0	3.5
Yswiriant	4.1	5.7
Contractwyr carthffosiaeth	19.8	18.5
Gwasanaethau labordai a dadansoddi	0.8	0.7
Comisiynau casglu	4.2	3.6
Contractau TG	11.1	16.2
Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	38.9	35.3
Costau cyflogaion (nodyn 20)	150.4	134.4
Costau staff wedi'u cyfalafu	(53.8)	(48.3)
Credyd ymchwil a datblygu	(1.4)	-
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	22.1	23.3
Ardrethi	26.9	30.5
Taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd	15.3	14.8
Ffioedd sy'n daladwy i archwylwyr	0.5	0.5
Cyfanswm gwariant gweithredol	319.0	312.6
 Gwariant ar adnewyddu seilwaith	 86.0	 69.7
Dibrisio ac amorteiddio		
Dibrisio eiddo, offer a chyfarpar	259.8	241.4
Rhyddhau incwm gohiredig	(5.2)	(4.5)
Amorteiddio asedau anniriaethol	21.7	19.7
Cyfanswm dibrisio ac amorteiddio	276.3	256.6
 Cyfanswm y costau gweithredu	 681.3	 638.9

GWASANAETHAU A DDARPARWYD GAN ARCHWILWYR Y GRŴP

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilwyr statudol:

Grŵp	2018	2017
Ffioedd archwilio	£000	£000
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	20	20
Archwiliad statudol o is-gwmnïau	139	120
Cyfanswm y ffioedd archwilio	159	140
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o ddatganiadau ariannol interim	22	22
Gwasanaethau archwilio rheoliadol yn unol â deddfwriaeth	48	39
Gwaith sicrwydd ar yr adolygiad rheoliadol o brisiau	-	14
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau	26	25
Adolygiadau o adroddiadau buddsoddwyr	6	6
Gwaith sicrwydd ar ordoll Asiantaeth yr Amgylchedd	3	3
Gwaith sicrwydd ar ddyroddi bondiau	38	-
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau cyfanwerthu	-	22
Cyfanswm gwasanaethau sicrwydd archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	302	271
Gwasanaethau eraill		
Cyngor ar bensiynau	80	37
Gwasanaethau cynghori ar dreth	-	17
Sicrwydd o ran dechrau masnachu ar y farchnad	-	25
Sicrwydd ar weithgareddau masnachol	58	85
Cyngor ar wasanaethau cyfreithiol gan gynnwys gwasanaethau dadansoddi'r gyflogres, cydnabyddiaeth a data mewn perthynas ag adrodd ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac archwiliad cyflogau cyfartal gwirfoddol	65	30
Cyfanswm gwasanaethau eraill	203	194
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarperir gan archwilwyr y Grŵp	505	465

Mae'r ffioedd archwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 yn adlewyrchu'r gwaith archwilio ychwanegol a fu angen ar ôl caffael Welsh Water Organic Energy Limited a Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited (gweler nodyn 22).

Mae gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn cynnwys gwaith archwilio mewn perthynas â gofynion rheoleiddio: yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, tablau Asesu Costau a'r Prif Ddatganiad.

Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilwyr allanol. Ni chaiff yr archwilwyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd yr holl waith nad yw'n waith archwilio yn destun ymarfer tendro cystadleuol ymlaen llaw neu'n cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.

4. COSTAU CYLLIDO

a) Cost cyllid cyn enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(86.7)	(88.4)
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(45.7)	(24.8)
Mynegeoio ar fenthyciad mynegrifol	(9.6)	(5.7)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau cyllid (yn cynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(20.8)	(18.5)
Llog benthychiadau eraill	(20.0)	(12.6)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(7.0)	(1.9)
Llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(2.5)	(1.8)
Cyfalafu costau benthyca o dan IAS 23 (2018: 6.1%; 2017: 5.2%)	16.4	9.5
	(175.9)	(144.2)
Incwm cyllid	3.9	3.6
Cost cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(172.0)	(140.6)

b) Enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os y'u delir nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 15 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen).

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Enillion/(colledion) gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	3.6	(2.6)
Enillion/(colledion) gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	71.2	(69.0)
Enillion gwerth teg ar ddeilliadau masnachu	5.2	8.6
Cyfanswm enillion/(colledion) gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	80.0	(63.0)

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan amrywiadau mewn cyfraddau llog hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan amrywiadau yng ngwerth gilltau mynegrifol.

5. TRETHIANT

Dadansoddiad o'r credyd yn ystod y flwyddyn

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Treth gyfredol		
Treth gyfredol ar golledion am y flwyddyn	0.4	1.0
Treth gyfredol ar gredyd ymchwil a datblygu	(0.3)	-
Addasiad mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.9	(0.1)
Cyfanswm y dreth gyfredol	1.0	0.9
Treth ohiriedig		
Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	2.3	17.5
Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol	(0.7)	(1.9)
Effaith newid yn y gyfradd dreth	-	12.4
Cyfanswm y dreth ohiriedig (nodyn 6)	1.6	28.0
Trethiant a gredydwyd	2.6	28.9

Mae'r credyd treth cyfredol o £0.4m (2017: £1.0m) wedi codi wrth ildio colledion treth yn ymwneud â'n gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon.

Mae gwariant gweithredu yn cynnwys credyd treth o £1.4m (2017: £dim) yn ymwneud â gwariant ymchwil a datblygu. Mae'r credyd treth yn drethadwy a nodir y tâl cyfatebol o £0.3m uchod.

Ni chariwyd unrhyw golledion masnachu treth ymlaen ar 31 Mawrth 2018 (2017: £189m) ac maent wedi lleihau o ganlyniad i beidio â hawlio lwfansau cyfalaf mewn perthynas â chyfnod blaenorol.

Mae addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol yn ymwneud â diwygiadau i falansau treth ohiriedig mewn perthynas â gwariant cyfalaf, ac addasiadau i gredydau treth ar gyfer gwariant cyfalaf ynni-ffeithlon a gwaith i adfer tir hlogedig.

Cafwyd cyfraniad credyd o £11.8m at drethi gohiriedig yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 yn dilyn gostyngiadau a wnaed i gyfraddau trethi corfforaeth yn y dyfodol. Syrthiodd y gyfradd a ddefnyddir i gyfrifo trethi gohiriedig o 18% i 17% ar gyfer y flwyddyn honno. Nid yw'r Llywodraeth wedi cyhoeddi unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyfraddau treth gorfforaeth ac felly ni ddisgwyli'r unrhyw gredydau pellach o newidiadau i gyfraddau mewn cyfnodau i ddod.

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2017: uwch) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 19% (2017: 20%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Colled cyn treth	(14.8)	(98.9)
Colled cyn treth wedi'i lluosio â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 19% (2017: 20%)	(2.8)	(19.8)
Effaith:		
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	(0.1)	1.9
Gwahaniaethau parhaol eraill	1.0	0.7
Effaith taliadau pensiwn sy'n fwy na thâl gwasanaeth	(0.7)	(1.0)
Effaith newid yn y gyfradd dreth ar dreth ohiriedig sy'n cloi o 18% i 17%	-	(12.4)
Gwahaniaeth yng nghyfradd safonol treth gorfforaeth (19%) a'r gyfradd a ddefnyddir ar gyfer treth ohiriedig (17%)	-	1.7
Cyfanswm y trethiant a gredydwyd	(2.6)	(28.9)

6. TRETH OHIRIEDIG

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 17% (2017: 17%).

Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

	2018	2017
Grŵp	£m	£m
Ar 1 Ebrill	413.2	431.8
Credyd i'r Datganiad Incwm	(1.6)	(28.0)
Tâl/(credyd) a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	2.8	(5.9)
Rhyddhau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	26.9	15.3
Ar 31 Mawrth	441.2	413.2

Dadansoddiad o'r symiau a godwyd/(a gredydwyd) ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr a'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn:

	2018	2017
Grŵp	£m	£m
Cynlluniau pensiwn budd-daliadau diffiniedig	2.1	(7.8)
Aiddyrannu treth o'r datganiad incwm - taliadau pensiwn sy'n fwy na'r tâl gwasanaeth	0.7	1.0
Lleihad yn y gyfradd treth gorfforaeth - cynllun pensiwn	-	0.9
Tâl a godwyd/(a gredydwyd) ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	2.8	(5.9)
Ailbrisio asedau sefydlog	26.9	28.2
Lleihad yn y gyfradd treth gorfforaeth - ailbrisio asedau sefydlog	-	(12.9)
Codwyd ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	26.9	15.3

	2018	2017
Grŵp	£m	£m
Effaith:		
Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	281.0	316.0
Treth ohiriedig wrth ailbrisio asedau sefydlog	234.1	218.9
Enillion cyfalaf a ailfuddsoddiwyd	2.7	2.7
Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(1.4)	(32.1)
Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(60.7)	(75.1)
Pensiynau	(12.9)	(15.7)
Gwahaniaethau treth eraill	(1.6)	(1.5)
Darpariaeth net ar gyfer treth ohiriedig	441.2	413.2

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. O dan y drefn dreth bresennol, bydd colledion treth masnachu a gariwyd ymlaen ar gael i wrthbwysu enillion masnachu mewn cyfnodau yn y dyfodol.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2017: dim).

7. CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN

Symudiad cronfa ailbrisia wrth gefn	2018 £m	2017 £m
Cronfa ailbrisia wrth gefn ar 1 Ebrill	1,069.1	977.9
Ailbrisia asedau i GCRh	158.1	156.8
Tâl dibrisio ar asedau a ail-brisiwyd	(69.3)	(61.3)
	88.8	95.5
Treth ohiriedig wrth ailbrisia	(26.9)	(15.3)
Treth ohiriedig ar y tâl dibrisio	11.8	11.0
	(15.1)	(4.3)
Cronfa ailbrisia wrth gefn ar 31 Mawrth	1,142.8	1,069.1

8. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Grŵp — 2018	Tir ac adeiladau rhydd- ddaliadol £m	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol £m	Cyfanswm £m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2017	41.7	2,236.5	3,866.1	264.1	6,408.4
Ailbrisia	-	21.5	-	-	21.5
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	-	104.3	239.4	5.7	349.4
Gwaredu	-	-	-	(6.6)	(6.6)
Ar 31 Mawrth 2018	41.7	2,362.3	4,105.5	263.2	6,772.7
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2017	20.6	-	1059.2	263.4	1,343.2
Ailbrisia	-	(48.6)	(88.0)	-	(136.6)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.7	48.6	206.5	4.1	259.9
Rhyddhawyd wrth waredu	-	-	-	(5.9)	(5.9)
Ar 31 Mawrth 2018	21.3	-	1,177.7	261.6	1,460.6
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2018	20.4	2,362.3	2,927.8	1.6	5,312.1
Ar 31 Mawrth 2018 (sail cost hanesyddol)	20.4	1,730.8	2,182.3	1.6	3,935.1

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £278.5m mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2017: £207.6m).

Cyfalafwyd £55.4m o gostau benthyca yn unol ag IAS 23 (2017: £42.9m) yr oedd £14.1m ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2017: £8.4m).

	Tir ac adeiladau rhydd- ddoliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
Grŵp – 2017	£m	£m	£m	£m	£m
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2016	41.6	2,090.1	3,681.9	262.4	6,076.0
Ailbrisi	-	24.3	-	-	24.3
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	0.1	122.1	184.2	2.1	308.5
Gwarediadau	-	-	-	(0.4)	(0.4)
Ar 31 Mawrth 2017	41.7	2,236.5	3,866.1	264.1	6,408.4
Dibrisiant cronedig					
Ar 1 Ebrill 2016	19.8	-	955.2	259.7	1,234.7
Ailbrisi	-	(43.8)	(88.7)	-	(132.5)
Tâl a godwyd am y flwyddyn	0.8	43.8	192.7	4.1	241.4
Rhyddhawyd wrth waredu	-	-	-	(0.4)	(0.4)
Ar 31 Mawrth 2017	20.6	-	1,059.2	263.4	1,343.2
Gwerth llyfr net					
Ar 31 Mawrth 2017	21.1	2,236.5	2,806.9	0.7	5,065.2
Ar 31 Mawrth 2017 (sail cost hanesyddol)	21.1	1,662.8	2,092.4	0.7	3,777.0

Asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel y'u dadansoddir isod:

	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2018			
Ar 31 Mawrth 2018			
Prisiad	669.9	117.7	787.6
Dibrisiant cronedig	-	(77.7)	(77.7)
Gwerth llyfr net	669.9	40.0	709.9

	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Grŵp – 2017			
Ar 31 Mawrth 2017			
Prisiad	670.5	117.7	788.2
Dibrisiant cronedig	-	(73.6)	(73.6)
Gwerth llyfr net	670.5	44.1	714.6

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar.

9. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Grŵp — 2018	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2017	274.8	(155.3)	119.5
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	48.5	(21.7)	26.8
Ar 31 Mawrth 2018	323.3	(177.0)	146.3

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig yn bennaf.

Grŵp — 2017	Cost £m	Amorteiddio £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2016	241.3	(135.6)	105.7
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	33.5	(19.7)	13.8
Ar 31 Mawrth 2017	274.8	(155.3)	119.5

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £36.7m mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2017: £20.0m). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £5.6m o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2017: £3.6m), yr oedd £2.3m ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2017: £1.1m).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol..

10. BUDDSODDIADAU

Grŵp
Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin "B" o £1

Rhiant-gwmni
Mae gan y rhiant-gwmni fuddsoddiad o £1 yn Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiad o £100,000 yn Welsh Water Holdings Limited (100%). Mae ganddo hefyd fuddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol:

	Prif weithgareddau	Preswylfa Dreth	Gwlad corffori	Daliad
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Financing) Limited	Codi cyllid	Yn preswyllo yn y DU	Ynysoedd Cayman	100%
Cambrian Utilities Limited	Gwasanaethau manwerthu yn y farchnad gystadleuol	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Infrastructure Limited	Gweithgarwch busnes cystadleuol yn y sector dŵr a sectorau cysylltiedig eraill	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy Limited	Prosesu, trin ac ailgylchu gwastraff bwyd	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%
Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited	Gweithredu a chynnal a chadw cyfleuster gwastraff bwyd sy'n defnyddio dulliau treulio anerobig	Yn preswyllo yn y DU	Cymru a Lloegr	100%

Swyddfa gofrestredig yr holl gwmnïau uchod yw Heol Pentwyn, Nelson, Treharris CF46 6LY.

Mae'r Cwmni wedi ailbrisio ei fuddsoddiadau yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau i werth teg; caiff y gwerth cario ei ailbrisio bob blwyddyn ac mae'n destun adolygiad lleihad mewn gwerth.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y Grŵp yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 53.

Buddsoddi mewn is-gwmnïau	2018	2017
	£m	£m
Ar ddechrau'r cyfnod	3,228.6	0.1
Ailbrisio	169.5	3,228.5
Ar 31 Mawrth	3,398.1	3,228.6

Caiff buddsoddiadau'r rhiant-gwmni mewn is-gwmnïau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost a chânt eu hailbrisio wedi hynny yn ôl gwerth teg gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio. Mae gwerth teg buddsoddiadau yn cynnwys gwerth teg y cwmni dŵr a charthffosiaeth wedi'i reoleiddio, Dŵr Cymru Cyfyngedig, yn bennaf. Pennwyd gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar gost cyfalaf gyfartalog pwysoledig a ganiateir y rheoleiddiwr a'r gwerth terfynol fydd y gwerth cyfalaf rheoleiddio a ragwelir. Cydnabyddir symiau ailbrisio o dan incwm cynhwysfawr arall.

11. SYMIAU MASNACH DERBYNIADWY A SYMIAU DERBYNIADWY ERAILL

Grŵp	2018	2017
	£m	£m
Cyfredol		
Symiau masnach derbyniadwy	556.7	556.6
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	(83.8)	(95.8)
Symiau masnach derbyniadwy - net	472.9	460.8
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	88.1	90.2
Symiau derbyniadwy eraill	16.7	12.2
	577.7	563.2
Anghyfredol		
Symiau derbyniadwy eraill	0.9	-
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	578.6	563.2

Ar 31 Mawrth 2018, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod £83.8m (2017: £95.8m) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar eu cyfer. Mae'r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur a gwasanaethau carthffosiaeth. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth.

Roedd oedran symiau derbyniadwy fel a ganlyn:

Blwyddyn gyfredol	Cyfanswm	Darparwyd ar gyfer	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	369.8	-	369.8
O dan fis	25.8	(2.7)	23.1
Rhwng un a chwe mis	35.5	(3.3)	32.2
Rhwng chwe mis a blwyddyn	26.5	(3.2)	23.3
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	42.5	(30.9)	11.6
Rhwng dwy a thair blynedd	30.5	(23.1)	7.4
Dros dair blynedd	26.1	(20.6)	5.5
	556.7	(83.8)	472.9

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

Blwyddyn flaenorol	Cyfanswm	Darparwyd ar gyfer	Net
Symiau masnach derbyniadwy	£m	£m	£m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	370.2	-	370.2
O dan fis	25.4	(9.1)	16.3
Rhwng un a chwe mis	33.5	(13.1)	20.4
Rhwng chwe mis a blwyddyn	33.3	(5.8)	27.5
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	39.3	(24.0)	15.3
Rhwng dwy a thair blynedd	34.4	(23.3)	11.1
Dros dair blynedd	20.5	(20.5)	-
	556.6	(95.8)	460.8

Yr omlgyiad uchaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod. Mae gan y Grŵp tua 4,100 o orchmynion codi tâl fel sicrwydd cyfochrog yn erbyn £9m o ddyled.

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2018	2017
	£m	£m
Ar 1 Ebrill	95.8	85.3
Tâl a godir ar y Datganiad Incwm	20.8	22.8
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(32.8)	(12.3)
Ar 31 Mawrth	83.8	95.8

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Nid yw'r dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys asedau y mae eu gwerth wedi lleihau. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Grŵp wedi dileu £32.8m o ddyledion y darparwyd ar ei gyfer yn llawn (2017: £12.3m).

Mae'r cyfanswm tâl a godir ar y datganiad incwm o £22.1m (2017: £23.3m) yn cynnwys yr elfen drwgddyledion o daliadau casglu o dan drefniadau gyda thrydydd partïon sy'n casglu dyledion ar ran y Grŵp (2018: £1.3m, 2017: £0.5m).

12. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB IDDO

	Grŵp 2018 £m	Grŵp 2017 £m	Cwmni 2018 £m	Grŵp 2017 £m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	10.0	36.6	-	-
Adneuen byrdymor	278.5	64.0	8.6	30.1
	288.5	100.6	8.6	30.1

Y gyfradd llog weithredol ar adneuen byrdymor ar 31 Mawrth 2018 oedd 0.5% (2017: 0.2%) ac roedd gan yr adneuen hyn gyfnod oeddfedrwydd cyfartalog o 22 diwrnod (2017: 16 diwrnod). Ac eithrio €76,000, delir yr holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo mewn sterling.

13. SYMIAU MASNACH TALADWY A SYMIAU TALADWY ERAILL

Grŵp	2018	2017
Cyfredol	£m	£m
Symiau masnach taladwy	45.7	44.6
Symiau cyfalaf taladwy	60.3	65.8
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	3.4	4.3
Croniadau ac incwm gohiriedig	454.7	441.8
	564.1	556.5
Grŵp	2018	2017
Anghyfredol	£m	£m
Incwm gohiriedig	233.9	204.6

14. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL - BENTHYCIADAU

Grŵp	2018	2017
Cyfredol	£m	£m
Cronfeydd a ordynnwyd	5.1	5.9
Croniadau llog	2.4	0.9
Bondiau	0.3	0.3
Benthyciadau cyfnod penodol	21.7	21.7
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	12.0	10.5
	41.5	39.3
Grŵp	2018	2017
Anghyfredol	£m	£m
Croniadau llog	48.8	48.2
Bondiau	2,356.1	2,014.0
Benthyciadau cyfnod penodol	488.5	440.6
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	423.9	436.0
	3,317.3	2,938.8

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau.

Rhoddydd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r Grŵp er budd deiliaid uwch fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch gredydwr ariannol eraill.

Gwarentir rhwymedigaethau DCC gan y Cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded;
- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei Gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Mae Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £1,008m (2017: £989m) yn elwa ar warant gan Assured Guaranty (London) Ltd. Mae gan Assured Guaranty statws credyd o Baa2 ac A gan Moody's and Standard and Poor's yn y drefn honno, ac nid yw Fitch yn rhoi statws iddo. Felly, mae statws credyd y bondiau Dosbarth A wedi dychwelyd at statws sylfaenol uwch y bondiau hyn, sef A2/A/A gan Moody's, Standard and Poor's a Fitch yn y drefn honno. Mae'r statws sylfaenol yn adlewyrchu onswydd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant Assured Guaranty, a'r un yw'r statws hwn â statws credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,350 miliwn (2017: £1,023m).

15. OFFERYNNAU ARIANNOL DEILLIADOL

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39 a chaiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 4b). Mae gwerthoedd teg yr holl offerynnau ariannol deilliadol a ddelir gan y Grŵp yn ganlyniad i ddull o brisio yn unol â'r farchnad a ddefnyddir gan y gwrthbartion sy'n dyroddi ac fel y cyfryw byddant yn cael eu cynnwys o fewn Lefel 2 o'r hierarchaeth gwerth teg a nodwyd yn IFRS 7.

Gwerthoedd teg	Asedau	Rhwymedigaethau
Grŵp — 2018	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.5	(20.2)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(9.0)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	2.9	-
	6.4	(29.2)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(295.0)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(80.9)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	1.9	(0.3)
	1.9	(376.2)
Cyfanswm	8.3	(405.4)

Gwerthoedd teg	Asedau	Rhwymedigaethau
Grŵp — 2017	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	3.6	(25.8)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(9.2)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	0.4	(0.2)
	4.0	(35.2)
Anghyfredol		
Cyfnewidiadau mynegrifol	-	(360.5)
Cyfnewidiadau cyfradd llog	-	(84.4)
Cyfnewidiadau rhagfantolion pŵer	2.2	(3.1)
	2.2	(448.0)
Cyfanswm	6.2	(483.2)

Yn unol ag IAS 39, 'Offerynnau ariannol: Cydnabod a Mesur', mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyfrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodwyd yn y safon. Nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath yn unol ag IAS 39.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig.

Cyfnewidiadau cyfradd llog

Ar 31 Mawrth 2018, mae'r cyfnewidiad cyfradd llog yn pennu'r gyfradd llog ar £192m (2017: £192m) o rwymedigaethau cyfnewidiol a ddelir gan y grŵp. Dyddiad aeddfedu'r cyfnewidiad yw 31 Mawrth 2031 a'r gyfradd llog sefydlog yw 5.67% y flwyddyn, sy'n daladwy bob chwarter.

Cyfnewidiadau mynegrifol

Cyfnewidiadau prydlesau cyllid

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegri'r gyfradd llog ar £381m (2017: £381m) o rwymedigaethau prydlesau cyllid drwy gyfeirio at y Mynegai Prisiau Manwerthu ("RPI").

Swm tybiannol y cyfnewidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau cyllid ar 31 Mawrth 2018 oedd £399m (2017: £400m), gan gynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllid yn amodol ar gyfraddau llog cyfnewidiol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnewidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnewidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae prif delerau cyfnewidiadau wedi'u mynegri'r fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£399m yn amorteiddio (2017: £400m yn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	18 mlynedd (2017: 18 mlynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.40% sefydlog ynghyd ag RPI (2017: 1.35% sefydlog ynghyd ag RPI)

Cyfnewidiad bond

Effaith y cyfnewidiad mynegrifol yw mynegeio'r gyfradd llog ar £100m o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£140m (2017: £135m)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad	39 mlynedd (2017: 40 mlynedd)
Cyfradd llog	1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI (2017: 1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI)

16. ARIANNU TREFNIADAU RHEOLI RISG

Mae polisiâu'r Grŵp mewn perthynas ar ariannu trefniadau rheoli risg wedi'u cynnwys yn y nodyn ar bolisiau cyfrifyddu ar dudalen 106. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

a) Y risg o ran cyfradd llog

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2018	2017
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	0.5%	0.2%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.1%	4.3%
Benthyciadau cyfnod penodol	0.6%	0.5%
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	5.0%	5.0%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	0.6%	0.7%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnewidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 15. Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeio sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

b) Y risg o ran hylifedd

Grŵp — 2018	O fewn blwyddyn	1 - 2 flynedd	2 - 5 mlynedd	> 5 mlynedd	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	288.5	-	-	-	288.5
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	577.7	-	-	-	577.7
	866.2	-	-	-	866.2
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	5.1	-	-	-	5.1
Bondiau	0.7	0.7	327.1	2,035.4	2,363.9
Benthyciadau cyfnod penodol	21.6	29.1	155.0	304.0	509.7
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.1	0.1	0.3	-	0.5
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	12.0	13.5	32.8	377.6	435.9
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	564.1	5.2	15.6	213.1	798.0
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	121.0	124.1	368.2	1,042.4	1,655.7
	724.6	172.7	899.0	3,972.5	5,768.8
Grŵp — 2017	O fewn blwyddyn	1 - 2 flynedd	2 - 5 mlynedd	> 5 mlynedd	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	100.6	-	-	-	100.6
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	563.3	-	-	-	563.3
	663.9	-	-	-	663.9
Rhwymedigaethau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	5.9	-	-	-	5.9
Bondiau	0.7	0.7	327.1	1,690.2	2,018.7
Benthyciadau cyfnod penodol	21.6	21.6	163.0	255.5	461.7
Benthyciadau eraill nas gwarantwyd	0.1	0.1	0.4	-	0.6
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	10.5	11.9	45.5	378.6	446.5
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	556.5	1.8	4.9	197.9	761.1
Llog sy'n daladwy yn y dyfodol	112.9	113.5	335.6	917.5	1,479.5
	708.2	149.6	876.5	3,439.7	5,174.0
Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau cyllid yn ddyledus fel a ganlyn:					
				2018	2017
				£m	£m
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid gros					
O fewn blwyddyn				15.9	19.6
Rhwng dwy a phum mlynedd				82.1	99.2
Ar ôl pum mlynedd				438.3	439.6
				536.3	558.4
Llog yn y dyfodol				(100.4)	(111.9)
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid net				435.9	446.5
Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllid net yn ad-daladwy fel a ganlyn:					
O fewn blwyddyn (nodyn 14)				12.0	10.5
Rhwng dwy a phum mlynedd				46.3	57.4
Ar ôl pum mlynedd				377.6	378.6
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)				423.9	436.0

c) Gwerthoedd teg

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 15. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	Gwerth llyfr £m	2018 Gwerth teg £m	Gwerth llyfr £m	2017 Gwerth teg £m
Bondiau	2,363.9	3,171.2	2,018.7	2,934.4

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr. Ar 17 Ionawr 2018, cyhoeddodd y Grŵp feincnod – trafodyn bond Dosbarth B maint GBP. Setlwyd enillion y bond, sef £300m, ar 24 Ionawr 2018 a phenwyd dyddiad aeddfedu o 31 Mawrth 2036 a chwpon sefydlog o 2.5%.

ch) Cyfleusterau benthyca

Ar 31 Mawrth 2018, roedd gan y Grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £420m a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy wedi cael ei fodloni (2017: £460m).

	2018 £m	2017 £m
Yn dod i ben ymhenn llai na blwyddyn:		
- cyfleuster cyfnod benthyciad	250	60
Yn dod i ben ymhenn mwy na blwyddyn:		
- cyfleusterau credyd cylchdro	170	150
- cyfleuster cyfnod benthyciad	-	250
	170	400
	420	460

Hawliwyd y cyfleuster cyfnod benthyciad o £60 miliwn gyda Banc KfW-IPEX ar 5 Mai 2017. Bydd y benthyciad yn dechrau amorteiddio o fis Mai 2020 a bydd yn ad-daladwy mewn rhandaliadau bob chwe mis tan fis Tachwedd 2025.

Mae'r cyfleusterau nas hawliwyd yn cynnwys £170m o gyfleusterau credyd cylchdro sydd ar gael tan 2020 a chyfleuster benthyca £250m gan European Investment Bank, sydd ar gael tan fis Ionawr 2019. Ceir cyfleuster gorddrafft o £10m hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2018, roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135m hefyd (2017: £135m); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfamedau cyllido dyled. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

d) Rheoli risg cyfalaf

	2018 £m	2017 £m
Cymarebau gerio		
Cyfanswm benthyciadau	(3,359)	(2,978)
Llai: arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	289	101
Dyled net	(3,070)	(2,877)
Gwerth cyfalaf rheoliadol (RCV)	5,468	5,217
Cyfanswm cyfalaf	2,398	2,340
Llai: costau bondiau heb eu hamorteiddio a mynegeo cyfnewidiadau	(48)	(39)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamedau bond	2,350	2,301
Cymhareb gerio	57%	56%

Fel y nodwyd ar dudalen 86, mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoliadol sy'n cymharu ei ddyled net â Gwerth Cyfalaf Rheoliadol a bennwyd gan Ofwat.

Yn unol â'r cytundeb Telerau Cyffredin, cyfrifir gerio rheoleiddio fel lefel y ddyled net yn y broses o waraneiddio busnes cyfan sy'n berthnasol i'r gwerth cyfalaf rheoleiddio.

17. DARPARIAETHAU

Grŵp — 2018	Darpariaeth ailstrwythuro	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig	Darpariaethau eraill	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m
Ar 1 Ebrill 2017	4.0	4.3	2.5	10.8
Codwyd ar y Datganiad Incwm	-	1.2	-	1.2
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdröwyd	-	-	(0.1)	(0.1)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1.6)	(1.3)	(0.1)	(3.0)
Ar 31 Mawrth 2018	2.4	4.2	2.3	8.9

Wedi'u rhannu fel a ganlyn:

Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	1.0	1.3	0.1	2.4
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	1.4	2.9	2.2	6.5
Ar 31 Mawrth 2018	2.4	4.2	2.3	8.9

Grŵp — 2017	Darpariaeth ailstrwythuro	Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig	Darpariaethau eraill	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m
Ar 1 Ebrill 2016	5.9	3.9	4.7	14.5
Codwyd ar y Datganiad Incwm	-	1.7	(0.2)	1.5
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(1.9)	(1.3)	(2.0)	(5.2)
Ar 31 Mawrth 2017	4.0	4.3	2.5	10.8

Wedi'u rhannu fel a ganlyn:

Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	1.0	-	0.2	1.2
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	3.0	4.3	2.3	9.6
Ar 31 Mawrth 2017	4.0	4.3	2.5	10.8

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2018 (2017: dim).

Darpariaeth ailstrwythuro

Mae hyn yn darparu ar gyfer y gost ailstrwythuro sy'n gysylltiedig â chwtogi nifer y staff tua 360, yn unol â'r cynllun ailstrwythuro ar gyfer y cyfnod cyfan o bum mlynedd rhwng 2015 a 2020.

Darpariaeth ar gyfer colled anysuiriedig

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anysuiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir mai cyfnod o bum mlynedd ydyw.

Darpariaethau eraill

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

18. MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

a) Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau::

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Elw gweithredu	75.4	104.7
Addasiadau ar gyfer:		
Dibrisio ac amorteiddio	276.3	256.6
Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(14.6)	(20.4)
Cynnydd mewn stocrestrau	(0.4)	(0.7)
Cynnydd mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	17.7	6.3
Cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth	(5.0)	(6.2)
Gostyngiad mewn darpariaethau	(1.9)	(3.4)
	(4.2)	(24.4)
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	347.5	336.9

Mae cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth yn cynrychioli costau adennill diffygion Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru a chytunir ar y Cynllun Adennill rhwng y Cwmni ac Ymddiriedolwyr y Cynllun.

b) Llog a dalwyd

Grŵp	2018 £m	2017 £m
Llog sy'n daladwy fesul datganiad incwm	175.9	144.2
Llai eitemau anariannol:		
Mynegeoio ar fondiau mynegrifol	(45.7)	(24.8)
Mynegeoio ar ddyledion mynegrifol	(9.6)	(5.7)
Amorteiddio costau dyroddi bondiau	(0.3)	(0.3)
Llog a godwyd ar rywmedigaethau cynllun pensiwn	(2.5)	(1.8)
Amorteiddio premiwm dyroddi bondiau	0.7	0.6
Effaith cyfalafu o dan IAS 23	16.4	9.5
(Cynnydd)/gostyngiad mewn croniadau	(2.0)	2.9
	(43.0)	(19.6)
Llog a dalwyd	132.9	124.6

19. DADANSODDI A CHYSONI (DYLED)/CRONFEYDD NET

Diffinnir (dyled)/cronfeydd net fel gwerth arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo llai llog cronedig net a chyfanswm y benthyciadau.

a) Gellir dadansoddi (dyled)/cronfeydd net ar ddyddiad y fantolen fel:

	Grŵp		Cwmni	
	2018 £m	2017 £m	2018 £m	2017 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	288.5	100.6	8.6	30.1
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(2,844.6)	(2,454.6)	-	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(27.1)	(27.9)	-	-
Prydlesau cyllid	(435.9)	(446.5)	-	-
Llog cronedig	(51.2)	(49.1)	0.2	-
	(3,358.8)	(2,978.1)	0.2	-
(Dyled)/cronfeydd net	(3,070.3)	(2,877.5)	8.8	30.1

b) Gellir crynhoi'r symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net yn ystod y flwyddyn fel:

	Grŵp		Cwmni	
	2018 £m	2017 £m	2018 £m	2017 £m
(Dyled)/cronfeydd net ar ddechrau'r flwyddyn	(2,877.5)	(2,808.1)	30.1	-
Symudiad mewn arian parod net	187.9	(34.5)	(21.5)	30.1
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	(326.9)	(3.4)	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net sy'n deillio o lifau arian parod	(139.0)	(37.9)	(21.5)	30.1
Symudiad mewn llog cronedig	(1.6)	(1.0)	0.2	-
Mynegeoio dyledion mynegrifol	(55.3)	(30.5)	-	-
Symudiadau anariannol eraill	(0.1)	-	-	-
Symudiad mewn (dyled)/cronfeydd net yn ystod y flwyddyn	(192.8)	(69.4)	(21.3)	30.1
(Dyled)/cronfeydd net ar ddiwedd y flwyddyn	(3,070.3)	(2,877.5)	8.8	30.1

20. CYFLOGEION A CHYFARWYDDWYR

Costau staff ar gyfer y Grŵp yn ystod y flwyddyn

	2018	2017
	£m	£m
Cyflogau	124.7	110.8
Costau nawdd cymdeithasol	13.0	10.8
Costau pensiwn eraill	12.7	12.8
	150.4	134.4

O'r uchod, mae £53.8m (2017: £48.3m) wedi'i gyfalafu, sef cost buddsoddi gwaith cyflogeion ar y rhaglen gyfalaf.

	2018	2017
	Rhif	Rhif
Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp bob mis ar gyfartaledd (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol)		
Gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth wedi'u rheoleiddio	3,387	3,091

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth ar dudalen 75.

Ni thalwyd cydnabyddiaeth ac nid yw'n daladwy ychwaith gan y rhiant-gwmni. Cyflogir y cyfarwyddwyr gan gwmnïau eraill yn y grŵp ac ystyriant fod eu dyletswyddau i'r cwmni hwn yn gysylltiedig â'u gweithgareddau eraill yn y grŵp. Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y cyfnod heblaw am y cyfarwyddwyr.

21. YMRWYMIADAU PENSIWN

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005 ac fe'i caewyd i groniadau yn y dyfodol o 1 Ebrill 2017. Cyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

Cynllun buddiannau diffiniedig

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2018 a'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwariad oedd:

	2018	2017
Cyfradd ddisgowntio	2.8%	2.8%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	3.1%	3.2%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	3.1%	3.2%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	3.0%	3.1%
Marwoldeb ar ôl ymddeol (disgwyliad oes)		
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed - dynion	87.1 mlynedd	87.0 mlynedd
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed - merched	89.1 mlynedd	89.0 mlynedd
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - dynion	88.4 mlynedd	88.3 mlynedd
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - merched	90.6 mlynedd	90.5 mlynedd

Y tybiaethau marwoldeb yw tablau sail S2PxA gyda gwelliannau yn y dyfodol yn unol â model rhagamcanol CM1 2016 gyda chyfradd tuedd hirdymor o 1% y flwyddyn.

Mae newidiadau yn y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:

	2018 £m	2017 £m
Ar 1 Ebrill	497.3	413.1
Cost gyfredol y gwasanaeth	0.3	4.8
Traul llog	13.5	14.5
Ailfesuriadau: (ennill)/colled yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	(8.7)	90.3
Buddiannau a dalwyd	(28.3)	(25.4)
Ar 31 Mawrth	474.1	497.3

Mae newidiadau yn asedau'r cynllun gwerth teg fel a ganlyn:

	2018 £m	2017 £m
Ar 1 Ebrill	404.9	358.6
Incwm llog	11.0	12.7
Treuliau	-	(0.4)
Enillion profiad	3.5	47.0
Cyfraniadau	6.9	12.4
Buddiannau a dalwyd	(28.3)	(25.4)
Ar 31 Mawrth	398.0	404.9

Gwahaniaethau rhwng y digwyddiadau gwirioneddol fel maent wedi digwydd a'r tybiaethau a wnaed ar ddyddiad y prisiad actiwaraidd cynharach a newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd yn ystod y flwyddyn yw enillion a cholledion profiad.

	2018 £m	2017 £m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(474.1)	(497.3)
Gwerth teg asedau'r cynllun	398.0	404.9
	(76.1)	(92.4)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(4.3)	(2.8)
Rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net a gydnabwyd ar y fantolen	(80.4)	(95.2)

Mae'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 yn cynnwys cyfraniadau arbennig o £6.7m (2017: £7.2m). Disgwylir i gyfanswm o £6.7 miliwn gael ei dalu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2019 (2017: £6.7m).

	Newid mewn tybiaeth	Symudiad mewn rhwymedigaethau
Cyfradd ddisgowntio	0.10%	£8.9m
Chwyddiant mewn prisiau	0.10%	£8.7m
Disgwyliad oes	Blwyddyn	£12.5m

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol o ran pob tybiaeth tra bod y dybiaeth gyffredinol yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau.

Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS)

Yn ystod 2011, rhoddodd y Cwmni drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u capio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2018, roedd tri Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae buddiannau wedi dechrau cael eu talu i un ohonynt.

22. CYFUNIADAU BUSNES

Ar 19 Rhagfyr 2017, caffaelodd y Grŵp 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Kelda Organic Energy Limited am £150,000. Ar yr un dyddiad, caffaelodd y Grŵp hefyd 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Kelda Organig Energy (Cardiff) Limited am £350,000. Newidiwyd enwau'r cwmnïau hyn ar 8 Ionawr 2018, y naill i Welsh Water Organic Energy Limited a'r llall i Welsh Water Organic Energy (Cardiff) Limited. Mae WWOE yn gweithredu Contract Consesiwn Partneriaeth Breifat Gyhoeddus â Chyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ar gyfer gwasanaethau trin ac ailgylchu gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd ac mae WWOE(C) yn gweithredu ac yn cynnal a chadw cyfleuster gwastraff bwyd sy'n defnyddio dulliau treulio anerobig a chyfleuster compostio gwastraff gwyrdd yng Nghaerdydd.

O ganlyniad i'r caffaeliadau hyn, disgwylir i'r Grŵp sicrhau cyflenwad trydan ar gyfer ei Waith Trin Dŵr Gwastraff yng Nghaerdydd, cydweithredu mwy â Chyngor Caerdydd ac ystyried dulliau cynhyrchu ynni newydd. Gellir priodoli ased anniriaethol o £316,011 yn deillio o'r caffaeliad i werth y contract gyda'r Cynghorau.

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r ystyriaethau a dalwyd am WWOE a WWOE(C), gwerth teg yr asedau a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau y derbyniwyd cyfrifoldeb drostynt ar y dyddiad caffael:

Ystyriaeth ar 19 Rhagfyr 2017	WWOE	WWOE(C)
	£000	£000
Arian parod	150	350
Cyfanswm yr ystyriaeth	150	350

Gwerth teg y symiau o asedau y gellir eu nodi a gaffaelwyd a'r rhwymedigaethau y derbyniwyd cyfrifoldeb drostynt a gydnabuwyd	WWOE	WWOE(C)
	£000	£000
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	-	-
Eiddo, offer a chyfarpar	17,138	170
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	174	496
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	(544)	(109)
Benthyciad rhwng-gwmni	(17,438)	-
Asedau treth ohiriedig	122	175
Cyfanswm y (rhwymedigaethau)/asedau net y gellir eu nodi	(548)	732
Ased anniriaethol	698	(382)
Cyfanswm	150	350

Welsh Water Organic Energy Limited

Codwyd costau o £703,000 sy'n gysylltiedig â chaffael ar dreuliau gweithredu yn y datganiad incwm cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Gwerth teg y symiau masnach derbyniadwy a'r symiau derbyniadwy eraill yw £174,000 ac mae'n cynnwys symiau masnach derbyniadwy â gwerth teg o £160,000. Y swm cytundebol gros ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yw £160,000, na ddisgwyllir y bydd unrhyw anawsterau wrth ei gasglu.

Cynhwyswyd £360,000 o refeniw a gyfrannwyd gan WWOE yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol ers 19 Rhagfyr 2017. Cyfrannodd WWOE hefyd golled cyn treth o £67,000 yn ystod yr un cyfnod.

Pe cyfunwyd WWOE o 1 Ebrill 2017, byddai'r datganiad incwm cyfunol yn dangos refeniw pro-fforma o £3,218,000 a cholled cyn treth o £871,000.

Welsh Water Organic Energy Cardiff

Codwyd costau o £301,000 sy'n gysylltiedig â chaffael ar dreuliau gweithredu yn y datganiad incwm cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018.

Gwerth teg y symiau masnach derbyniadwy a'r symiau derbyniadwy eraill yw £697,953 ac mae'n cynnwys symiau masnach derbyniadwy â gwerth teg o £52,684. Y swm cytundebol gros ar gyfer symiau masnach derbyniadwy yw £52,684, na ddisgwyllir y bydd unrhyw anawsterau wrth ei gasglu.

Cynhwyswyd £157,823 o refeniw a gyfrannwyd gan WWOE(C) yn y datganiad incwm cynhwysfawr cyfunol ers 19 Rhagfyr 2017. Cyfrannodd WWOE(C) hefyd golled cyn treth o £529,199 yn ystod yr un cyfnod.

Pe cyfunwyd WWOE(C) o 1 Ebrill 2017, byddai'r datganiad incwm cyfunol yn dangos refeniw pro-fforma o £520,740 a cholled cyn treth o £1,907,817.

23. CYFALAF AC YMRWYMIADAU ARIANNOL ERAILL

Mae cynllun busnes y grŵp ar 31 Mawrth 2018 yn dangos gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £478m (2017: £406m) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r rhan fwyaf o'r cyfanswm fel rhan o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr, Ofwat.

24. TRAFODION Â PHARTÏON CYSYLLTIEDIG

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o Grŵp Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

Rhoddodd y rhiant-gwmni fenthyciad rhwng-gwmni i Welsh Water Holdings Limited, is-gwmni a berchnogir yn llawn, yn ystod y flwyddyn, ac roedd gan y benthygiad hwnnw falans o £21,553,702 ar 31 Mawrth 2018 (ni wnaed unrhyw ad-daliadau yn ystod y flwyddyn). Codir llog ar gyfradd sefydlog o 5% a chodwyd £286,194 yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017, derbyniodd y rhiant-gwmni ddifidendau gwerth cyfanswm o £30.2m gan ei is-gwmni a berchnogir yn llawn, Glas Cymru Anghyfyngedig.

25. STATWS Y CWMNI

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

26. CRONFA YMDDIRIEDOLAETH CWM ELAN

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7m, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, tra'n cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2018, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £115m (2017: £118m).

Mae llog derbyniadwy yn cynnwys £2.8m (2017: £2.7m) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

27. RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol heblaw'r rheini a gododd yn ystod busnes arferol y Grŵp ac ni ragwelir y gwneir unrhyw golledion gwirioneddol mewn perthynas â'r rhain.

28. CWMNI DALIANNOL UNIONGYRCHOL AC EITHAF A PHARTI RHEOLAETHOL

Y cwmni daliannol uniongyrchol ac eithaf a'r parti rheolaethol yw Glas Cymru Holdings Cyfyngedig, cwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr ar 15 Rhagfyr 2015, rhif y cwmni 09917809, swyddfa gofrestredig Heol Pentwyn, Nelson, Treharris CF46 6LY. Y grŵp mwyaf a lleiaf y cyfunir canlyniadau'r cwmni ag ef yw'r un dan arweiniad Glas Cymru Holdings Cyfyngedig.

ATODIADAU

RHESTR TERMAU

146

EIN MESURAU LLWYDDIANT:
DIFFINIADAU

149

RHESTR TERMAU

Tynnu dŵr	Symud dŵr o unrhyw ffynhonnell.
AMP	Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu mewn cylchoedd o bum mlynedd a elwir yn 'Gynlluniau Rheoli Asedau' (AMP). Bydd AMP6 yn rhedeg rhwng 2015-2020.
Treulio anerobig	Proses lle y caiff deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Asedau	Mae hyn yn cynnwys seilwaith fel prif bibellau dŵr a charthffosydd, argaeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmniau, depos a gweithdai.
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol - elfen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Methiannau bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplu a'i ddadansoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sy'n rhagori ar y terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn fethiant bacteriolegol.
Dalgylch	Ardal o dir lle y mae dŵr yn draenio i gorff o ddŵr (fel afon neu gronfa ddŵr).
Carthffos gyfun	Carthffos gyfun ar gyfer carthion a dŵr glaw ffo.
CSO	Mae Gorlifannau Carthffosydd Cyfun (CSO) yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion mewn perygl o orlifo.
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo randdeiliaid na chyfalaf cyfranddaliadau.
CPNI	Canolfan Gwarchod Seilwaith Cenedlaethol.
CCWater	Cyngor Defnyddwyr Dŵr - gweler tudalen 42.
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi asesiad o ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca.
Cyfrif Talu Cwsmer	Y Cyfrif Talu Cwsmer (fel y'i diffinnir gan y Cytundeb Telerau Cyffredin) yw'r Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a ddysgennir ac a ddefnyddir yn benodol i ad-dalu cwsmeriaid.
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y GCRh a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn codw dyled net ar 60% o'r GCRh ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill.
Trwyddedau gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny.
DWI	Arolygiaeth Dŵr Yfed - gweler tudalen 42.
Cynllun Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well.
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder.
Elifiant	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddynt gael eu trin.
Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr - gweler tudalen 42.

Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion argadwedig.
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o gyfalaf gwerth rheoleiddiol.
Glas Cymru	Glas Cymru yw'r enw cyffredinol a ddefnyddir i gyfeirio at gwmni daliannol y Grŵp. Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig yn 2000 i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli. Yn ystod 2015/16 ailgofrestrwyd Glas Cymru Cyfyngedig fel Glas Cymru Anghyfyngedig a chrëwyd Glas Cymru Holdings Cyfyngedig fel y cwmni daliannol ar gyfer Grŵp Glas Cymru.
Dŵr daear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd.
Grŵp	Glas Cymru Cyfyngedig a'i holl is-gwmnïau.
TGCH	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Gollyngiadau	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer.
Stop Cyn Creu Bloc	Ymgrych newid ymddygiad Dŵr Cymru sy'n gofyn i gwsmeriaid helpu i leihau nifer y blociadau mewn carthffosydd.
LVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor. Efen o enillion sy'n gysylltiedig â pherfformiad.
Cydymffurfiaeth 'edrych i fyny'	Pan fo gwaith trin dŵr yn methu â chydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd am lai na 95% o'r amser.
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol sy'n deillio o'r rhaglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid.
Megalitrau	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr.
Cyfoeth Naturiol Cymru	Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru a'i ddiben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy.
Cyfarwyddwr Anweithredol	Aelodau Bwrdd Glas Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio'r rheolwyr ac yn goruchwyllo'r broses o redeg y Grŵp.
ODI	Cymhelliant Cyflawni Canlyniadau – Y system gwobrau a chosbau sy'n sail i'r mesurau perfformiad a nodwyd yn ein cynllun busnes Penderfyniad Terfynol Ofwat PR14.
Ofwat	Rheoleidiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, yn rhydd o unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu golled wrth waredu asedau sefydlog yn bennaf.
Achosion o Lygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwiadol halogyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol o'r amgylchedd.
Trosglwyddo Carthffosydd Preifat	Yn 2011-12, trosglwyddodd Llywodraeth y DU berchenogaeth o'r rhan fwyaf o'r carthffosydd preifat yng Nghymru a Lloegr i'r 12 cwmni dŵr a charthffosiaeth, er mwyn ffurfio rhan o'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus.
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosiaeth o un lle i'r llall.
Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd	Un o Bwyllgorau lefel Bwrdd Dŵr Cymru sy'n mynd i'r afael â pherfformiad a risgiau gweithredol ym mhob rhan o'r cwmni.
GlawLif	Dull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy).
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl dileu effaith chwyddiant.

Gwerth cyfalaf rheoleiddio (GCRh)	Gwerth ased Dŵr Cymru, a bennir gan Ofwat, lle y caniateir i'n hadnillion ar fuddsoddiad (neu Adenillion Rheoleiddiol) gael eu gwneud. Mae hyn, mewn gwirionedd, yn brocsi ar gyfer y gwerth economaidd a ddefnyddir ar gyfer busnes penodedig Dŵr Cymru Cyfyngedig
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen.
Prif bibell sy'n codi	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff.
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol.
Y Gyfarwydddeb Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (SEMD)	Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a DEFRA i'r sector dŵr er mwyn cynnig arweiniad ar sut i ymateb i ddigwyddiadau mawr.
Mecanwaith Cymell Gwasanaeth (SIM)	Un o fesurau Ofwat a gynlluniwyd i wella lefel y gwasanaeth y mae cwmnïau dŵr yn ei darparu i gwsmeriaid.
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati.
Asedau	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff a dŵr arwyneb o eiddo preswyl ac eiddo dibreswyl i'w drin a'i waredu.
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy gaeaf y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau.
Safety Takes Every Person (STEP)	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch.
SODDGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr yn gallu ei drin.
Cydbwysedd cyflenwad/galw	Cydbwysedd o ran cyfaint y dŵr sydd ar gael.
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd).
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun.
Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS)	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb.
Totex	Talfyriad Ofwat ar gyfer cyfanswm y gwariant. Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol.
Prif bibell	Prif bibell y caiff dŵr ei fwydo drwyddo i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanaeth.
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu ddibreswyl a gaiff ei gludo i ffordd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau.
Gwaith trin dŵr gwastraff	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw cael gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr.
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf.
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill.

MESURAU LLWYDDIANT: DIFFINIADAU

A1a	Diogelwch Dŵr Yfed (% y gydymffurfiaeth)	Darparu dŵr yfed diogel sy'n bodloni safonau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed. Canran y samplau a brofir sy'n cyd-fynd â'r safonau. Bob blwyddyn, rydym yn cynnal dros 250,000 o brofion ar samplau yn ein gweithfeydd trin dŵr, ein cronfeydd gwasanaeth a thapiau cwsmeriaid.
A1b	Diogelwch Dŵr Yfed (Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig)	Cyhoeddir Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig (MZC) bob blwyddyn yn adroddiad yr Arolygiaeth Dŵr Yfed. Mae'r Gydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn cwmpasu 39 o wahanol baramedrau, fel Haearn, Plwm ac Alwminiwm, sy'n cael eu profi er mwyn canfod ansawdd y dŵr sy'n cyrraedd cwsmeriaid. Cyfrifir y Gydymffurfiaeth Barthol Gymedrig fel cyfartaledd y lefelau cydymffurfio ar gyfer pob paramedr ym mhob un o'n 87 o barthau ansawdd dŵr, sy'n amrywio o ran maint o boblogaeth o 27 i bron poblogaeth o 100,000. (Y boblogaeth fwyaf a ganiateir yw unrhyw un parth ansawdd dŵr o 100,000 a ganiateir o fewn rheoliadau'r Arolygiaeth Dŵr Yfed).
A2	Derbynioldeb i gwsmeriaid	Nifer y cysylltiadau a gawn gan gwsmeriaid bob blwyddyn mewn perthynas â golwg, blas neu arogl dŵr yfed, a fynegir fel cyfradd fesul 1,000 o gwsmeriaid.
A3	Dibynadwyedd y Cyflenwad	Nifer gyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid heb ddŵr yn ein hardal gyflenwi (yn cynnwys toriadau a gynlluniwyd a rhai nas cynlluniwyd)
B1	Tynnu dŵr i'r ddefnyddio	Canran ein cydymffurfiaeth â thrwyddedau tynnu dŵr, fel y'u cyhoeddir gan Reoleiddwyr.
B2	Trin dŵr gwastraff	Ar gyfer pob un o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff, ceir trwydded sy'n rheoleiddio ansawdd y dŵr gwastraff y caniateir i'r cwmni ei ryddhau i afonydd a dyfroedd arfordirol. CNC sy'n rheoleiddio hyn. Y mesur yw % y gydymffurfiaeth â thrwyddedau rhyddhau.
B3a	Atal llygredd (cat 1, 2 a 3)	Lleihau nifer yr achosion o lygredd (a achosir gan flociadau neu gwympiadau mewn carthffosydd). Caiff achosion o lygredd eu categorïddio fel achosion categori 1, 2 neu 3 a Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n adrodd ar y rhain. Categori 1 - y rhai mwyaf difrifol ac mae achosion y categori hwn yn cael effaith fawr neu ddifrifol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 2 - effaith sylweddol ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo. Categori 3 - effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo.
B3b	Atal llygredd (cat 3 yn unig)	Fel uchod, ond dim ond achosion o lygredd categori 3 (effaith fach neu isel ar yr amgylchedd, pobl neu eiddo).
C1	Ymateb i newid yn yr hinsawdd	Lleihau faint o ddŵr glaw sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd. Mae'r mesur yn seiliedig ar faint o ddŵr wyneb a dynnir o'r system, a fynegir ar ffurf nifer yr eiddo cyfatebol.

C2	Ôl troed carbon	Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a thrwy hynny wrthbwysu ein hallyriadau carbon a chost ynni a gaiff ei fewnforio (oriau GWh y flwyddyn).
D1	SIM	Mesur a gyflwynwyd gan y Rheoleiddiwr Ofwat i fonitro ac adrodd ar wybodaeth am wasanaethau i gwsmeriaid ymhob cwmni dŵr a dŵr gwastraff fel mesur cymharol yw'r Mekanwaith cymell gwasanaeth (SIM).
D2	Gwasanaethau i Gwsmeriaid sydd Mewn Perygl	Nifer y cwsmeriaid sydd ar ein cofrestr "mewn perygl". Ystyrir eu bod "mewn perygl" am fod eu gwasanaeth wedi bod yn ddiffygiol dro ar ôl tro yn un o'r pum maes canlynol: dŵr aflu, toriadau yn y cyflenwad, pwysedd dŵr isel, drawdod o asedau dŵr gwastraff a charthffosydd yn gorlifo.
D3	Eiddo lle bu llifogydd yn ystod y flwyddyn	Nifer yr eiddo sy'n dioddef llifogydd carthion mewnol bob blwyddyn.
D4a	Bodddhad Cwsmeriaid Busnes % bodlon	Bodddhad cwsmeriaid busnes sydd wedi'i fesur yn ôl sgôr o naill ai'n fodlon neu'n fodlon iawn yn ôl yr arolwg a gyflawnir bob chwe mis.
D4b	Bodddhad Cwsmeriaid Annomestig	Bodddhad cwsmeriaid busnes wedi'i fesur yn ôl sgôr gyfartalog cwsmeriaid allan o gyfanswm o 5 a gaiff ei throsi wedyn yn ganran.
D5	Ennyn Ymddiriedaeth Cwsmeriaid	Ymddiriedaeth cwsmeriaid fel y'i mesurir drwy arolwg blynyddol a gynhaliwn.
E1	Biliau Fforddiadwy	Bydd y cwmni'n parhau i wneud biliau'n fwy fforddiadwy drwy barhau i leihau biliau mewn termau real, gan ragori ar chwyddiant o leiaf 1% bob blwyddyn.
E2	Cymorth i Gwsmeriaid dan Anfantais	Helpu mwy o gwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau trwy ddarparu cymorth drwy amrywiaeth o dariffau cymdeithasol a'n Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid.
F1	Defnyddioldeb Asedau	Cynnal ein hasedau. Mae defnyddioldeb yn cynnwys cyfres o is-fesurau a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro effeithiolrwydd ein gwaith o reoli a chynnal a chadw ein hasedau.
F2	Gollyngiadau	Lleihau lefelau ein gollyngiadau — megalitrau y dydd (MI/d).
F3	Gwydnwch Asedau	Gwella sgôr gwydnwch ein hasedau mwyaf strategol. Gwella canran yr asedau strategol sy'n wydn yn erbyn cyfres o feini prawf. Asedau strategol yw'r rheini a fyddai'n cael effaith fawr ar wasanaethau i gwsmeriaid neu'r amgylchedd pe baent yn methu.
G1	Digwyddiadau RIDDOR	Cyfanswm nifer yr anafiadau y rhoddir gwybod amdanynt bob blwyddyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR). Mae'n cynnwys anafiadau sy'n digwydd o fewn busnesau cyfanwerthu a manwerthu, yn ogystal â'r rheini sy'n effeithio ar ein prif contractwyr a'n partneriaid cyfalaf.
G2	Cymhwysedd yn y Rôl	Mae gennym fframwaith "Dilyniant yn y Rôl" ac rydym wedi pennu proffiliau rôl clir sy'n diffinio'r meini prawf allweddol a ddefnyddir gennym i fesur gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd unigolion i ymgymryd â'u priod rolau. Ein hamcan, erbyn 2020 (ac yn barhaus y tu hwnt i hynny) yw y caiff 95% o'r rolau allweddol a omlinellir eu hystyried yn gymwys (gyda'r gweddill yn unigolion sydd wedi dechrau cael hyfforddiant).
H1	Ariannu Effeithlonrwydd (statws credyd)	Y statws a bennir gan y tair prif asiantaeth sy'n dyfarnu statws: S&P, Moody's a Fitch.

